GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2023/24



# Beth Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ei Drafod

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn egluro beth rydym yn ei wneud fel bwrdd iechyd, y gofal rydym yn ei ddarparu, sut rydym yn cynllunio, darparu a gwella eich gwasanaethau gofal iechyd lleol. Mae'n disgrifio, mewn tair rhan, ein cyflawniadau a'n heriau drwy gydol 2023-2024 ar draws ystod o feysydd:

**Rhan 1 Adroddiad Perfformiad**
Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar sut rydym wedi perfformio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru a'r camau gweithredu a gynlluniwyd i wella ein perfformiad.

**Rhan 2 Adroddiad Atebolrwydd**
Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein gofynion atebolrwydd allweddol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (fel y'u haddaswyd ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus). Mae'n cynnwys ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), sy'n rhoi gwybodaeth am sut rydym yn rheoli ein hadnoddau a'n risgiau a sut rydym yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu.

**Rhan 3 Cyfrifon Ariannol**
Mae ein Datganiadau Ariannol cryno yn manylu ar sut rydym wedi gwario ein harian a chyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a ddarperir fel Atodiad i'r ddogfen hon, yn rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol, ac mae'n rhoi adroddiad manwl ar ein llywodraethu, trefniadau rheoli risg a systemau rheoli mewnol.

Gallwch lawrlwytho copiau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/

neu maent ar gael ar gais gan Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, trwy ffonio 03000 840008 neu drwy anfon e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk

# Cynnwys

**Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** ..... 6

**RHAN 1 - Adroddiad Perfformiad**

**Trosolwg ar Berfformiad** ..... 8
Fframwaith Perfformiad Integredig ..... 8
Crynodeb y Prif Weithredwr ..... 9
Meysydd Cyfrifoldeb ..... 11
Ein Dinasyddion ..... 14
Ein Staff ..... 16
*Cymorth Iechyd a Lles Staff* ..... 17
Ein Hystâd ..... 21
Gweithgarwch Ysbytai 2023/24 ..... 21
Perfformiad o gymharu â thargedau cenedlaethol allweddol ..... 22
**Dadansoddi Perfformiad** ..... 25
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol ..... 25
*Academi Gofal Sylfaenol* ..... 25
*Gwasanaethau Deintyddol* ..... 25
*Fferylliaeth Gymunedol* ..... 26
*Clystyrau* ..... 26
*Optometreg* ..... 26
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ..... 27
*Gwasanaethau Newyddenedigol* ..... 28
Gofal Lliniarol Arbenigol ..... 29
Nyrsio Ardal ..... 30
Gwasanaethau Merched (Mamolaeth a Gynaecoleg) ..... 30
Gwasanaethau Therapi ..... 31
Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio ..... 32
*Maint Rhestrau Aros ac Amseroedd Aros, gan gynnwys Pennu Lefel Risg* ..... 32
Gwasanaethau Canser ..... 34
Gwasanaethau Radioleg ..... 35
Gwasanaethau Gofal Heb Ei Drefnu ..... 36
*Gwasanaethau Strôc* ..... 38
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ..... 40
*Cynyddu Mynediad Amserol at Gymorth* ..... 40
*Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* ..... 41
*Mesurau Arbennig* ..... 41
*Cryfhau ein Dull o Ymdrin â Risgiau Gwrthglymu* ..... 41
*Gweithio Tuag at y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl* ..... 42
*Mentrau Gwella Pellach* ..... 43
*Ein Staff* ..... 45
*Galluogi Digidol* ..... 46
*Ystadau* ..... 46
Gweithio i Wella - Gofynion Adrodd ar Ansawdd ..... 47
Perfformiad ariannol ..... 48
*Cyflawni Dyletswyddau Ariannol* ..... 48
*Perfformiad adnoddau refeniw* ..... 48
*Cynllunio integredig* ..... 49
*Mesurau perfformiad ariannol eraill* ..... 49
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** ..... 50
*Mabwysiadau'r Pum Ffordd o Weithio* ..... 51
*Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)* ..... 51
*Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus* ..... 56

**Adroddiad Cynaliadwyedd ........ 59**
*Gweithio trwy Bartneriaeth ........ 60*
*System Rheoli Amgylcheddol ISO14001:2015 ........ 60*
*Hyfforddiant ynghylch Materion Amgylcheddol a Gwastraff ........ 61*
*Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol ........ 61*
*Rheoli gwastraff ........ 62*
*Grwpiau Gwyrdd ........ 63*
*Rheoli ynni a charbon ........ 63*
*Cludiant ........ 64*
*Caffael cynaliadwy ........ 64*
*Adeiladu cynaliadwy ........ 65*
*Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol ........ 67*
*Crynodeb o berfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau cyfleustodau ........ 68*
**Y Gymraeg ........ 73**
*Deddfwriaeth a Llywodraethu ........ 74*
*Hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'i roi ar waith ........ 74*
*Datblygu'r Gweithlu ........ 75*
*Gwasanaethau Cyfieithu ........ 75*

## RHAN DAU - Adroddiad Atebolrwydd

**Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ........ 77**
Cyflwyniad ........ 77
Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 77
*Y Bwrdd ........ 77*
*Cofrestr o Fuddiannau Cyfarwyddwyr ........ 81*
*Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau ........ 81*
*Cydymffurfiaeth â Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol a Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol ........ 81*
Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr Dros Dro fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ........ 82
Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon ........ 83
Datganiad Llywodraethu Blynyddol ........ 84
**Adroddiad Tâl ........ 85**
*Polisïau Ynghylch Tâl Staff ac Uwch Reolwyr ........ 85*
*Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ........ 86*
*Perthnasoedd Tâl ........ 87*
*Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo ........ 87*
*Cyflog Uwch Reolwyr a Datgeliadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl ........ 87*
**Adroddiad Staff ........ 99**
*Ymrwymiadau Oddi ar y Gyflogres a Gwaith Ymgynghori ........ 100*
*Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ........ 100*
**Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru ........ 103**
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ........ 105
Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd ........ 110

## RHAN TRI - CYFRIFON BLYNYDDOL

**Rhagair ........ 1A**
**Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ........ 2A**
**Gwariant Net Cynhwysfawr arall ........ 2A**
**Datganiad o Safle Ariannol ........ 3A**
**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ........ 4A**
**Datganiad o Lif Arian ........ 6A**
**Nodiadau i'r Cyfrifon ........ 7A**

**ATODIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol**


**1 Y Cwmpas Cyfrifoldeb ... 1B**
**2 Y Gallu i Reoli Risg ... 1B**
**3 Ein Fframwaith Llywodraethu ... 3B**
**4 Sicrhau Ansawdd Data ... 6B**
**5 Pwrpas y System Rheoli Mewnol ... 6B**
**6 Asesu Risg ... 6B**
**7 Y Fframwaith Risgiau a Rheoli ... 7B**
**8 Elfennau o'r Fframwaith Sicrwydd ... 9B**
Risgiau Allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ... 9B
**9 Archwilio Mewnol ... 11B**
**10 Llywodraethu Ansawdd ... 13B**
**11 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ... 13B**
**12 Diogelwch Data ... 15B**
**13 Trefniadau Cynllun Pensiwn a Chyflogres y GIG ... 16B**
**14 Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd ... 14B**
**15 Bod yn Barod am Argyfwng ... 17B**
**16 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol ... 19B**
**17 Trefniadau Atal Twyll a Gwrth-lwgrwobrwyo ... 20B**
**18 Cynllun Tymor Canolig Integredig ... 21B**
**19 Ymyriadau wedi'u Targedu ... 22B**
**20 Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ... 24B**
**21 Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ... 25B**
Ymchwiliad HSE, Uned Hergest ... 25B
Ymchwiliad HSE, Codymau Cleifion ... 25B
Ymchwiliad HSE, Dirgrynu Dwylo a Breichiau (Dwyrain) ... 25B
**22 Tor Diogelwch Data ... 26B**
**23 Barn archwiliad ynghylch datganiadau ariannol 2023/24 ... 26B**
**24 Adolygu Effeithiolrwydd ... 27B**
**25 Casgliad ... 28B**
**Atodiad 1 - Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2023/24 ... 30B**
**Atodiad 2 - Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau 2023/24 ... 31B**
**Atodiad 3 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus yn 2023/24 ... 39B**
**Atodiad 4 - Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2023/24 ... 41B**

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr



**Dyfed Edwards**
**Cadeirydd**



**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr**

Rydym yn falch o gael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2023/24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Unwaith eto, bu'n flwyddyn anodd i'r sefydliad, ond hefyd yn flwyddyn o newid mawr. Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf ers i ni ddod yn destun mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru, a ysgogodd newid arweinyddiaeth, gan gynnwys penodi tîm llawn newydd o Aelodau Annibynnol i'r Bwrdd.

Er bod effeithiau COVID-19 wedi pylu o'r diwedd, rydym wedi bod yn ymdrin ag anawsterau heriol eraill gan gynnwys gweithredu diwydiannol gan rai o'n staff a sefyllfa ariannol anodd barhaus. Yn y cyfamser, mae methiannau sylweddol â rhai agweddau ar ein perfformiad wedi'u nodi ac rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r cyd-destun ariannol yr ydym ni a bron iawn pob corff cyhoeddus arall fwy neu lai yn gweithredu ynddo yn dal i fod yn heriol, yn y tymor byr a'r tymor hir. Er ein bod wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, erys ein diffyg ariannol sylfaenol ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hynny.

Rydym hefyd yn parhau i wynebu prinder staff mewn llawer o feysydd allweddol, a achosir gan farchnad recriwtio anodd. Dyna pam y gwnaethom ni, ynghyd â Byrddau Iechyd eraill, gefnogi ymgyrch recriwtio Llywodraeth Cymru i benodi staff meddygol o'r India i ddod i weithio gyda ni yng Nghymru.

Cleifion a'u hanghenion sydd wedi cael ein sylw pennaf trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn deall yr anawsterau y mae llawer ohonynt yn eu hwynebu, gan gynnwys gorfod aros mewn Adrannau Achosion Brys ac am lawdriniaethau ac apwyntiadau deintyddol.

Rydyn ni'n rhannu eu rhwystredigaethau ac yn gwybod y gallwn ni wneud yn well, a bod yn rhaid i ni wneud hynny. Rydym wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i fod mor ddidwyll a gonest â phosibl â phobl Gogledd Cymru, fel y gallant ddeall y pwysau sy'n ein hwynebu ac fel y gallwn ninnau wrando ar eu barn.

Dyna pam yr ydym wedi cychwyn cyfres o sgyrsiau cymunedol, gan ymweld â threfi a phentrefi ledled Gogledd Cymru, ble bydd croeso i bawb gyfarfod ag aelodau ein bwrdd a’n tîm gweithredol a'u holi am y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Rydym yn dymuno cael clywed am eu profiadau, boed yn rhai da neu'n rhai gwael, fel y gallwn wrando a dysgu. Bydd y digwyddiadau hyn yn parhau trwy gydol y flwyddyn hon ac wedi hynny.

Er ei bod yn hawdd canolbwyntio ar y pethau negyddol, ceir rhesymau i fod yn optimistaidd ac mae'n rhaid i ni ddiolch i'n staff am hynny. Maent yn darparu gofal, cymorth a thriniaethau rhagorol i filoedd o bobl ledled Gogledd Cymru bob wythnos, a dymunwn gydnabod eu hymroddiad a’u harbenigedd parhaus o ran eu dull o ofalu am ein cleifion a’r gymuned ehangach.

Mae cadernid, ymrwymiad a brwdfrydedd staff rheng flaen a staff cymorth yn rhywbeth y gallwn ni oll ymfalchïo ynddo, a dyna pam rydyn ni’n obeithiol am y dyfodol.

Er enghraifft, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sicrhau gostyngiad o 45% yn nifer y bobl sy’n aros 52 wythnos i gael apwyntiad cyntaf ac wedi cael adolygiad allanol cadarnhaol gan Gwella Iechyd Cymru, ac rydym wedi sefydlu dulliau newydd o drin a diagnosio rhai mathau o ganser gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial i ymdrin â chanser y fron a chanser y brostad.

Mae gwaith i adeiladu canolfan orthopedig newydd sbon yn Ysbyty Llandudno hefyd wedi dechrau. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid gwerth hyd at £29.4m i ariannu'r cyfleuster newydd i helpu i leihau amseroedd aros am wasanaethau orthopedig. Bydd yr hwb newydd yn trawsnewid gwasanaethau orthopedig dewisol drwy ddarparu 1,900 o driniaethau wedi’u cynllunio bob blwyddyn, a bydd yn cychwyn gweithredu yn 2025

Rydym yn cydnabod na allwn weithredu ar ein pennau ein hunain oherwydd rydym yn rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol lawer ehangach sy’n cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol, sefydliadau gwirfoddol a’r gwasanaeth ambiwlans.

Rydym yn gweld gwerth yn y partneriaethau sydd gennym â'r sefydliadau hyn a llawer o sefydliadau eraill ledled Gogledd Cymru a’r tu hwnt. Maent yn wynebu heriau tebyg i'n heriau ni i ateb galwadau cynyddol o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos trwy bartneriaeth â hwy bob tro y gallwn ni i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i wella iechyd a lles ein poblogaeth.

Er enghraifft, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Phrifysgol Bangor. Yno, croesawir myfyrwyr cyntaf rhaglen gradd feddygol lawn gyntaf Gogledd Cymru ym mis Medi 2024, trwy gydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd a darparwyr gofal sylfaenol yn y rhanbarth.

Heb os, bydd y flwyddyn sydd ar ddod yn dal i fod yn heriol, ond mae gobaith at y dyfodol. Rydym wedi llunio cynllun tair blynedd sy’n nodi ein huchelgeisiau hyd at 2027 ac sy’n croesawu diwylliant o welliannau i’n gwasanaethau, ac yn ein tyb ni, mae hynny'n profi ein bod yn blaenoriaethu’r pethau priodol er mwyn gwella’r gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru.





# RHAN 1 - Adroddiad Perfformiad

## Trosolwg ar Berfformiad

Mae'r Trosolwg ar Berfformiad wedi'i gynllunio i roi crynodeb byr i'r darllenydd o waith y Bwrdd Iechyd: y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu, yr heriau allweddol yr ydym wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf, ein lefelau gweithgarwch a sut rydym wedi perfformio o'u hasesu yn erbyn targedau perfformiad cenedlaethol.

Mae'r Dadansoddiad Perfformiad yn rhoi mwy o fanylion am yr ystod o wasanaethau iechyd a ddarperir i bobl Gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai rydym yn eu comisiynu a'r rhai sy'n cael eu rheoli a'u darparu'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd.

## Fframwaith Perfformiad Integredig

Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd y Fframwaith Perfformiad Integredig (IPF), 2023 - 2027, ar 28 Medi 2023. Ynghyd â'r Fframwaith Cynllunio Integredig a'r Fframwaith Rheoli Risg Integredig, mae'n un o dri fframwaith newydd a fydd yn llywio'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd am y pedair blynedd nesaf. Mae'r tri Fframwaith yn cyd-fynd er mwyn ategu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a byddant yn cyd-fynd â'r Strategaeth System Rheoli Ansawdd.

Pwrpas yr IPF hwn yw integreiddio dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) o:

1. Amcanion allweddol y Cynllun Blynyddol (IMTP)
2. Fframwaith Perfformiad Sicrwydd a Goruchwylio GIG Cymru 2023/24 a 2024/25
    1. Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2023/24 a 2024/25
    2. Asesiadau Sicrwydd Polisi GIG Cymru 2023/24 a 2024/25
    3. Nodau allweddol mewn ymateb i Lywodraeth Cymru (LlC), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC) ac argymhellion ffurfiol eraill

Bydd yr IPF yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'n cleifion a'n staff, ac yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'r agweddau y maent yn atebol amdanynt. Mae gofynion rheoli'r IPF yn cyd-fynd â strwythur llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd.

Mae'r IPF yn annog ac yn meithrin gwelliannau o ran perfformiad trwy ddull partneriaeth sy'n annog didwylledd ynghylch ein perfformiad a'n harloesedd ac yn ennyn ymrwymiad i wella ar bob lefel o'r sefydliad. Mae'r Fframwaith wedi'i seilio'n gadarn ar ein gwerthoedd:

- Rhoi cleifion yn gyntaf
- Gweithio gyda'n gilydd
- Gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd
- Dysgu ac arloesi
- Cyfathrebu'n ddi-dwyll ac yn onest

Mae'r IPF yn cyfleu lefel gyfredol cynnydd perfformiad y Bwrdd Iechyd gyda Llywodraeth Cymru. Bydd dull gweithredu'r Fframwaith yn cael ei adolygu pe bai'r lefelau cynnydd yn newid.

Drwy gydol 2024-25, bydd y Gyfarwyddiaeth Perfformiad yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ledled y sefydliad i roi'r IPF ar waith.

## Crynodeb y Prif Weithredwr

Unwaith yn rhagor, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol iawn i'r Bwrdd Iechyd. Rydym ni, fel pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru, wedi wynebu costau cynyddol sydd wedi arwain at bwysau ar ein cyllidebau sydd eisoes dan bwysau wrth i ni ymdrechu i wneud ein gorau glas i bobl Gogledd Cymru.

Mae 2023/24 hefyd yn nodi’r flwyddyn lawn gyntaf ers i ni ddod yn destun mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu at y materion sy’n ein hwynebu yma.

Nid dod yn destun mesurau arbennig yw'r unig fater yr ydym wedi gorfod rhoi sylw iddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae staff y GIG ledled Cymru wedi bod yn streicio, ac er ein bod yn deall y rhesymau dros eu gweithredu diwydiannol, mae hynny wedi tarfu ar lawer o driniaethau wedi'u cynllunio.

Yn dilyn adroddiad beirniadol gan Archwilio Cymru ynghylch ein llywodraethu a’n rheolaeth ariannol yn 2023, rydym yn falch bod yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2024 yn cydnabod y cynnydd yr ydym wedi’i wneud, er yr erys rhywfaint o waith i'w gyflawni.

Mae nifer o faterion cymhleth ac anodd eraill wedi codi yn ystod y flwyddyn:

- Rydym yn dal i wynebu heriau o ran recriwtio staff i weithio mewn rhai disgyblaethau, ond yn ddiweddar rydym wedi llwyddo i recriwtio nyrsys o India i lenwi rhai swyddi.
- Mae amseroedd aros yn dal yn rhy hir mewn llawer o achosion, ac rydym yn rhannu rhwystredigaeth cleifion sy’n aros am driniaeth.
- Mae gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys deintyddiaeth, yn profi pwysau eithriadol, ac rydym yn cymryd camau i wella’r gwasanaethau hyn.
- Cafodd y Bwrdd Iechyd ddirwy yn dilyn erlyniad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rydym wedi ymddiheuro i’r teulu dan sylw ac rydym yn benderfynol o barhau i wella’r gwasanaeth a ddarparwn, yn enwedig yn y meysydd nad ydym yn cyflawni ein huchelgais i fod yn wasanaeth rhagorol.
- Rydym hefyd wedi bod yn destun nifer o adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol gan grwneriaid Gogledd Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr adroddiadau hyn ac yn eu cymryd o ddifrif oherwydd mae'r ystadegau yn cynrychioli pobl sydd wedi profi colled bersonol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi ac ymateb i'r themâu allweddol a'r gwersi i'w dysgu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau. Mae angen i ni wella llawer o bethau er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaethau sy'n blaenoriaethu ansawdd a diogelwch cleifion.

Rydym wedi amlygu gwelliannau mewn meysydd yn ystod y flwyddyn, ac mae lefelau gweithgarwch ym mhob agwedd bron iawn ar ein gwasanaethau yn adeiladu ar sail y gwelliannau a wnaed y llynedd ac yn parhau i gynyddu, ac rydym wedi cyflawni nifer o brosiectau strategol allweddol yn llwyddiannus.

Mae ein Cymunedau Iechyd Integredig newydd yn ymsefydlu fel strwythur allweddol yn ein hymdrechion i ddatblygu ein cydberthnasau gwaith ag awdurdodau lleol yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

O ran mesurau arbennig, nid yw fyth yn dda i unrhyw gorff cyhoeddus fod yn y sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae wedi helpu i sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar elfennau o'n gwasanaeth yr oedd angen eu gwella.

Rydym eisoes wedi sicrhau gwelliannau ac rydym yn trin pobl yn gynt mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae nifer y bobl sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad cyntaf wedi gostwng 45% ac mae nifer y bobl sy'n aros dros 104 wythnos wedi gostwng 37%.

Mae gwasanaethau fasgwlaidd wedi cael eu dad-ddwysáu gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ac wedi cael adolygiad allanol cadarnhaol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein cynlluniau ar gyfer canolfan orthopedig gwerth miliynau o bunnoedd yn Llandudno a fydd yn trin 1,900 o gleifion ychwanegol bob blwyddyn ar ôl cychwyn gweithredu yn 2025.

Rydym yn rheoli ein cyllidebau yn well yn y cefndir. Rydym wedi cymeradwyo cynllun ariannol a tharged o ran arbedion, ac rydym wedi darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer mwy na 400 aelod o'r staff ynghylch gwella ein harferion caffael. Rydym wedi sicrhau gostyngiad o 82% yn nifer y contractau tymor byr drud, yn cynnwys staff dros dro.

Rydym bellach wedi penodi holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd, a gallant sicrhau bod craffu ar ein gwasanaethau yn digwydd trwy gyfrwng ein his-bwyllgorau. Rydym yn buddsoddi yn ein staff ac yn annog diwylliant gweithio cadarnhaol sy’n ddidwyll ac yn onest fel y gall pawb rannu eu safbwyntiau a’u syniadau i wella profiad cleifion.

Rydym wedi sicrhau cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond rwy'n gwybod yn bendant bod gennym gryn dipyn yn rhagor o waith i'w wneud. Mae gwella ein gwasanaethau i sicrhau y bydd ein mesurau arbennig yn dirwyn i ben yn bwysig, ond mae sicrhau mai'r holl wasanaethau rydym yn eu darparu yw'r rhai gorau i bobl Gogledd Cymru yn bwysicach fyth.

**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr**

## Meysydd Cyfrifoldeb

Y Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae gennym ni gyllideb gwerth £2.14 biliwn a dros 20,000 o staff yn ein gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn system iechyd integredig sy'n anelu at ddarparu gofal tosturiol rhagorol gan gydweithio â sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau statudol eraill, a sefydliadau yn y trydydd sector.

Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ledled chwe sir gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, yn ogystal â gwasanaethau ysbytai cyffredinol.

Mewn lleoliadau gofal sylfaenol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gofal gan y GIG trwy gyfuniad o gontractwyr annibynnol a gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn o wasanaethau gofal sylfaenol yn cwmpasu 96 o bractisau meddygol ("practisau meddygon teulu"), 83 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 69 o bractisau optometreg/optegydd a 147 o fferyllfeydd cymunedol.

Mewn lleoliadau cymunedol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod eang o wasanaethau cymunedol y GIG gan gynnwys nyrsio yn y gymuned, gwasanaeth ymwelwyr iechyd, ffisiotherapi, a gofal lliniarol, trwy rwydwaith o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau cymunedol ac 16 o ysbytai cymunedol, a chânt eu cydlynu ar sail 14 o 'ardaloedd lleol'.

Caiff gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol eu darparu mewn canolfannau ledled Gogledd Cymru, â chymorth unedau iechyd meddwl ar gyfer cleifion preswyl ledled y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl i boblogaeth carchar CEF Berwyn yn Wrecsam.

Darperir gwasanaethau ysbytai cyffredinol mewn tri phrif safle, sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam, a chaiff rhai gwasanaethau llawfeddygol eu darparu yn Abergele a Llandudno hefyd.

Lle na ellir darparu gofal gan y GIG yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, ynghylch rhai cyflyrau prin neu wasanaethau tra arbenigol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â darparwyr eraill y GIG yng Nghymru a Lloegr, i sicrhau bod gan gleifion fynediad at y triniaethau arbenigol sydd eu hangen arnynt.

Rydym hefyd yn gyfrifol, trwy bartneriaeth, am wella iechyd a lles pobl leol drwy weithgareddau megis ein rhaglenni brechu llwyddiannus a gwasanaethau iechyd ar gyfer ysgolion.

Ym mis Chwefror 2023, cafodd y Bwrdd Iechyd ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig. Mae'r flaenoriaeth allweddol yn ystod y 12 mis cyntaf wedi ymwneud â sefydlogi'r sefydliad. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd wedi'i strwythuro o amgylch y pum deilliant lefel uchel canlynol:

- Bod yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda
- Cynllun eglur a chyflawnadwy ar gyfer 2023/24
- Arweinyddiaeth ac ymgysylltu cryfach
- Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion
- Bod yn sefydliad sy'n dysgu gwersi ac yn gwella ei hun

Yn ystod 2023/2024, cafodd y cynllun mesurau arbennig ei reoli o fewn cylchoedd 90 diwrnod ar wahân a luniwyd i sicrhau cyflymder. Mae cynnydd da wedi digwydd ym mhob un o feysydd y deilliannau hyn er mwyn sefydlogi'r sefydliad. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn gam pwysig o ran creu'r amodau angenrheidiol i sicrhau y gellir gwreiddio gwelliannau yn ein harferion gweithio.

Ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Bwrdd gynllun blynyddol ar gyfer cyfnod 2023-2024, wedi'i osod yng nghyd-destun ein cyfeiriad tymor hwy ar gyfer iechyd a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru. Roedd y Cynllun yn cynnwys camau gweithredu i gydymffurfio â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2023-26 ac fe'i gosodwyd o fewn cyd-destun polisi trosfwaol 'Cymru Iachach'. Nododd ein cynllun sut y bydd y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r meysydd allweddol canlynol a nodwyd yn y Fframwaith Cynllunio:

- Ymateb parhaus i'r pandemig a'r galw ar y system
- Adfer a chynaliadwyedd, gan gynnwys gwelliannau yn lefelau'r gweithgarwch yn dilyn y pandemig
- Cydweithredu a dulliau gweithredu rhanbarthol ar y cyd â phartneriaid
- Ansawdd gofal gan gynnwys ymdrin â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd
- Atal afiechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd
- Y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio
- Meysydd gwasanaethau clinigol penodol y mae angen eu gwella a chysylltiadau â'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol

Ni fu'n bosibl i'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru am resymau'n ymwneud â materion ariannol ac mewn perthynas â'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn destun Mesurau Arbennig. Roedd yr amodau atebolrwydd (set o amodau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw) a ddyroddwyd mewn ymateb i'r cynllun a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys yr angen i barhau i weithio tuag at sefyllfa a thaflwybrau ariannol clir ac i barhau i gryfhau'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r gweinidogion.

Yn ogystal, codwyd ystyriaethau pellach o ran datblygu digidol, datgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng costau byw.

Ceir sylwadau am lawer o'r pynciau hyn mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Wrth i 2024/25 gychwyn, mae'r cynllun ymateb i'r mesurau arbennig wedi'i lunio i gyd-fynd yn agosach â'n proses gynllunio flynyddol ac â datblygiad ein cynllun tair blynedd ar gyfer 2024-2027. Bydd y cam nesaf hwn yn adeiladu ar seiliau'r cynnydd cychwynnol.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein gwaith i gyfleu ysbryd a bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, i gyfrannu at gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol, i ehangu ein gorwelion ac i ystyried y tymor hwy wrth wneud hynny. Yn ystod 2023/24, fe wnaethom gydweithio â'r partneriaid a chymeradwyo Cynlluniau Lles pum mlynedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-2028, ac yn y cynlluniau hynny, disgrifiwyd ein nodau cyffredin yn y maes hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ar gryfhau ei ffocws ar iechyd y boblogaeth, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ar draws Gogledd Cymru.

Yn ystod 2023/24 buom yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun cyflawni blynyddol mewn ymateb i’r asesiad o anghenion y boblogaeth ranbarthol wedi’i ddiweddaru ar gyfer 2023-2028. Mae hwn yn disgrifio sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar draws Gogledd Cymru i gyflwyno gweithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cefnogi ein gweithgaredd cynllunio ochr yn ochr â chydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau ac mae ein rhaglen ‘Gogledd Cymru Iach’ yn parhau i roi ffocws i'r gwaith hwn o fewn y Bwrdd Iechyd a thrwy gydweithio â’n partneriaid. Mae adroddiad eglurhaol y Bwrdd Iechyd ar gyfer holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn ystyried effaith gyfreithiol a rheoleiddiol penderfyniadau; byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 a bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Yn ogystal â gwella iechyd a darparu gwasanaethau clinigol a gofal, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldebau ehangach fel ‘sefydliad angor' yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys materion megis hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, a'r Gymraeg.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn cydweithio'n agos â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â hwy, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleodd i gydweithio. Rydym yn cydweithio â nifer fawr o bartneriaid, gan gynnwys:

- Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
- Llais
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)
- Cydbwyllgor Canolbarth Cymru
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol
- Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Rhanbarthol
- Partneriaid o'r Trydydd Sector
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

# Ein Dinasyddion

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o tua 688,200 o bobl sy'n byw ar draws ardal o tua 2,500 milltir sgwâr, sy'n rhoi dwysedd poblogaeth cyfartalog o 112 o bobl fesul cilometr sgwâr i'r ardal. Sir y Fflint yw'r ardal fwyaf poblog gyda 353 o bobl fesul cilometr sgwâr; Gwynedd yw'r lleiaf poblog gyda 46 o bobl fesul cilometr sgwâr.

Mae'r boblogaeth, ar y cyfan, yn hŷn na chyfartaledd Cymru, a cheir cyfran uwch o bobl yn y grwpiau oedran 65 mlwydd oed neu'n hŷn ac 85 mlwydd oed neu'n hŷn.

| Grŵp Oedran | BIPBC (%) | Cymru Gyfan (%) |
|---|---|---|
| 0-15 | 17.2 | 17.5 |
| 16-64 | 59.1 | 60.9 |
| 65-84 | 23.8 | 21.5 |
| 85 neu'n hŷn | 3.1 | 2.7 |

Ffynhonnell: StatsCymru (LlC); Amcangyfrif Canol-blwyddyn, 2022 (ONS)

Ar y cyfan, mae statws iechyd ein poblogaeth yn cymharu'n ffafriol â statws iechyd y boblogaeth mewn rhannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, ceir amrywio sylweddol ledled Gogledd Cymru, ac mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn y rhanbarth. Gorllewin y Rhyl 2 a Gorllewin y Rhyl 1 yw'r ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Y deg ardal fwyaf difreintiedig yn rhanbarth BIPBC**

| Enw LSOA* | Awdurdod Lleol | Safle yn WIMD** |
|---|---|---|
| Gorllewin y Rhyl 2 | Sir Ddinbych | 1 |
| Gorllewin y Rhyl 1 | Sir Ddinbych | 2 |
| Queensway 1 | Wrecsam | 9 |
| Gorllewin y Rhyl 3 | Sir Ddinbych | 11 |
| De Orllewin y Rhyl 3 | Sir Ddinbych | 19 |
| Glyn (Conwy) | Conwy | 20 |
| Wynnstay | Wrecsam | 45 |
| De Orllewin y Rhyl 1 | Sir Ddinbych | 57 |
| Abergele Pensarn 2 | Conwy | 70 |
| Tudno 2 | Conwy | 78 |

*LSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sef ardaloedd daearyddol ystadegol penodedig, sydd oll â thua 1,500 o drigolion, a ddiffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

**WIMD – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (data 2019)

Mae canran y plant mewn teuluoedd sydd ag incwm isel ledled Gogledd Cymru yn amrywio o 30.8% yn Sir y Fflint i 35.6% yn Ynys Môn. Mae cynnydd canrannol wedi digwydd ym mhob awdurdod unedol rhwng 2015 a 2021; digwyddodd y cynnydd mwyaf yng Nghonwy (6.2%) a Sir Ddinbych (6.1%).

Rydym yn cydnabod bod amddifadedd yn achosi effaith andwyol sylweddol ar iechyd y boblogaeth, ac y bydd yr argyfwng costau byw presennol yn dwysáu hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu grŵp llywio i edrych ar ffyrdd y gall ymateb i'r mater hwn ac mae cyfres o fentrau'n parhau i gael eu datblygu fel rhan o ddull yr economi sylfaenol. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth drwy ein partneriaid sy'n cynnwys gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd, cymorth o ran tanwydd a gwresogi, cyngor ariannol, rhagnodi cymdeithasol, ac amrywiaeth o gymorth iechyd a lles arall.

Er bod llawer ohonom yn cadw'n iach yn ddiweddarach mewn bywyd, yn achos llawer, mae lefelau cyflyrau hirdymor yn dal i gynyddu, ac yn sgil hynny, mae'r angen am ofal a chymorth yn cynyddu hefyd.

Yn ogystal ag effeithio ar unigolion sy'n profi lefelau uwch o anghenion, mae hyn yn effeithio hefyd ar aelodau o deuluoedd neu berthnasau sydd efallai'n darparu gofal yn ddi-dâl.

O gymharu â chyfartaleddau Cymru, mae cyflyrau iechyd hirdymor fymryn yn fwy cyffredin ymhlith poblogaeth Gogledd Cymru:

| Cyflwr Hirdymor | BIPBC (%) | Cymru Gyfan (%) | BIPBC o gymharu â Chymru |
|---|---|---|---|
| Gorbwysedd (pwysedd gwaed uchel) | 17.0 | 15.7 | Uwch |
| Gordewdra | 11.5 | 11.8 | Is |
| Diabetes mellitus (cleifion 17+ mlwydd oed) | 7.9 | 8.0 | Uwch |
| Asthma | 7.4 | 7.2 | Uwch |
| Dulliau eilaidd o atal clefyd coronaidd y galon (CHD) | 3.6 | 3.5 | Uwch |
| Canser | 4.0 | 3.4 | Uwch |
| Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) | 2.5 | 2.2 | Uwch |
| Strôc a phyliau o isgemia dros dro (TIA) | 2.2 | 2.2 | Uwch |
| Methiant y galon | 1.2 | 1.2 | Cyfartal |

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 194,295 o drigolion Gogledd Cymru yn gallu siarad Cymraeg, sef 29.1% o gyfanswm y boblogaeth o gymharu ag 17.8% ledled Cymru. Fel Bwrdd Iechyd, yn ogystal â’n dyletswyddau statudol i sicrhau y darperir gwasanaethau Cymraeg, rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo’r Gymraeg i’n staff ac yn ein rôl fel cyflogwr mawr sydd â chyfraniad sylweddol i’w wneud at gynnal yr iaith yn ein cymunedau. Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgaredd Iaith Gymraeg ar dudalennau 73 i 75 o'r ddogfen hon.

## Ein Staff

Ar 31 Mawrth 2024, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi 20,909 o unigolion, ac roedd hynny'n gyfystyr ag 18,366 o gyflogeion llawn amser.

Isod, ceir dadansoddiad o nifer cyfartalog y gweithwyr fesul grŵp staff am y flwyddyn gyfan yn ogystal â dadansoddiad pellach sy'n rhannu'r staff yn uwch gyfarwyddwyr, rheolwyr ac aelodau eraill o staff ar sail rhywedd.

Mae recriwtio yn dal yn heriol yn y Bwrdd Iechyd ar y cyfan. Fodd bynnag, yn sgil sefydlu'r Tîm Recriwtio Strategol, bellach, ceir ffocws sydd wedi'i ddiffinio'n eglur i'r sefydliad ddarparu gwasanaethau recriwtio o ansawdd uchel ym meysydd recriwtio meddygon ymgynghorol a recriwtio uwch arweinwyr ar lefel band 8C Agenda ar gyfer Newid (AfC) ac ar lefelau uwch. Mae'r timau Gwasanaethau Pobl sydd newydd gael eu sefydlu yn yr holl Gymunedau Iechyd Integredig bellach yn canolbwyntio ar yr holl waith i recriwtio staff meddygol a recriwtio staff a gyflogir yn unol ag amodau AfC.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i leihau ei ddibyniaeth ar uwch staff anghlinigol dros dro yn ystod y flwyddyn ac mae'r nifer yn y sefydliad bellach wedi gostwng i ffigurau unigol.

Yn ein gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD), mae nifer o ymgyrchoedd recriwtio rhyngwladol i recriwtio seiciatryddion o India wedi sicrhau rhywfaint o lwyddiannau ac yn yr ymgyrch recriwtio ryngwladol ddiweddaraf, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyfweld â nifer o feddygon seiciatreg a fydd yn ymuno â ni yn nes ymlaen yn 2024.

| **Grŵp Proffesiynol** | **FTE Cyfartalog** |
|---|---|
| | **2023/24 o 31 Mawrth 2024** |
| Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol Ychwanegol | 747 |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | 3,984 |
| Gweinyddol a Chlercyddol | 3,663 |
| Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 1,201 |
| Ystadau ac Ategol | 1,361 |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | 288 |
| Meddygol a Deintyddol | 1,605 |
| Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig | 5,495 |
| Myfyrwyr | 22 |
| **Cyfanswm** | **18,366** |

Tabl cyfansoddiad staff isod. Sylwer, cyflogir 8 Cyfarwyddwr Gweithredol oherwydd roedd 1 swydd gweithredwr yn wag ar 31 Mawrth 2024.

| **Cymysgedd Staff** | **Benywod** | **Gwrywod** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Gweithredwr | 4 | 4 | 8 |
| Rheolwr (Band 8c neu'n uwch) | 137 | 73 | 210 |
| Staff | 16,756 | 3,935 | 20,691 |
| **Cyfanswm** | **16,897** | **4,012** | **20,909** |

**Cymorth Iechyd a Lles Staff**

Mae staff y Bwrdd Iechyd yn wynebu llu o heriau gan gynnwys parhau i adfer o'r pandemig COVID-19 ac ateb y galw am ofal acíwt a hirdymor, gan gynnwys cleifion sydd ag aciwtedd a chronigedd sylweddol. Ynghyd â hyn, mae ein staff wedi profi proses newid sefydliadol yn ogystal â newidiadau mawr o ran yr uwch arweinwyr a mesurau arbennig. Mae staff yn dal i gael eu heffeithio gan ofynion costau byw, ac fel gweithlu benywaidd mwyafrifol, mae themâu sy’n ymwneud â’r menopos, gofal plant a gweithio hyblyg yn greiddiol i’n gwaith i geisio sicrhau bod staff yn cael eu cynorthwyo ac yn cael yr adnoddau sy'n ofynnol i ddarparu gofal tosturiol rhagorol.

Mae’r timau Iechyd a Lles Galwedigaethol (OH&W) yn darparu ystod o raglenni a chymorth i staff gan ganolbwyntio ar ddulliau ataliol i wella lles staff yn y gwaith, a'r uchelgais yw cynorthwyo ein gweithlu i ffynnu. Maent yn gwneud hyn gan gydweithredu â’r Gwasanaeth Cefnogi Lles Staff (SWSS), i gyflwyno rhaglen eang o gymorth ynghylch iechyd a lles, blaengareddau, gwaith hyrwyddo, ymgysylltu wedi’i dargedu, rheoli risg a chynllunio llesiant.

<u>Asesiad o Anghenion Iechyd (HNA)</u>

Ym mis Mehefin 2023, anfonodd y gwasanaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol ei Asesiad Anghenion Iechyd (HNA) at holl staff y Bwrdd Iechyd, gan annog pob aelod o'r staff i gwblhau’r asesiad i helpu’r adran i ddeall anghenion staff mewn perthynas â lles. Roedd yr HNA ar gael i ymateb iddo am 14 wythnos a chafwyd 1,026 o ymatebion.

Roedd yr HNA yn cwmpasu pob elfen o iechyd a lles gan gynnwys cwestiynau yn ymwneud â ffyrdd o fyw, diwylliant, datblygiad emosiynol a lles ariannol. Mae'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a bydd argymhellion yr HNA yn cynorthwyo â'r gwaith o weithredu strategaeth a'r cynllun gweithredu ynghylch iechyd a lles ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Bydd yr HNA yn cael ei gynnal eto i gasglu data sylfaenol pellach ac i edrych ar feysydd i'w gwella ymhellach.

<u>Hyfforddiant Camu mewn i Reolaeth (ASiM)</u>

I gefnogi cam y timau Datblygu Sefydliadol tuag at hyfforddiant rheoli ar gyfer rheolwyr newydd a phresennol, cefnogodd arweinwyr Iechyd a Lles Galwedigaethol y gwaith o ddatblygu a gweithredu modiwl iechyd a llesiant penodol a chyflwyno’r hyfforddiant hwn i grwpiau carfan 2023. Cynhaliwyd yr hyfforddiant dwyawr o hyd o bell trwy Teams ac mae'r modiwl wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn. Ar hyn o bryd, mae’r rhaglen bellach yn cael ei hadolygu i gefnogi’r grwpiau carfan ar gyfer 2024.

<u>Llawlyfr Byw'n Dda Tra'n Gweithio</u>

Yn ystod sesiynau ymgysylltu â staff, roedd lles staff yn faes gwaith y gwnaeth staff nodi bod angen ei ddatblygu ymhellach. Mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Pobl ac arbenigwyr pwnc, rydym wedi datblygu llawlyfr electronig o’r enw “Byw’n Dda Gweithio’n Dda” sy’n darparu dolenni a gwybodaeth i adnoddau llesiant sydd ar gael i staff gan gynnwys lles corfforol, meddyliol, ysbrydol ac ariannol a chymorth ar fywyd gwaith cyffredinol.

Cymorth â Lles Emosiynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i roi cymorth lles emosiynol i staff drwy ein gwasanaethau cwnsela, seicoleg a phartneriaid allanol. Mae gwasanaethau cwnsela wedi gweld cynnydd enfawr yn y galw drwy gydol 2023/24, gan gefnogi staff drwy gynnig cymorth clinigol cymhleth a heriol. Am y chwe mis rhwng Ebrill 2023 a Medi 2023 derbyniodd y gwasanaeth cwnsela 879 o gyfeiriadau.

Yn ystod 2023, fe wnaethom barhau i ddarparu mynediad at gefnogaeth allanol i'n holl weithlu trwy raglen menter gymdeithasol Strategaeth Dinas y Rhyl (RCS). Cafodd y rhaglen cymorth cyflogeion hon ganmoliaeth gadarnhaol a chefnogodd y rhaglen les emosiynol drwy ddarparu cwnsela, cymorth seicolegol, hyfforddiant a gweithdai i holl staff y Bwrdd Iechyd. O fis Ebrill 2022 hyd at fis Rhagfyr 2023, derbyniodd RCS 658 o gyfeiriadau gan staff y Bwrdd Iechyd gyda 565 o’r cyfeiriadau hyn yn cael eu cefnogi’n weithredol drwy ymyriad therapiwtig.

Llwybr Ymyrraeth mewn Argyfwng

Yn gynnar yn 2023, adolygwyd a diweddarwyd y llwybr argyfwng i sicrhau bod staff sydd mewn argyfwng neu mewn perygl mawr o niwed iddynt hwy eu hunain neu i eraill yn cael eu gweld yn gyflym ac yn briodol. Daeth gweithio ar y cyd â thîm SWSS, cydweithwyr MHLD a phartneriaid allanol â llwybr diwygiedig at ei gilydd, sy'n cefnogi staff gydag ymyriadau cyflym a chymorth trwy wasanaethau arbenigol. Gall staff gael mynediad at y llwybr yn uniongyrchol neu drwy raglen tîm y cynghorwyr cymorth.

Y Menopos

Mae grŵp llywio Menopos wedi bod ar waith ers Ionawr 2023. Mae'n monitro cyflwyno llawer o ymyriadau i gefnogi ein staff gyda perimenopos a menopos. Mae’r rhain yn cynnwys cyflwyno caffis menopos, sesiynau codi ymwybyddiaeth o’r menopos (mae tua 400 o staff wedi cofrestru i ddod i un o’r sesiynau codi ymwybyddiaeth o’r menopos ers eu cyflwyno), hyrwyddwyr menopos, a safle mewnrwyd ar thema menopos i staff sy'n darparu cyngor a gwybodaeth. Mae'r dudalen hon wedi cael ei darllen fwy na 4,000 o weithiau gan staff. Mae mwy na 150 o staff wedi defnyddio’r caffis menopos ers iddynt agor ym mis Gorffennaf 2023 ac mae adborth am eu heffaith ar les meddyliol a chorfforol wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae staff wedi nodi nad ydynt yn teimlo mor unig o'u herwydd ac maent yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau a roddir a'r hyder a ddaw yn eu sgil. Mae hyn wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol gydag enwebiad ar gyfer Gwobrau CIPD Cymru.

Sioeau Teithiol

Mae'r Sioeau Teithiol Iechyd a Lles Galwedigaethol yn hynod lwyddiannus o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i staff ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd a lles. Ers mis Gorffennaf 2023, mae’r Sioe Deithiol wedi ymweld â 28 o safleoedd ysbytai ac wedi siarad â mwy na 700 o aelodau staff am bopeth sy’n ymwneud â bywyd gwaith a llesiant. Y prif bynciau trafod ar draws pob maes yw cymorth menopos, meddwlgarwch a chyfathrebu ar draws ein timau gyda mynediad digidol cyfyngedig.

Bwyd Iach Staff Iach

Darparodd tîm prosiect Bwyd Iach Staff Iach bryd o fwyd iachus gwerth £1 i staff unwaith yr wythnos. Mae'r staff wedi gwerthfawrogi'r rhain, gyda thua 90,000 o Brydau Lles yn cael eu gweini ar draws y Bwrdd Iechyd ers sefydlu'r fenter. Mewn arolwg diweddar, dywedodd 63% o staff eu bod wedi defnyddio'r cardiau ryseitiau lles i wneud pryd iachus gartref. Ers hynny mae'r rhaglen wedi symud i'n harlwy graidd, a byddwn yn parhau i weini prydau iach am bris is i staff bob wythnos.

O 1 Mawrth 2024, mae cynlluniau ar waith i ychwanegu hyn at yr arlwy dyddiol ym mhob ffreutur ar ein safleoedd.

Gwasanaeth Cefnogi Lles Staff

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Lles Staff (SWSS) yn derm ymbarél ar gyfer llu o wasanaethau sy'n cydweithio i sicrhau bod cymorth o ansawdd uchel, wedi'i gydlynu yn cael ei gynnig i staff. Mae Grŵp Gweithredol SWSS yn cyfarfod bob pythefnos i oruchwylio ansawdd, llywodraethu a ffocws strategol o ran lles staff.

Ochr yn ochr â chymorth unigol, mae 2023/24 wedi canolbwyntio ar waith mwy systemig. Y nod yw sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn amgylchedd sy'n meithrin staff ac yn dangos tosturi atynt. Fel y cyfryw, mae fforymau cydweithredol lle mae Iechyd Galwedigaethol, Gwasanaethau Pobl, Iechyd a Diogelwch, Datblygiad Sefydliadol a Seicoleg Glinigol yn dod ynghyd i rannu gwybodaeth a chydweithio i gefnogi timau staff. Mae Rowndiau Schwartz (fforwm strwythuredig lle gall staff clinigol ac anghlinigol drafod yr agweddau emosiynol a chymdeithasol ar weithio ym maes gofal iechyd) yn parhau i gael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd bob chwe wythnos. Maent yn cael eu cynnal yn rhithwir ac wyneb yn wyneb bob yn ail. Mae Seicoleg Glinigol SWSS yn rhan o Dîm Amlddisgyblaethol Codi Llais yn Ddiogel. Mae'n gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes Datblygu Sefydliadol i ddatblygu strategaeth i ddylanwadu ar newid diwylliant ac mae'n ymwneud â datblygu'r Fframwaith Arweinyddiaeth Integredig. Mae Sioeau Teithiol Lles wedi teithio ar draws llawer o safleoedd ysbytai gan hyrwyddo gwasanaethau lles staff ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae staff yn y maes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn parhau i gael mynediad at gymorth lles pwrpasol gan y Gwasanaeth Lles, Gwaith a Ni. Maent yn cynnig cwnsela, hyfforddiant, cymorth emosiynol a dulliau datblygu lles i dimau. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn canolbwyntio ar agweddau sy'n effeithio ar les staff megis arweinyddiaeth, recriwtio staff, cadw staff a hyfforddiant. Mae'n ceisio nodi ffyrdd o wneud prosesau'n haws i staff sy'n caniatáu mwy o amser i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn ei dro.

Mae rhwydwaith hyfforddi'r Bwrdd Iechyd wedi'i gynllunio i hwyluso perthnasoedd hyfforddi rhwng hyfforddwyr cymwysedig a gweithwyr sy'n dymuno datblygu'n broffesiynol, gwella sgiliau a datblygu eu gyrfa. Mae gennym rwydwaith o 50 o hyfforddwyr - mae 36 ohonynt yn hyfforddi'n weithredol ac yn meddu ar y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i hyfforddi ein gweithwyr yn effeithiol. Mae'r rhwydwaith hyfforddi yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer datblygiad gweithwyr, twf arweinyddiaeth, a llwyddiant sefydliadol trwy feithrin diwylliant o ddysgu, cefnogaeth a datblygiad parhaus.

Cynllunio ac Ymgysylltu ynghylch Lles

Mae Iechyd a Lles Galwedigaethol yn parhau i ddarparu asesiadau o anghenion iechyd lleol i wahanol adrannau i gefnogi iechyd a lles staff ac i ddatblygu cynllun gweithredu lles, sydd wedi'i deilwra i weddu i anghenion y staff. Gwneir hyn mewn cydweithrediad â chyfarwyddwyr gwasanaethau, penaethiaid adran, arweinwyr tîm a rheolwyr. Mae'r gwaith yn cynnwys datblygu arolygon dadansoddi bylchau, cynllunio rhaglenni, gweithredu a gwerthuso mentrau wedi'u targedu. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r angen parhaus i reolwyr wella iechyd a lles eu staff, lleihau absenoldebau salwch, sicrhau prosesau dychwelyd i'r gwaith mwy effeithlon a mesurau ataliol.

Hyrwyddwyr Lles

Mae’r rhaglen hyrwyddwyr lles yn parhau i ehangu ar draws y Bwrdd Iechyd gyda chydweithwyr yn cael eu cefnogi i arwain ar agweddau ar iechyd a lles yn eu timau a’u hadrannau eu hunain. Mae agweddau ar hybu iechyd, darparu grwpiau ffocws, ymgysylltu, cymorth gan gymheiriaid a monitro llesiant yn cael eu darparu drwy’r rhwydwaith ar draws y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, mae’r rhaglen yn mynd trwy adolygiad rôl a bydd recriwtio pellach i’r rhaglen hyrwyddwyr yn cael ei gefnogi yn 2024.

Gweithdai

Rydym wedi adeiladu partneriaeth gref gyda'n Tîm Ymyrraeth Iechyd sydd wedi cyflwyno tri chwrs lles a phedwar gweithdy byr i gyd yn canolbwyntio ar wella iechyd a lles staff. Mae tua 70 o staff wedi archebu lle ar y sesiynau hyn hyd yma ac mae rhagor o sesiynau wedi’u cynllunio drwy gydol 2024. Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr o gronfa WULF sydd wedi bod yn darparu hyfforddiant a gweithdai ar gyfer ein gweithlu ar amrywiaeth o weithgareddau lles. Mae enghreifftiau o sesiynau yn cynnwys:

- Gweithgarwch corfforol
- Bwyta'n dda am lai
- Cymryd gofal wrth y gwaith
- Hyfforddiant Asesu Risg Straen
- Lleihau straen a rheoli straen
- Bwyd Doeth am Oes
- Rheoli gwrthdaro

## Ein hystâd

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r portffolios eiddo mwyaf yng Nghymru. Darperir gwasanaethau o fwy na 238 eiddo (gan gynnwys safleoedd gofal sylfaenol sy'n eiddo i feddygon teulu, datblygwyr trydydd parti a landlordiaid preifat), gyda chyfanswm arwynebedd llawr o tua 420,000m$^2$ a gwerth o tua £629.8m (gan gynnwys £25.0m ar gyfer Asedau Hawl i Ddefnydd).

Yn ystod 2023/24, cafodd Strategaeth Ystadau'r Bwrdd Iechyd ei diweddaru yn dilyn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i gyfleu'r sefyllfa bresennol a chyfeiriad y dyfodol. Cymeradwywyd y strategaeth ym mis Ionawr 2023. Nawr, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried camau gweithredu posibl i gyflawni'r strategaeth.

Ar lefel gyfanredol, nid yw ystâd BIPBC drwyddi draw yn cyflawni targedau cenedlaethol a gwerthoedd cyfartalog GIG Cymru ar gyfer yr holl ddangosyddion perfformiad a chyflwr ystadau, ac eithrio defnyddio lle. Mae cyfran sylweddol o'r ystâd (tua 45%) dros 40 oed. Ôl-groniad yw'r gost i ddod ag asedau ystâd sy'n is na'r safonau derbyniol (naill ai eu cyflwr ffisegol neu gydymffurfio â gofynion diogelwch tân gorfodol a deddfwriaeth diogelwch statudol) i gyflwr derbyniol. Mae gan yr ystâd gyfanswm cost cynnal a chadw ôl-groniad o £348m, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers i fersiwn flaenorol y Strategaeth Ystadau gael ei datblygu yn 2019.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys yr ystâd gofal sylfaenol, ble ceir gofynion tebyg o ran yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw, addasiadau sydd eu hangen i gydymffurfio'n llawn â gofynion mynediad a lefelau uchel o ddefnydd o le, ac adroddwyd am lefelau uchel o orlenwi.

## Gweithgarwch Ysbytai 2023/24

Mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau cleifion â gwasanaethau iechyd yn digwydd yn y gymuned – er enghraifft mewn practisau meddygon teulu, fferyllfeydd neu gartrefi cleifion eu hunain. Mae cyfran fawr o'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan gontractwyr annibynnol (fel practisau meddygon teulu a deintyddion sy'n cael eu rhedeg gan y partneriaid) neu gwmnïau preifat (fel fferyllfeydd y stryd fawr), o dan gontractau gyda'r Bwrdd Iechyd.

Mae gwasanaethau ysbyty yn cael eu rheoli a'u rhedeg yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd. Yn ystod 2023/24, yn ein hysbytai, gwelsom:

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Apwyntiadau Cleifion Allanol | 695,445 | 721,515 | 822,589 |
| Mynd i'r Adran Achosion Brys neu Uned Mân Anafiadau | 221,071 | 222,786 | 236,964 |
| Nifer y cleifion a dderbynnir fel achos brys | 87,547 | 93,007 | 99,388 |
| Llawdriniaethau cleifion mewnol dewisol (wedi'u cynllunio ymlaen llaw). | 11,448 | 11,591 | 11,737 |
| Llawdriniaethau Achosion Dydd | 88,635 | 94,303 | 93,089 |
| Nifer y genedigaethau | 6,023 | 5,648 | 5,595 |

Heblaw am nifer y genedigaethau mewn ysbytai a thriniaethau achos dydd, mae lefelau gweithgarwch wedi cynyddu ym mhob categori, gan adlewyrchu'r pwysau brys y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wynebu a'r gwaith i gynyddu ein gweithgarwch triniaethau wedi'u cynllunio wrth i ni geisio sicrhau adferiad wedi'r aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19.

## Perfformiad o gymharu â Thargedau Cenedlaethol Allweddol

| Mesur | Targed | Y Cyfnod Data Diweddaraf Sydd Ar Gael | Perfformiad Presennol | Safle | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal brys (h.y. ED) mawr a bach, o'r amser cyrraedd hyd at dderbyn, trosglwyddo neu ryddhau. | Gwelliant o gymharu â'r un mis yn 2022/23, tuag at y targed cenedlaethol o 95% | Mawrth 2024 | **62.1%** | 7fed o 7 (Mawrth 2024) | 67.5% |
| Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys (h.y. ED) mawr a bach, o'r amser cyrraedd hyd at dderbyn, trosglwyddo neu ryddhau. | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn 31 Mawrth 2024 | Mawrth 2024 | **3,409** | 7fed o 7 (Mawrth 2024) | 10,366 |
| Amser canolrifol (munudau) o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at frysbennu gan glinigydd | Tuedd 12 mis yn lleihau | Mawrth 2024 | **23** | 4ydd o 6 (Mawrth 2024) | 21 |
| Amser canolrifol (munudau) o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at asesu gan uwch aelod o staff sy'n gwneud penderfyniadau clinigol | Tuedd 12 mis yn lleihau | Mawrth 2024 | **142** | 5ed o 6 (Mawrth 2024) | 77 |
| Nifer y cleifion sy'n aros dros 1 awr i gael eu trosglwyddo o ambiwlans | Trywydd gwella tuag at gyflawni dim oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlans >1 awr erbyn mis Mawrth 2024 | Mawrth 2024 | **2,039** | 6ed o 6 (Mawrth 2024) | 5,922 |
| Canran y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth canser diffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt y codwyd amheuaeth (waeth beth yw'r llwybr cyfeirio) | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o 80% erbyn 31 Mawrth 2026 | Chwefror 2024 | **54.0%** | 3ydd o 6 (Chwefror 2024) | 53.4% |

| Mesur | Targed | Y Cyfnod Data Diweddaraf Sydd Ar Gael | Perfformiad Presennol | Safle | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnostig penodol | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn 31 Mawrth 2024 | Mawrth 2024 | **6,504** | 5ed o 7 (Chwefror 2024) | 42,080 |
| Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol (gan gynnwys awdioleg) | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn 31 Mawrth 2024 | Mawrth 2024 | **4,574** | 7fed o 7 (Chwefror 2024) | 12,759 |
| Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol newydd | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o sero | Mawrth 2024 | **18,412** | 7fed o 7 (Chwefror 2024) | 60,004 |
| Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol cleifion allanol sy'n wynebu oedi o fwy na 100% | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o sero | Mawrth 2024 | **87,690** | 7fed o 7 (Mawrth 2024) | 247,630 |
| Canran yr apwyntiadau offthalmoleg R1 a fynychwyd a oedd o fewn eu dyddiad targed clinigol neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol | 95% | Mawrth 2024 | **56.2%** | 5ed o 7 (Mawrth 2024) | 61.4% |
| Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 104 wythnos i gael eu cyfeirio am driniaeth | Trywydd gwella tuag at darged cenedlaethol o sero | Mawrth 2024 | **8,720** | 7fed o 7 (Chwefror 2024) | 22,983 |
| Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos i gael eu cyfeirio am driniaeth | 0% | Mawrth 2024 | **63,938** | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Canran yr asesiadau iechyd meddwl ar gyfer pobl o dan 18 oed a gynhaliwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cyfeiriad | 80% | Mawrth 2024 | **88.5%** | 5ed o 7 (Chwefror 2024) | 86.3% |
| Canran yr ymyriadau therapiwtig ar gyfer pobl o dan 18 oed a ddechreuwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS | 80% | Chwefror 2024 | **45.0%** | 5ed o 7 (Chwefror 2024) | 56.0% |

| Mesur | Targed | Y Cyfnod Data Diweddaraf Sydd Ar Gael | Perfformiad Presennol | Safle | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran trigolion y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer pobl o dan 18 oed | 90% | Chwefror 2024 | **91.4%** | 4ydd o 7 (Chwefror 2024) | 86.1% |
| Canran y plant a phobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau asesiad niwroddatblygiadol ADHD neu ASD | 80% | Mawrth 2024 | **23.6%** | 5ed o 7 (Chwefror 2024) | 23.9% |
| Canran yr asesiadau iechyd meddwl ar gyfer pobl 18 oed a hŷn a gynhaliwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cyfeiriad | 80% | Chwefror 2024 | **87.2%** | 4ydd o 7 (Chwefror 2024) | 68.9% |
| Canran yr ymyriadau therapiwtig ar gyfer pobl 18 oed a hŷn a ddechreuwyd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS | 80% | Chwefror 2024 | **87.5%** | 6ed o 7 (Chwefror 2024) | 77.4% |
| Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion | 80% | Mawrth 2024 | **87.7%** | 1af o 7 (Chwefror 2024) | 63.8% |
| Canran trigolion y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer oedolion 18 oed ac yn hŷn | 90% | Chwefror 2024 | **87.2%** | 4ydd o 7 (Chwefror 2024) | 78.0% |

# Dadansoddi Perfformiad

## Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Mae’r ddarpariaeth gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru yn cwmpasu ystod gynhwysfawr o wasanaethau gofal iechyd sydd ar gael yn y gymuned. Mae’n cynnwys meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr, a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill sy’n gweithio mewn amryw o leoliadau yn agos at ble mae pobl yn byw.

Ffocws y gwaith eleni, fu datblygu gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol gan feithrin gweithlu gofal iechyd cryfach a mwy gwydn sy'n bodloni anghenion esblygol y gymuned, ac addasu i newidiadau mewn modelau darparu gofal iechyd.

**Yr Academi Gofal Sylfaenol:** Ehangodd yr Academi ei mentrau llwyddiannus, gan hybu cynaliadwyedd gofal sylfaenol. Cyflwynwyd y Rhaglen Sylfaen Nyrsio Ymarfer Cyffredinol (GPN) ar y cyd ag AaGIC. Croesawyd mwy na 10 o Nyrsys Ymarfer Cyffredinol dan Hyfforddiant ac mae’n fwriad derbyn nyrsys yn barhaus. Daeth GP+ i’r amlwg fel dull recriwtio arloesol, gan gynnig cyfleoedd datblygu ochr yn ochr â rolau meddygon teulu. Sefydlwyd tair canolfan hyfforddi amlddisgyblaethol, a oedd yn gartref i fwy nag 20 o fyfyrwyr a roddodd adborth cadarnhaol am eu profiad. Darparodd yr Academi gyrsiau hyfforddi amrywiol, cyflwynodd grynodebau mewn cynadleddau cenedlaethol, a chydweithiodd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan wella’r gwasanaeth gofal sylfaenol ymhellach.

**Gwasanaethau Deintyddol:** Ar gyfartaledd, yn 2023/24, roedd gwasanaethau deintyddol y GIG yn trin 18,286 o gleifion bob mis, sef cynnydd o 9.3% ers y flwyddyn flaenorol. Ymatebodd y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i 16,355 o alwadau llinell gymorth, gan ddarparu 39,286 o apwyntiadau wyneb yn wyneb a 1,979 o ymgynghoriadau dros y ffôn. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd mewn darparu gwasanaethau, mae amseroedd aros yn parhau, ac mae heriau recriwtio, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, wedi arwain at bedwar practis yn rhoi’r gorau i gontractau’r GIG, gan ddwysáu’r pwysau ar y system ddeintyddol.

Fel rhan o'n hymateb i'r heriau hyn, rydym wedi parhau i ehangu model Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru. Mae gennym bellach bractis orthodonteg a dau bractis gwasanaethau deintyddol cymunedol yn gweithredu fel rhan o'r Academi. Rydym yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer cynnig hyfforddiant, addysg, a chymorth i bob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol, gan helpu i wneud y rhanbarth yn ardal fwy deniadol i glinigwyr deintyddol symud iddi.

**Fferylliaeth Gymunedol:** Mae fferylliaeth gymunedol yn cynnig ystod eang o wasanaethau clinigol y tu hwnt i ddosbarthu meddyginiaethau.

Mae’r llwyddiannau arwyddocaol yn cynnwys:

- 38,725 o ymgynghoriadau Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys a gynorthwyodd i leihau'r galw ar bractisau meddygon teulu am bresgripsiynau brys, a chynorthwyo preswylwyr dros dro a oedd wedi anghofio neu golli eu meddyginiaethau.
- 6,113 o ymgynghoriadau Gwasanaeth Atal Cenhedlu, gwella mynediad at ddulliau atal cenhedlu brys a chychwyn atal cenhedlu yn hawdd.
- cynnal 71,843 o ymgynghoriadau Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, gan helpu i symud y galw am fân salwch oddi wrth ymarfer cyffredinol.

**Clystyrau:** Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn ein Cymunedau Iechyd Integredig, gan gynnwys Practisau Meddygon Teulu, Practisau Optometreg, Fferyllfeydd Cymunedol, Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Sefydliadau Trydydd Sector a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau a elwir yn 'glystyrau'. Eu diben yw datblygu a darparu gwasanaethau newydd i fynd i'r afael ag anghenion cleifion lleol.

Mae clystyrau wedi parhau i wella'r gwaith o reoli clefydau cronig yn y cartref, gan leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Mae Nyrsys Clefyd Cronig Eiddilwch yn rhagori wrth gefnogi cleifion sy'n agored i niwed ac mae Hybiau Cymorth Sbirometreg yn grymuso staff gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau yn agosach at y cartref. Mae mentrau iechyd meddwl wedi blaenoriaethu llesiant cymunedol, wedi mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, a darparu gofal brys yr un diwrnod i oedolion mewn argyfwng, gan feithrin effaith gadarnhaol.

Yng ngogledd Sir Ddinbych, mae'r Gwasanaeth Diabetes Gwell wedi gwella'r gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned i bobl â Diabetes Math 2, neu sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflwr. Sefydlwyd Canolfan Cyflyrau Hirdymor er mwyn defnyddio'r dull Prawf Pwynt Gofal ar gyfer pobl â diabetes i ganfod arwyddion cynnar cymhlethdodau, darparu'r driniaeth orau bosibl a, thrwy hunanreolaeth ac addysg, i leihau dirywiad mewn iechyd a hyrwyddo llesiant.

**Optometreg:** Lansiwyd Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) newydd ym mis Hydref 2023 gyda WGOS 1/2/3/5 i gyd ar gael ar draws BIPBC. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd am fynediad at wasanaethau ar gyfer iechyd y llygaid yn agos at y cartref yn cynyddu. Bydd gwasanaethau pellach yn cael eu lansio ar y cyd ag offthalmoleg, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo'n genedlaethol ym mis Chwefror 2024.

Mae 70 o bractisau optometryddion cymunedol yng Ngogledd Cymru ac mae pob un yn darparu profion llygaid arferol ac Archwiliadau ar gyfer Problemau Llygaid Brys. Yn ogystal â hyn, mae 29 practis yn darparu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (WLVS) ac mae practisau yn darparu'r Gwasanaeth Optometreg Rhagnodi Annibynnol (IPOS).

Y tu hwnt i WGOS, mae optometreg gofal sylfaenol wedi parhau i weithio gydag offthalmoleg gofal eilaidd i ddarparu gwasanaethau casglu data cymunedol ar gyfer glawcoma a retinopathi diabetig, yn ogystal â llwybr lensys cyffwrdd arbenigol.

Mae cyfleuster 'Dysgu a Thrin' wedi'i sefydlu ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd er mwyn cefnogi gofynion y gweithlu. Mae hyn yn cyd-fynd â chyflwyno gwasanaethau newydd yn y gymuned, gan alluogi optometryddion sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru i ddatblygu sgiliau ychwanegol

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol:

- Bydd yr Academi Gofal Sylfaenol yn croesawu'r garfan gyntaf o feddygon teulu dan hyfforddiant i'w canolfannau hyfforddi, yn sefydlu canolfan hyfforddi amlddisgyblaethol newydd, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Uned Addysg a Hyfforddiant Sylfaenol a Chymunedol AaGIC.
- Nod y Gwasanaethau Deintyddol yw ehangu model Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru ymhellach a pharhau â thrafodaethau ar gyfer cydweithio gydag Ysgol Ddeintyddol Caerdydd.
- Bydd gwasanaethau fferylliaeth gymunedol yn parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau clinigol a chefnogi mentrau iechyd cyhoeddus.
- Nod clystyrau yw datblygu mentrau ar gyfer rheoli clefydau cronig, gwella cymorth iechyd meddwl, a chynyddu'r ffocws ar atal clefydau.
- Mae gwasanaethau optometreg yn bwriadu lansio WGOS 4 sy'n golygu mireinio cyfeirio am rai cyflyrau llygaid a monitro rhai cyflyrau llygaid eraill, ynghyd â pharhau i ddatblygu'r gweithlu.

## Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPS) yn cwmpasu'r ddarpariaeth o wasanaethau cleifion mewnol acíwt a chleifion allanol, gwasanaethau newyddenedigol, gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), y gwasanaeth niwroddatblygiadol, gwasanaethau pediatreg yn y gymuned, ymwelwyr iechyd a nyrsio ysgol yn ogystal â'r gwasanaeth 'Plant sy'n Derbyn Gofal' sydd ynghlwm â phob Cymuned Gofal Iechyd Integredig.

Mae Uned Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig dan ofal Ysbyty Glan Clwyd ac uned ranbarthol cleifion mewnol i blant a phobl ifanc yn Abergele, dan ofal Cymuned Gofal Iechyd Integredig y Canol.

Darperir gwasanaethau trydyddol i drigolion Gogledd Cymru gan Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl, Lloegr.

Yn 2023/24 roedd llwyddiannau allweddol y gwasanaethau yn cynnwys:

- Lleihau nifer y plant sy'n aros am asesiad iechyd meddwl

  Mae cyfanswm nifer y plant a phobl ifanc sy'n aros am asesiad iechyd meddwl wedi gostwng o 346 ym mis Mawrth 2023, i 247 ym mis Mawrth 2024. Erbyn hyn, mae CAMHS yn cyflawni targedau amseroedd aros Llywodraeth Cymru o gynnal 80% o asesiadau o fewn 28 diwrnod i'w cyfeirio, ac mae'n anelu at gynnal y perfformiad hwn drwy 2024/25.

- Cynllunio a chyd-gynhyrchu Siarter Hawliau Plant ar gyfer Gogledd Cymru. Mae Siarter Hawliau Plant i sefydlu dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant ar draws y sefydliad wedi cael ei datblygu, a'r bwriad oedd ei chymeradwyo i'w chyhoeddi gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2024.

- Gwella mynediad at ein gwasanaethau CAMHS drwy gyflwyno ymgynghoriadau rhithwir ac wyneb yn wyneb i gleifion allanol, a defnyddio partneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau.

  Mae ymgynghoriadau cleifion allanol ar-lein ac wyneb yn wyneb bellach yn cael eu cynnig er mwyn rhoi dewis i blant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae darparwr allanol wedi cynorthwyo drwy gynnig asesiadau ac ymyriadau ochr yn ochr â gwasanaethau ein Bwrdd Iechyd, sydd wedi cynorthwyo'r sefyllfa o ran rhestrau aros ar draws y rhanbarth.

- Ymestyn y gwasanaeth imiwneiddio i rai o oedran ysgol

  Mae'r gwasanaeth imiwneiddio plant oedran ysgol yn parhau i ddarparu'r imiwneiddiadau arferol i blant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer brechu rhag y ffliw. Fel yr adlewyrchir yn genedlaethol, mae cyfraddau derbyn ychydig yn is na blynyddoedd blaenorol ond er hynny, maent yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol ledled Cymru.

- Datblygu'r uned MST-FIT (Therapi Aml-Systemig – Pontio Teuluol Integredig) gyntaf yng Nghymru. Mae'n cynnwys pedwar gwely pontio, i ddarparu cymorth i bobl ifanc ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis trais, camddefnyddio sylweddau neu redeg i ffwrdd sy'n tarfu'n ddifrifol ar fywyd teuluol, ac a allai fod wedi arwain at gynnwys y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.

Agorodd Tŷ Nyth sef adran breswyl MST-FIT, (ITM) yn llwyddiannus ar ôl cael ei gofrestru gydag AGC ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r elfen breswyl yn cefnogi'r daith ail-uno ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae adborth gan y gymuned ac ysgolion wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar gadw plant a phobl ifanc gartref gyda theuluoedd ac yn eu cymunedau.

Mae cynaliadwyedd y gweithlu meddygol, iechyd meddwl a seicoleg yn heriol mewn cyfnod o alw cynyddol am wasanaethau fel gwasanaethau niwroddatblygiadol, a’r cynnydd ym maint poblogaeth grwpiau risg uchel trwy ddadleoli (gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches a ffoaduriaid rhyfel) neu’n allanol (gan awdurdodau lleol eraill).

**Gwasanaethau Newyddenedigol**

Yn ystod 2023/24, mae’r Unedau Newyddenedigol ar draws y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio tuag at gamau achredu BFI UNICEF 2 a 3. Yn ystod mis Chwefror 2024, cynhaliwyd ymweliad asesu achredu cam 2. Cafwyd adborth cadarnhaol a chadarnhawyd bod gwasanaethau newyddenedigol y Bwrdd Iechyd wedi'u hachredu ar Gam 2. Bydd y timau nawr yn gweithio tuag at achrediad Cam 3 yn ystod y flwyddyn nesaf. Gwelwyd gwelliannau o 38% i 49% yn y cyfraddau bwydo ar y fron ar adeg rhyddhau o’r ysbyty.

Cafwyd recriwtio llwyddiannus i'r rhaglen PERIPrem ym mhob uned gyda thimau cwad yn eu lle. Mae Hyrwyddwr Diogelwch MatNeo y Bwrdd Iechyd yn cefnogi gwaith y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer gwella. Yn ystod Chwarter 4, penodwyd Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Rhwydwaith Newyddenedigol parhaol. Bydd y rôl hon yn goruchwylio'r gwaith o gydgysylltu gofal a ddarperir yn rhanbarthol, gan sicrhau bod babanod lle bo modd, yn cael y lefel briodol o ofal o ansawdd uchel sydd agosaf at eu cartrefi.

## Gofal Lliniarol Arbenigol

Mae Adran Gofal Lliniarol Arbenigol Gogledd Cymru yn wasanaeth arbenigol rhanbarthol, sy'n cynnwys tri Thîm Gofal Lliniarol Arbenigol amlddisgyblaethol (SPCTs), un yr un yn ardaloedd y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin, ac un Gwasanaeth Hosbis yn y Cartref (Ardal y Dwyrain). Mae'r timau'n gweithio'n hyblyg i ddarparu gofal arbenigol integredig, saith diwrnod yr wythnos, ar draws pob arbenigedd a lleoliad gofal gan ddarparu:

- Asesiad clinigol arbenigol ac ymyrraeth i bobl sydd ag anghenion gofal lliniarol cymhleth wrth ddynesu at ddiwedd eu hoes.
- Arweiniad, hyfforddiant ac addysg i'r gweithlu ehangach, ac ymchwil a datblygu.
- Datblygiad strategol ar gyfer gofal lliniarol, diwedd oes a gofal mewn profedigaeth.

Mae'r galw ar y gwasanaeth yn uchel gyda 4,876 o gyfeiriadau newydd yn ystod y flwyddyn; a thua 50,350 o ymweliadau/cyswllt â chleifion.

Ymhlith llwyddiannau'r gwasanaeth mae:

- 80 o gleifion a gyfeiriwyd at y Tîm Hosbis yn y Cartref wedi cael cymorth i gyrraedd eu dewis le i farw yn eu cartref eu hunain.
- Cwblhau'r prosiect Gwneud Penderfyniadau Diwedd Oes rhanbarthol gan arwain at Strategaeth Gwella Ansawdd.
- Datblygu strategaeth ar gyfer gofal lliniarol, diwedd oes a phrofedigaeth, gan adeiladu ar y gwaith Asesu Anghenion Iechyd ac Ymgysylltu a gwblhawyd eisoes.
- Arwain ar y gwaith o weithredu a gwerthuso Gweinyddu Gofalwyr Lleyg (CARiAD) sy'n cefnogi rheoli symptomau ar gyfer y rhai sy'n dymuno marw gartref. Roedd Tîm CARiAD yn Enillydd Gwobr Arloesedd mewn Ymarfer yng Ngwobrau Ymchwil Gofal Iechyd Cymru 2023 ac yn Rownd Derfynol Gwobrau Rhagoriaeth Gweithwyr Proffesiynol Macmillan y DU 2023.
- Datblygu gwasanaethau profedigaeth, gan gynnwys gweithio tuag at weithredu Model SWAN ar gyfer gofal diwedd oes a phrofedigaeth.
- Darparu hyfforddiant ac addysg, gan gynnwys y pecyn hyfforddi 'Chwe Cham at Lwyddiant' i Gartrefi Gofal ar draws Gogledd Cymru sy'n helpu preswylwyr i fod yn y lle y maent yn dymuno ei fod ar ddiwedd eu hoes.
- Gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda CEF Berwyn i weithredu'r Siarter Marw'n Dda yn y Ddalfa.

## Nyrsio Ardal

Mae Gwasanaethau Nyrsio Ardal yn defnyddio gweithlu nyrsio â sgiliau a chymwysterau priodol i ddarparu gofal 24 awr yn y gymuned a'r tu allan i leoliad ysbyty.

Yn ystod 2023/24, gwnaeth Nyrsys Ardal 659,280 o ymweliadau cartref yn ystod yr wythnos waith.

Er mwyn darparu ystod deg a hygyrch o wasanaethau, gwnaed tua 43,943 o ymweliadau y tu allan i oriau craidd, gyda'r nos a thros nos, ac 114,131 o ymweliadau eraill dros benwythnosau.

Mae'r Timau Nyrsio Ardal hefyd yn cefnogi cleifion i fynychu apwyntiadau clinig mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol. Maent hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran darparu addysg a gwybodaeth i gleifion, perthnasau a gofalwyr er mwyn eu helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaethau yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal, gan osgoi derbyniadau diangen neu ail dderbyniadau i'r ysbyty.

Yn ystod 2023, sefydlwyd rôl yr Uwch Ymarferydd Nyrsio yn gadarn ym mhob Gwasanaeth Cartref yn Gyntaf, i gefnogi uwch asesiad clinigol o gleifion yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.

Er mwyn rhyddhau cleifion yn gynt o welyau cleifion mewnol, bu ffocws hefyd ar Wasanaethau Cartref yn Gyntaf ychwanegol, lle mae adsefydlu cleifion a magu hyder yn digwydd yn gynharach yn eu cartref eu hunain.

Mae'r gwasanaeth Nyrsio Ardal hefyd wedi cael cyfle i ddatblygu rôl yr Ymarferydd Cynorthwyol ym mhob tîm Nyrsio Ardal, sydd wedi cryfhau'r gweithlu nyrsio a datblygu cymysgedd sgiliau ehangach i gefnogi gofal cleifion ac ymyriadau.

## Gwasanaethau Merched (Mamolaeth a Gynaecoleg)

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu Gwasanaethau Mamolaeth, Bydwreigiaeth a Gynaecoleg ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru yn ogystal â charfan o ferched o Ogledd-ddwyrain Powys a Gororau Swydd Amwythig.

Cafwyd 5,844 o enedigaethau yng Ngogledd Cymru yn 2023, gyda 268 yn ychwanegol o ferched yn dewis geni eu plant y tu allan i Ogledd Cymru, yn Ysbyty Iarlles Caer neu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Er bod y gyfradd genedigaethau wedi gostwng, bu cynnydd mewn cyflwyniadau mamol cymhleth ac mewn cyfraddau ymyrraeth glinigol a ddaw yn sgil canllawiau cenedlaethol i leihau cyfraddau morbidrwydd a marwolaethau.

Unwaith eto, gwelodd ein gwasanaeth Gynaecoleg gynnydd mewn achosion o ganser anfalaen, achosion brys ac achosion lle'r oedd amheuaeth o ganser. (Data i'w gynnwys)

Mae Gwasanaethau Merched wedi gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau Iechyd Integredig, Gwasanaethau Ledled Gogledd Cymru Gyfan a defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso ei Gynllun Blynyddol 2023/24. Mae perfformiad yn cael ei fonitro'n chwarterol a'i adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Merched a Gweithredwyr y Bwrdd Iechyd.

## Gwasanaethau Therapi

Mae Gwasanaethau Therapi yn gweithio mewn ystod eang o leoliadau cleifion mewnol, cymunedol a chleifion allanol yn y Cymunedau Iechyd Integredig, gan ofalu am gleifion ar draws pob grŵp oedran ac ar draws ystod eang o gyflyrau.

Mae clinigwyr yn Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), sydd wedi'u cofrestru gyda'r HCPC (Cyngor Proffesiynau Iechyd mewn Gofal). Mae Gwasanaethau Therapi yn cwmpasu:

- Therapïau Celf
- Deieteg
- Therapi Galwedigaethol
- Ffisiotherapi
- Podiatreg ac Orthoteg
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Osgo a Symudedd (rhan o wasanaeth Cymru gyfan sydd wedi'i leoli yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain ac sy'n gwasanaethu'r Gogledd cyfan a rhannau o ganolbarth Cymru)
- Gwasanaethau Asesu/Therapi Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS).

Yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024) derbyniodd gwasanaethau Therapi* fwy na 130,400 o gyfeiriadau newydd, a

- Mynychwyd mwy na 91,000 apwyntiadau cleifion allanol newydd
- Mynychwyd mwy na 271,000 o apwyntiadau dilynol
- Cafodd mwy na 333,500 o gleifion eu trin/gweld mewn ysbytai gan Therapyddion

(*Heb gynnwys cyfeiriadau a gweithgarwch gan CMATS, y Gwasanaeth Osgo a Symudedd a thimau amlddisgyblaethol fel Cyflyrau Hirdymor Cymunedol a Gwasanaethau Strôc.)

Mae rhai gwasanaethau'n dal i ddioddef effeithiau'r pandemig pan ddaeth gweithgarwch arferol i ben a phan gollwyd llety nad yw eto, wedi'i adfer.

Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 16,936 o gleifion yn aros am Wasanaethau Therapi – gyda 2,875 o gleifion yn aros mwy na 14 wythnos (2,815 am Ffisiotherapi). Mae'r gwasanaethau'n parhau i weithio'n galed i ddychwelyd i amser aros o 14 wythnos.

Yn ystod y flwyddyn, mae Gwasanaethau Therapi hefyd wedi:

- Penodi tri ymgynghorydd therapi strôc
- Mae'r tair canolfan adsefydlu cleifion mewnol strôc arbenigol a arweinir gan therapi sydd newydd eu hagor yn cael effaith gadarnhaol o ran cefnogi cleifion ag adsefydlu strôc a rhyddhau'n gynnar â chymorth yn arbennig

## Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio

Mae gofal wedi'i gynllunio yn cyfeirio at y diagnosis a'r triniaethau y mae cleifion yn eu derbyn ar ôl iddynt gael eu cyfeirio at yr ysbyty gan feddyg teulu.

Yn ystod 2023/24, ein nod oedd parhau i sefydlogi ac adennill ein perfformiad ym mhob maes gofal wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau o ran amseroedd aros, ar y cyfan nid yw'r amseroedd aros fel yr hoffem iddynt fod yn ein hysbytai, nac yn y gymuned a'r gwasanaethau gofal sylfaenol. Rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu'r gwaith hwn a mynd i'r afael â'r amseroedd aros hir sy'n parhau am rai triniaethau yn dilyn y pandemig.


**Maint Rhestrau Aros ac Amseroedd Aros, gan gynnwys Pennu Lefel Risg**

Mae llwybr cyfeirio at driniaeth (RTT) yn cwmpasu'r pedwar cam y bydd claf yn eu dilyn ar ôl cael ei gyfeirio at driniaeth ysbyty yn y GIG yng Nghymru. Dyma'r camau:


- yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau cychwynnol yn yr ysbyty (claf allanol - cam 1)
- profion, sganiau neu weithredoedd eraill y gall fod eu hangen cyn y driniaeth (diagnosteg - camau 2 a 3) ac yna
- aros i'r driniaeth ddechrau (claf mewnol neu achos dydd - cam 4)

Ni fodlonwyd y targed Gweinidogol sef 97% o gleifion yn aros am ddim mwy na 104 wythnos ar lwybr agored (h.y. unrhyw un o'r camau uchod). Ein perfformiad presennol yw 94.2%. Mae gan rai o'n gwasanaethau mwy bregus amseroedd aros hir parhaus sy'n esbonio hyn. Mae rhai o'r toriadau o ran bodloni targedau hefyd yn cynnwys cleifion nad ydynt yn rhai brys sy'n aros am driniaeth arferol, ond mae'r capasiti craidd presennol yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan achosion brys neu gyfeiriadau canser. Cynyddodd y rhain yn sylweddol yn ystod y pandemig ac nid ydynt wedi gostwng ers hynny.

Eleni, rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran lleihau ein hamseroedd aros hiraf. Mae 1,467 o bobl wedi aros 156 wythnos am apwyntiad sydd wedi'i drefnu. Mae cynnydd bach yn y niferoedd hyn yn ystod tri mis olaf y flwyddyn yn sgil pwysau'r gaeaf a'r gweithredu diwydiannol sydd wedi ein herio i gynnal y cyfraddau prosesu dros ail hanner y flwyddyn.



Mae 201 o bobl yn y grŵp sydd wedi aros 208+ wythnos am apwyntiad wedi'i drefnu. Mae rhai o'r amseroedd aros hwyaf hyn yn yr arbenigeddau sy'n wynebu'r heriau mwyaf, yn enwedig orthodonteg (48 yn aros dros 208 wythnos a llawdriniaeth yr ên a'r wyneb gyda 62 yn aros yn y grŵp hwn). Mae gweddill y grŵp yn cynnwys llawfeddygaeth gyffredinol ac wroleg.




*D.S. – Mae'r ddau Siart uchod yn berthnasol i'r cyfnod hyd at 30 Ebrill 2024.*

Mae ein rhestrau aros yn cael eu hadolygu a'u dilysu'n gyson drwy ddulliau dilysu gweinyddol i wirio eu bod yn gywir ac wedi eu diweddaru. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y cleifion y mae angen eu gweld yn cael apwyntiad cyn gynted â phosibl, yn unol â'u hanghenion clinigol.

Heb ddulliau dilysu gweinyddol gall cleifion aros yn hwy na'r angen oherwydd bod apwyntiadau'n cael eu gwastraffu, er enghraifft gan gleifion nad ydynt yn mynychu oherwydd eu bod wedi symud o'r ardal, wedi cael eu trin yn rhywle arall, bod eu symptomau wedi cilio neu nad ydynt yn deall beth yw diben yr apwyntiad.

Mae'r her hon yn cael sylw a chymeradwywyd ein hachos busnes i sefydlu tîm dilysu a threfnu apwyntiadau cynaliadwy a reolir yn ganolog. Rydym yn recriwtio i dîm newydd a fydd yn sicrhau ein bod yn gallu dilysu'n barhaus i sicrhau mai dim ond y bobl y mae angen iddynt fod yn aros sydd ar ein rhestrau.

Rydym hefyd yn datblygu prosesau cymorth cyffredinol, gan ddefnyddio ein staff ein hunain yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau partner, i gysylltu ag unigolion tra byddant yn aros. Mae hyn yn ein galluogi i gyfeirio cleifion a/neu deuluoedd at gymorth lle bo hynny'n briodol, ac i ganfod cyfeiriadau lle mae angen eu hail-flaenoriaethu neu eu huwchgyfeirio a diwygio blaenoriaeth amser aros y claf. Rydym yn arloesi gyda thechnoleg sgwrsfot. Ni yw'r bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i dreialu'r dechnoleg hon a byddwn yn ei chyflwyno ledled y Bwrdd Iechyd.

## Gwasanaethau Canser

Rydym yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwasanaethau canser o ansawdd uchel gyda'r nod o wneud diagnosis a thrin pawb â chanser cyn gynted â phosibl ac yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau personol eu hunain.

Darperir y rhan fwyaf o'n gwasanaethau diagnostig canser ym mhob un o'n tri safle ysbyty acíwt. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer delweddu (radioleg) a biopsi naill ai o dan anesthetig lleol neu anesthetig cyffredinol.

Ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael diagnosis o ganser, rydym yn cynnal llawdriniaeth naill ai yn eu hysbyty acíwt lleol neu, ar gyfer rhai llawdriniaethau mwy arbenigol, mewn un safle ysbyty neu weithiau, y tu allan i Ogledd Cymru os oes angen. Mae gennym unedau cemotherapi ym mhob un o'n tri phrif safle; darperir pob triniaeth radiotherapi yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd.

Yn 2023/24 cyfeiriwyd bron i 43,000 o achosion brys lle'r oedd amheuaeth o ganser gan wasanaethau gofal sylfaenol, sef yr un nifer â'r flwyddyn flaenorol. Ni fydd gan y rhan fwyaf o'r cleifion hyn ganser, ond mae angen eu gweld a rhoi diagnosis yn gyflym fel y gallant naill ai ddechrau triniaeth cyn gynted â phosibl neu gael sicrwydd na ddarganfuwyd unrhyw dystiolaeth o ganser.

Yn 2023/24 fe wnaethom roi diagnosis a thrin ychydig dros 5,300 o bobl â chanser. Y canserau mwyaf cyffredin a gafodd eu trin oedd canser y croen, canser wrolegol a chanser y fron. Roedd ychydig dros hanner y canserau a gafodd eu trin gennym yn gleifion a gyfeiriwyd yn uniongyrchol gan eu tîm gofal sylfaenol, gyda 7% pellach o ganserau wedi derbyn diagnosis yn dilyn cael eu cyfeirio o'r gwasanaeth sgrinio canser.

O'r cleifion â chanser a dderbyniodd driniaeth, dechreuodd 61% ohonynt ar driniaeth o fewn targed amseroedd aros cenedlaethol Llywodraeth Cymru (targed y llwybr lle'r amheuir canser yw 75% o gleifion i ddechrau eu triniaeth o fewn 62 diwrnod o godi amheuon o ganser am y tro cyntaf). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhoi diagnosis i gleifion mor gyflym ag y byddem yn ei ddymuno wedi bod yn heriol. Mae hynny oherwydd y cynnydd yn nifer y cleifion sydd angen eu hasesu a heriau o ran ein gweithlu clinigol, yn arbennig y gwasanaethau dermatoleg, wroleg ac oncoleg.

Yn ystod 2023/24 adolygwyd nifer o'n llwybrau clinigol er mwyn gwneud gwelliannau. Mae'r rhain wedi cynnwys llwybrau prawf yn syth lle bo'n bosibl, er mwyn lleihau amseroedd cyn cael diagnosis, yn arbennig yn ein gwasanaeth wroleg lle lansiwyd llwybr syth i ddelweddu llwyddiannus iawn. Rydym hefyd wedi ehangu'r defnydd o dechnolegau triniaeth newydd gan gynnwys llawdriniaeth robotig yn Ysbyty Gwynedd ar gyfer cleifion priodol â chanserau'r colon a'r rhefr a chanserau gynaecolegol.

## Gwasanaethau Radioleg

Mae radioleg yn wasanaeth diagnostig clinigol hanfodol a ddarperir yn ein tri phrif ysbyty acíwt ac mewn sawl un o’n hysbytai cymunedol. Mae dulliau diagnostig yn cynnwys pelydr-X ffilm plaen, delweddu trawstoriadol (CT / MRI), uwchsain a gwasanaethau arbenigol fel delweddu ymyriadol, meddygaeth niwclear a PET-CT.

Yn 2023/24 cynyddodd y galw cyffredinol am y tri phrif ddull sef CT / MRI ac uwchsain gan dros 15,000 o geisiadau (7%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y galw, mae nifer cyffredinol y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am y sganiau hyn wedi gostwng gan dros 2,500 i ychydig dros 1,700 ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae capasiti ychwanegol a gyflwynwyd ar-lein yn 2022-23 wedi galluogi perfformiad parhaus i ateb y galw a lleihau’r ôl-groniad. Mae tystiolaeth glir ar gyfer trosi’r capasiti sganio symudol ychwanegol dros dro hwn yn ateb mwy parhaol, a bydd gwaith tuag at hyn yn symud yn ei flaen yn gyflym yn 2024-25.

## Gwasanaethau Gofal Heb Ei Drefnu

Mae system gofal heb ei drefnu'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau trwy Adran Achosion Brys (ED) tri ysbyty sy'n gweithredu 24 awr y dydd, a 9 uned mân anafiadau (MIU), gyda dwy ohonynt yn gweithredu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae'r Adrannau Achosion Brys yn Unedau Trawma dynodedig sy'n gallu trin derbyniadau cychwynnol, dadebru a rheoli cleifion trawma cymhleth lefel 1.

Mae gan bob ED y gallu a'r cyfleusterau i drin cleifion sy'n dioddef o gyflyrau critigol o ran amser gan gynnwys strôc a thorri asgwrn y ffemwr (torri'r glun). Mae gan y tair adran y gallu i drin derbyniadau cychwynnol trawiadau ar y galon; maent yn cael eu cefnogi yn hyn o beth gan wasanaeth canolog sy'n cefnogi uwch ofal a leolir yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae yno hefyd uned ganolog sy'n cefnogi achosion fasgwlaidd a chardiaidd ac yn sicrhau mynediad uniongyrchol i gleifion o'r Adran Achosion Brys a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae gan bob Adran Achosion Brys adnoddau i gefnogi cleifion pediatrig, trin mân anafiadau ac, yn fwy diweddar, mân anhwylderau poblogaeth Gogledd Cymru.

Mae perfformiad gofal heb ei drefnu wedi bod o dan straen yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac ar hyn o bryd, mae'n mynd trwy broses ailosod yn dilyn pandemig COVID-19 pan, yn y lle cyntaf, gostyngodd y nifer a oedd yn mynychu.

Mae nifer y derbyniadau bellach yn dychwelyd i'r lefelau a fu cyn y pandemig, ac yn codi y tu hwnt i hynny. Bu cynnydd amlwg hefyd yn aciwtedd (difrifoldeb a chymhlethdod) y cleifion hynny sy'n hunan-gyflwyno yn yr adran achosion brys mewn cyfnod 24 awr. Yn rheolaidd, mae cyfartaledd lefelau defnydd ein Hadrannau Achosion Brys ddwywaith yn fwy na'r capasiti a fwriadwyd ar gyfer pob adran.

Ledled y Deyrnas Unedig, mae perfformiad gofal heb ei drefnu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar ei waethaf ers cyflwyno'r targed pedair awr. Mae'r perfformiad yng Ngogledd Cymru wedi bod ymhlith yr isaf yng Nghymru, gyda 62.9% o gleifion yn treulio llai na phedair awr yn ein Hadrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau ym mis Rhagfyr 2023, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 69.5%, a ffigwr targed o 95%.


Er mai achos mwyaf arwyddocaol y pwysau ar ein gwasanaethau gofal heb ei drefnu yw'r twf yn y galw, ychwanegir at hyn gan ffactorau ehangach sy'n effeithio ar holl system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, mae'r cynnydd yn yr amser a gymerir i gytuno ar becynnau gofal i alluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn golygu nad oes gwelyau ar gael i dderbyn cleifion o'n Hadrannau Achosion Brys. Mae hyn yn effeithio ar lif cleifion drwy'r adrannau, sy'n golygu oedi cyn derbyn cleifion newydd, ac atal ambiwlansys rhag dadlwytho cleifion mewn modd amserol.

Mewn ymateb i hyn, mae pob Cymuned Iechyd Integredig yn cefnogi llwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA). Y nod yw hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty gyda chymorth yn amserol, gan gynnig gofal yn agosach at y cartref trwy fewngymorth gan dimau cymunedol amlddisgyblaethol sy'n cynnwys therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a gofal cymdeithasol yn ogystal â chymorth trydydd sector. Cefnogir hyn ymhellach gan fframwaith adrodd diwygiedig sydd wedi'i roi ar waith i gofnodi Oedi yn achos Llwybrau Gofal (POCD). Caiff ei ddilysu'n fisol mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau cymdeithasol i helpu i leihau hyd arosiadau diangen i gleifion mewn gwely ysbyty, ac osgoi dad-gyflyru a niwed.

Mae rôl a swyddogaeth Aseswyr Dibynadwy (rhywun sy'n gweithredu ar ran, a chyda chaniatâd amryw o sefydliadau, cynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol) ledled Gogledd Cymru yn allweddol er mwyn cefnogi asesiadau cynnar wrth gynnal asesiadau cymesur a nodi anghenion cleifion i alluogi cefnogaeth brydlon ar gyfer ymyriadau penodol a dychwelyd adref i'w man preswyl arferol gan gynnwys cartrefi gofal. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i wella'r rôl a'r swyddogaeth hon.

Mae gwelliannau i ofal heb ei drefnu yn cael eu datblygu yn unol â Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae'r rhain yn darparu fframwaith sydd â ffocws strategol clir ar gefnogi gofal yn agosach at y cartref, ynghyd â chynllunio gofal ar adeg rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Bwriedir i'r rhaglen redeg tan 2026.

**Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng**




Yn y Bwrdd Iechyd, mae'r gwaith o anelu at bob nod yn cael ei oruchwylio gan aelod o'r uwch dîm arwain, gyda chynrychiolwyr enwebedig o'r Cymunedau Iechyd Integredig yn cymryd rhan ym mhob nod. Mae'r rhaglen wella hon yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r templedi gweinidogol a chamau gweithredu'r mesurau arbennig i sicrhau ein bod yn dilyn y dull "Gofal Cywir, Lle Cywir".

Ymhlith y datblygiadau penodol sydd wedi digwydd ers 2022 i fynd i'r afael â'r galw mewn Adrannau Achosion Brys a'r system gofal heb ei gynllunio ehangach:

- Mae cyfleusterau Gofal Brys ar yr un Diwrnod (SDEC) bellach yn weithredol ym mhob ysbyty acíwt ar gyfer trin cleifion sy'n gallu cerdded, a'u rhyddhau ar yr un diwrnod. Bydd ar rai angen apwyntiad dilynol wedi'i gynllunio. Mae'r unedau SDEC bellach yn cefnogi cyfeiriadau uniongyrchol gan y gwasanaeth ambiwlans i gefnogi gwelliannau mewn oedi ambiwlansys.
- Mae Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) wedi'u creu mewn lleoliadau allweddol gan gynnwys ysbytai acíwt a rhai Unedau Mân Anafiadau (MIU). Gwasanaeth gofal sylfaenol yw hwn sydd wedi'i gynllunio i gefnogi mynediad at ofal sylfaenol a lleihau'r galw ar adrannau brys.
- Mae prosiect newydd wedi'i lansio yn Ardal y Dwyrain sy'n darparu gwasanaeth cymorth clinigol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl i helpu i gadw preswylwyr yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.
- Yn Ardal y Gorllewin, mae prosiect eiddilwch cymunedol newydd wedi bod yn rhedeg yng Nghaergybi a Chaernarfon i gynorthwyo ein cleifion risg uchel i aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae datrysiad cynllunio rhyddhau digidol newydd o'r enw STREAM wedi'i ddefnyddio ym mhob un o'n Hysbytai Acíwt a Chymunedol i gefnogi rheoli llif cleifion yn effeithiol.
- Ffrydio – i sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio o'r pwynt brysbennu at y man mwyaf addas ar gyfer eu cwyn (efallai nad yr Adran Achosion Brys fydd hyn,– er enghraifft gall fod yn SDEC neu gymorth fferyllol).
- 'Consultant Connect' – system i gefnogi gofal sylfaenol drwy ddarparu cyfleuster i gysylltu'n uniongyrchol ag arbenigwyr gofal eilaidd i gael cyngor a chymorth dros y ffôn ar gyfer cwynion cleifion penodol.

**Gwasanaethau Strôc**


Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafodd 1,793 o gleifion eu hasesu a'u trin gan ein gwasanaethau ar ôl iddynt gael strôc.

Mae diagnosis strôc a thriniaethau acíwt yn cael eu darparu ym mhob un o'r tair Cymuned Iechyd Integredig (IHC) ar draws Gogledd Cymru. Mae Ysbyty Gwynedd ym Mangor yn darparu gwasanaethau strôc acíwt i boblogaeth Ardal y Gorllewin; Ysbyty Glan Clwyd yn darparu gwasanaethau strôc acíwt i boblogaeth Ardal y Canol ac Ysbyty Maelor Wrecsam i boblogaeth Cymuned Iechyd Integredig Ardal y Dwyrain.

Darperir gwasanaethau ar gyfer goroeswyr strôc sy'n gymwys ar gyfer adsefydlu dwys ar ôl strôc, ym mhob un o'r tair Cymuned Iechyd Integredig ar draws Gogledd Cymru, yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon, Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Cyffredinol Glannau Dyfrdwy. Mae'r unedau hyn bellach wedi bod yn weithredol ers dros 12 mis a bu llawer o straeon twymgalon am adferiad cleifion ar ôl iddynt gael strôc.

Mae atal yn rhan hanfodol o'r Llwybr Strôc a bellach, mae'r Canllawiau Strôc Cenedlaethol yn rhoi mwy o bwyslais ar atal strôc. Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm penodedig i arwain y

gwasanaeth sydd wedi canolbwyntio ei waith ar dair ffrwd waith benodol: Atal Sylfaenol a Hybu Iechyd; Addysg i Staff a Chleifion ac Atal Eilaidd a Bywyd ar ôl Strôc.




**Datblygiadau a gyflwynwyd yn 2023/24**

Yn ogystal â sefydlu'r unedau adsefydlu newydd a'r gwasanaethau rhyddhau'n gynnar â chymorth, mae gwaith arall ym maes strôc wedi cynnwys gweithredu meddalwedd newydd o'r enw Brainomix 360 a aeth yn fyw ledled y bwrdd iechyd ar 1 Tachwedd 2023. Bydd defnyddio Brainomix 360 yn galluogi diagnosis cyflymach ac adnabod cleifion strôc sy'n gymwys i gael thrombectomi (triniaeth i dynnu clot gwaed mewn cleifion addas). Mae'r feddalwedd yn defnyddio deallusrwydd artiffisial a dadansoddiad delweddu uwch i ddarparu cymorth cyflym a manwl gywir i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth wneud diagnosis a thrin strôc.

Yn gynnar yn yr hydref, gwahoddwyd 1,100 o oroeswyr strôc o BIPBC i gymryd rhan mewn Arolwg Cenedlaethol o Brofiad Cleifion Strôc. Derbyniwyd 139 o ymatebion. Roedd yr asesiad o ofal a gafodd cleifion gan staff pan oeddent yn ein hysbytai yn hynod gadarnhaol, yn enwedig o ran urddas a pharch. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu rhannu mewn adroddiad cenedlaethol, ynghyd ag adroddiadau byrddau iechyd lleol. Bydd ffeiliau data lle nad oes modd adnabod cleifion hefyd yn cael eu rhannu â thimau gofal strôc y Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi ymdrechion rhanbarthol i ailgynllunio gwasanaethau gofal strôc â llais y claf yn ganolog.

## Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Mae gwella iechyd a lles pobl ag anawsterau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Uwch Adran. Yn ystod 2023/24, gwireddwyd nifer o'n cynlluniau, a chafwyd newid gwirioneddol yn ein gwasanaethau. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth newydd, estynedig a gwell i'n defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

**Cynyddu mynediad amserol at gymorth**

Ym mis Ionawr 2023, lansiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ran gyntaf Llinell Gymorth GIG 111 Cymru, Pwyso 2, a dilynwyd hyn gan y lansiad llawn 24/7, ym mis Mawrth 2023. Mae Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol ymroddgar yn rhoi cymorth i bobl o bob oed sydd naill ai angen cymorth Iechyd Meddwl brys neu sy’n pryderu am anghenion Iechyd Meddwl rhywun arall. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu Gogledd Cymru a rhannau o Bowys ac mae'n rhad ac am ddim i ffonio o linell dir neu ffôn symudol hyd yn oed os nad oes gan y galwr gredyd ar ôl ar ei ffôn. Mae hyn yn golygu y gall y rhai sy'n agored i niwed yn ariannol bob amser gael mynediad at ofal.

Ers ei sefydlu ar 17 Ionawr, hyd at 31 Rhagfyr 2023, mae'r gwasanaeth wedi derbyn mwy na 11,000 o alwadau, gyda'r amser ymateb cyfartalog yn 36 eiliad. Rydym yn parhau i fonitro nifer a natur y galwadau a dderbynnir er mwyn llywio a llunio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Bu'n flaenoriaeth i'r Uwch Adran sefydlu'r gwasanaeth, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ac er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn swyddogaeth ar ei ben ei hun, ceir ymgysylltiad cadarnhaol a pharhaus â'r Uwch Adran ehangach. Mae'r ymgysylltu hwn yn caniatáu gofal cyson rhwng gwasanaethau ac yn mynd i'r afael ag anghenion a chynlluniau gofal galwyr cyson gyda dull tîm amlddisgyblaethol o ddarparu gofal parhaus.

Ym mis Medi 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r gwasanaeth gan gymheiriaid. Dywedwyd bod y gwasanaeth yn rhagorol mewn nifer o feysydd; gan gynnwys darparu gwasanaeth, y gweithlu ac arweinyddiaeth. Amlygodd yr adolygiad yr arfer rhagorol o gefnogi lles, hyfforddiant a datblygiad staff. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell rhannu'r model hwn ledled Cymru.

Yn fwy diweddar, treialwyd gwasanaeth galw'n ôl gyda chefnogaeth ein Llinell Gymorth CALL. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod llai o alwyr yn cael eu cyfeirio at Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS). Mae datblygu'r Gwasanaeth 111, Pwyso 2 ymhellach yn rhan o'n cynlluniau gwella ehangach ar gyfer Gofal Iechyd Meddwl mewn Argyfwng yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod yr haf 2023, cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu i gefnogi'r fanyleb ar gyfer Model Noddfa. Mae Modelau Noddfa yn seiliedig ar ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau i bobl sydd â risg o Argyfwng Iechyd Meddwl. Mae'n cynnig cymorth ymarferol, therapiwtig, cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn yr un modd â'r gwasanaeth 111, Pwyso 2, ni fydd hwn yn wasanaeth ar ei ben ei hun. Bydd yn cydlynu’r gofal priodol ar draws yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i roi dewis ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd yn cefnogi’r gwaith o reoli anghenion iechyd meddwl yn gynnar, gan ganolbwyntio ar leihau'r achosion sy'n gwaethygu i fod yn argyfwng, wrth gefnogi adferiad. Cefnogir y model gan Grŵp Trawsnewid a Chyflawni Gwasanaethau’r Bwrdd Iechyd ac Uwch Dîm Arwain yr Uwch Adran. Mae'n symud ymlaen i ymarfer caffael gyda’r disgwyl y bydd y gwasanaeth yn cael ei sefydlu erbyn diwedd 2024.

Cefnogir hyn hefyd gan benodiad llwyddiannus naw Ymarferydd Lles Iechyd Meddwl i'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT). Bydd y rhain i gyd yn ategu ein hystod o fentrau Gofal Heb ei Drefnu a Gofal Argyfwng yn yr Uwch Adran gyda llwybrau'n cael eu datblygu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, gan y gwasanaeth mwyaf priodol. Mae hyn yn unol â'n Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru (T4MH) a menter newydd yr Heddlu, sef Gofal Cywir, Person Cywir (RCRP). Mae'r Uwch Adran wedi bod yn bartner allweddol wrth baratoi ar gyfer y fenter ac mae cydweithwyr cenedlaethol wedi cymeradwyo ein dulliau fel arfer da.

**Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**

Yn ystod 2023/24 rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid ar draws y rhanbarth a chymryd rôl allweddol wrth ddatblygu ein strategaeth dros dro ar gyfer Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Mae hwn yn ceisio cyflawni pedair blaenoriaeth allweddol fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y cymorth cywir wrth ofyn y tro cyntaf | Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal | Optimeiddio iechyd meddwl a lles ein gweithluoedd | Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn drwy gydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl a lles da |

Mae wedi bod yn strategaeth a gyd-gynhyrchwyd sydd wedi dod ag ystod eang o bartneriaid ynghyd; gan gynnwys pobl â phrofiad bywyd, gofalwyr, Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r Trydydd Sector. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a helpodd i lunio'r strategaeth ac edrychwn ymlaen at ei lansio a chydweithio i wireddu ein huchelgeisiau ar y cyd.

**Mesurau Arbennig,** dau brif faes ffocws i'r uwch adran:

1. Adolygiad Pwyso a Mesur y Coleg Brenhinol Seiciatreg (RCPsych). Pwrpas yr adolygiad yw sicrhau bod argymhellion blaenorol o adroddiadau Iechyd Meddwl allanol wedi'u gweithredu a'u cynnal. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad bwrdd gwaith trwyadl o gynnydd a thystiolaeth yn erbyn argymhellion, ynghyd â chyfweliadau â staff perthnasol yr Uwch Adran ac ymweliadau safle mewn gwahanol leoliadau'r Uwch Adran. Mae adroddiad drafft wedi'i dderbyn gan RCPsych ac unwaith y bydd wedi'i gwblhau byddwn yn gweithio ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gofal o ansawdd a diogelwch i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.
2. Cynhaliodd yr Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) a Gweithrediaeth y GIG Adolygiad Ansawdd a Diogelwch ar y cyd ar draws yr holl Unedau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn BIPBC rhwng 25 Ebrill a 5 Mai 2023. Mae argymhellion yr adolygiad wedi'u trosi'n gynllun gwella adrannol. Mae wyth maes blaenoriaeth allweddol a phenodwyd arweinwyr ar eu cyfer. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol gan yr Uwch Adran er mwyn gwneud cynnydd â'r camau gweithredu a chynhelir adolygiad dilynol gan yr NCCU a Gweithrediaeth y GIG, gan gynnwys cyfweliadau staff ac ymweliadau safle, ym mis Chwefror 2024.

Mae'r Uwch Adran yn parhau i weithio tuag at sefydlu Fframwaith Dysgu Sefydliadol gyda chydweithwyr o BIPBC. Mae hyn yn cynnwys parhau â digwyddiadau dysgu'r Uwch Adran a

dulliau newydd o ymgysylltu â chleifion, gofalwyr a’r cyhoedd a’u cynnwys er mwyn cefnogi’r gallu i addasu i amgylcheddau newidiol a chynyddu ein heffeithiolrwydd fel uwch adran.

**Cryfhau ein dull o ymdrin â risgiau Gwrth-glymu yn dilyn Hysbysiad Tramgwyddo gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE NOC)**

Gwnaed cynnydd yn dilyn argymhellion yr HSE, a chasglwyd tystiolaeth yn dilyn marwolaeth drist claf a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cleifion mewnol.

Sefydlwyd Grŵp Lleihau Risg Achosion o Glymu yr Uwch Adran (DLRRG) ym mis Rhagfyr 2022. Erbyn canol 2023, cafodd y DLRRG sicrwydd gan bob un o’r Uwch Dimau Arwain ynghylch eu trefniadau llywodraethu ar gyfer asesu a lleihau achosion o glymu DLRRG. Mae DLRRG yn derbyn adroddiadau gan bob Uwch Dîm Arwain (SLT) lleol ar eu trefniadau clymu lleol yn ymwneud ag asesu achosion o glymu ar Adroddiad Sicrwydd safonedig.

Mae'r DLRRG wedi datblygu'r gwaith o ddatblygu pecyn Hyfforddiant Asesu Risg Achosion o Glymu Amgylcheddol hanner diwrnod, sy'n cynnwys cyfeirio at Egwyddorion a Safonau Ymarfer Cymru Gyfan o ran Asesu a Rheoli Achosion o Glymu. Mae'r hyfforddiant ar gyfer staff y mae angen iddynt ganfod risg achosion o glymu, staff o fewn MHLD Clinigol, Ystadau ac Iechyd a Diogelwch.

O 17 Ionawr 2024, mae dros 150 o staff wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn. Mae rhaglen dreigl o hyfforddiant ar waith, a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2023, ac mae dyddiadau wedi'u trefnu'n fisol yn ystod 2024. Caiff cofrestr o bresenoldeb staff ei chyflwyno yng Nghyfarfod Grŵp Lleihau Risg Achosion o Glymu yr Uwch Adran, a chaiff adroddiadau eu cyflwyno i Grŵp Cyflenwi Ansawdd Gwasanaeth MHLD (SQQDG) a'r Uwch Dîm Arwain yn rheolaidd.

Mae proses archwilio wedi cael ei datblygu ar y cyd â'r Hyfforddiant Asesu Risg Achosion o Glymu Amgylcheddol. Mae hyn yn sicrhau bod proses gadarn ar gyfer asesu achosion o glymu wedi cael ei chwblhau, gan gynnwys gwybodaeth a sgiliau, cwblhau'r rhestr wirio archwilio, cwblhau'r ôl troed ar gyfer achosion o glymu ac adolygu'r asesiadau bob mis. Cafodd yr adroddiad archwilio blynyddol cyntaf ei gwblhau ym mis Tachwedd 2023 a’i adrodd ym mis Ionawr 2024 ac mae ail archwiliad yn yr arfaeth, yn cynnwys gwaith maes, ar ddiwedd 2024. Yn ogystal â'r uchod, mae Safonau Ymarfer Cymru Gyfan wedi cyhoeddi dogfen sydd wedi'i halinio â lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag achosion o glymu mewn Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Mae gwaith yn parhau i greu cysylltiadau â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl yn Lloegr i ddatblygu meincnodi ac i ganiatáu rhannu arfer da.

Mae'r Uwch Adran wedi cwblhau dadansoddiad o'r holl achosion o glymu risg uchel, canolig ac isel, gan gynnwys y dulliau lliniaru presennol sydd ar waith. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cael ei gwblhau gan grŵp teirochrog mewnol (Clinigol, Ystadau, Iechyd a Diogelwch MHLD) yn adolygu'r holl asesiadau achosion o glymu i gleifion mewnol ar wardiau ac asesiadau allanol o achosion o glymu. Cafodd y dadansoddiad hwn ei gyflwyno yn DSLT ym mis Ionawr 2024, yn cynnwys yr argymhelliad y dylai'r grŵp teirochrog ddatblygu offeryn archwilio, cytuno ar fannau 'cyfeillio' a dyrannu cymorth prosiect yn cynnwys arbenigwr diwydiant ar achosion o glymu, gyda rhaglen archwilio i ddilyn er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig ag achosion o glymu’n cael eu canfod yn brydlon a'u lliniaru'n effeithiol.

Caiff Cynllunio Cyfalaf ac Ystadau Gweithredol wedi'u halinio â risgiau achosion o glymu eu craffu o ystyried y blaenoriaethau ariannol sy'n gwrthdaro ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae proses rheoli risg weithredol sy'n sail i flaenoriaethu cynlluniau cyfalaf sy'n cael ei rheoli trwy'r Grŵp Ystadau a Chyfalaf Uwch Adrannol misol, sy'n cael eu craffu a'u cymeradwyo trwy ein Huwch Dîm Arwain yn ogystal â Thîm Ystadau Cyfalaf y Bwrdd Iechyd.

**Gweithio tuag at y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl**

Wedi'u halinio â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, rydym wedi bod yn llwyddiannus o ran datblygu ein Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta ac Amenedigol yn ystod y flwyddyn ac mae gwelliannau pellach i ddod yn 2024/25. Ar gyfer ein Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta Arbenigol i Oedolion (SAEDS), rydym wedi recriwtio i nifer o rolau arbenigol gan wella'r arbenigedd a'r wybodaeth sylfaenol sy'n darparu ymyrraeth gynnar, triniaeth a chymorth yn y gymuned ac mewn amgylcheddau i gleifion mewnol. Mae ein tîm SAEDS sy'n cynnwys arbenigwyr ymroddedig wedi bod yn rhagweithiol o ran ymgysylltu ac atgyfnerthu llwybrau gyda gwasanaethau eraill gan gynnwys y Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth, Deieteg, y Gwasanaeth Amenedigol a'r Gwasanaeth Diabetes. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarpariaeth gwasanaeth llawn ar draws Gogledd Cymru erbyn diwedd 2024 yn unol â Safonau NICE.

Mae ein Tîm Amenedigol wedi bod yn recriwtio i swyddi arbenigol er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer darpar famau ar draws Gogledd Cymru yn unol â Safonau'r Coleg Brenhinol Seiciatreg (RC Psych). Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwasanaeth yn llwyddiannus o ran sicrhau 91% o gydymffurfiaeth â Safonau RC Psych math 1, cydymffurfiaeth o 82% â Safonau RC Psych math 2, a 83% gyda Safonau RC Psych math 3.

Mae ein tîm lleol wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu Uned ar gyfer Mamau a Babanod i gael ei hagor ar Safle Ysbyty Iarlles Caer a fydd yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth yng Ngogledd Cymru ac yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Disgwylir y bydd yr uned yn agor tua diwedd mis Hydref 2024 ac mae ein tîm lleol yn parhau i roi cymorth o ran symud ymlaen i agor yr uned er mwyn cynnig gofal yn barhaus i famau a babanod.

Deilliant allweddol arall o ran y Rhaglen Iechyd Meddwl Strategol i Gymru yw gwella'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS). Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu cynlluniau ailgynllunio gwasanaethau trwy ein Grŵp Trawsnewid Llwybrau Cymunedol trwy fabwysiadu ymagwedd gydweithredol er mwyn sicrhau arfer gorau a chyson ar draws ein timau rhanbarthol lawer. Rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol yn ein perfformiad ynghyd â darpariaeth gofal yn unol â Rhannau 1a Mesur Iechyd Meddwl (Cyfeirio ac Asesu) a Rhan 1b (Ymyrraeth) yn ogystal â lleihad mewn amseroedd aros ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth. Mae tîm o arbenigwyr sy'n cofleidio ymagwedd fesul cam tuag at newid gwasanaethau ac sy'n llywio'r newid hwnnw mewn modd cydweithredol yn cynnal y broses gyflwyno well. Mae recriwtio wedi cael ei gynnal i lenwi swyddi ac mae dull gweithredu safonol wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo ac mae gwasanaethau wrthi'n gweithio ar ei roi ar waith yn llawn. Mae'r grŵp wedi hybu'r broses o gyflwyno a hyfforddi Attend Anywhere ar draws y Timau LPMHSS, a fydd yn sail i ddarparu asesiadau mewn modd gwydn, lleihau amseroedd teithio a rhoi cymorth i gleifion gael mynychu apwyntiadau'n hwylus. Mae gwaith gwella i ategu cydymffurfiaeth yn unol â Rhannau 1 y mesur yn cael eu hymestyn i gynnwys gwelliannau i Ran 2 y mesur a fydd yn mynd i'r afael ag agweddau clinigol a gweithredol.

Y camau nesaf fydd i LMPHSS gysylltu'n weithredol ac i ddysgu o roi Gwasanaeth GIG 111, Pwyso 2 ar waith.

**Mentrau Gwella Pellach**

Mae'r Cynllun Gwella Uwch Adrannol (DIP) yn gynllun wedi'i driongli yn cynnwys yr argymhellion o adolygiadau allanol a gynhaliwyd cyn 2023 gyda chamau gweithredu diffiniedig i gyflawni'r lefel o welliant sydd ei angen ac i'w gynnal. Mae hyn wedi bod yn cael ei ddatblygu gydag arweinwyr allweddol sydd wedi cael eu henwebu ar draws yr Uwch Adran i lywio'r gweithgarwch ac adrodd cyfunol. Mae dangosfwrdd wedi cael ei ddatblygu i gynnal cynnydd wedi'i dargedu, i ddarparu adroddiad cipolwg misol ac i ganiatáu ar gyfer monitro perfformiad yr Uwch Adran er mwyn amlygu unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen mewn meysydd lle bo perfformiad gwael. Rydym hefyd wedi dyfeisio a gweithredu methodoleg brosiect ar gyfer ein blaenoriaethau gwella er mwyn sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei mabwysiadu ar gyfer y timau.

Mae MHLD wedi rhoi cymorth o ran datblygu Hwb Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed. Mae'r platfform ar gyfer staff sydd wrthi'n chwilio am gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad, er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â rheoli ac atal hunanladdiad a hunan-niwed (http://www.sshp.wales/cy/). Mae Modiwl E-ddysgu Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad hefyd wedi cael ei lansio ar ESR ac ar Dysgu Cymru. Mae'r rhaglen Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS) wedi bod yn weithredol am ei blwyddyn lawn gyntaf, ac mae wedi bod yn anhepgor o ran llywio'r gwaith atal yng Ngogledd Cymru trwy'r Fforwm Aml-asiantaethol.

Mae MHLD hefyd yn arwain ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn rhanbarthol tan fis Mawrth 2024, gan gynnig cyfleoedd i feithrin partneriaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Byrddau Iechyd eraill a phartneriaid ar draws Cymru. Gwnaeth Fforwm Hunanladdiad a Hunan-niwed Gogledd Cymru gynnal digwyddiad ymgysylltu llwyddiannus ym mis Tachwedd 2023, gan groesawu dros 90 o bartneriaid, a oedd yn cynnwys dysgu, rhwydweithio a gweithgarwch mapio ar draws Gogledd Cymru. Mae Digwyddiad Darganfod ar gyfer Dynion wedi'i drefnu ym mis Mawrth 2024 ar ôl llwyddiant digwyddiad tebyg yn Ne Cymru. Yn ystod y flwyddyn, mae hyn wedi arwain at sefydlu pum is-grŵp â thema benodol i'r fforwm, Cynllun Peilot Ymateb Cyflym yng Nghonwy, a dau brosiect aml-asiantaethol sy'n canolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder. Mae cynllun proffil rhanbarthol yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar weithgareddau'r fforwm a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2024.

Mae ein Tîm Ymyrraeth Gynnar ar gyfer Seicosis (EIP) sefydledig yn rhoi cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 35 oed sy'n dangos pwl cyntaf o salwch seicotig. Mae model gwasanaeth newydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer gwasanaeth EIP, sy'n cynnwys cynllun gweithredu a recriwtio. Mae Tîm Ardal y Dwyrain wedi dod yn gwbl weithredol bellach gan roi cymorth i nifer uwch na'r disgwyl o bobl ifanc. Mae archwiliadau wedi dechrau i wella'r gwasanaeth ymhellach, ac mae'r canfyddiadau wedi arwain at ehangu arfaethedig hefyd.

Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer gwelyau ychwanegol er mwyn cynyddu derbyniadau i Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd ar gyfer pobl hŷn sydd ag anhwylderau meddwl gweithredol. Ar hyn o bryd, caiff cleifion o Wynedd ac Ynys Môn eu derbyn i Uned Ablett ac Uned Heddfan ac, mewn rhai achosion, i leoliadau y tu allan i'r ardal. Bydd datblygu darpariaeth weithredol ar gyfer oedolion hŷn yn Uned Hergest yn arwain at gynnig eu gofal yn nes at y cartref a bydd yn caniatáu darparu gofal teg ar draws Gogledd Cymru ar gyfer ein poblogaeth hŷn sy'n cynyddu.

Rydym yn gweithio fel rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) i ddatblygu Llwybr Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS) rhanbarthol a fydd yn wasanaeth hawdd cael mynediad ato, a fydd yn canolbwyntio ar unigolion ac a fydd yn deg i bobl â dementia a'u gofalwyr sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal, mae Rheolwr Gwella MAS a Gweithiwr Olrhain MAS wedi'u penodi

er mwyn lleihau amseroedd aros am y Clinig Cof ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn y contract rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau cymorth cyn asesu ac ar ôl diagnosis yn y trydydd sector er mwyn gwella darpariaeth gofal Dementia.

Mae darpariaeth gwelyau ar gyfer unigolion hŷn a gwaith gwella MAS yn rhan o'n rhaglen hirdymor ar gyfer unigolion hŷn sydd ag anghenion iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi myfyrio ynghylch meincnodi cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl unigolion hŷn ar draws y DU ac, ynghyd â'n data am iechyd cyhoeddus a phoblogaeth, rydym wedi canfod yr angen i ddatblygu cynlluniau strategol ar gyfer anghenion ein poblogaeth yn y dyfodol. Bydd darparu gofal ar ôl rhyddhau o'r ysbyty sy'n briodol ac sy'n caniatáu i ni drosglwyddo gofal yn brydlon ac yn briodol er mwyn caniatáu gwell llif trwy ein lleoliadau i gleifion mewnol yn allweddol i hyn.

Fel rhan o'n darpariaeth gwasanaeth gwell ac estynedig, cytunwyd ar gyllid ar gyfer prosiect i gyflwyno Ymagweddau sy'n Ystyriol o Drawma (TIA) o ran agweddau cleifion mewnol a chymunedol ar Wasanaeth Fforensig Gogledd Cymru a Gwasanaethau Adsefydlu Arbenigol. Caiff y gwasanaeth hwn ei ddatblygu trwy bedair lefel ddiffiniedig Fframwaith Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma Cymru (2022):

1. Ymwybyddiaeth o drawma
2. Sgiliau o ran trawma
3. Gwella trawma
4. Ymyriadau arbenigol

Hyd yma, rydym wedi recriwtio nifer o staff arbenigol sydd wedi bod yn datblygu'r deunyddiau cyntaf ar gyfer y Grŵp Addysg Seicoleg cyntaf ac rydym yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn sicrhau bod gennym weithlu sydd â sgiliau Trawma Lefel 2 erbyn diwedd 2024/25.

Mae ein Gwasanaethau Anableddau Dysgu i Oedolion wedi bod yn llwyddiannus o ran datblygu rhaglen wella sy'n cynnwys ein Gwasanaeth Cleifion Mewnol, Cymunedol a Gwasanaeth Preswyl Estynedig yn y Gymuned (ECRS) sydd wedi'i alinio â Grŵp Gwella Cenedlaethol Anableddau Dysgu. Mae gwaith partneriaeth wedi cael ei atgyfnerthu, gyda chymorth tîm Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, er mwyn atal derbyniadau i ysbytai. Mae hyn wedi'i alinio â'n darpariaeth camu i fyny, camu i lawr trwy sicrhau cyllid Accessing Housing with Care i ddatblygu adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd ac mae eiddo hunangynhwysol newydd eisoes wedi'i ganfod yn ardal y Dwyrain.

Rydym wedi creu a phenodi Ymarferydd Arbenigol am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd, i ddatblygu menter "Lab yn y Bag", sydd â'r nod o ymgysylltu ag oedolion sydd ag Anabledd Dysgu sy'n gymwys ar gyfer Gwiriadau Iechyd Blynyddol (AHC) yn eu cartrefi eu hunain. Mae Ymarferwyr Anableddau Dysgu yn cydweithio â meddygon teulu i hwyluso gwiriadau iechyd blynyddol (AHC) rhithiol er mwyn sicrhau mynediad hwylus. Mae'r rhaglen hon ar waith, ac mae'r niferoedd sy'n manteisio arni wedi cynyddu'n ddiweddar, ynghyd â ffocws penodol ar unigolion anodd eu cyrraedd mewn ardaloedd gwledig. Mae ein Gwasanaethau Cyswllt Iechyd Anableddau Dysgu Sylfaenol wedi blaenoriaethu eu cymorth i feddygon teulu ar draws Gogledd Cymru er mwyn gwella'r niferoedd sy'n manteisio ar wiriadau iechyd blynyddol o gymharu â lefelau cyn y pandemig.

Mae ein Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau wedi bod yn gwella o ran rhagnodi Buvidal, er mwyn cynorthwyo a thrin pobl sy'n ddibynnol ar opiadau i sicrhau darpariaeth sy'n symlach ac yn fwy hygyrch. Mae chwech o blith saith clinig Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau lleol yn weithredol o ran dosbarthu Buvidal, a fyddai'n cael ei ddosbarthu'n flaenorol o'r Fferyllfa ar ôl cael ei ragnodi yn y Clinig Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddol gan Nyrs Gofrestredig. Y nod yw na fyddai gofyn i glaf sy'n derbyn pigiad Buvidal® fynd i fferyllfeydd yn rheolaidd, ac mae hynny'n annog ymatal rhag cymryd opiadau.

Yn ogystal â'n gwasanaethau mewnol, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn nifer o wasanaethau wedi'u comisiynu gan gynnwys ein Hybiau Ymyrraeth Gynnar Fedra' i, Gwasanaethau Ymyrraeth Therapiwtig a Gwasanaethau Eirioli a Chymorth i Ofalwyr. Yn ystod 2023 a dechrau 2024, rydym wedi cyfuno ein contractau a'n gwasanaethau gan greu cysylltiadau gwell â'n gwasanaethau mewnol craidd er mwyn sicrhau ymagwedd system gyfan tuag at ofal, cymorth a thriniaeth pobl. Rydym wedi symud at ddulliau monitro sy'n canolbwyntio i raddau helaethach ar ganlyniadau er mwyn dangos y gwahaniaeth y gall gwasanaethau eu gwneud i les ac Iechyd Meddwl ein dinasyddion.

**Ein Galluogwyr Uwch Adrannol**

**Ein Staff**

Mae ein staff yn ased hollbwysig sy'n parhau i fod wrth wraidd pob un o'n gwasanaethau. Mae'n hollbwysig ein bod yn rhoi cymorth iddynt o ran hyfforddiant ac adnoddau o ran eu datblygiad proffesiynol parhaus a'u lles, gan gydnabod ein bod yn gweithio mewn amgylchedd cyfnewidiol, emosiynol a heriol.

Mae cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Gorfodol yn yr Uwch Adran yn gyson uwch na tharged y Bwrdd Iechyd ac mae'r Uwch Adran wedi cynyddu nifer yr hyfforddwyr er mwyn darparu hyfforddiant a chymorth gan gymheiriaid ar gyfer staff ar draws MHLD. Mae cydymffurfiaeth â PADR yn MHLD wedi rhagori ar darged y Bwrdd Iechyd ar gyfer y chwe mis blaenorol.

Er bod recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn her i'r Uwch Adran, gyda chyfradd o 15% ar gyfer swyddi gwag, mae cyfradd trosiant staff wedi lleihau o 1.5% dros y 12 mis diwethaf ac rydym hefyd wedi llwyddo i leihau swyddi gwag nyrsio o 44.5 sy'n Gyfwerth ag Amser Llawn (WTE) yn yr un cyfnod. Mae gwariant ar asiantaethau wedi lleihau'n sylweddol ac er mwyn denu rhagor o staff, rydym wedi atgyfnerthu ein presenoldeb ar wefan Hyfforddi, Gweithio, Byw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ers Hydref 2023, mae hyn wedi arwain at dderbyn 398 o ymholiadau ynghylch recriwtio, ac mae 174 o'r rhain ar gyfer gwaith Banc. Rydym yn parhau i ymgysylltu â phrifysgolion lleol ac yn mynd i ddigwyddiadau recriwtio. Mae proses y gronfa dalentau arloesol yr ydym wedi'i chreu wedi arwain at benodi 33 o staff pellach ers iddi gael ei rhoi ar waith.

Mae Lles, Gwaith a Ni (WW&U) yn adnodd pwrpasol ar gyfer staff MHLD ac mewn cyfnod o 10 mis o Ionawr 2023, mae 215 o staff wedi manteisio naill ai ar Gwnsela, Hyfforddiant neu gymorth emosiynol, yn hafal i ychydig llai na 10% o'r gweithlu uwch adrannol. Trwy gynnig cymorth hyblyg, prydlon, ystyriol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i staff MHLD, mae'r gwasanaeth Lles, Gwaith a Ni wedi arwain at leihad mewn absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen ac mae staff wedi gallu aros yn y gwaith neu i ddychwelyd gan deimlo bod eraill yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi. Pan fydd staff yn teimlo'n gyfforddus a bod eraill yn eu cefnogi, caiff ansawdd rhyngweithiadau â chleifion ei wella, gan arwain at ofal diogelach a mwy effeithiol ar draws yr Uwch Adran MHLD.

**Galluogi Digidol**

Yn dilyn cwblhau ymarfer cwmpasu digidol yn llwyddiannus ar draws Gwasanaethau MHLD y llynedd, rydym wedi ystyried y risgiau sydd gennym. Mae lefel y newid sydd ei angen a goblygiadau gwneud y newidiadau hynny wedi symud yn gyflym at y cam datrys. Gwnaeth hyn gyd-daro â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â dilyn System V5 Cyfarwyddo Gofal WCCIS fel y cynigiwyd ac yn hytrach, i gefnogi caffael datrysiad digidol sy'n benodol i Iechyd Meddwl.

Oherwydd y risg a ganfuwyd trwy ein gwaith cwmpasu, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno bod Gwasanaethau MHLD y Bwrdd Iechyd yn flaenoriaeth o ran datblygu dulliau galluogi digidol prydlon. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cefnogi manyleb y system trwy ymgysylltu'n weithredol â staff sydd wedi amlinellu'r gofynion ar draws ein hystod gymhleth o ddarpariaeth gwasanaeth.

Rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes cenedlaethol ar gyfer system yn ogystal â'r achos busnes lleol ar gyfer rhoi adnoddau ar waith. Mae gwaith o ran datblygu achos busnes MHLD hefyd yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ategu dysgu o ddatrysiadau er mwyn cynorthwyo wrth osod systemau newydd mewn meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle rhai a oedd yn rhan o Raglen WCCIS gynt.

Caiff yr achosion busnes eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon a byddwn yn symud at y cam caffael yn 2024 a hyd at 2025.

**Ystadau**

Mae ôl troed ystâd yr Uwch Adran yn fawr ac yn amrywiol yn cynnwys darpariaeth gymunedol a darpariaeth i gleifion mewnol ar safleoedd ein Hysbytai Cyffredinol. Eleni, rydym wedi cwblhau ymarfer mapio o ôl troed yr ystâd sydd, ynghyd ag allbynnau o Strategaeth Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn gweithredu fel sail i ddatblygu ein Strategaeth Ystadau ar gyfer yr uwch adran. Mae llety addas ar gyfer cleifion a staff yn hollbwysig i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer ein dinasyddion ac eleni, rydym wedi atgyfnerthu ein dulliau llywodraethu a chynrychiolaeth yng ngrŵp Ystadau a Chyfalaf yr Uwch Adran (DECG) er mwyn sicrhau lefelau o atebolrwydd a bod modd i'n hanghenion Ystâd a Chyfalaf gael eu blaenoriaethu ar sail risg. O ganlyniad, rydym wedi mireinio ein prosesau ac rydym wedi meithrin perthnasau mwyfwy cadarnhaol gyda'n cydweithwyr ym maes Cyfalaf ac Ystadau. Eleni, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Datblygu achos busnes llawn ar gyfer y datblygiad i gleifion mewnol yn y canol ar safle Ysbyty Glan Clwyd
- Wedi cyfrannu at wasanaethau a'u hadleoli yn natblygiad Plas Gororau yn Wrecsam
- Wedi atgyfnerthu ein hymagwedd tuag at asesu risg Gwrth-glymu, lliniaru a gwaith
- Wedi sicrhau cyllid Cyfalaf allanol trwy Fwrdd Cynllunio'r Ardal ar gyfer Datblygiad Roslin yn Llandudno, sydd â'r nod o fod yn gartref i Wasanaethau Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau
- Parhau â gwaith integredig gyda Chymunedau Iechyd Integredig (IHC) o ran y potensial am brosiectau ystadau cyfalaf ar y cyd, yn anad dim gydag arian IRFC

## Gweithio i Wella – Gofynion Adrodd ar Ansawdd

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ar 1 Ebrill 2023, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r ddyletswydd yn amlinellu'r camau nesaf yn ein taith gwelliannau ansawdd i sicrhau gwasanaethau sy'n fwy agored, yn fwy tryloyw ac sy'n dysgu. Mae'n diffinio ansawdd fel 'diwallu anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu'n barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy'.

Nodau'r ddyletswydd yw:

- Gwella ansawdd gwasanaethau iechyd
- Canlyniadau gwell i'r boblogaeth yng Nghymru

Pedair cydran allweddol y ddyletswydd ansawdd yw:

1. Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal
2. Penderfyniadau wedi'u llywio gan ansawdd
3. Systemau Rheoli Ansawdd
4. Adrodd ar Ansawdd

Mae gofyn i bob Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth y GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig Cymru Gyfan gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau y mae wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymarfer eu swyddogaethau gyda'r bwriad o wella ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad i ba raddau y caiff unrhyw welliant o ran canlyniadau ei gyflawni trwy'r camau hynny. Awgrymir hefyd y dylai cyrff y GIG alinio'r adroddiad ansawdd blynyddol â'u proses ar gyfer yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

Yn ogystal â'r gofyniad adrodd blynyddol, cynigir y dylai cyrff y GIG ddatblygu mecanwaith adrodd o'r enw 'Ar gael bob amser'. Mae 'Ar gael bob amser' yn golygu bod sefydliadau'n coladu, yn monitro ac yn sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd eu gwasanaethau ar gael yn hwylus i'w poblogaeth. Mae adrodd trwy ddulliau 'Ar gael bob amser' yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar ymagwedd system gyfan tuag at ddefnyddio gwybodaeth ar draws eu system rheoli ansawdd yn rheolaidd. Mae dulliau 'Ar gael bob amser ' yn annog cydnabyddiaeth a rhannu arfer da ac uwchgyfeirio ac ymyrraeth gynnar pan fo'r arwyddion yn dangos bod angen cymryd camau.

Fel y cyfryw, bydd y Bwrdd Iechyd yn paratoi Adroddiad Ansawdd Blynyddol i gyd-daro â'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gofynion adrodd statudol eraill ar gyfer ansawdd yn cynnwys Gweithio i Wella a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn amlinellu ein taith ansawdd; o edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer 2023/24, i edrych ymlaen at 2024-25 gan gynnwys y cynnydd a wnaed gyda Mesurau Arbennig a datblygu Dangosfwrdd Ansawdd a System Rheoli Ansawdd. Mae'r cyfan yn allweddol i ni ddod yn sefydliad sydd wedi'i lywio gan ansawdd, dysgu ac sy'n gwella ei hun.

## Perfformiad Ariannol

### Cyflawni Dyletswyddau Ariannol

Mae Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn gosod dwy ddyletswydd ariannol ar Fyrddau Iechyd Lleol:

- Perfformiad Adnoddau Refeniw: dyletswydd i sicrhau nad yw ei wariant yn mynd dros gyfanswm y cyllid a ddyrennir iddo dros gyfnod o dair blynedd ariannol.
- Cynllunio integredig: Dyletswydd i baratoi cynllun, yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio a roddwyd gan Weinidogion Cymru, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r perfformiad adnoddau Refeniw gan wella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a darparu gofal iechyd ar gyfer y bobl hynny, ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.

### Perfformiad Adnoddau Refeniw

Mewn perthynas â'r ddyletswydd gyntaf, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli ei wariant o fewn y cyllid cyfanredol a ddarparwyd dros y cyfnod rhwng 2022/23 hyd at 2023/24, felly nid yw wedi cyflawni'r ddyletswydd gyntaf. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gadarnhau i Lywodraeth Cymru trwy lythyr gan Swyddog Atebol nad oedd yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i gynhyrchu IMTP tair blynedd, gan nad oedd yn gallu cyflawni balans ariannol dros gyfnod o dair blynedd. Yn ogystal, wrth fynd i'r afael â Blaenoriaethau'r Gweinidogion a amlinellwyd yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, ni allai'r Bwrdd Iechyd gyflawni pob un o'r targedau perfformiad gofynnol. Yn hytrach na hynny, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24, a oedd yn canolbwyntio ar sefydlogi ac adfer. Mae’r sefyllfa gyfanredol i’w gweld yn y tabl isod.

| | 2021/22 £000 | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | 1,873,353 | 1,991,335 | 2,158,812 | 6,023,500 |
| Llai o wariant ar wasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant cyfyngedig arall nad yw'n arian parod | 637 | 1,790 | 1,777 | 4,204 |
| Cyfanswm costau gweithredu | 1,873,990 | 1,993,125 | 2,160,589 | 6,027,704 |
| Dyrannu Adnoddau Refeniw | 1,874,279 | 1,993,514 | 2,136,242 | 6,004,035 |
| **Tanwariant / Gorwariant yn erbyn Dyraniad** | **289** | **389** | **(24,347)** | **(23,669)** |

Caiff y rhan fwyaf o gyllid ar gyfer gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2023/24, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd dros ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi adrodd ar ddiffyg o £24.3 miliwn.

Roedd yr alldro hwn yn ddibynnol ar nifer o ffynonellau cyllid anghylchol a chymorth strategol o £82m gan Lywodraeth Cymru. Mae diffyg isorweddol sylweddol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn her. Y diffyg cychwynnol arfaethedig ar gyfer 2024/25 yw £19.7 miliwn.

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd dderbyn cymorth strategol ychwanegol ar ffurf arian parod yn unig o £27.0 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysordy Ei Fawrhydi, mae sail y pryder parhaus o ran cyfrifyddu wedi cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd wrth baratoi’r datganiadau ariannol, lle y disgwylir i’r holl wasanaethau a ddarperir barhau yn y dyfodol.

**Cynllunio Integredig**

Roedd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer y cyfnod 2023-2026 a roddwyd i Fyrddau Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno Cynllun Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2023/24, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2023.

Felly, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei ddyletswydd statudol i baratoi cynllun integredig tair blynedd.

**Mesurau Perfformiad Ariannol Eraill**

Asedau cyfalaf

Mae gan y Bwrdd Iechyd sylfaen asedau cyfalaf sylweddol (dros £800 miliwn a ddangosir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o 31 Mawrth 2024) ac mae'n derbyn cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn unol â hynny. Yn 2023/24, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei raglen gyfalaf gytunedig ac mae wedi adrodd ar danwariant bach o ran Dyrannu Adnoddau Cyfalaf, o £0.194 miliwn.

Rheoli arian parod

Mae gofyn i Fyrddau Iechyd reoli llifoedd arian parod a llifoedd arian parod allan sylweddol, ac i wneud hynny'n effeithiol o fewn y ffynonellau cyllid cysylltiedig a hynny wrth gyflawni rhwymedigaethau talu i staff, cyflenwyr ac awdurdodau (megis Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi). Mae crynodeb o lifoedd arian parod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn wedi'i ddangos yn y Datganiad o Lifoedd Arian Parod yn y cyfrifon blynyddol (gweler tudalen 115).

Mae gofyn i Fyrddau Iechyd dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn rhai GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys p'un bynnag sydd hwyrach; gwnaeth perfformiad yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 ddisgyn ychydig islaw'r gofyniad gyda chanran o 94.5%.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn manylu ar y ffordd y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, weithio er mwyn gwella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn peri i ni feddwl ymhellach am y tymor hir a sut mae'n rhaid i ni feddwl yn wahanol er mwyn gwella llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau sydd i ddod.

Er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio at yr un diben, mae'r Ddeddf yn gosod saith nod ar gyfer llesiant ac mae'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i ni weithio i gynyddu ein cyfraniad at bob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau ohonynt:


**Cymru Lewyrchus**


**Cymru Wydn**


**Cymru Iachach**


**Cymru sy'n Fwy Cyfartal**


**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**


**Cymru o Gymunedau Cydlynus**


**Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd, a chyrff cyhoeddus rhestredig eraill, osod a chyhoeddi amcanion llesiant ac i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai datblygu cynaliadwy gael ei ymgorffori yn y prosesau corfforaethol presennol ac i beidio â chael eu trin ar wahân i osod amcanion sy'n sail i'n gweithredoedd a'n penderfyniadau.

Ein hamcanion llesiant yw:

- gwella iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl a llesiant i bawb
- targedu ein hadnoddau at y rhai sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau
- cynorthwyo plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - er mwyn sicrhau eu llesiant eu hunain
- gwella diogelwch ac ansawdd pob gwasanaeth
- parchu pobl a'u hurddas
- gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau

Wrth gyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau trwy arloesi ac ymchwil
- cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff i ragori

Mae'r amcanion llesiant yn sail i wella sut rydym yn gweithio fel Bwrdd Iechyd integredig i wella iechyd a llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae ein Cynllun Blynyddol a'n Cynllun Cyflawni Tair Blynedd 2024 – 2027 yn amlinellu camau gweithredu clir a CAMPUS i'w cyflawni yn erbyn blaenoriaethau gan restru nodau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach. Rydym hefyd wedi datblygu cyfres o fetrigau clir sy'n ein helpu i ddeall faint rydym wedi'i wneud a pha mor dda rydym wedi gwneud hynny. Rydym yn cynyddu ein ffocws a'n heffeithlonrwydd i fireinio llwybrau o ansawdd uchel sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth i danategu a chyflawni strategaeth hirdymor Byw'n Iach, Aros yn Iach a Strategaeth Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd.

Yn 2022, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyhoeddi Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio (DAP) pum mlynedd gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael ag allyriadau carbon ar draws yr holl nwyon tŷ gwydr ac allyriadau gan gynnwys rhai o adeiladau, defnyddio tir, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr, caffael nwyddau a gwasanaethau a darpariaeth gofal iechyd clinigol ehangach. Mae hefyd yn rhoi ffocws ar yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu ac ailwampio. Mae DAP y Bwrdd Iechyd yn ymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod â statws sero net o ran allyriadau carbon erbyn 2030. Cyfraniad GIG Cymru at y targed sero net o ran carbon yw lleihau carbon o 16% erbyn 2025 a 34% erbyn 2030. Mae Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio yn goruchwylio'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar waith.

Mae gwybodaeth am ein gwaith i gynnal a hybu'r Gymraeg wedi'i chynnwys ar dudalennau 73 a 75 o'r adroddiad hwn.

**Mabwysiadu'r Pum Ffordd o Weithio**

Mae pum ffordd o weithio wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf sy'n sail i'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy:



**Cydweithio** | **Tymor Hir** | **Atal** | **Cynnwys** | **Integreiddio**

Trwy gydol y broses o ddatblygu ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24, gwnaethom geisio defnyddio'r pum ffordd o weithio er mwyn llywio ein penderfyniadau ac i'n helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu y byddwn yn eu dilyn er mwyn gweithio tuag at ein hamcanion llesiant, gan gyfrannu yn ei dro at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae gwaith pellach gyda phartneriaid wedi cael ei ddatblygu trwy'r byrddau partneriaeth ffurfiol - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, a Sir y Fflint a Wrecsam).

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)**

<u>Cefndir</u>

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gydweithredu â Phartneriaid i ffurfio Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) i baratoi a chyhoeddi Cynllun Ardal pum mlynedd yn amlinellu ystod a lefel y gwasanaethau i gael eu darparu mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys adnoddau i gael eu defnyddio. Mae gofyn i Fyrddau Iechyd amlinellu camau gweithredu a gynigir mewn perthynas â'r ddyletswydd ac i ystyried pwysigrwydd camau gweithredu ataliol.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn hwyluso'r trefniadau partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a phartneriaid eraill o ran parhau i ddarparu gwasanaethau integredig yn effeithiol yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2023/24, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael ei gadeirio gan Ddeilydd Portffolio Gofal Cymdeithasol Oedolion ac Aelod Etholedig Cyngor Gwynedd - y Cynghorydd Dilwyn Morgan. Caiff rhaglen waith y Bwrdd ei chefnogi gan Dîm Cydweithio Rhanbarthol a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych.

Cynllun Ardal Rhanbarthol

Gwnaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gyhoeddi ei Gynllun Ardal Rhanbarthol ym mis Ebrill 2023. Mae hwn yn amlinellu sut bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i ymateb i ganfyddiadau Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Gwnaeth y Bwrdd gyhoeddi diweddariad ar yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad hefyd.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni blaenoriaethau o ran gwaith integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol ar gyfer y grwpiau poblogaeth canlynol:

- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Pobl hŷn gan gynnwys pobl sydd â dementia
- Pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol
- Gofalwyr di-dâl
- Pobl ag anghenion emosiynol a llesiant iechyd meddwl

Caiff cynnydd o ran y Cynllun ei rannu bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF) yn gronfa bum mlynedd (Ebrill 2022 hyd at Fawrth 2027) i gynnal integreiddio a gwaith partneriaeth ar gyfer y grwpiau poblogaeth blaenoriaeth a ddisgrifir uchod.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi arwain ar ddatblygu a gweithredu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae rhaglen Cronfa Integreiddio Rhanbarthol 2023/24 yn cynnwys 35 o gynlluniau ar draws y chwe Model Gofal cenedlaethol.

Cyfanswm y buddsoddiad mewn cynlluniau a gwasanaethau (ac eithrio costau seilwaith a rheoli rhaglenni) ar gyfer y flwyddyn yw £57,169,751. Mae hyn yn cynnwys £29,705,054 o gyllid gan Lywodraeth Cymru a £27,464,697 o gyllid craidd gan bartneriaid. Caiff £5,413,163 ei buddsoddi mewn cynlluniau sy'n cynorthwyo gofalwyr di-dâl yn uniongyrchol. Caiff £5,671,244 ei buddsoddi mewn cynlluniau gwerth cymdeithasol.

Mae buddsoddi yn y chwe model gofal cenedlaethol i'w weld yn y tabl isod -

| Model Gofal | Nifer y Rhaglenni Rhanbarthol | % | Cyfanswm Buddsoddiad | Cyllid gan Lywodraeth Cymru | Arian Cyfatebol gan Bartneriaid | Adnoddau Cyfatebol gan Bartneriaid | Gwariant Diwedd Blwyddyn Cyllid Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | £ | £ | £ |
| Gofal yn y Gymuned - Atal a Chydlynu | 13 | 16% | 9,309,043 | 7,291,869 | 1,748,528 | 268,647 | 7,291,869 |
| Gofal yn y Gymuned - Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref | 6 | 42% | 23,975,899 | 6,845,439* | 15,100,093 | 2,030,367 | 6,845,439 |
| Gartref o'r Ysbyty | 3 | 8% | 4,635,868 | 3,725,125* | 472,637 | 438,106 | 3,725,125 |
| Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig ar gyfer plant sydd wedi profi gofal | 6 | 28% | 15,740,956 | 9,920,441 | 4,049,993 | 1,770,521 | 9,920,441 |
| Datrysiadau o ran Llety | 3 | 2% | 1,100,977 | 742,317 | 313,952 | 44,708 | 742,317 |
| Hybu iechyd a llesiant emosiynol da | 4 | 4% | 2,497,927 | 1,270,782 | 844,332 | £382,813 | 1,270,782 |
| **Cyfanswm** | **35** | **100 %** | **57,260,670** | **29,795,973** | **22,529,535** | **4,935,162** | **29,795,973** |

Mae'r holl gynlluniau'n adrodd yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad Cymru Gyfan.

Gogledd Cymru gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Mae Gogledd Cymru gyda'n Gilydd yn brosiect a ariennir trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i roi cymorth i bobl a sefydliadau er mwyn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu'n gallu byw bywyd gwych. Mae'r tîm yn gweithio gyda llawer o wahanol bobl a sefydliadau er mwyn canfod beth sy'n gweithio'n dda, a sut y gallwn roi cymorth ar ffurf newidiadau lle bo angen amdanynt.

Mae cynnydd yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

- datblygu Strategaeth Ranbarthol Cyflogaeth â Chymorth ac, yn ardal y Canol, peilota model sy'n rhoi cymorth i bobl ag anableddau dysgu o ran cael mynediad at gyflogaeth am dâl. Caiff y model hwn ei gyflwyno ar draws y rhanbarth yn 2024-2025.
- cymorth hwb un i un a hyfforddiant hygyrch gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o dechnoleg ar gyfer y rhai sydd ag anabledd dysgu a'r gweithlu sy'n eu cefnogi.
- gweithio gyda chydweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar fersiwn integredig o Gynllun Gweithredu Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol.
- ariannu swydd rheoli prosiect yn Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r broses o ailgynllunio'r gwasanaethau nyrsio preswyl presennol er mwyn caniatáu darparu gofal yn nes at y cartref i bobl sydd ag anghenion cymhleth. Datblygu llety yn Nwyrain a Gorllewin y rhanbarth a bydd lleoliadau ar gael yn 2024-2025.
- comisiynu gweithgareddau ar gyfer Oedolion, Plant ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.
- datblygu pecyn offer taliadau uniongyrchol a hyrwyddo taliadau uniongyrchol.
- comisiynu Gwasanaeth Cyngor a Chymorth trydydd sector ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt symud at wasanaethau oedolion.
- comisiynu a chydgyllido 'prosiect gwirio a sgrinio iechyd' dan arweiniad cymheiriaid.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant

Mae is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (CRPB) yn gweithredu gyda'r nod o ddiwallu anghenion Plant a Phobl Ifanc sydd ag anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth. Mae'r strwythur llywodraethu wedi'i ddiwygio erbyn hyn ac mae bellach yn cynnwys Bwrdd Trawsnewid Rhanbarthol Plant, er mwyn rhoi tryloywder i'r rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno, i osgoi unrhyw ddyblygu ac i weithio'n unol â'r egwyddorion a geir yn fframwaith NYTH (sef offeryn cynllunio ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a’u teuluoedd ehangach ar draws Cymru).

Mae pob un o'r tair ardal, y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin, yn canolbwyntio ar roi cymorth ar gyfer y rhai sy'n niwroamrywiol (ND) ac sydd naill ai ar y rhestr aros am ddiagnosis neu sydd eisoes â diagnosis.

Bydd ardal y Dwyrain yn canolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Bydd ardal y Canol yn canolbwyntio ar blant 0-7 mlwydd oed.

Yn ardal y Gorllewin, mae Gwynedd a Môn yn gweithio ar garfanau gwahanol:

- Bydd Môn yn canolbwyntio ar ymyrraeth ac ataliaeth gynnar ac mae'n cyflwyno Teulu Môn i gyflawni ymagwedd Tîm Amlddisgyblaethol yn seiliedig ar y pum ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd ym mhob dalgylch.
- Mae Gwynedd yn canolbwyntio ar achosion cymhleth, ac mae wedi sefydlu Tîm Amlddisgyblaethol sydd ag ethos ataliol i gynorthwyo plant a phobl ifanc gyda'r nod o'u hatal rhag bod yn destun gofal, lle bo'n bosibl.

Bydd yr ymagweddau gwahanol yn helpu i ganfod heriau a chyfleoedd a rhannu arfer da ar draws y rhanbarth.

Mae cydgynhyrchu a gweithdai adrodd straeon wedi arwain at drafodaethau cyfoethog lle gwelwyd y canlynol:

- sefydlwyd y dylai gwerthoedd ac egwyddorion craidd danategu a bod yn sail i bob agwedd ar y gwaith yn y dyfodol
- cyd-ddiffiniwyd cenhadaeth y Bwrdd
- cyflwynwyd dulliau dysgu deialog er mwyn darparu ffordd ddiddorol ac ymarferol o ran rhoi straeon ar waith
- adolygwyd a chadarnhawyd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen waith ddwy flynedd.

<u>Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol</u>

Nod yr Hwb yw cydlynu ymchwil, arloesi, a gweithgarwch gwella ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, i ategu gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae uchafbwyntiau 2023-2024 yn cynnwys:

- casglu tystiolaeth a dod â phobl at ei gilydd er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i broblemau cymhleth, gan gynnwys:
    - Rhwydwaith Defnyddwyr RITA (www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/defnyddwyr-rita-yng-ngogledd-cymru-yn-uno/) sy'n defnyddio technoleg atgofion ar gyfer pobl sy'n byw â dementia;
    - ffyrdd o ddefnyddio technegau cydgynhyrchu ac adrodd straeon i wella gwasanaethau a gwaith partneriaeth;
    - a gwella cymorth i blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol.
- gwella mynediad at dystiolaeth trwy ddarparu cipolygon ar ystadegau ac ymchwil ar gyfer dwsinau o bynciau sy'n amrywio o niwroamrywiaeth a dementia i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a wardiau rhithiol.
- dechrau ar y gwaith ar gyfer y Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg o dan themâu -
    - gwneud yr hanfodion yn iawn
    - arloesi
    - cynhwysiant digidol
    - cofnodion iechyd a gofal integredig

  Roedd hyn yn cynnwys mapio prosiectau digidol ar draws y rhanbarth.
- darparu cymorth ymchwil gan gynnwys sesiynau awgrymiadau a chyngor ar astudiaethau achos a fframwaith cydsyniad ac etheg ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol; cynllunio dangosfwrdd i fesur cynnydd rhanbarthol yn erbyn Cod Ymarfer Awtistiaeth; a dadansoddi

cannoedd o ymatebion ystyriol i Ymgyrch Gwrando ar Ddementia ar draws y chwe thref yng Ngogledd Cymru.

Am ragor o wybodaeth:

- dilynwch yr hwb @_NW_RICH ar Twitter / X (https://x.com/_NW_RICH?mx=2),
- cofrestrwch ar gyfer eu newyddlen https://www.northwalescollaborative.wales/research-innovation-and-improvement-coordination-hub/#contactus neu
- ewch i dudalennau gwe PIC ar https://www.northwalescollaborative.wales/research-innovation-and-improvement-coordination-hub/statistics/census/.

Y Cynllun Cyfalaf Strategol a'r Gronfa Ddatblygu

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol (SCP) deng mlynedd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 i ddatblygu cyfleusterau integredig i ddarparu gwasanaethau a datrysiadau llety integredig. Mae'r Cynllun yn dod â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector, addysg ac adfywio at ei gilydd.

Fel rhan o ddatblygu'r SCP, mae'r Tîm Rhanbarthol wedi datblygu offeryn i gynorthwyo partneriaid o ran blaenoriaethu'r cynlluniau. Mae cyfanswm o 35 o gynlluniau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael eu blaenoriaethu gyda chyfanswm gwerth amcangyfrifedig o £440m a disgwylir y bydd angen £303m trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, dyfarnwyd £3m bellach o gyllid yn ystod y flwyddyn i gynnal cynlluniau ar gamau amrywiol, o barhau i ddatblygu achosion busnes hyd at gaffael, adnewyddu ac adeiladu cyfleusterau newydd.

Mae'r cynlluniau sydd wedi derbyn cyllid yn cynnwys -

- datblygu Hwb Integredig yng Ngorllewin Conwy (datblygu i'r cam achos busnes nesaf),
- datblygu gofal yn nes at y cartref ar draws y rhanbarth
- adnewyddu gofal ychwanegol yn Sir Ddinbych
- canolfannau dementia ar draws y rhanbarth
- byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu yng Nghonwy ac yn Sir y Fflint a
- chartrefi gofal plant ar draws y rhanbarth.

Bydd y cynlluniau hyn yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, yn rhyddhau gwelyau ysbytai ac yn creu darpariaeth gwasanaeth gwell ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ym mis Ebrill 2016, gwnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfuniad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella llesiant eu sir. Mae aelodaeth yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o sefydliadau partner gan gynnwys Cyfarwyddwyr Cymunedau Iechyd Integredig (IHC) y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan i ategu eu rôl fel uwch arweinwyr cymunedol.  Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio fel sefydliadau partner i sicrhau bod ein cynlluniau strategol yn alinio ag amcanion llesiant lleol ac yn ategu eu cyflawni ac i'r gwrthwyneb; ond hefyd i sicrhau bod cyfraniad y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ychwanegu gwerth yn fwy na chynlluniau statudol y sefydliad ei hun.

Yn ystod 2023/14, gwnaeth y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru ddefnyddio'r dystiolaeth a chipolygon o'r Asesiadau Llesiant (a luniwyd yn 2022-2023) i ddatblygu a chyhoeddi eu Cynlluniau Llesiant yn 2023/24. Mae'r Cynlluniau Llesiant yn ofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod y Cynlluniau yw mynd i'r afael â meysydd allweddol lle bo'r angen neu'r her mwyaf i gymunedau a disgrifio lle y gall Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus wneud y cyfraniad mawr, gan ychwanegu gwerth at bartneriaethau sy'n bodoli eisoes a gwasanaethau craidd.
Mae'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (i sicrhau bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael y cyfle i gyfrannu) a Phartneriaeth Mewnwelediad ac Ymchwil Gogledd Cymru i greu a phrofi ffyrdd newydd o ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid.

IAITH - comisiynwyd y Ganolfan Cynllunio Iaith i ymchwilio i heriau a llwyddiant cynllunio'r gweithlu dwyieithog ymysg sefydliadau sy'n rhan o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Gwynedd a Môn

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ar gyfer 2023-2028 ym mis Mai 2023. Mae iddo dri amcan llesiant cyffredinol:

- lliniaru effaith tlodi ar lesiant cymunedau lleol
- blaenoriaethu llesiant a chyflawniadau plant a phobl ifanc
- rhoi cymorth i gymunedau o ran symud tuag at statws net sero o ran carbon

Mae egwyddorion 'Pwysau Iach: Cymru Iach' wedi cael eu mabwysiadu fel edefyn aur.

Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth barhaol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chaiff ei hybu ym mhob agwedd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae cynnydd yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

- lansio Cynllun Llesiant 2023-2028 yn ffurfiol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, Gwynedd.
- sicrhau ffocws gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fwrw ymlaen gyda chynlluniau cyflenwi ar gyfer y Cynllun Llesiant. Mae arweiniad a chymorth wedi cael eu darparu gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.
- hybu a gweithredu Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru, gan gynnwys cydweithio ar ddefnydd o ynni a seilwaith mewn lleoliadau sector cyhoeddus.
- Treialu 'Prosiect Niwbwrch' - ymagwedd ar y cyd tuag at fynd i'r afael â materion sylweddol ond cyffredin ar lefel gymunedol. Caiff gwersi a ddysgwyd eu cymhwyso mewn lleoliadau eraill.
- Sefydlu Bwletinau Gwybodaeth am reoleiddio i ddiweddaru aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gynnydd ac i rannu gwybodaeth berthnasol rhwng cyfarfodydd chwarterol.

Conwy a Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2023-2028 ym mis Mawrth 2023.

Ers cymeradwyo'r Cynllun, mae meysydd cynnydd yn cynnwys:

- datblygu'r Siarter Teithio Llesol trwy gynnal asesiad llinell sylfaen o'r gweithgarwch presennol yn erbyn ymrwymiadau i'r Siarter. Mae hyn wedi canfod bylchau a chyfleoedd ar gyfer datblygiad yn unol â Chynlluniau ar gyfer sefydliadau partner Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n bodoli eisoes.
- gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr i ymgymryd â phrosiect ymgysylltu mewn dwy gymuned yng Nghonwy a Sir Ddinbych - Pensarn a Pharc Burton yn Y Rhyl. Mae'r prosiect yn defnyddio

dulliau creadigol fel gwaith celf a ffotograffiaeth i roi cymorth i gymunedau o ran adrodd straeon yn ymwneud â sut olwg sydd ar fyw yn eu cymuned a sut mae hynny'n teimlo.

- datblygu cynllun ymgysylltu â'r gymuned a mabwysiadu datganiad cenhadaeth ymgysylltu newydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- cwblhau ymarfer mapio gwasanaeth i werthuso'r camau nesaf o ran cyflawni'r Cynllun Llesiant.
- cyflwyno cyfarfodydd rhwydweithio anffurfiol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- ystyried ffyrdd y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod â chysylltiad agosach at raglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal.
- ystyried ffyrdd y gall y Bwrdd gyflawni ei uchelgais o fod â rôl arwain fwy.

<u>Sir y Fflint a Wrecsam</u>

Gwnaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam weithio'n agos ac yn effeithiol yn ystod pandemig COVID-19, ac felly daethant at ei gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unigol ym mis Ionawr 2023 er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu mwy o welliannau o ran llesiant gyda'r cymunedau ar draws y ddwy sir. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd yn hynod falch bod y Cadeirydd cyntaf wedi dod o'r Trydydd Sector.

Gwnaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd gyhoeddi ei Gynllun Llesiant ym mis Mai 2023, ac mae wedi treulio gweddill y flwyddyn yn creu strwythur cyflenwi a fydd yn galluogi partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gydweithio ar y camau gweithredu hynny sydd â'r potensial i gael effaith wirioneddol.

Yn 2023/24, gwnaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnydd ar y cyd yn y meysydd a ganlyn:

- cyd-greu dulliau ymgysylltu newydd yn enwedig gyda phlant bach trwy Naratifau Cymunedol yn Sealand ac yn Nhŷ Pawb, datblygu technegau adrodd straeon trwy'r digwyddiadau TEDx a oedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a newid yn yr hinsawdd, a gweithio gydag ysgolion trwy raglen Arweinwyr y Dyfodol.
- ymagwedd gydgysylltiedig tuag at ataliaeth ac ymyrraeth gynnar i blant.
- ymagwedd system gyfan tuag at flaenoriaeth pwysau iach 'Bwyta'n Iach a Bod yn Actif' mewn ysgolion ar draws Sir y Fflint a Wrecsam gyda'r uchelgais o gynyddu nifer y plant sy'n byw o fewn tair milltir i'w hysgol ac sy'n cerdded, ac sy'n mynd ar gefn sgwter neu feic yno.
- gwella cyfleoedd iechyd gwyrdd trwy ragnodi cymdeithasol.
- rhoi 'rhaglen 100 o straeon' ar waith dan arweiniad y Bwrdd Iechyd. Gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a phobl ifanc yn casglu straeon am eu profiad niwroamrywiol o bontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.
- Partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio i ddod yn sefydliadau sy'n ystyriol o faethu yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu elw o faes gofal cymdeithasol plant.
- Partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i greu Prifysgol Plant Gogledd Cymru (dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr) fel y gall yr holl blant ar draws Sir y Fflint a Wrecsam gael y cyfle i ddysgu y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

Trwy gydol y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd Iechyd roi diweddariadau rheolaidd i'w Bwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth. Mae rhagor o fanylion ar gael ar dudalennau gwe Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Gwynedd a Môn: www.llesiantgwyneddamon.org/cy/
- Conwy a Sir Ddinbych: www.conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/
- Sir y Fflint: www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Flintshire-Public-Services-Board.aspx

Sylwch, ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, roedd gwefan newydd ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn cael ei datblygu. Mae gwefan flaenorol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam wedi cau; ar adeg ysgrifennu hyn, roedd gwefan cyn Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir y Fflint yn parhau i fod ar-lein.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

Y Bwrdd Iechyd yw'r Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gwasanaethu bron i un rhan o dair o ehangdir y wlad. Caiff ein gwasanaethau eu cynnig o amrywiaeth o leoliadau gan amrywio rhwng ysbytai cyffredinol dosbarth a chlinigau cymunedol ac ymweliadau â chartrefi gan glinigwyr.  Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, byddwn yn achosi effaith ar yr amgylchedd y mae'n rhaid ei rheoli'n ofalus er mwyn osgoi goblygiadau ariannol ac amgylcheddol sylweddol.

Mae ein portffolio eiddo'n cynnwys tri phrif ysbyty cyffredinol acíwt, 19 ysbyty cymunedol a thros 70 o glinigau cymunedol ac adeiladau ac ystafelloedd ategol bach eraill (â pherchnogaeth neu o dan brydles), sy'n rhoi cyfanswm portffolio o dros 140 safle.

Er bod y galw am ofal iechyd yn parhau i gynyddu, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fodloni heriau sydd ynghlwm wrth leihau carbon, lleihau gwastraff a diogelu cynhyrchion ac adnoddau o ffynonellau cynaliadwy lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod ein heffaith amgylcheddol yn cael ei lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, rydym yn cynnal System Reoli Amgylcheddol (EMS) ffurfiol, sydd â'r bwriad o gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygiad cynaliadwy
- Cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion eraill
- Atal llygredd
- Amddiffyn yr amgylchedd
- Lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd
- Diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar wella'n barhaus

Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei chyflawni drwy'r prosesau canlynol:

- Hybu'r polisi amgylcheddol i'r rhanddeiliaid perthnasol
- Nodi pob agwedd amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd o ganlyniad i newidiadau i wasanaeth a deddfwriaeth newydd
- Sefydlu amcanion a thargedau a'u monitro gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl bersonél perthnasol
- Archwiliadau allanol a mewnol rheolaidd
- Adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol yn rheolaidd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol
- Cydweithio â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni dull cyson gan y sector cyhoeddus o ymdrin â rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod gweithdrefnau arfer gorau yn cael eu canfod a'u rhoi ar waith

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur gan ddefnyddio offer amrywiol a thrwy gyfrwng ein gwaith gyda nifer o gyrff partneriaeth:

- System Reoli Amgylcheddol BS EN ISO 14001 2015
- Adrodd Blynyddol am yr Ymroddiad i Leihau Carbon
- System Fonitro Perfformiad Ynni a Chyfleusterau Blynyddol
- Fforwm Amgylcheddol Ystadau Iechyd Cymru
- Gwasanaeth Cyfleusterau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Systemau monitro defnydd gwasanaethau mewnol, amser real
- Asesiadau BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) ynghylch cynlluniau cyfalaf mawr

Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei chynnal at safonau arferion gorau presennol a bod gwelliannau parhaus yn cael eu hymgorffori i ddiwylliant y sefydliad.

Mae'r data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiadau hyn wedi'u dilysu gan ddarparwyr gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol, yn cynnwys BM TRADA (corff archwilio ac ardystio allanol sydd wedi'i achredu gan UKAS) ac Archwilio Cymru.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi ennill Safon Blatinwm Safon Iechyd Corfforaethol Cymru Iach ar Waith, a bu ein defnydd o dechnoleg gynaliadwy, caffael moesegol a chynaliadwy a gwaith ar drafnidiaeth sy’n gyfrifol ar lefel amgylcheddol yn rhan o’r hyn a gyflwynwyd.

**Gweithio trwy Bartneriaeth**

Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yng Ngogledd Cymru, ac mae pob un ohonynt yn ymwneud â gwaith ar faterion amgylcheddol, cynaliadwyedd a Datgarboneiddio.

**System Rheoli Amgylcheddol ISO14001:2015**

Mae safon ISO14001:2015 o ran systemau rheoli amgylcheddol wedi'i hymgorffori erbyn hyn yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw, a sicrhawyd ardystiad ISO ym mis Ebrill 2018. Cyflwynwyd y safon newydd er mwyn gwneud y Bwrdd Iechyd a'i staff yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys atebolrwydd cyfreithiol a rheoleiddio, ac mae'n caniatáu i'r risgiau cysylltiedig gael eu rheoli'n fwy effeithiol.

Mae'r tri Swyddog Amgylchedd wedi cael eu hardystio gan Sefydliad Siartredig Ansawdd a Chofrestr Ryngwladol yr Archwilwyr Ardystiedig, sy'n eu galluogi i fod yn Archwilwyr Arweiniol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae aelodau'r Grŵp Llywio Rheolaeth Amgylcheddol wedi mynd ati i roi fersiwn 2015 y safon ar waith trwy amlygu:

- Y newidiadau allweddol y mae angen i ddarparwyr gwasanaeth eu gwneud
- Ymrwymiad prif reolwyr a chyfranogiad yn yr EMS
- Cydymffurfiaeth â'r Datganiad Polisi Amgylcheddol
- Anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb
- Materion allanol a mewnol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac agweddau arwyddocaol
- Beth mae pob adran o'r safon yn ei olygu i'w gwasanaeth/adran
- Perfformiad, gwerthuso a monitro

Mae ISO14001:2015 yn cynnig fframwaith i amddiffyn yr amgylchedd ac i ymateb i amodau cyfnewidiol yr amgylchedd, ochr yn ochr ag anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae ISO14001:2015 yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni canlyniadau bwriadedig ei EMS, sy'n cynnig gwerth i'r amgylchedd, y Bwrdd Iechyd ei hun a phartïon sydd â diddordeb. Yn unol â Pholisi Amgylcheddol y Bwrdd Iechyd, mae canlyniadau bwriadedig yr EMS yn cynnwys:

- Gwella perfformiad amgylcheddol
- Cyflawni rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth
- Cyflawni amcanion amgylcheddol

Mae asesiadau wedi dangos bod conglfeini'r system - canfod prosesau corfforaethol a safle penodol sy'n cael effaith amgylcheddol (yr Agweddau a'r Effeithiau Amgylcheddol) a rhaglen o amcanion a thargedau amgylcheddol a bennwyd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol i liniaru'r effeithiau hyn - ar waith. Mae'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar y trywydd cywir ac mae'n cael ei chynnal yn effeithiol; mae'r broses o fethiant i gydymffurfio'n effeithiol ac mae'n gweithio'n effeithlon. Mae hyfforddiant ar Faterion Amgylcheddol a Gwastraff bellach yn orfodol i bob aelod o staff y bwrdd iechyd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gontractau gyda BM TRADA i barhau i ddarparu ardystiad ISO14001:2015 ac archwiliadau goruchwylio parhaus.

Archwiliwyd 18 ysbyty a chlinig yn y Bwrdd Iechyd yn erbyn y safon rhwng Mai 2023 a Mawrth 2024. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei ail-ardystio yn erbyn y safon rhwng Ionawr ac Ebrill 2024.

Codwyd nifer o fân achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod y broses ac maent bellach wedi'u cau gan yr archwilydd o fewn yr amserlen a neilltuwyd. Yn ogystal â hyn, codwyd un achos o ddiffyg cydymffurfio mawr ym mis Hydref 2023, cafodd yr achos ei gau o fewn y tri mis a neilltuwyd. Codwyd dau achos arall o ddiffyg cydymffurfio mawr ym mis Mawrth 2023.

**Hyfforddiant ynghylch Materion Amgylcheddol a Gwastraff**

Mae safon ISO 14001:2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant a galluoedd unrhyw unigolion sy'n gallu cael effaith ar y System Reoli Amgylcheddol.

Mae'r pecyn e-hyfforddiant pwrpasol ynghylch rheoli gwastraff a rheolaeth amgylcheddol a luniwyd gan Swyddogion Amgylchedd y Bwrdd Iechyd wedi cael ei ymgorffori ledled y Bwrdd Iechyd ar y platfform e-ddysgu ac mae'n rhan orfodol o'r hyfforddiant staff.

Mae'r hyfforddiant yn gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth staff o faterion amgylcheddol a'u cyfrifoldebau, yn cefnogi ein gwaith i wella rheoli gwastraff ac yn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion Safon System Reoli Amgylcheddol ISO 14001 a Rheoliadau Gwastraff. Mae'r pecyn hyfforddiant wedi'i addasu fel y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru. Mae lefel y gydymffurfiaeth ledled y Bwrdd Iechyd ers Medi 2022 yn 91%.

**Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol**

Mae'r Rhaglen Amcanion Amgylcheddol wedi cael ei chymeradwyo ar gyfer 2022-2025. Bydd cyflawni'r amcanion amgylcheddol yn ein helpu i ddangos gwelliant parhaus a bodloni gofynion System Reoli Amgylcheddol BIPBC a'r Cynllun Gweithredu ynghylch Datgarboneiddio.

Dyma'r amcanion:

- Adolygu a chyhoeddi cynllun yn unol â'r ddyletswydd fioamrywiaeth o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cynnal a gwella cynefinoedd bioamrywiaeth trwy blannu coed a phlanhigion sy'n llesol i fyd natur
- Datblygu newidiadau i weithredu gofynion y Ddeddfwriaeth Amgylcheddol newydd mewn perthynas â didoli gwastraff
- Darparu Hyfforddiant Llythrennedd Carbon trwy ddatblygu Rhaglen Llythrennedd Carbon addas
- Arolwg o Systemau Gwresogi
- Gosod goleuadau LED yn lle'r holl oleuadau presennol erbyn 2025
- Rhaglen inswleiddio atigau yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio offer gwres a phŵer cyfun (CHP) yn Ysbyty Glan Clwyd a gosod offer newydd yn ei le
- Datblygu amcanion amgylcheddol yn ymwneud â gwastraff

**Rheoli Gwastraff**

Mae Ysbytai Cyffredinol Dosbarth ardaloedd y Gorllewin, y Dwyrain a'r Canol a safleoedd cymunedol bellach wedi dychwelyd i ddefnyddio bagiau clir yn lle rhai oren ym mhob ardal anghlinigol ar gyfer cael gwared â masgiau a menig. Mae’r gostyngiad mewn gwastraff bagiau oren wedi gostwng yn sylweddol ond mae gwaith i’w wneud o hyd.

Bydd cod ymarfer gwastraff/ailgylchu Llywodraeth Cymru yn dod i rym ar 6 Ebrill 2024 ar gyfer sefydliadau busnes, y sector cyhoeddus a’r trydydd sector yng Nghymru.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dechrau gyda didoli gwastraff bwyd o bob safle Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2024 (mae hyn yn cynnwys pob safle Ysbyty).

Bydd yn rhaid i'r gwaith o ddidoli ac ailgylchu ar safleoedd ddechrau ym mhob clinig, canolfan iechyd, adeilad gweinyddol, practis meddygon teulu a phractisau deintyddol cymunedol erbyn 6 Ebrill 2024. Mae Swyddogion yr Amgylchedd yn gweithio gyda'r contractwr gwastraff presennol i sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r system hon.

Yr unig gonsesiwn gofal iechyd ar hyn o bryd yw y bydd cyfnod hwy i ysbytai gydymffurfio â didoli deunyddiau ailgylchu (1 Ebrill 2026) ond rhaid gweithredu’r broses o ddidoli gwastraff bwyd erbyn 1 Ebrill 2024.

Y prif bryderon ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yw:

- Dim capasiti ar lefel ward ar gyfer biniau ychwanegol
- Dim adnoddau na chyllid ar gyfer casglu'n amlach na biniau/sgipiau ychwanegol
- Cost ychwanegol sylweddol i BIPBC i'w sefydlu i ddechrau
- Diffyg capasiti yn y safleoedd gwastraff ar gyfer sgipiau ychwanegol
- Mwy o risg o dân a heintiau
- Cynyddu ôl troed carbon

Mae Swyddogion Amgylchedd y Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda safleoedd cymunedol i sicrhau bod y broses o ddidoli gwastraff bwyd ac ailgylchu yn cael ei gweithredu erbyn mis Ebrill 2024. Dechreuodd y gwaith o dreialu didoli gwastraff mewn tri safle cymunedol ym mis Medi 2023.

Mae'n gweithio'n dda yn y gymuned ac mae staff y Cyfleusterau wedi bod yn gadarnhaol ac wedi derbyn yr her. Mae staff eraill hefyd wedi croesawu'r broses ailgylchu.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y newidiadau, darparwyd y nifer angenrheidiol o flychau gwastraff bwyd, darparwyd y cod bagiau a sefydlwyd gorsafoedd ailgylchu gyda phosteri a chan ddefnyddio biniau presennol ar bob safle. Y cynnig yw bod yr holl finiau desg yn cael eu symud i gynorthwyo'r broses ddidoli gan roi amser i'r staff Domestig wagio'r biniau gwastraff bwyd a'r biniau ailgylchu. Mae biniau ailgylchu allanol a ddarperir gan y contractwr ar gyfer gwastraff i'w ailgylchu naill ai yn eu lle neu byddant yn eu lle erbyn y cyfnod amser gofynnol.

Mae prif gontractwr ailgylchu a gwastraff cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd wedi ein galluogi i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Mae ymgyrchoedd 'tacluso llanast' y Bwrdd Iechyd yn dal yn hynod o lwyddiannus, ac maent yn annog wardiau ac adrannau i dacluso llanast ac eitemau nad ydynt yn eu defnyddio, gwella taclusrwydd a hwyluso glanhau eu mannau ac ategu ein hymdrechion i gynnal amgylchedd diogel a glân.

Mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi cynnal arbrawf yn ymwneud â biniau ailddefnyddiadwy i waredu pethau miniog am dri mis yn y theatrau, yn yr uned mamolaeth ac mewn dwy ward. Gellir defnyddio'r biniau ailddefnyddiadwy hyd at 500 gwaith, sy'n hollol wahanol i'n biniau untro sy'n cael eu llosgi.  Amcangyfrifir, pe bai Ysbyty Maelor Wrecsam yn cyflwyno hyn ledled safle'r ysbyty, byddai'n diddymu 22 tunnell fetrig o blastigau untro bob blwyddyn.

**Grwpiau Gwyrdd**

Ceir Grŵp Gwyrdd sy'n cael ei gefnogi gan staff clinigol yn nhair ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grwpiau Gwyrdd wedi llwyddo i sicrhau nawdd am ddeuddeg mis i ariannu tri Swyddog Cynaliadwyedd i gefnogi prosiectau'r Grwpiau Gwyrdd.

**Rheoli Ynni a Charbon**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i chwilio am fesurau i'w rhoi ar waith er mwyn gwella ei effeithlonrwydd ynni ac i leihau allyriadau carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau. Lleihad o 3% mewn allyriadau $CO_2$ flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r Targed Perfformiad Corfforaethol Lleihau Carbon presennol fel sy'n ofynnol gan Gynllun Cyflenwi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd i Leihau Allyriadau Llywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau lleihau carbon yn dibynnu'n bennaf ar adnoddau a ddyrennir gan y Rhaglen Cyfalaf Disgresiynol flynyddol a Chynlluniau Datblygu Cyfalaf Mawr. Yn 2023/24 , bu llai o fuddsoddiad oherwydd dyraniad ariannol y cynllun datblygu cyfalaf.  Fodd bynnag, fel rhan o'r ymateb i bandemig COVID-19, bu'n rhaid gwneud newidiadau i ffurfwedd adeiladau, ac fe wnaeth hynny gynnig cyfle i fynd i'r afael â rhywfaint o'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ac ymgorffori gwaith adnewyddu'r seilwaith, er enghraifft, gosod goleuadau LED nad ydynt yn defnyddio llawer o ynni.

Fel ag yn achos blynyddoedd blaenorol, rydym wedi cydweithio â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'u partneriaid, yr Ymddiriedolaeth Garbon, sydd wedi darparu arweiniad i'r Bwrdd Iechyd ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni ymhellach yn ein hadeiladau. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â’r Ymddiriedolaeth Garbon i ddatblygu Strategaeth Lleihau Carbon y Bwrdd Iechyd. Mae hon yn dasg enfawr i'r ddau sefydliad ac mae'n adeiladu ar sail cyhoeddi ôl troed Datgarboneiddio GIG Cymru a gyhoeddwyd y llynedd. Hon fydd y ddogfen arweiniad allweddol am flynyddoedd o ran cydymffurfio â gofynion i ddatgarboneiddio safleoedd.

Yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol o ran monitro a, lle bo'n bosibl, lleihau defnydd o ynni, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni cenedlaethol sy'n cysylltu â strategaeth ynni'r DU.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd yn nifer o'n safleoedd i sefydlu araeau solar ffotofoltaidd ar raddfa fechan a graddfa ganolig, a gallai hynny gynnig manteision i'r sefydliad gynnwys lleihad pellach yng nghyfanswm y carbon deuocsid a gynhyrchir. Mae'r cynlluniau hyn bellach wedi'u comisiynu ac maent yn weithredol yn rhai o'n hysbytai cymunedol. Mae trefniadau ynghylch contractau cysylltiadau trydan wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau y caiff unrhyw drydan a gynhyrchir ar y safle ond na chaiff ei ddefnyddio ei uwchlwytho i'r grid trydan cenedlaethol.

**Cludiant**

Mae allyriadau teithio ac allyriadau sy'n gysylltiedig â charbon y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu monitro, ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru.   Mae hyn yn cynnwys teithio busnes gan staff yn eu ceir eu hunain, a cherbydau fflyd y Bwrdd Iechyd, a throsglwyddo cleifion cymwys i'r ysbyty ac oddi yno.

Mae milltiroedd busnes cyffredinol y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2021/22. Dylid nodi bod y milltiroedd yn 2023/24 yn parhau'n is na chyfanswm 2019/20 sef 14,730,669 milltir. Mae’r data’n dangos, yn dilyn pandemig COVID-19, sut mae teithio busnes wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio sy’n cynnwys defnyddio technoleg ac arferion gweithio ystwyth.

Bydd mentrau pellach yn cael eu hystyried i barhau i leihau allyriadau a hyrwyddo cynlluniau teithio mwy effeithlon a gwyrddach. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r defnydd o fflyd lwyd, prydlesu a rhannu ceir, a hyrwyddo dewisiadau amgen i deithio gan gynnwys defnyddio fideo-gynadledda a thechnoleg gysylltiedig.

| | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tunelli Metrig o $CO_2$ | Milltiroedd | Tunelli Metrig o $CO_2$ | Milltiroedd | Tunelli Metrig o $CO_2$ | Milltiroedd |
| Defnydd Preifat Ceir a Brydlesir | 297 | 1,284,487 | 336 | 1,455,514 | 345 | 1,492,697 |
| Fflyd Lwyd | 1,069 | 4,627,088 | 1,319 | 5,707,762 | 1,464 | 6,334,169 |
| Ceir a Faniau sy'n eiddo i'r Bwrdd Iechyd | 967 | 3,985,452 | 1,009 | 4,245,274 | 1,105 | 4,709,408 |
| **Cyfanswm** | **2,333** | **9,897,027** | **2,665** | **11,408,550** | **2,914** | **12,536,274** |

**Caffael Cynaliadwy**

Mae Gwasanaethau Caffael NWSSP wedi cyflwyno arferion caffael cynaliadwy mewnol a gwell argaeledd data i gynorthwyo mewn meysydd fel mesur ôl troed carbon y sefydliad. Mae hyn wedi helpu NWSSP i weithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ledled Cymru i adrodd yn well ar eu hôl troed carbon eu hunain mewn fformat sy’n bodloni gofynion Canllaw Adrodd y Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae Gwasanaethau Caffael NWSSP yn cyflwyno manylion ei Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ac mae wedi ymrwymo i gyrraedd Sero Net erbyn 2030.

Caiff ymagweddau caffael eu hanelu at ddod o hyd i gynhyrchion a gwasanaethau'n lleol a chefnogi mentrau bach a chanolig lle bo hyn yn ymarferol. Mae oddeutu 50% o holl gontractau bwyd Cymru gyfan gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr o Gymru - daw'r holl laeth a gyflenwir i GIG Cymru o ffermydd yng Nghymru, caiff yr holl gig eidion ei fagu yng Nghymru, defnyddir cig oen o Gymru ar adegau o'r flwyddyn pan fydd ar gael a hynny am brisiau cystadleuol. Yn ogystal â chefnogi cymunedau ac economïau lleol, mae hyn yn lleihau effaith amgylcheddol cludo a dosbarthu. Mae'r ymrwymiad hwn i gefnogi'r Economi Sylfaenol i'w weld yn holl weithgarwch caffael NWSSP ac mae'n rhan o'r meini prawf gwerthuso ar gyfer yr holl dendrau y mae Gwasanaethau Caffael NWSSP yn eu gweithredu ar ran Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau ledled Cymru.

**Adeiladu Cynaliadwy**

**Strategaeth**

Yn ystod 2023 mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu'r manylion i gefnogi'r Strategaeth Ystadau. Datblygwyd y strategaeth i gyd-fynd â strategaethau presennol eraill y Bwrdd Iechyd yn cynnwys Byw yn Iachach, Aros yn Iach, y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol, y Strategaeth Ddigidol, y Strategaeth Pobl a'r Cynllun Pobl, a'r Cynllun Gweithredu ynghylch Datgarboneiddio.

Ffocws arbennig mewn perthynas ag ymgorffori datgarboneiddio mewn prosiectau lle bo modd, adolygu'r defnydd o ofod a gweithio ystwyth. Cynhaliwyd ymarfer yn ardal y Dwyrain i ystyried rhai o'r agweddau hyn.

Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol ac ateb y tri chwestiwn allweddol: ble'r ydym ni ar hyn o bryd, ble'r ydym ni'n dymuno bod, a sut allwn ni gyrraedd yno?

Mae'r Strategaeth yn hybu ystâd ar gyfer y dyfodol sy'n addas at ei diben ac yn darparu amgylchedd diogel ac effeithiol sy'n diwallu anghenion clinigol a busnes y Bwrdd Iechyd; yn gwella gofal cleifion; yn cynorthwyo gofalwyr, teuluoedd ac ymwelwyr; ac yn darparu amgylchedd gwaith priodol i staff. Mae'n cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i:

- sicrhau cynllun cynhwysol trwy gyfranogiad cymunedau lleol
- cydymffurfio â rheoliadau statudol ac arweiniad arfer gorau
- ceisio cyrraedd safon Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) o "da iawn" fel gofyniad gyda'r dyhead i gael "ardderchog" lle bo hynny'n ymarferol
- lleihau ôl troed carbon y Bwrdd Iechyd yn unol â'r cynllun datgarboneiddio
- cefnogi atebion o ran teithio cynaliadwy a Chynllun Teithio Gwyrdd
- optimeiddio caffael a llafur lleol i gynorthwyo'r economi leol

**Prosiectau**

Ar gyfer 2023/24 dyrannwyd £34.5 miliwn i'r Bwrdd Iechyd er mwyn cyflawni ystod o brosiectau cyfalaf.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd LlC yr achos busnes ar gyfer yr Hwb Orthopaedeg Rhanbarthol yn Llandudno am £29m. Mae'r dull o ddatgarboneiddio'r prosiect theatr a radioleg arfaethedig wedi cynnwys y mesurau canlynol:

- Dull deunydd yn gyntaf at ddylunio adeiladau a oedd yn ceisio optimeiddio ffurf adeiladau a pherfformiad deunyddiau. Mae priodweddau thermol y deunydd wedi'u dewis i ragori'n fawr ar safonau gofynnol rheoliadau adeiladu LlC.
- Targedu safonau effeithlonrwydd uchel ar gyfer tyndra aer a phontio thermol.
- Gwydr perfformiad uchel yn cael ei ddefnyddio yn yr ardaloedd adeiladu newydd gyda Gwerthoedd G ac U isel i gyfyngu ar gynnydd gwres yn ystod misoedd yr haf a chadw gwres i mewn yn ystod misoedd y gaeaf.
- Effeithlonrwydd gweithredu system uchel ar gyfer pob gosodiad newydd.
- Dwyseddau pŵer goleuo isel a gyflawnir trwy ddefnyddio modiwlau goleuadau LED effeithlonrwydd uchel.
- Defnyddiwyd system adfer gwres sy'n cydymffurfio ag ERP ar gyfer yr holl systemau awyru newydd a ddefnyddir ar y prosiect.
- Amnewid yr unedau echdynnu a chyflenwi (1983) sy'n darparu awyru i'r ward gyda modiwl adfer gwres llawn newydd sy'n cydymffurfio â HTM.
- Strategaeth gwresogi ac oeri trydan cyfan i liniaru'r angen am gyflenwadau tanwydd ffosil newydd i'r datblygiad.
- Ffan effeithlonrwydd uchel, ynni isel a phympiau wedi'u gosod drwyddi draw.
- Defnyddio ynni carbon isel, effeithlonrwydd uchel, pwmp oeri ffynhonnell aer, gwresogi a darpariaeth dŵr domestig ar gyfer y theatrau newydd a'r adran radioleg sydd wedi'i hadnewyddu / ehangu.
- Darparu technolegau adnewyddadwy – Mae aráe PV mawr wedi'i gynnig i'w osod ar y to o amgylch, gan helpu i wrthbwyso gofynion ynni'r datblygiad newydd.
- Darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y meysydd parcio ychwanegol.
- Bydd system rheoli ynni adeilad newydd yn cael ei darparu i fonitro a rheoli'r gosodiadau newydd. Bydd y system hon yn monitro'r defnydd o ynni ac yn rhoi'r gallu i'r cleient gwestiynu ei berfformiad ynni gweithredol dros amser ac asesu effaith integreiddiadau datgarboneiddio yn y dyfodol.

Mae dyluniad bellach wedi'i gyflwyno ar gyfer yr Uned Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn, ac mae'r broses yn parhau ar gyfer adeiladau Meddyginiaethau Niwclear ac Isadeiledd Trydanol yn Ysbyty Glan Clwyd. Llunnir y prosiectau hyn mewn modd sy'n ymateb i'r strategaeth ddatgarboneiddio Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru. Mae'r ddau gyfleuster yn cael eu cynllunio i fod yn adeiladau sy'n defnyddio trydan yn unig, ac mae defnydd effeithlon o ynni yn elfen allweddol o'r holl benderfyniadau a wneir ynghylch llunio'r adeiladau er mwyn lleihau'r galw am ynni. Mae'r ddau gynllun yn targedu safon Ragorol BREEAM ac maent yn rhagori ar fodelu ynni Rhan L o gymharu â'r adeilad tybiannol. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio paneli ffotofoltäig a sicrhau defnydd effeithlon o ynni yng nghynllun a manyleb yr offer mecanyddol a thrydanol.

Mae cynlluniau cyfalaf eraill yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn ac sy'n sicrhau buddion amgylcheddol nodedig yn cynnwys:

- Addasu ac ailwampio Plas Gororau, Cam 1;
- Ailwampio labordy Imiwnoleg Ysbyty Gwynedd (Cynllun a thendr)
- Bryn Beryl – Isadeiledd (dyluniad)
- Awyru Heddfan (dyluniad)
- Uwchraddio seilwaith trydanol Ysbyty Dolgellau
- Gosod mannau gwefru Shoreline ar gyfer cerbydau'r Gwasanaethau Ambiwlans yn y tri ysbyty acíwt

Yn ystod 2023, cafodd y Bwrdd Iechyd fudd o dderbyn cyllid gan y Bwrdd Cynghori ar Gyllid Ystadau (EFAB) a oedd yn canolbwyntio ar Ddiogelwch Tân, Datgarboneiddio ac Uwchraddio Deunydd Adeiladau. Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd y cyllid i gynnal nifer o brosiectau, fel y rhestrir isod:

- ***Diogelwch Tân:*** Yn dilyn adolygiad o Archwiliadau Diogelwch Tân, datblygwyd rhaglen waith a oedd yn edrych ar uwchraddio adrannau tân, drysau tân a systemau larwm tân o fewn nifer o gyfleusterau ar draws y Bwrdd Iechyd.
- ***Datgarboneiddio:*** Canolbwyntiodd y prosiect hwn ar uwchraddio'r Systemau Rheoli Adeiladau (BMS) o fewn nifer o gyfleusterau ar draws y Bwrdd Iechyd. Y System Rheoli Adeiladau yw’r system sy’n rheoli’r systemau gwresogi ac awyru ym mhob rhan o’r seilwaith peirianneg, a arweiniodd at wneud ein systemau’n fwy effeithlon o ran ynni
- ***Deunydd Adeiladu:*** Arweiniodd y prosiect hwn at uwchraddio deunydd adeiladau a oedd yn cynnwys uwchraddio toeau i wella ein hamgylchedd adeiladu.

<u>Rhaglen Re:Fit</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r uchelgais i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a bennir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a dylanwad deddfwriaeth ehangach yn y DU ac yn yr UE. Mae'r gofyniad hwn i leihau carbon, ynghyd â'r angen i leihau costau ynni refeniw, yn sail i'r angen i ddatblygu prosiectau yn ymwneud â defnydd effeithlon o ynni ac ynni adnewyddadwy ar raddfa eang ac yn gyflym.

Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Rhaglen Lleihau Carbon, ac mae gwerth cwmpas cychwynnol y buddsoddiad yn £7m, a ffefrir cyflawni hynny trwy gyfrwng fframwaith Re:Fit gan ddefnyddio Contractau Perfformiad Ynni a chyllid sydd ar gael trwy Raglen Nawdd Cymru, dau gynllun sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Sail y rhaglen yw datblygu cynllun Re:fit ac adeiladau ar archwiliadau ynni blaenorol a gwaith rydym wedi'i nodi i sefydlu ehangder ac addasrwydd cyfle. Disgwylir i Ddarparwr Gwasanaethau Re:fit nodi'r union fesurau ac arbedion, a nodi atebion arloesol i sicrhau carbon isel. Dylai buddsoddiad cychwynnol o £7m i'w ad-dalu dros 8 mlynedd sicrhau arbediad a wnaiff leihau gwariant blynyddol y Bwrdd Iechyd ar ynni.

Mae cyfleoedd am brosiectau penodol sydd eisoes wedi'u nodi trwy gyfrwng proses waith iteraidd rhwng y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru a phartneriaethau lleol yn cynnwys:

- Goleuadau a rheolyddion goleuadau
- Bwyleri ac ôl-osod gwelliannau
- Strategaethau ynghylch systemau gwresogi trydanol
- Gwella Unedau Trin yr Aer (AHU) - motorau EC, Gyriannau Cyflymder Newidiol (VSD)
- Rheoli a chylchfaeo'r rhwydwaith gwresogi a'i fetru'n strategol
- Dilyniannu oerwyr
- Gosod falfiau thermostatig newydd mewn gwresogyddion
- Inswleiddio toeau

Mae'r prosiect wedi symud ymlaen i'r cam gwerthuso tendr a bydd y broses o benodi cyflenwr a ffefrir yn cael ei gwblhau erbyn 24 Ebrill 2024.

**Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol**

Mae safleoedd y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu arwynebedd mawr o dir. Mae llawer o'n safleoedd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid, adar a phryfed, y mae rhai o'r rhain yn rhywogaethau a warchodir.

Rydym wedi gweithredu Blaengynllun Bioamrywiaeth i gydymffurfio ag Adran 6 yn Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i gynnal bioamrywiaeth a'i wella fel rhan o'r ddyletswydd i hybu gwytnwch ecosystemau.

Mae Grŵp Gwyrdd Ysbyty Maelor Wrecsam wedi datblygu cwrt bioamrywiaeth ar safle'r ysbyty. Gobeithio y gwnaiff planhigion cynhenid annog adar, gwenyn a mathau eraill o fywyd gwyllt. Ceir bath dŵr sydd wedi'i wneud o ddeunyddiau a addaswyd at ddiben gwahanol yn y cwrt, ac mae plant ysgolion lleol wedi llunio a chyflenwi gwestai pryfed. Bydd aelodau'r Grŵp Gwyrdd yn dod ynghyd i gynnal y cwrt ac mae'r grŵp yn cynllunio i drefnu noson plannu bylbiau ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r buddion o ran bioamrywiaeth, gall staff ddefnyddio'r ardd hefyd i fwyta eu cinio neu fyfyrio mewn llecyn hyfryd.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd Grŵp Gwyrdd Wrecsam ar ei gais am goed gan grŵp cadwraeth, ac yn sgil hynny, plannwyd 100 o goed a llwyni cynhenid ifanc yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Mae’r cwrt yng nghanol Ysbyty Glan Clwyd yn parhau i gael ei gefnogi gan Soroptimyddion y Rhyl. Mae’r ardd yn ofod llesol i gleifion, ymwelwyr a staff ei mwynhau trwy gydol y flwyddyn. Mae'n llecyn sy'n annog bywyd gwyllt a pheillwyr.

Mae gardd y Gwasanaethau Canser wedi cael ei hailddatblygu i ddarparu man llesol a thawel i staff a chleifion er mwyn helpu i wella buddion iechyd.

Cynhaliwyd arolwg ystlumod yn Ysbyty Abergele a fu'n monitro'r ystlumod pedol lleiaf ar y safle a nodwyd dros 700 mewn tri lleoliad ar draws y safle, sy'n gynnydd o fwy na 500 o ystlumod pedol lleiaf ers yr arolwg diwethaf.

Mae cleifion dementia Ysbytai Bae Colwyn a Llandudno wedi elwa o sgyrsiau wythnosol am natur a garddio sydd wedi bod yn addysgiadol, yn foddhaus ac wedi helpu cleifion a theuluoedd i ganolbwyntio ar greu’r amgylchedd cywir i leihau straen a phryder a hyrwyddo lles pawb.

Yn y Gorllewin, mae gwaith wedi’i wneud i ddatblygu prosiectau bioamrywiaeth gan gynnwys gardd ddementia yn Ysbyty Tywyn a gardd gwenyn yng Nghanolfan Iechyd Tywyn.

Mae gardd synhwyraidd i Gleifion Dementia Hafod Hedd wedi ei dylunio a’i chwblhau gan wirfoddolwyr yn Ysbyty Bryn Beryl, gyda chefnogaeth grŵp Beicwyr Llŷn, Urdd Cyfeillion yr Ysbyty, Pentref Portmeirion a Chanolfan Arddio Tyddyn Sachau a Chadwch Gymru’n Daclus.

**Crynodeb o berfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau cyfleustodau**

<u>Mesur Cyfleustodau</u>

Caiff data ei gasglu o amrywiaeth o ffynonellau, sy'n cynnwys datganiadau blynyddol gan gyflenwyr gwasanaethau, anfonebau casglu data, systemau monitro gwasanaethau mewnol mewn amser real a datganiadau ariannol blynyddol.

Mae cyflenwr ynni'r Bwrdd Iechyd yn hwyluso rhaglen barhaus i osod mesuryddion nwy a thrydan deallus lle nad yw'r rhain eisoes ar waith ar safleoedd y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd yn uniongyrchol i'r sawl sy'n casglu data, a ddylai ganiatáu dosbarthu biliau sy'n fwy cywir ac amserol, ond mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd darlleniadau lleol er mwyn rhoi sicrwydd bod y darlleniadau awtomatig yn fanwl-gywir.

Mae gan ein mesuryddion nwy mwy o faint gywirwyr sy'n ystyried amrywiadau i dymereddau lleol er mwyn cael darlleniadau manylach o ddefnydd, mae ein mesuryddion trydan yn mesur tariffau gwahanol; yn ei hanfod, gall hyn adlewyrchu cyfraddau gwahanol ddydd a nos, yn achos ein safleoedd mwy o faint, efallai y bydd tariffau lluosog yn berthnasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda Dŵr Cymru hefyd er mwyn cael mynediad at eu rhwydwaith cenedlaethol o delemetreg mesuryddion dŵr masnachol, sef "Water Core". Mae hyn yn ein galluogi i fonitro ein defnydd o ddŵr o bell ar gyfer Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Cyffredinol Llandudno, Ysbyty Abergele ac Ysbyty Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan. Mae hyn yn ein galluogi i sylwi ar unrhyw ddefnydd gormodol yn gyflym, gan helpu i nodi unrhyw ollyngiadau posibl y gallai fod angen ymchwilio iddynt.  Byddwn yn ystyried ychwanegu mwy o safleoedd y Bwrdd Iechyd at y rhwydwaith hwn.

Rydym hefyd yn gwirio defnydd pan gaiff biliau eu talu. Unwaith eto, mae'r gwiriadau hyn yn ein helpu i nodi unrhyw gynnydd annisgwyl o ran defnydd a allai awgrymu bod naill ai anghysondeb gyda'r broses bilio neu broblemau eraill sy'n gofyn am ymchwilio a sylw, fel gollyngiadau o'n systemau dŵr neu olew tanwydd.

Mae Cymorth Busnes Ystadau wedi adolygu pecyn meddalwedd cyfan sy'n arwain y farchnad i reoli ynni a fydd yn coladu darlleniadau mesuryddion cyflenwyr ac yn darllen data yn awtomatig gan ddadansoddi tueddiadau cymeriant a defnydd. Mae ymchwiliad arloesedd cynnyrch yn parhau i ddarparu awtomeiddio ar gyfer gwirio, dilysu a thalu trwy borthiant data allanol i system dalu'r GIG i dalu'r anfonebau cyfleustodau.

Caiff y gymhariaeth â data 2023/24 sydd ar gael yn y tabl Crynodeb o Berfformiad ei llunio ar sail data a dderbynnir hyd at ddiwedd blwyddyn 2023/24.  Eleni, oherwydd bod contract Cyfleustodau Cymru Gyfan ar gyfer Nwy a Thrydan wedi newid yng nghanol y flwyddyn (1 Hydref 2023) mae nifer sylweddol o anfonebau amcangyfrifedig wedi'u derbyn. Er ein bod yn mynd ar drywydd darlleniadau gwirioneddol o anfonebau a data mae hyn yn cymryd peth amser gyda'r cyflenwyr newydd, felly os derbynnir anfonebau hwyr neu addasiadau gan y cwmnïau cyfleustodau gall hyn addasu gwerth terfynol y data.

Allyriadau Ynni a Charbon

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | **2021/22** | ***Newid o 2019/20*** | **2022/23** | ***Newid o'r flwyddyn flaenorol*** | **2023/24** | ***Newid o'r flwyddyn flaenorol*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Heb Fod yn Ariannol (tunelli metrig o $CO_2$) | Cyfanswm Allyriadau Gros | 36,538 | *-1.01%* | 32,875 | *-10.03%* | 33,064 | *0.58%* |
| | Cyfanswm Allyriadau Net | 36,538 | *-1.01%* | 32,875 | *-10.03%* | 33,064 | *0.58%* |
| | Cwmpas Allyriadau Gros 1* (Uniongyrchol) Nwy ac Olew | 26,084 | *3.01%* | 22,962 | *-11.97%* | 23,520 | *2.43%* |
| | Cwmpas Allyriadau Gros 2 a 3** (Anuniongyrchol) | 10,455 | *-9.81%* | 9,913 | *-5.18%* | 9,544 | *-3.72%* |
| Defnydd Ynni Cysylltiedig (tunelli metrig o $CO_2$) | Trydan: Heb fod yn Adnewyddadwy | 0 | | 0 | | | |
| | Trydan: Contract Cyflenwi "Gwyrdd" Adnewyddadwy | 10,455 | *-9.81%* | 9,913 | *-5.18%* | 9,544 | *-3.72%* |
| | Nwy | 23,751 | *8.84%* | 20,297 | *-14.94%* | 20,606 | *1.52%* |
| | LPG | 10.54 | *-12.96%* | 12.78 | *21.25%* | 12.35 | *-3.36%* |
| | Arall - Olew*** | 2,333 | *-33.30%* | 2,665 | *14.93%* | 2,914 | *9.34%* |
| Dangosyddion Ariannol ( £ ) | Gwariant ar Ynni | 13,188,306 | *24.72%* | 25,322,875 | *92.01%* | 19,319,247 | *-23.71%* |
| | Gwariant ar Drwydded CRC (2010 ymlaen) | 0 | | 0 | | 0 | |
| | Gwariant ar Atredau Achrededig (e.e. GCOF) | 0 | | 0 | | 0 | |
| | Gwariant ar Deithio Busnes**** | 7,065,526 | *-26.76%* | 11,408,550 | *61.47%* | 12,536,274 | *9.88%* |

**Nodiadau**

**** Cwmpas 1 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Uniongyrchol -** Mae'r rhain yn codi o ffynonellau y mae'r sefydliad yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt ac mae enghreifftiau yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i hylosgiad mewn boeleri gwresogi y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt, allyriadau gan ein cerbydau ac allyriadau o ollyngiad nwy o oergell.

**** Cwmpas 2 - Allyriadau Ynni Anuniongyrchol -** Allyriadau o ganlyniad i gynhyrchu trydan a nwy a gyflenwir gan barti arall ar gyfer ei ddefnyddio mewn adeiladau eraill.

**** Cwmpas 3 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Anuniongyrchol Eraill -** Allyriadau sy'n digwydd o ganlyniad i'n gweithgareddau, ond nad yw'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt yn uniongyrchol neu nad yw'n eu rheoli yn uniongyrchol, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â threuliant gwastraff a dŵr, caffaeliad cynaladwyedd, cynllunio camau gweithredu bioamrywiaeth ac allyriadau sy'n gysylltiedig â chostau teithio busnes swyddogol a delir yn uniongyrchol gan y sefydliad.

*****Arall (olew) -** mae'r wybodaeth a roddir yn dangos cyfanswm cyfaint (litrau) o danwydd cerbydau a brynir ar gyfer ceir a faniau'r Bwrdd Iechyd trwy gardiau tanwydd a'u troi'n $CO_2$.

****Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cyfanswm costau tanwydd trwy gyfrwng cardiau busnes ac ad-dalu costau i staff, yn ogystal â chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gerbydau yn cynnwys yswirio a chynnal a chadw cerbydau'r Bwrdd Iechyd, gwasanaethau tacsi a chludo nwyddau a chludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys a ddarperir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mesurir Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr drwy gasglu data treuliant corfforaethol a throsi'r data hwn i gywerthoedd carbon deuocsid ($CO_2e$). Gwneir hyn drwy ddefnyddio ffactorau cyfnewid swyddogol a gyhoeddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ar gyfer mathau gwahanol o danwydd, yn achos trydan, yn unol â gwlad y tarddiad i adlewyrchu amrywiadau cenedlaethol o ran sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu ac effeithlonrwydd trawsyriad. Mae'r ffigyrau hyn wedi cael eu defnyddio i gyfrifo allyriadau carbon deuocsid corfforaethol, a gall y newidiadau o ran allyriadau carbon deuocsid y Bwrdd Iechyd a adroddir arnynt uchod gael eu priodoli yn rhannol i newidiadau yn y ffactorau cyfnewid hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld datblygiadau mawr ar safle Ysbyty Glan Clwyd a gweithgarwch adeiladu newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd, yn ogystal â datblygu cyfleusterau cymunedol newydd.

Rydym yn achub ar y cyfleoedd hyn i gyflwyno technolegau newydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau defnydd pŵer a dŵr. Fodd bynnag, caiff y gwelliannau hyn eu gosod i raddau mwy neu lai, fel arfer, gan yr angen i gynnig amgylchedd clinigol modern, a allai fod yn fwy o faint ac a allai gynnwys offer a chyfarpar i gynorthwyo gwresogi ac aerdymheru mannau penodol er mwyn cynnal tymereddau critigol ac ansawdd aer. Efallai hefyd y bydd datblygiadau newydd yn cynnwys technolegau clinigol a gwasanaethau arbenigol newydd i gynorthwyo'r prosesau diagnostig a thriniaeth sy'n creu galw ychwanegol ar gyflenwadau trydanol.

Rydym wedi sicrhau gostyngiad o 0.58% mewn allyriadau $CO_2$ gros sy'n deillio o'n defnydd o ynni dros y flwyddyn ddiwethaf. Gostyngodd ein gwariant ar ynni 23.71%, sy'n adlewyrchu brig y cynnydd ansefydlog mewn prisiau ynni byd-eang y flwyddyn flaenorol a hefyd addasiadau i'r ffactorau trosi a ddefnyddir i gyfrifo ein hallyriadau carbon deuocsid. Bu newid o ran cydbwysedd ein defnydd o ffynonellau ynni, gyda defnydd llai o ynni a defnyddio mwy o nwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o grŵp ynni GIG Cymru sy'n prynu nwy a thrydan ymlaen llaw, am brisiau mwy ffafriol na'r pris "diwrnod ymlaen llaw" y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei dalu. Mae hyn yn ffordd o ddiogelu rhag amrywiadau pris sydd wedi achosi gan newidiadau i alw a chyflenwad, fel y rhai sy'n deillio o effaith y tywydd, cytundebau cynhyrchu OPEC neu darfu ar gyflenwadau.

Prisiau nwyddau sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r bil ynni cyffredinol, gyda'r gweddill yn cynnwys costau trawsyrru/cludo, costau mesuryddion ac ardollau newid hinsawdd. Mae grŵp ynni GIG Cymru yn monitro'r ffactorau hyn i ragweld yr amser gorau i brynu ymlaen llaw.

Yn dod i rym o fis Hydref 2023 mae'r contractau ar gyfer nwy a thrydan wedi newid ac yn cael eu rheoli trwy fframwaith CCS (Gwasanaeth Masnachol y Goron) trwy Gaffael y GIG a'r gobaith yw y bydd y cyflenwr cyfleustodau presennol yn newid i ddarparu gwell gwerth marchnad i gyflenwi cyfleustodau.

Yn wahanol i farchnadoedd domestig, nid yw'r sector masnachol/busnes yn elwa ar gap ar brisiau tanwydd. Yn yr un modd â defnyddwyr mawr eraill y cyfleustodau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i effeithio gan gynnydd ym mhrisiau tanwydd/cyfleustodau ar y lefel fyd-eang ers dechrau 2022. Ar un adeg, fe wnaeth elfen nwydd nwy (ppt - ceiniogau fesul therm), a oedd wedi amrywio o 40 i 45 ppt yn ystod blynyddoedd blaenorol, gynyddu i 800 ppt. Llwyddodd grŵp caffael ynni'r GIG i liniaru rhywfaint o'r cynnydd mewn prisiau o ganlyniad i brynu ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae gwariant cyffredinol ar gyfleustodau wedi gostwng yn sylweddol ers prisiau byd-eang uchel y flwyddyn flaenorol, fodd bynnag yn gyffredinol mae prisiau nwyddau yn uwch nag ychydig flynyddoedd yn ôl.

Mae gwariant ar dreuliau teithio wedi lleihau, sy'n adlewyrchu'r newid yn yr amgylchiadau a achoswyd gan bandemig Covid-19 a llawer o staff a oedd yn gweithio mewn swyddfeydd yn cychwyn gweithio o bell neu yn eu cartref, â llawer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Gwastraff

| **Gwastraff** | | **2021/22** | ***Newid o 2019/20*** | **2022/23** | ***Newid o'r flwyddyn flaenorol*** | **2023/24** | ***Newid o'r flwyddyn flaenorol*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Heb Fod yn Ariannol (tunelli metrig) | Cyfanswm y Gwastraff | 3,329 | *-39.41%* | 2,937 | *-11.78%* | *3363.8* | *14.53%* |
| | Tirlenwi | 53.9 | *-0.55%* | 6.8 | *-87.38%* | *0* | *0* |
| | Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 1,885 | *-44.48%* | 1,567 | *-16.87%* | *1957* | *24.9%* |
| | Compostiwyd | 0 | | 0 | | *0* | *0* |
| | Llosgwyd gan adfer ynni | 1,389 | *330.14%* | 1,363 | *-1.87%* | *1407* | *3.2%* |
| | Llosgwyd heb adfer ynni | 0 | | 0 | | *0* | *0* |
| Dangosyddion Ariannol ( £ ) | Cyfanswm Costau Gwaredu | 570,198 | *-53.82%* | 630,782 | *10.62%* | 720,812 | *14.3%* |
| | Tirlenwi | 15,620 | *70.34%* | 2,086 | *-86.65%* | 0 | *0* |
| | Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 258,483 | *-50.25%* | 248,288 | *-3.94%* | 264,458 | *6.51%* |
| | Compostiwyd | 0 | | 0 | | 0 | *0* |
| | Llosgwyd gan adfer ynni | 296,095 | *110.98%* | 380,409 | *28.47%* | 456,354 | *20%* |
| | Llosgwyd heb adfer ynni | 0 | | 0 | | 0 | |

**Nodiadau**

Mae cyfanswm tunelli a chostau gwastraff yn cynnwys gwastraff llosgi, gwastraff ailgylchadwy a gwastraff tirlenwi.

Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael gwared ar rywfaint o ddeunyddiau trwy gyfrwng dulliau eraill nas nodir fel categori ar wahân yn y gofynion i adrodd am gynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys gwastraff 'bagiau oren' sy'n cael ei drin â gwres i'w ddiheintio cyn ei waredu. Yn 2022/23 roedd hyn yn cyfrif am 2,172 tunnell o wastraff, gyda chost trin a gwaredu o £846,144 (2021/22: 2,337 tunnell ar gost o £749,661). Felly, nid yw'r data uchod yn cwmpasu holl weithgarwch gwaredu gwastraff y Bwrdd Iechyd.

Mae cyfanswm gwastraff y Bwrdd Iechyd (fel yr adroddwyd uchod, ac yn cynnwys gwastraff bagiau oren) wedi gostwng o 9.8% (557 tunnell) yn 2023/24 o gymharu â 2022/23.

Mae'r ffactorau y tu ôl i hyn yn cynnwys gostyngiad yn y defnydd o gyfarpar diogelu personol yr oedd ei angen yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19. Mae hyn wedi cyfrannu at lai o wastraff bagiau oren a llai o ddeunydd pacio cysylltiedig yn cael ei anfon i'w ailgylchu. Hefyd, ym mis Ebrill 2022, cyflwynodd llywodraeth y DU y dreth pecynnu plastig sydd wedi gweld gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr yn adolygu faint o ddeunydd pacio y maent yn ei ddefnyddio.

Yn ogystal, yn dilyn y pandemig mae cyfran fwy o staff yn gweithio o bell, rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o ymgynghoriadau rhithwir ac mae'r cynnydd yn y broses o gyflwyno systemau digidol yn parhau i leihau ein defnydd o bapur o fewn swyddogaethau gweinyddol.

Cafwyd adferiad ynni o'r holl wastraff a anfonwyd i'w losgi.

<u>Dŵr</u>

| **Defnydd o Adnoddau Cyfyngedig** | | **2021/22** | ***Newid o 2019/20*** | **2022/23** | ***Newid o'r flwyddyn flaenorol*** | **2023/24** | ***Newid o'r flwyddyn flaenorol*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Heb Fod yn Ariannol ($m^3$) | Defnydd o Ddŵr (yr holl ddefnydd) | | | | | | |
| | cyflenwyd | 489,033 | -4.3% | 412,340 | *-15.7%* | 480,683 | *16.6%* |
| | echdynnwyd | 0 | | 0 | | 0 | |
| | Defnydd o Ddŵr (Ystadau ac eithrio swyddfeydd) | | | | | | |
| | cyflenwyd | 0 | | 0 | | 0 | |
| | echdynnwyd | 0 | | 0 | | 0 | |
| Dangosyddion Ariannol ( £ ) | Costau Cyflenwi Dŵr (Yr holl gostau) | 1,368,572 | 3.4% | 1,235,617 | *-9.7%* | 1,531,866 | *24.0%* |
| | Costau Cyflenwi Dŵr (Ystadau ac eithrio swyddfeydd) | 0 | | 0 | | 0 | |

Dangosodd y cofnodion defnydd o ddŵr yn 2023/24 gynnydd wrth i ollyngiad o dan yr wyneb yn Ysbyty Gwynedd effeithio ar y defnydd.

# Y Gymraeg

Mae darparu gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn eu dewis iaith yn ffactor allweddol wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel ac mae'n arbennig o bwysig i'n cleifion sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg ar ffurf cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae'n atebol i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n gwneud gwaith cydymffurfio a chraffu allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithredu yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg yn y Sector Iechyd a Gofal sef 'Mwy na geiriau'.

Mae Fforwm Strategol y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn darparu cyfeiriad ac ysgogiad cyffredinol ar gyfer darpariaeth Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Mae'r holl faterion sy'n ymwneud ag atebolrwydd, rheoli risg, adrodd ar bryderon a dathlu llwyddiant yn cael eu hadrodd yng nghyfarfodydd y Fforwm a gynhelir bob chwarter.

Mae'r ffocws yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar:

- Darparu cyfeiriad strategol a chanllawiau i sicrhau cydymffurfiaeth statudol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Nodi meysydd cydymffurfio presennol a darparu cymorth gweithredol ychwanegol i gynnig gwasanaethau i gleifion yn eu dewis iaith
- Darparu modelau priodol o hyfforddiant iaith i wella sgiliau iaith Gymraeg ein gweithlu presennol

Wrth sefydlu'r sylfaen hon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gofal amserol, mewn iaith briodol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r dull "Cynnig Rhagweithiol" hwn ymhlith y gweithlu drwy gyflwyno modiwl ar-lein gorfodol yn trafod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Mae seilwaith Tîm y Gymraeg wedi'i alinio â phedair ffrwd waith benodol fel yr amlinellir isod, sy'n cefnogi cyflawni ei ofynion a'i amcanion. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ym mhob maes i gryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

**Deddfwriaeth a Llywodraethu**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi staff i gyflawni Safonau penodol drwy ddatblygu Dulliau Gweithredu Safonol. Mae ymdrechion wedi'u canolbwyntio ar wasanaethau ffôn dwyieithog a gohebiaeth ysgrifenedig. Ymgymerir â dull hunanreoleiddio trwy ymarferion 'siopwr cudd' mewnol, lle caiff cyfarchion ffôn ac arwyddion eu monitro ar draws safleoedd a gwasanaethau amrywiol. Mae'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn chwarterol i Fforwm Strategol y Gymraeg lle bydd meysydd o bryder yn cael eu hamlygu a'u datrys. Mae'r mecanwaith hwn hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi meysydd o gydymffurfiaeth uchel, a rennir fel arfer da ar draws y sefydliad.

Mae 'Gweithdrefn ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol' y Bwrdd Iechyd hefyd wedi'i mabwysiadu i sefydlu cyfarwyddeb glir o ddisgwyliadau mewnol o ran darpariaeth Gymraeg. Mae hyn wedi rhoi ymrwymiad gweladwy ychwanegol i wreiddio gofynion iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae Swyddog Cymorth wedi'i benodi i sicrhau bod staff yn cael cymorth ac arweiniad digonol i gyflawni'r nodau hyn.

Gwnaethpwyd cynnydd hefyd o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gynllunio gwasanaethau ac wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn Offeryn Sgrinio Asesiad Integredig y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod datblygiadau'n cael effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae unrhyw gwynion neu sylwadau a dderbynnir drwy'r mecanweithiau adborth amrywiol a weithredir neu a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd i wneud newidiadau adeiladol i arferion gwaith ac i godi ymwybyddiaeth o effaith gadarnhaol darparu gofal i gleifion yn eu dewis iaith.

**Hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'i roi ar waith**

Er mwyn sicrhau bod Safonau'r Gymraeg a 'Mwy na Geiriau' yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo eleni i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg, i amlygu arfer gorau ar draws y sefydliad, ac i gryfhau gwaith partneriaeth ar draws Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd chweched Wythnos y Gymraeg flynyddol y Bwrdd Iechyd rhwng 16 a 20 Hydref 2023, a'i phrif ddiben yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gofal iechyd yn ddwyieithog. Roedd hefyd yn gyfle i ddathlu'r gwaith rhagorol sy'n parhau i gael ei wneud gan ein staff i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd gweithgareddau a digwyddiadau megis stondinau hyrwyddo mewn ysbytai acíwt a chymunedol i gynnig cefnogaeth, adnoddau ac arweiniad i staff ar bynciau yn ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog. Cynhaliwyd digwyddiadau arbennig i ddysgwyr Cymraeg, fel 'Cinio Clebran' i ddathlu ac ennyn diddordeb dysgwyr, gan gynnig amgylchedd hamddenol a chyfeillgar iddynt ymarfer eu sgiliau. Fel rhan o'r dathliadau yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd digwyddiadau ar yr Uned Blant ym mhob un o'r tri safle acíwt lle cafodd 'Dewin' groeso cynnes gan y cleifion ifanc ar y wardiau.

Cynhaliwyd Sioe Deithiol Ysgolion dros y flwyddyn, lle bu aelodau o staff yn mynychu ysgolion uwchradd amrywiol i hyrwyddo manteision sgiliau Cymraeg o fewn y sector iechyd. Cynhyrchwyd arweinlyfr 'Gweithio'n Ddwyieithog yn y Sector Iechyd' ar gyfer pobl ifanc i ledaenu'r neges hon ac fe'i lansiwyd mewn digwyddiad yn Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn, ym mis Mawrth 2024.

O ganlyniad i'r gwaith hwn i gymell pobl ifanc i fanteisio ar eu sgiliau dwyieithog wrth ystyried cyfleoedd cyflogaeth yn y sector iechyd yn y dyfodol, daeth Tîm y Gymraeg i'r brig ar lefel genedlaethol fel 'Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle' yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru eleni.

Arweiniodd y gwaith partneriaeth yn y maes hwn at ddigwyddiad diwrnod cyfan a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Wrecsam lle bu staff clinigol yn trafod eu profiadau personol o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, a darparwyd sesiynau hyfforddi i fyfyrwyr hefyd. Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol, a bydd digwyddiad tebyg yn cael ei gynnal gydag Ysgol Feddygol Gogledd Cymru dros y flwyddyn adrodd nesaf.

**Datblygu'r Gweithlu**

Mae Tîm Hyfforddiant Dysgu Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall o greu a darparu amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i ddiwallu anghenion y sefydliad. Mae’r cyrsiau hyn a’r modd y cânt eu cyflwyno wedi cael derbyniad cadarnhaol, ac mae adborth yn amlygu bod staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir i gefnogi eu datblygiad yn y gweithle. Bu cynnydd sylweddol yn y galw gan staff a phenodwyd tiwtor Cymraeg ychwanegol o ganlyniad.

Mae’r Tîm Hyfforddiant Dysgu Cymraeg yn parhau i weithio'n strategol, drwy alinio hyfforddiant â gofynion deddfwriaethol, a nodi unrhyw fylchau sydd yn yr addysgu o fewn y sefydliad. Ymhlith y cyrsiau a ddarparwyd roedd sesiynau blasu a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer gwahanol feysydd o fewn y sector iechyd e.e. cyrsiau ar gyfer gwaith derbynfa a blaen tŷ, ateb ac ymdrin ag ymholiadau ffôn, a chadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog. Mae gwerthuso ac adborth wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer o aelodau staff yn parhau â'u taith dysgu trwy fynychu gwersi wythnosol a symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch.

Cafodd cytundeb deuddeg mis hefyd ei adnewyddu gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o dan y *‘Cynllun Cymraeg Gwaith’* a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Sicrhaodd hyn barhad yn y cyfleoedd sydd ar gael i gydweithio, yn ogystal â chyflogi Swyddog Cefnogi Hyfforddiant.

Un uchafbwynt ar gyfer datblygu a chefnogi’r gweithlu i wella eu sgiliau Cymraeg oedd digwyddiad Dysgwr y Flwyddyn. Cynhaliwyd y seremoni ym mis Mawrth 2024. Roedd yn gyfle i ddathlu ein staff a'u llongyfarch am wneud argraff drwy ddysgu Cymraeg i safon uchel a defnyddio eu sgiliau newydd i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg iaith gyntaf. Enwebwyd mwy na 40 aelod o staff a’r enillwyr eleni oedd Melanie Hayes sy’n gweithio yn yr Uned Strôc yn Ysbyty Maelor (Categori Mynediad/Sylfaenol) a Leanne Parry, Ffisiotherapydd yn Ysbyty Bae Colwyn ac Ysbyty Glan Clwyd (Categori Canolradd/Uwch). Dyfarnwyd gwobr Dewis y Tiwtor i Ian Day, y Caplan yn Ysbyty Glan Clwyd, a dathlwyd y tri am eu hymrwymiad parhaus i ddysgu’r iaith er mwyn gallu siarad Cymraeg â chleifion.

**Gwasanaethau Cyfieithu**

Mae’r Tîm Cyfieithu yn parhau i ddarparu cymorth i holl wasanaethau’r Bwrdd Iechyd ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Bu cynnydd yn y galw dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda galw sylweddol am gyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog di-dor ac amserol i’r cyhoedd yn unol â Safonau’r Gymraeg. Mae'r tîm yn parhau i sicrhau bod safonau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal ym mhob agwedd ar gyfieithu, ac yn sicrhau bod gwybodaeth sydd ei hangen ar frys yn cael ei blaenoriaethu.

Parhaodd y tîm i ddarparu gwasanaeth cyfieithu cadarn i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru drwy gytundeb lefel gwasanaeth. O ystyried llwyddiant y model hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â'r un cytundeb â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar wahân sy'n canolbwyntio'n benodol ar Wasanaethau Cymraeg, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion adrodd a nodir yn Safonau'r Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Bwrdd Iechyd o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd ar gael yn https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/yr-iaith-gymraeg/.

Bydd adroddiad 2023/24 yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2024.

**Llofnod:**



**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 10 Gorffennaf 2024**

# RHAN DAU - Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### Cyflwyniad

**Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith yn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2023/24. Mae'n cynnwys:

- **Adroddiad y Cyfarwyddwyr**: Mae hwn yn rhoi manylion y bwrdd sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Mae rhywfaint o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei dangos yma fel arfer yn cael ei darparu mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac mae hyn yn cael ei amlygu lle bo'n berthnasol.
- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr**: Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau cyllid a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
- **Datganiad Llywodraethu**: Dyma graidd yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n egluro trefniadau a strwythurau llywodraethu o fewn y Bwrdd Iechyd ac yn dod â sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth ynghyd. Fe'i paratowyd fel dogfen ar wahân a gyhoeddir fel atodiad i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Y Bwrdd**

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei uwchgyfeirio i'r lefel uchaf: Mesurau Arbennig. Mae hyn wedi arwain at newid sylweddol mewn arweinyddiaeth a dull gweithredu sy'n cael ei grynhoi isod.

Gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol benodiadau uniongyrchol i'r Bwrdd yn 2023, roedd y penodiadau hyn yn rhai am gyfnod penodol dros 12 mis.

Yn dilyn y broses penodiadau cyhoeddus yn 2023/24, penodwyd yr aelodau canlynol i'r Bwrdd i ddechrau: Dyfed Edwards, Rhian Watcyn-Jones, Clare Budden, Karen Balmer. Penodwyd Lesley Singleton yn Aelod Annibynnol ar 2 Mai 2023. Rhoddir mwy o fanylion isod.

Ar ddechrau'r flwyddyn Dyfed Edwards oedd Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd Iechyd. Tan 2 Mai 2023, Gill Harris oedd y Prif Weithredwr Dros Dro.

Yn dilyn hynny, ar 3 Mai 2023 penodwyd Carol Shillabeer i swydd y Prif Weithredwr Dros Dro a dychwelodd Gill Harris i'w rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig tan 31 Awst 2023.

Ar ôl proses benodi ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, penodwyd Dyfed Edwards yn Gadeirydd parhaol y Bwrdd Iechyd ar 1 Mawrth 2024 a phenodwyd Carol Shillabeer yn Brif Weithredwr parhaol ar 1 Chwefror 2024.

Cafodd yr Is-Gadeirydd, Gareth Williams ei benodi hefyd ar 3 Tachwedd 2023. Cyn hyn bu'n Aelod Annibynnol Dros Dro o'r Bwrdd Iechyd. Yn ogystal â hyn, mae penodi naw Aelod Annibynnol parhaol yn ystod y flwyddyn wedi rhoi sylfaen llawer cadarnach i'r Bwrdd Iechyd adeiladu arni. Caiff y rhain eu nodi isod:

- Penodwyd y Cynghorydd Dyfed Jones yn Aelod Annibynnol parhaol ar 22 Mai 2023.
- Penodwyd Rhian Watcyn Jones yn Aelod Annibynnol parhaol ar 1 Mawrth 2024. Cyn hyn roedd yn Aelod Annibynnol Dros Dro.
- Penodwyd yr Athro Michael Larvin yn Aelod Annibynnol parhaol ar 10 Mawrth 2023.
- Penodwyd Dr Caroline Turner yn Aelod Annibynnol parhaol ar 3 Tachwedd 2023.
- Penodwyd Urtha Felda yn Aelod Annibynnol parhaol ar 3 Tachwedd 2023.
- Penodwyd Karen Balmer yn Aelod Annibynnol parhaol ar 1 Mawrth 2024. Cyn hyn roedd yn Aelod Annibynnol Dros Dro.
- Penodwyd Clare Budden yn Aelod Annibynnol parhaol ar 1 Mawrth 2024. Cyn hyn roedd yn Aelod Annibynnol Dros Dro (o 2 Mai 2023 i 29 Chwefror 2024) ac yn Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o 1 Ebrill i 1 Mai 2023).
- Penodwyd Christopher Field yn Aelod Annibynnol parhaol ar 1 Mawrth 2024.
- Penodwyd William Nichols yn Aelod Annibynnol parhaol ar 1 Mawrth 2024.
- Penodwyd Lesley Singleton yn Aelod Annibynnol parhaol ar 2 Mai 2023 a rhoddodd y gorau i'r rôl hon ar 30 Mai 2023.

Cynghorodd Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, y byddai'n gadael y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2023 i ymgymryd â rôl newydd gyda Chyflogwyr GIG Cymru. Roedd y rôl hon yn wag ar ôl y cyfnod hwn. Yn absenoldeb deilydd swydd, roedd y Prif Weithredwr yn parhau i fod yn atebol am y swyddogaeth hon.

Mae Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar gyfnod absenoldeb ar hyn o bryd (31 Mawrth 2024), dechreuodd y cyfnod ar 5 Rhagfyr 2022.

Cynghorodd Steve Webster, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid y byddai'n gadael y Bwrdd Iechyd ar 22 Mehefin 2023. Penodwyd Russell Caldicott yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ar 1 Gorffennaf 2023.

Ymddiswyddodd Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus o'i rôl ar 18 Ionawr 2024. Penodwyd Dr Jane Moore yn Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Dros Dro ar 1 Ionawr 2024.

Cafodd Adele Gittoes ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro ar 1 Awst 2023 ond dywedodd y byddai'n gadael y Bwrdd Iechyd ar 21 Mawrth 2024.

Manylir ar aelodaeth lawn y Bwrdd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Atodiad 1) ac yn Adroddiad Tâl 2023/24. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn nodi manylion strwythur pwyllgorau ategol y Bwrdd (Adran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) ac aelodaeth y pwyllgorau (wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol).

**Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2024**



Dyfed Edwards
Cadeirydd
(Pleidlais)



Carol Shillabeer
Prif Weithredwr
(Pleidlais)



Gareth Williams
Is-gadeirydd
(Pleidlais)



Karen Balmer
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Clare Budden
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Y Cynghorydd Dyfed Jones
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Rhian Watcyn Jones
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Yr Athro Mike Larvin
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Urtha Felda
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Dr Caroline Turner
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



William Nichols
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Christopher Field
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)



Jane Wild
Aelod Cyswllt (Heb Bleidlais)



Fon Roberts
Aelod Cyswllt (Heb Bleidlais)



Mike Parry
Aelod Cyswllt (Heb Bleidlais)



Dr Nick Lyons
Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
(Pleidlais)



Angela Wood
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
(Pleidlais)



Russell Caldicott
Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
(Pleidlais)



Dr Chris Stockport,
Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu
(Pleidlais)



Dr Jane Moore
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Dros Dro
(Pleidlais)



Gareth Evans
Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
(Pleidlais)

Gwag
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
(Pleidlais)

Gwag
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
(Pleidlais)



Phil Meakin
Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd
(Heb Bleidlais)



Helen Stevens-Jones
Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
(Heb Bleidlais)



Dylan Roberts
Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth
(Heb Bleidlais)



Teresa Owen
Arweinydd Dros Dro, Iechyd Meddwl a'r Gymraeg
(Heb Bleidlais)

**Cofrestr o Fuddiannau Cyfarwyddwyr**

Mae’n ofynnol i holl aelodau’r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a allai effeithio ar eu diduedddrwydd o ran eu gwaith o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae’r datganiadau a wnaed gan Gyfarwyddwyr ac Aelodau’r Bwrdd ar gyfer 2023/24 wedi’u cyhoeddi yn Nodyn 30 o’r Cyfrifon Blynyddol, ac maent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodaur-bwrdd/aelodaur-bwrdd-iechyd/

**Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau**

Mae’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai’r holl wybodaeth nad yw’n bersonol a gedwir gan gorff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, oni bai bod cost neu eithriad yn berthnasol. Mae datganiad sy'n cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EF isod.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac unrhyw arweiniad Llywodraeth Cymru cysylltiedig ac ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi: https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/

**Cydymffurfiaeth â Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol a Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol**

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â chydymffurfio â data personol ac adrodd am ddigwyddiadau cysylltiedig wedi'i chynnwys yn yr adran Torri Diogelwch Data yn yr Atodiad i'r ddogfen hon (y Datganiad Llywodraethu Blynyddol). Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â chydymffurfio â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol wedi'i chynnwys yn Adran 7 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'n cynnwys ystyriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn ogystal â chynlluniau cyflawni lleihau allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd.

## Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr Dros Dro fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorchymyn mai’r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gofyn i’r Swyddog Atebol gadarnhau, cyn belled ag y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd y camau priodol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gofyn i’r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a’i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhain a'r dyfarniad angenrheidiol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae’r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi’r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd y gwn i ac y creda i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a fynegwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn gywir.



**Carol Shillabeer, Prif Weithredwr**

**Dyddiad 10 Gorffennaf 2024**

## Datganiad ar Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon

Mae gofyn i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac o incwm a gwariant Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso'n gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a bennir gan Weinidogion Cymru â chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- datgan p'un ai a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau sylweddol a ddatgelir neu a esbonnir yn yr adroddiad.

Mae’r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â’r gofynion uchod wrth baratoi’r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr awdurdod ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a grybwyllir uchod.

**Ar Orchymyn y Bwrdd**

**Llofnod:**



Dyfed Edwards
Cadeirydd:
Dyddiad 10 Gorffennaf 2024



Carol Shillabeer
Prif Weithredwr:
Dyddiad: 10 Gorffennaf 2024



Russell Caldicott
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro:
Dyddiad: 10 Gorffennaf 2022

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau, a'r system rheolaeth fewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd
- Ein trefniadau i reoli risg a'r meysydd risg allweddol a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd
- Prosesau Ansawdd a Llywodraethu
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Adolygiadau allanol annibynnol o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd a materion a nodwyd
- Ein trefniadau cynllunio
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i gael ei roi mewn Mesurau Arbennig

Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn ei ddarparu fel atodiad i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon isod.

# Adroddiad Tâl

**Polisïau ynghylch tâl staff ac uwch reolwyr**

Y diffiniad o Uwch Reolwyr yw'r rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo a rheoli gweithgareddau mawr y Bwrdd Iechyd cyfan; mae'r diffiniad hwn yn cynnwys y gweithwyr a'r Aelodau Annibynnol hynny sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Caiff enwau a theitlau aelodau'r Bwrdd eu datgelu yn y tabl o gyflogau isod.

Yn Hydref 2004, cyflwynwyd proses Agenda ar gyfer Newid (AFC) y GIG, i gyflawni cysondeb o ran contractau ac amodau a thelerau ar draws GIG Cymru. Rhoddir contract Cymru gyfan i'r holl staff a'r rheolwyr (ac eithrio cyfarwyddwyr) pan gânt eu penodi.

Cafodd taliad cyfunol o 1.5% ei gymhwyso ar gyfer yr holl staff ar delerau ac amodau AFC mewn perthynas â Blwyddyn Ariannol 2022/23, gweithredwyd hyn ym mis Mai 2023.

Cynyddodd llythyr cyflog AFC (W) 04/2023 raddfeydd cyflog o 5% o 1 Ebrill 2023 ar gyfer yr holl staff ar delerau ac amodau AFC, a weithredwyd ym mis Gorffennaf 2023. Codwyd Band Cyflog 1 (caeedig) i frig Band 2. Codwyd yr holl staff ar Fand cyflog 2 i frig y band cyflog.

Cafodd Taliad Adferiad GIG ychwanegol ei weithredu ym mis Mehefin 2023, gyda gwerth cyfartalog o 3%. Roedd Taliad Adferiad y GIG yn daliad anghyfunol untro ar gyfer staff parhaol a gweithwyr banc a roddwyd ar y sail ganlynol:

- Band 1 i 4 £900
- Band 5 i 8a £1,005
- Band 8b i 8c £1,050
- Band 8d £1,100
- Band 9 £1,190

Mae GIG Cymru yn dilyn argymhellion y Living Wage Foundation ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol. O 1 Ebrill 2023 ymlaen cymhwysir cyfradd atodol i wneud y gyfradd fesul awr isaf yn £10.90 yr awr. Mae hyn wedi codi cyflogau staff ar Fand cyflog 1, Band cyflog 2 a gwaelod Band cyflog 3. Bydd yn cael ei adolygu eto, pan gyhoeddir codiad cyflog blynyddol 2024/25.

Llywodraethir staff meddygol a staff deintyddol gan amodau a thelerau meddygon a deintyddion sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru. Gweithredwyd taliad cyfunol o 1.5% yn ystod Blwyddyn Ariannol 2022/23, ym mis Mai 2023. Rhoddwyd codiad pellach o 5% i'r cyflog sylfaenol o 1 Ebrill 2023, gweithredwyd hynny ym mis Hydref 2023.

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu talu drwy ddefnyddio Graddfa Gyflog ar gyfer Rheolwyr Uchel Iawn, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl ar y lefel genedlaethol a defnyddir y dyfarniadau yn lleol ar sail cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Gweithredwyd taliad cyfunol o 1.5% yn ystod Blwyddyn Ariannol 2022-23, ym mis Mai 2023. Ar gyfer 2023/24, bu cynnydd cyfunol o 5% yn achos yr holl bwyntiau cyflog ar gyfer unigolion sy'n dal swyddi Gweithredol ac Uwch ac a dalwyd ym mis Mawrth 2024, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2023. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system dâl ar sail perfformiad ar gyfer rheolwyr uchel iawn. Mae'r holl gontractau ar gyfer rolau parhaol yn barhaol a thri mis yw'r cyfnod o rybudd yn achos rheolwyr uchel iawn.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd (a gellir eu penodi am uchafswm o wyth mlynedd). Mae Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl a benderfynir arno ar y lefel genedlaethol yn ystod eu penodiad.

**Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth**

Bwriad y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yw cynnig sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd ynghylch tâl a thelerau gwasanaeth tîm gweithredwyr ac aelodau eraill o'r staff uwch, nid ynghylch tâl yr Agenda ar gyfer Newid. Mae hefyd yn cynnig sicrwydd ynghylch trefniadau tâl a thelerau gwasanaeth ar gyfer yr holl staff eraill ac mae'n cyflawni swyddogaethau dirprwyedig penodol. Cadeirydd y Pwyllgor oedd Dyfed Edwards, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Trefnwyd i'r Pwyllgor gwrdd fel mater o drefn bob yn ail fis yn ystod y cyfnod adrodd ac ar adegau eraill pe bai'r Cadeirydd yn ystyried fod hynny'n ofynnol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 28 Medi 2023, cymeradwyodd y Bwrdd newid i strwythur y Pwyllgor a diwygiwyd swyddogaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaethau a'i ailenwi'n 'Pwyllgor Tâl'. Tynnwyd cyfeiriad at Gynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru (UPSW) o swyddogaeth y Pwyllgor Tâl gan y byddai hyn yn cael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Byddai pŵer dirprwyedig i ystyried adroddiadau ar y sefyllfa o ran Codi Llais yn Ddiogel a Chwythu'r Chwiban, yn cael ei ymgorffori ym mhortffolio'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl a'r Cylch Busnes diwygiedig yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Medi 2023.

Dyma oedd prif eitemau allweddol yr agenda a ystyriwyd yn ystod cyfnod adrodd 2023/24:

**Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth: Ebrill 2023 i Hydref 2023**

- Diweddariad Polisi a Thâl, Telerau ac Amodau Cenedlaethol
- Rheoli Achos a Thribiwnlysoedd (Gweithredwyr a Rheolwyr Uchel Iawn)
- Diweddariad ynghylch Uwch Reolwyr Dros Dro
- Ymddygiad, Gallu ac Iechyd Meddygon a Deintyddion
- Cynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru (UPSW)
- Penodi Prif Swyddog Gweithredol
- Penodi a Newid Cyfarwyddwr Gweithredol gan gynnwys newidiadau i Bortffolios
- Ailgylchu Pensiynau
- Codi Tâl Gweithwyr a Chyflogau sydd ar gyfraddau tâl ad hoc

**Pwyllgor Tâl: Tachwedd 2023 i Fawrth 2024**

- Adolygiad o Gylch Gorchwyl a Chylch Busnes y Pwyllgor
- Model Gweithredu PBC
- Adolygiad Annibynnol – Ymateb y Rheolwyr
- Rheoli Achos a Thribiwnlysoedd (Gweithredwyr a Rheolwyr Uchel Iawn)
- Diweddariad ynghylch Uwch Reolwyr Dros Dro
- Penodi Prif Swyddog Gweithredol
- Penodi a Newid Cyfarwyddwr Gweithredol gan gynnwys newidiadau i Bortffolios
- Codi Tâl Gweithwyr a Chyflogau sydd ar gyfraddau tâl ad hoc

Y canlynol oedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

| Rôl ar y Pwyllgor | Enw | Teitl y Swydd | Dyddiadau |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd | Dyfed Edwards | Cadeirydd Dros Dro / Cadeirydd Parhaol y Bwrdd Iechyd | 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Gareth Williams | Aelod Annibynnol Dros Dro / Is-Gadeirydd Parhaol y Bwrdd Iechyd | 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Karen Balmer | Aelod Annibynnol Dros Dro / Aelod Annibynnol Parhaol o'r Bwrdd Iechyd | 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol Dros Dro / Aelod Annibynnol Parhaol o'r Bwrdd Iechyd | 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Yr Athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd | 10 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Clare Budden | Aelod Annibynnol Dros Dro / Aelod Annibynnol Parhaol o'r Bwrdd Iechyd | 2 Mai 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Cynghorydd Dyfed Jones | Aelod Annibynnol Dros Dro / Aelod Annibynnol Parhaol o'r Bwrdd Iechyd | 22 Mai 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Urtha Felda | Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd | 3 Tachwedd 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Caroline Turner | Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd | 3 Tachwedd 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Christopher Field | Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd | 1 Mawrth 2024 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | William Nichols | Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd | 1 Mawrth 2024 at 31 Mawrth 2024 |
| Aelod | Lesley Singleton | Aelod Annibynnol Dros Dro | 2 Mai 2023 at 30 Mai 2023 *(ni chynhaliwyd cyfarfod Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn)* |

Yn bresennol:

| Rôl ar y Pwyllgor | Enw | Teitl y Swydd | Dyddiadau |
|---|---|---|---|
| Yn bresennol | Carol Shillabeer | Prif Weithredwr Dros Dro / Parhaol | 3 Mai 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Yn bresennol | Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl | 9 Ionawr 2023 at 31 Mawrth 2024 |
| Yn bresennol | Phil Meakin | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd / Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu | 28 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 |

**Perthnasoedd Tâl**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr / gweithiwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn y Cyfrifon Blynyddol, Nodyn 9.6.

Ar gyfer staff cymwys y GIG, talwyd dyfarniad cyflog cyfunol o 1.5% wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2022 ym mis Mai 2023. Dyfarnwyd Taliad Adfer anghyfunol ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol, wedi'i ddilyn gan 5% cyfunol yn ymwneud â 2023/24.

Y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn 2023/24 oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro (2022/23 - Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth). Yn 2023/24, derbyniodd 14 (2022/23, 2) o weithwyr dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

**Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo**

Mae manylion yr holl daliadau diswyddo y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn Nodyn 9.5 y Cyfrifon Blynyddol ac yn atodiad 1 ar ddiwedd yr adroddiad tâl a staff (ar dudalen 102).

**Cyflog Uwch Reolwyr a Datgeliadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl**

Mae cyfanswm y ffigurau yn y tabl isod (Cyfanswm y Ffigur Tâl Unigol) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigur ar gyfer buddion pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan Asiantaeth Bensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli'r swm gwirioneddol a gafodd ei dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu asesiad cyfrifyddu o'r cynnydd mewn buddion hirdymor wedi'u haddasu am chwyddiant. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn gan gynnwys newidiadau i gyflog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wnaed gan unigolion a ffactorau prisio isorweddol ar y cynllun cyfan.

**Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod** (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn wedi'i asesu gan actiwariaid sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion wedi'u prisio yw buddion yr aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn i briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan â'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae ffigurau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn arall mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun

Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

**Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV**: Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas.  Mae'n ystyried y cynnydd o ran pensiwn wedi'i gronni oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion sy'n cael eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Ffigur Cyfanswm Sengl Tabl Tâl

| Nodiadau | Enw | Rôl | Dyddiadau Effeithiol | 2023/24 Cyflog £'000 Bandiau o £5,000 | 2023/24 Buddion mewn Nwyddau £100 agosaf | 2023/24 Buddion Pensiwn £1,000 agosaf | 2023/24 Cyfanswm Bandiau o £5,000 | 2023/24 Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000 | 2022/23 Cyflog £'000 Bandiau o £5,000 | 2022/23 Buddion mewn Nwyddau £100 agosaf | 2022/23 Buddion Pensiwn £1,000 agosaf | 2022/23 Cyfanswm Bandiau o £5,000 | 2022/23 Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | C Shillabeer | Prif Weithredwr Dros Dro | 03/05/23 - 31/01/24 | 165 - 170 | - | - | 165 - 170 | 225 - 230 | | | | | |
| 1 | C Shillabeer | Prif Weithredwr | 01/02/24 - 31/03/24 | 40 - 45 | - | - | 40 - 45 | 250 - 255 | | | | | |
| 2 | D Edwards | Cadeirydd Dros Dro | 01/04/23 - 29/02/24 | 60 - 65 | 1,300 | - | 65 - 70 | 65 - 70 | 5 - 10 | - | - | 5 - 10 | 65 - 70 |
| 2 | D Edwards | Cadeirydd | 01/03/24 - 31/03/24 | 5 - 10 | 800 | - | 5 - 10 | 65 - 70 | | | | | |
| 3 | P Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro | 05/05/23 - 31/03/24 | 95 - 100 | - | - | 95 - 100 | 100 - 105 | | | | | |
| 4 | M Marcu | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro | 01/04/23 - 27/04/23 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 5 | G Harris | Prif Weithredwr Dros Dro | 01/04/23 - 31/08/23 | 155 - 160 | - | - | 155 - 160 | 215 - 220 | 115 - 120 | - | - | 115 - 120 | 175 - 180 |
| 5 | G Harris | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Clinigol Integredig | | - | - | - | - | - | 75 - 80 | - | - | 75 - 80 | 205 - 210 |
| 6 | S Hill | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 01/04/23 - 31/03/24 | 160 - 165 | - | 35 | 195 - 200 | - | 150 - 155 | - | 37 | 185 - 190 | - |
| 7 | S Webster | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid | 01/04/23 - 22/06/23 | 60 - 65 | - | - | 60 - 65 | 270 - 275 | 75 - 80 | - | - | 75 - 80 | 305 - 310 |
| 8 | R Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid | 01/07/23 - 31/03/24 | 120 - 125 | - | - | 120 - 125 | 160 - 165 | | | | | |

| | | | | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodiadau** | **Enw** | **Rôl** | **Dyddiadau Effeithiol** | **Cyflog £'000** Bandiau o £5,000 | **Buddion mewn Nwyddau** £100 agosaf | **Buddion Pensiwn** £1,000 agosaf | **Cyfanswm** Bandiau o £5,000 | **Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000** | **Cyflog £'000** Bandiau o £5,000 | **Buddion mewn Nwyddau** £100 agosaf | **Buddion Pensiwn** £1,000 agosaf | **Cyfanswm** Bandiau o £5,000 | **Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000** |
| **9** | T Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | 01/04/23 - 18/01/24 | 130 - 135 | - | - | 130 - 135 | 145 - 150 | 145 - 150 | - | 22 | 165 - 170 | - |
| **10** | Dr J Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Dros Dro | 01/03/24 - 31/03/24 | 10 - 15 | - | - | 10 - 15 | 125 - 130 | | | | | |
| **11** | N Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol | 01/04/23 - 31/03/24 | 225 - 230 | 300 | - | 225 - 230 | - | 205 - 210 | - | - | 205 - 210 | 210 - 215 |
| **11** | N Lyons | Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | 01/04/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **12** | Dr J C Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu | 01/04/23 - 31/03/24 | 160 - 165 | 3,000 | - | 160 - 165 | - | 155 - 160 | 5900 | - | 160 - 165 | - |
| **13** | S G Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd | 01/04/23 - 31/03/24 | 120 - 125 | 1,600 | - | 120 - 125 | - | 115 - 120 | 3100 | 32 | 150 - 155 | - |
| **14** | S Green | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | 01/04/23 - 30/04/23 | 15 - 20 | - | - | 15 - 20 | 155 - 160 | 150 - 155 | - | 15 | 165 - 170 | - |

| | | | | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodiadau** | **Enw** | **Rôl** | **Dyddiadau Effeithiol** | **Cyflog £'000** Bandiau o £5,000 | **Buddion mewn Nwyddau** £100 agosaf | **Buddion Pensiwn** £1,000 agosaf | **Cyfanswm** Bandiau o £5,000 | **Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000** | **Cyflog £'000** Bandiau o £5,000 | **Buddion mewn Nwyddau** £100 agosaf | **Buddion Pensiwn** £1,000 agosaf | **Cyfanswm** Bandiau o £5,000 | **Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000** |
| **15** | A Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau | 01/08/23 - 31/03/24 | 100 - 105 | - | - | 100 - 105 | 150 - 155 | | | | | |
| **16** | A Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 01/04/23 - 31/03/24 | 145 - 150 | - | - | 145 - 150 | - | 90 - 95 | - | - | 90 - 95 | 135 - 140 |
| **21** | R Watcyn Jones | Aelod Annibynnol | 01/04/23 - 31/03/24 | 15 - 20 | 1,200 | - | 15 - 20 | - | 0 - 5 | - | - | 0 - 5 | 15 - 20 |
| **21** | K Balmer CPFA | Aelod Annibynnol | 01/04/23 - 31/03/24 | 15 - 20 | 700 | - | 15 - 20 | - | 0 - 5 | - | - | 0 - 5 | 15 - 20 |
| **17** | G Williams | Aelod Annibynnol | 01/04/23 - 31/03/24 | 15 - 20 | 100 | - | 15 - 20 | - | 0 - 5 | - | - | 0 - 5 | 15 - 20 |
| **17** | G Williams | Is-gadeirydd | 03/11/23 - 31/03/24 | 15 - 20 | 100 | - | 15 - 20 | 40 - 45 | | | | | |
| **18** | Yr Athro M Larvin | Aelod Annibynnol | 10/04/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | | | | | |
| **21** | Cyng D Jones | Aelod Annibynnol | 22/05/23 - 31/03/24 | 10 - 15 | 900 | - | 10 - 15 | 15 - 20 | | | | | |
| | L Singleton | Aelod Annibynnol | 02/05/23 - 30/05/23 | 0 - 5 | - | - | 0 - 5 | 15 - 20 | | | | | |
| **19** | C Budden | Aelod Annibynnol | 02/05/23 - 31/03/24 | 10 - 15 | - | - | 10 - 15 | 15 - 20 | | | | | |
| **21** | U Felda | Aelod Annibynnol | 03/11/23- 31/03/24 | 5 - 10 | 400 | - | 5 - 10 | 15 - 20 | | | | | |
| **21** | Dr C Turner | Aelod Annibynnol | 03/11/23 - 31/03/24 | 5 - 10 | 300 | - | 5 - 10 | 15 - 20 | | | | | |
| **20** | W Nichols | Aelod Annibynnol | 01/03/24 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodiadau** | **Enw** | **Rôl** | **Dyddiadau Effeithiol** | **Cyflog £'000** Bandiau o £5,000 | **Buddion mewn Nwyddau** £100 agosaf | **Buddion Pensiwn** £1,000 agosaf | **Cyfanswm** Bandiau o £5,000 | **Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000** | **Cyflog £'000** Bandiau o £5,000 | **Buddion mewn Nwyddau** £100 agosaf | **Buddion Pensiwn** £1,000 agosaf | **Cyfanswm** Bandiau o £5,000 | **Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000** |
| | C Field | Aelod Annibynnol | 01/03/24 - 31/03/24 | 0 - 5 | - | - | 0 - 5 | 15 - 20 | - | - | - | - | - |
| **19** | C Budden | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | 01/04/23 - 01/05/23 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **19** | J Wild | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | 01/04/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **19** | F Roberts | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | 01/04/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **19** | M Parry | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | 24/10/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | | | | | |

**Nodiadau**

*Mae'r holl dâl a roddir i unigolion wedi'i adlewyrchu yn y tabl uchod gan gynnwys unrhyw daliadau yn lle gwyliau lle bo'n berthnasol a'r taliad 1.5% ar gyfer 2022/23 a ddyfarnwyd ym mis Mai 2023.

1. C Shillabeer, Prif Weithredwr Dros Dro, o 3 Mai 2023 at 31 Ionawr 2024 wedi'i secondio o BILl Powys am gyfanswm cost o £219,239.50. Mae ffigurau sy'n ymwneud â chyflog manwl y gweithiwr, a ddatgelwyd yn y tabl, wedi'u darparu gan BILl Powys. Dechreuodd y gweithiwr y rôl yn barhaol ar 1 Chwefror 2024, ac mae'n cael tâl pwynt 20 ar frig y raddfa Gwerthuso Swyddi ar gyfer Uwch Swyddi (JESP), £236,806. Derbyniodd y gweithiwr hefyd lwfans o £2,206.32 am y cyfnod parhaol (Effaith Blwyddyn Lawn £13,237.92). Nid yw adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Bensiynau yn dadansoddi'r gwahaniaethau pensiwn rhwng Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, felly, mae'r gwerth wedi'i eithrio.

2. Penodwyd D Edwards, Cadeirydd, yn ar sail barhaol ar 1 Mawrth 2024. Derbyniodd y gweithiwr dreuliau teithio trethadwy gwerth £2,100.

3. Dechreuodd P Meakin, Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd, ei swydd yn weithredol ar 5 Mai 2023. Cyn 5 Mai 2023, roedd P Meakin yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol. Nid yw'r adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Pensiynau yn dadansoddi'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud yn unig â rôl Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd, felly, mae'r gwerth wedi'i eithrio.

4. Roedd M Marcu, Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn ei swydd hyd nes 27 Ebrill 2023. Cafodd swydd Ysgrifennydd y Bwrdd ei llenwi drwy Asiantaeth, gyda chyfanswm cost anfonebu o £21,153 (£243,625 2022-23). Asesir bod y gweithiwr o fewn cwmpas dosbarth treth IR35.

5. Roedd G Harris, Prif Weithredwr Dros Dro, ar gyfnod o absenoldeb o 3 Ebrill 2023 cyn gadael y sefydliad ar 31 Awst 2023. Derbyniodd y gweithiwr becyn setlo gwerth £52,180.13 yn lle cyfnod rhybudd ac mae wedi optio allan o drefniadau Pensiwn y GIG.

6. Mae S Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, ar gyfnod absenoldeb (31 Mawrth 2024), ers 5 Rhagfyr 2022.

7. S Webster, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid, o 1 Ebrill 2023 i 22 Mehefin 2023. Yn ystod y cyfnod dros dro ni chafodd y cyflogai ei optio i mewn i drefniadau Pensiwn y GIG.

8. R Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid, yn weithredol o 1 Gorffennaf 2023. Nid yw adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Bensiynau yn dadansoddi'r gwahaniaethau pensiwn rhwng y Bwrdd Iechyd a chyflogwr blaenorol y gweithiwr, felly, nid yw'r gwerth wedi'i gynnwys.

9. Roedd T Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, yn ei swydd tan 18 Ionawr 2024. Mae costau cyflog yn cynnwys Lwfans Cyfrifoldeb ychwanegol o £1,093.58 ar gyfer yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl ac yn lle gwyliau blynyddol gwerth £6,889.58.

10. Dr J Moore, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd Cyhoeddus, yn weithredol o 1 Mawrth 2024. Cyn 1 Mawrth 2024, cyflogwyd J Moore gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol. Nid yw adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Bensiynau yn dadansoddi'r gwahaniaeth pensiwn sy'n ymwneud â'r rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd Cyhoeddus yn unig, felly, mae'r gwerth wedi'i eithrio.

11. Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw swydd barhaol Dr N Lyons. Mae lwfans cyfrifoldeb o £9,999.96 wedi'i gynnwys yn y cyflog ar gyfer swydd Dirprwy Brif Weithredwr dros dro. Roedd y gweithiwr yn derbyn budd-dal aberthu cyflog gwerth £300 ac mae wedi optio allan o drefniadau Pensiwn y GIG.

12. Dr J C Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu. Roedd y gweithiwr yn derbyn budd-dal aberthu cyflog gwerth £3,000 ac mae wedi optio allan o drefniadau Pensiwn y GIG.

13. S G Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd. Roedd y gweithiwr yn derbyn budd-dal aberthu cyflog gwerth £1,600.

14. Gadawodd S Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, y sefydliad ar 30 Ebrill 2023. Yn absenoldeb gweithiwr parhaol, cyflawnwyd cyfrifoldebau a dyletswyddau'r rôl gan y Prif Weithredwr.

15. A Gittoes, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau, ar secondiad o Weithrediaeth GIG Cymru (cynhaliaeth gan Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru) o 1 Awst 2023 ar gyfanswm cost o £128,688.24. Mae ffigurau sy'n ymwneud â chyflog manwl y gweithwyr, a ddatgelir yn y tabl, wedi'u darparu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daeth secondiad y cyflogai gyda'r Bwrdd Iechyd i ben ar 31 Mawrth 2024.

16. A Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn ogystal â'r cyflog, derbyniodd y gweithiwr gostau adleoli gwerth £8,000 nad ydynt yn destun Treth Incwm.

17. Dechreuodd G Williams, Aelod Annibynnol, ar ei rôl ychwanegol fel Is-Gadeirydd ar 3 Tachwedd 2023 ac felly cafodd dâl am y ddwy rôl. Roedd y gweithiwr yn derbyn treuliau teithio trethadwy gwerth £200.

18. Yr Athro M Larvin, Aelod Annibynnol, o 10 Ebrill 2023. Yr Athro Larvin yw Dirprwy Is-ganghellor Meddygaeth ac Iechyd a Deon Meddygaeth, Prifysgol Bangor. Yr Athro Larvin yw cynrychiolydd y Brifysgol ar y Bwrdd ac ni thelir yr aelod gan y Bwrdd Iechyd.

19. Mae Aelodau Cyswllt y Bwrdd (C Budden, J Wild, F Roberts ac M Parry) yn gynrychiolwyr ar y Bwrdd ac nid ydynt yn cael eu talu gan y Bwrdd Iechyd am gyflawni'r rolau hyn. Mae C Budden yn cael ei dalu am ei rôl fel Aelod Annibynnol o 2 Mai 2023.

20. Mae'r Aelod Annibynnol W Nicholls yn Gynrychiolydd Undeb Llafur ac nid yw'n cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r rôl hon.

21. Mae'r Aelodau Annibynnol sy'n derbyn treuliau teithio trethadwy yn cynnwys R Watcyn Jones (£1,200, K Balmer (£700), Cyng D Jones (£900), U Felda (£400) ac C Turner (£300).

## Tabl Buddion Pensiwn

| Nodiadau | Enw | Rôl | Dyddiadau Effeithiol | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig<br><br>Bandiau o £2,500 | Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad<br><br>Bandiau o £2,500 | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2024<br><br>Bandiau o £5,000 | Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2024<br><br>Bandiau o £5,000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2023 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2024 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| 2 | C Shillabeer | Prif Weithredwr | 01/02/24 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - |
| 2 | P Meakin | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd | 05/05/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - |
| 1 | G Harris | Prif Weithredwr Dros Dro | 01/04/23 - 31/08/23 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| | S Hill | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 01/04/23 - 31/03/24 | 2.5 - 5.0 | 0.0 | 30 - 35 | 0.0 | 368 | 499 | 72 |
| | S Webster | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid | 01/04/23 - 22/06/23 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 | R Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid | 01/07/23 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - |
| | T Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | 01/04/23 - 18/01/24 | 0.0 | 27.5 - 30.0 | 55 - 60 | 165 - 170 | 1,144 | 1,396 | 92 |
| 2 | J Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Dros Dro | 01/01/24 - 31/03/24 | - | - | - | - | - | - | - |

| Nodiadau | Enw | Rôl | Dyddiadau Effeithiol | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig<br><br>Bandiau o £2,500 | Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad<br><br>Bandiau o £2,500 | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2024<br><br>Bandiau o £5,000 | Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2024<br><br>Bandiau o £5,000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2023 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2024 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | A Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 01/04/23 - 31/03/24 | 0.0 | 35.0 - 37.5 | 30 - 35 | 80 - 85 | 543 | 759 | 140 |
| 1 | N Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol | 01/04/23 - 31/03/24 | 0.0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 1 | C Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu. | 01/04/23 - 31/03/24 | 0.0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | S Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd | 01/04/23 - 31/03/24 | 0.0 | 20.0 - 22.5 | 45 - 50 | 125 - 130 | 911 | 1,083 | 66 |
| | S Green | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | 01/04/23 - 30/04/23 | 0.0 | 0.0 | 25 - 30 | 5 - 10 | 497 | 621 | 4 |
| | A Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau | 01/08/23 - 31/03/24 | 0.0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Nodiadau**

1. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
2. Nid yw adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Bensiynau yn dadansoddi'r elfennau pensiwn sy'n ymwneud â'r rolau a'r cyfnodau penodol yn unig, felly mae gwerthoedd pensiwn ar gyfer C Shillabeer, P Meakin, R Caldicott a J Moore wedi'u heithrio.
3. Mae C Shillabeer, A Wood, R Caldicott, T Owen, S Evans, S Green a P Meakin wedi'u heffeithio gan gynllun Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a symudwyd eu haelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 ei symud yn ôl i Gynllun 1995/2008 ar 1 Hydref 2023. Lle bo'n berthnasol, mae gwerthoedd negyddol wedi'u datgelu fel sero.

# Adroddiad Staff

Adroddir ar nifer cyfartalog y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2023/24 isod.

| Grŵp Proffesiynol | FTE Cyfartalog 2023/24 |
|---|---|
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 750 |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | 4,013 |
| Gweinyddol a Chlercyddol | 3,684 |
| Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 1,206 |
| Ystadau ac Ategol | 1,368 |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | 288 |
| Meddygol a Deintyddol *** | 1,161 |
| Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig | 5,512 |
| Myfyrwyr | 23 |
| **Cyfanswm** | **18,005** |

* Cyfanswm cyfwerth ag amser llawn (FTE) ym mhob mis yn ystod 2023/24 i gefnogi cyfrifiad cyfartalog yn y golofn nesaf
** FTE Cyfartalog = FTE Misol Cyfartalog, 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024
*** Nid yw FTE yn cynnwys Cyflogres Meddygon Gradd Hyfforddiant

Roedd cyfanswm gwirioneddol y staff yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2024 yn 20,909 ac mae manylion y gymysgedd rhywiau i'w gweld yn y tabl isod.

| Cymysgedd Staff | Benywod | Gwrywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gweithredwyr | 4 | 4 | 8 |
| Rheolwr (Band 8c neu'n uwch) | 137 | 73 | 210 |
| Staff | 16,756 | 3,935 | 20,691 |
| **Cyfanswm** | **16,897** | **4,012** | **20,909** |

*At ddiben yr adroddiad hwn, diffinnir rheolwr fel aelod o staff ar Fand 8c neu'n uwch (neu lefel gyfatebol ar gyfer staff meddygol) sydd wedi'i leoli mewn swyddogaeth gorfforaethol neu Uwch Adran weithredol sydd â chyfrifoldebau sylweddol fel rheolwr neu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan. Nid yw rheolwyr yn cynnwys swyddi Nyrsys Ymgynghorol, Bydwragedd Ymgynghorol a Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol

Mae'r data ynghylch absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2023/24 i'w gweld isod:

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Diwrnodau FTE a gollwyd (hirdymor)*1 | 241,743 | 261,234 |
| Diwrnodau FTE a gollwyd (byrdymor)*1 | 150,885 | 126,611 |
| **Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd** | 392,628 | 387,846 |
| Dyddiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd*2 | 14 | 14 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer yr unigolion)*2 | 19,694 | 20,676 |
| Cyfanswm staff a gyflogwyd yn ystod cyfnod na fu'n absennol o gwbl (nifer yr unigolion)*3 | 4,985 | 6,116 |
| **Canran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch** | 24.7% | 29.5% |

*1 - Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo ar sail Cyfwerth ag Amser Llawn. Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei fesur gan ddefnyddio diwrnodau calendr ar system y Cofnod Staff Electronig, sy'n cynnwys yr holl ddiwrnodau o ddechrau hyd at ddiwedd cyfnod absenoldeb, yn cynnwys penwythnosau neu ddiwrnodau pan na fyddai aelod o staff wedi cael ei roi ar y rhestr ddyletswyddau i weithio. Felly mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn is na ffigur y diwrnodau a gollwyd.
*2 - Cyfartaledd dros 12 mis yn unol â safon data Cymru Gyfan
*3 - Nifer yr Unigolion yw nifer yr Aseiniadau Cychwynnol*
*Sylwch fod hyn yn cynnwys staff newydd a ddechreuodd yn ystod y cyfnod adrodd fel yr argymhellir gan safonau data Cymru Gyfan.

Roedd cyfanswm cyffredinol yr absenoldeb oherwydd salwch yn 2023/24 yn 5.83% (2022/23, 6.28%). Mae ffactorau megis oedi cyn derbyn triniaeth, proffil oedran staff a chynnydd mewn salwch difrifol oll wedi cyfrannu at y lefelau salwch cyffredinol.

**Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres a gwaith ymgynghori**

Gweithio oddi ar y gyflogres yw'r term a ddefnyddir gan Gyllid a Thollau EF (HMRC) i ddisgrifio'r sefyllfa lle darparodd gweithiwr unigol ei wasanaeth personol ei hun i sefydliad.

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu gwariant ar ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar ymgynghori. Mae'r tablau isod yn amlinellu manylion yr Ymgysylltiadau heb fod ar y Gyflogres sydd yn eu lle yn y Bwrdd Iechyd. Dylid nodi bod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi cyflwyno rheolau newydd mewn perthynas â rheoliadau treth a ddaeth i rym ar 6ed Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli'r ymrwymiadau oddi ar y gyflogres a bydd y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau'n ddarostyngedig i dreth ac Yswiriant Gwladol wrth eu tarddiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiadau IR35 ar gyfer yr holl ymrwymiadau oddi ar y gyflogres sy'n berthnasol.

| **Nifer yr ymgysylltiadau presennol, ar gyfer mwy na £245 y diwrnod ac am gyfnodau o dros chwe mis, fel ar 31 Mawrth 2024** | **335** |
|---|---|
| *O blith y rhain...* | |
| Nifer sy'n bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd | 145 |
| Nifer sy'n bodoli ers 1 - 2 flynedd ar adeg adrodd | 108 |
| Nifer sy'n bodoli ers 2 - 3 blynedd ar adeg adrodd | 9 |
| Nifer sy'n bodoli ers 3 - 4 blynedd ar adeg adrodd | 13 |
| Nifer sydd wedi bodoli ers pedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd | 60 |

| **Nifer yr ymrwymiadau newydd oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024** | **146** |
|---|---|
| *O blith y rhain...* | |
| Nifer a aseswyd fel rhai a oedd yn berthnasol i IR35 | 146 |
| Nifer a aseswyd fel rhai nad oeddent yn berthnasol i IR35 | 0 |
| Nifer a ymrwymodd yn uniongyrchol (trwy PSC o dan gontract i'r adran) ac sydd ar y gyflogres adrannol | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau lle gwelwyd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb | 0 |

| **Nifer yr ymrwymiadau oddi ar gyflogres o ran aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024** | **1** |
|---|---|
| | |
| (Nifer yr unigolion sydd wedi'u hystyried yn "aelodau o'r bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol, yn cynnwys ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres) | 30* |

*Aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Swyddogion a ystyrir i fod yn Uwch Reolwyr yw'r unigolion y mae manylion eu cyflogau wedi'u datgelu ar dudalennau 5 - 12 yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, £0.805m oedd gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau ymgynghori allanol.

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi parhau i weithio gyda'r Cymunedau Iechyd Integredig i ymgorffori gofynion cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo penderfyniadau cynhwysol a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae ein rhwydweithiau cydraddoldeb staff, sy'n dyst i ddiddordeb cynyddol ein staff a'u cyfranogiad yn ein mentrau cydraddoldeb, wedi parhau i ffynnu. Fe wnaethom hefyd lansio'r Rhwydwaith Staff Niwrowahanol newydd, gyda bron i 200 o aelodau staff yn ymuno hyd yn oed cyn y lansiad.

Yn ystod y flwyddyn lansiodd y tîm ei Raglen Active Bystander i fynd i'r afael ag ymddygiad gwahaniaethol. Cyflwynwyd y rhaglen i 146 o bobl. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth hefyd wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i bron i 200 o bobl. Eleni lansiwyd ein Caffis Menopos sydd wedi darparu cymorth i dros 200 o staff. Mae hyfforddiant EqIA wedi'i gyflwyno i 164 o bobl. 91.22% yw'r cydymffurfiad cyffredinol ar draws BIPBC ar gyfer hyfforddiant hanfodol Fy Nhrin i'n Deg.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm wedi darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar gydraddoldeb i raglenni strategol a thrawsnewidiol allweddol, gan gynnwys y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio, y Strategaeth Ddigidol, y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ac achos busnes ad-drefnu Meddygaeth Niwclear.

Rydym yn parhau i adeiladu ein llyfrgell o adnoddau i gefnogi staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb, cynhwysiant a Hawliau Dynol a'u rôl wrth gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Eleni, cyhoeddwyd ein Pecyn Cymorth Iaith sy'n Gynhwysol o ran Rhywedd a'r ddogfen ganllaw “It's Just Good Care” ar gyfer darpariaeth gofal cynhwysol o ran rhywedd.

Rydym wedi cyhoeddi Briffiau Cydraddoldeb misol i rannu arferion da a newyddion cydraddoldeb. Rhennir hyn gan 60 o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ledled y sefydliad. Mae'r tîm cydraddoldeb wedi parhau i gefnogi rhwydwaith staff 'Respectability' i gynhyrchu a dosbarthu ei gylchlythyr ‘Focus ON’, gan godi ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd hirdymor sy'n effeithio ar staff a defnyddwyr gwasanaeth fel ei gilydd.

Rydym wedi ehangu ein rhaglen ymgysylltu cydraddoldeb yn sylweddol, gan ddangos ein hymrwymiad i gynnwys mwy o randdeiliaid yn ein mentrau cydraddoldeb. Rydym wedi croesawu sefydliadau newydd i'n Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb gan gynnwys Rainbowbiz, Shelter Cymru, Addiction Recovery Agency (ARA) - Recovery 4 All, Papyrus, Y Samariaid, a Refugee Kindness. Mae ehangu ein rhwydwaith fel hyn yn ein galluogi i gynllunio gwaith a'i gyflawni mewn partneriaeth â'n partneriaid newydd a'n partneriaid sefydledig, gan hybu ein hymdrechion ar y cyd i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Yn olaf, fe wnaethom dreulio rhan dda o'r flwyddyn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ar amcanion a chynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028. Rydym yn hynod ddiolchgar am bron i 100 o arolygon a ddychwelwyd gan aelodau'r cyhoedd, y cyfranogiad gweithredol mewn cyfarfodydd grwpiau rhanddeiliaid, a'r gwaith cydweithredol gyda'n Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb a thimau ar draws y sefydliad a sefydliadau partner. Mae eich mewnbwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu cynllun uchelgeisiol ond cyraeddadwy i leihau anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru.

**Llofnod:**

**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 10 Gorffennaf 2024**

### Atodiad 1 - Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo

| | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 | 2022/23 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band costau pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw daliad arbennig)** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | **Cost diswyddiadau gorfodol** | **Nifer yr ymadawiadau eraill** | **Cost yr ymadawiadau eraill** | **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | **Cyfanswm cost pecynnau ymadael** | **Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig** | **Cost yr elfen arbennig mewn pecynnau ymadael** | **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | **Cyfanswm cost pecynnau ymadael** |
| | **Rhifau cyfan yn unig** | **£** | **Rhifau cyfan yn unig** | **£** | **Rhifau cyfan yn unig** | **£** | **Rhifau cyfan yn unig** | **£** | **Rhifau cyfan yn unig** | **£** |
| llai na £10,000 | 0 | 0 | 1 | 8,775 | **1** | **8,775** | 0 | 0 | **7** | **31,375** |
| £10,000 - £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | **2** | **36,107** |
| £25,000 - £50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | **1** | **41,785** |
| £50,000 - £100,000 | 0 | 0 | 1 | 59,295 | **1** | **59,295** | 0 | 0 | **0** | **0** |
| £100,000 - £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | **1** | **139,298** |
| £150,000 - £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | **0** | **0** |
| mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | **1** | **210,077** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **2** | **68,070** | **2** | **68,070** | **0** | **0** | **12** | **458,642** |

## Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd lunio a chyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd, y pennir ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru.

**Rheoleidd-dra Gwariant**

Mae Trysorlys Ei Fawrhydi yn diffinio rheoleidd-dra fel gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdodau dirprwyedig cymwys a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hawl i wario yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n derbyn dyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Nod proses pennu cyllideb y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws y sefydliad at ddibenion dilys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau dirprwyedig gyda deiliaid cyllidebau ac mae'n rhaid iddynt weithredu'n unol â'u Cytundebau Atebolrwydd a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) y Bwrdd Iechyd.

Mae trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r SFI ac adroddir ar y rhain i bob Pwyllgor Archwilio trwy'r Adroddiad Cydymffurfiaeth. Yn ogystal â rhaglen gynhwysfawr o Archwilio Mewnol, mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwrth-dwyll Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safonau adrodd cydnabyddedig i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a chaiff y cyfrifon eu llunio'n unol â'r Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynir ffurflenni monitro ariannol sy'n cynnwys esboniad am amrywiannau, i Lywodraeth Cymru bob mis.

Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol blynyddol 2022-23 oherwydd bod afreoleidd-dra o ran gwariant, a bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei gyfarwyddiadau ariannol sefydlog wrth wneud taliadau i un o Gyfarwyddwr Gweithredol dros dro'r Bwrdd. Ceir rhagor o fanylion yn Nhystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £24.347m yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw yn ystod y flwyddyn ac ni chyflawnodd ei darged statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2024, gan nodi diffyg cronnol o £23.669m.

**Ffioedd a chostau**

Ni chodir ffioedd a thaliadau ar gleifion y GIG fel mater o drefn oni chaniateir i'r Bwrdd Iechyd wneud hynny o dan y ddeddfwriaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith deintyddol a mynediad at gofnodion iechyd. Cadarnheir bod y Bwrdd Iechyd, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn cydymffurfio â chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraddau codi tâl.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol pell**

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd roi cyfrif am eitemau digwyddiadol pell yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (IAS37). Mae'r rhain wedi'u datgelu'n llawn yn Nodyn 21 y Datganiad Cyfrifon.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol pell eraill nad ydynt yn dod o dan IAS37 yn cynnwys llythyrau cysur a gwarantau trydydd parti a roddir gan reolwyr. Hyd eithaf ein gwybodaeth, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw rwymedigaethau o'r fath y mae angen eu datgelu.

# Tystysgrif ac Adroddiad Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

Mae’r rhain yn cynnwys Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o’r polisïau cyfrifyddu materol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau yn cynnwys cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi eu mabwysiadu gan y DU, fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol ym mhob modd perthnasol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2024 a'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi eu mabwysiadau gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a’r cyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y ddeddf honno.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ac eithrio’r mater a ddisgrifir yn yr adran Sail i’r Farn Amodol ar Reoleidd-dra yn fy adroddiad, mae’r gwariant a’r incwm yn y datganiadau ariannol ym mhob modd perthnasol, wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu

**Y sail i'r farn amodol ar reoleidd-dra**

Rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd am ddau reswm.

Yn gyntaf, mae’r Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau trwy wario £23.669 miliwn dros y swm yr awdurdodwyd iddo ei wario yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2021-2022 a 2023-2024. Mae'r gwariant hwn yn gyfystyr â gwariant afreolaidd.

Yn ail, gwnaeth y Bwrdd Iechyd daliadau heb awdurdod priodol pan fethodd â chydymffurfio â pharagraff 14.1.4 o’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, wrth benodi Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ar bwynt cyflog a oedd yn uwch na’r hyn a nodir gan Lywodraeth Cymru.

Yn unol â hynny, gwnaeth y Bwrdd Iechyd daliadau afreolaidd o £39,259.62 ynghyd ag argostau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro, ar gyfradd tâl sy'n cyfateb i gyflog blynyddol llawn amser o £292,236 (ac eithrio argostau). Y pwynt cyflog uchaf a gymeradwywyd oedd £170,919. Rwyf wedi rhoi barn amodol yn unol â hynny.

**Sail i'r farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio dulliau cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi ar gyfer y datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu'r corff i barhau i gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn unol â'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, Trysorlys ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu dulliau cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, nid wyf, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn faterol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu ddatganiad sy'n ymddangos yn gamddatganiad materol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae’r rhan o’r adroddiad tâl sydd i’w harchwilio wedi’i pharatoi’n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sy’n destun yr archwiliad wedi’u paratoi’n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a’r cyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y ddeddf honno; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'n unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

## Materion yr wyf yn eu hadrodd yn ôl eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y Bwrdd Iechyd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd mewn perthynas â’r materion a ganlyn, y byddwn yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- na chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, na gwybodaeth ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan adrannau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd wedi eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- ni wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, Trysorlys EF neu nid yw rhannau o’r Adroddiad Tâl sydd i’w harchwilio yn cyd-fynd â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau’r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr, mae’r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu digonol
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac

- asesu gallu'r Bwrdd Iechyd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio dulliau cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw derbyn sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol ar y cyfryw yn cynnwys camddatganiadau materol boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i roi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant bod archwiliad a ymgymerwyd yn unol â ISA (DU) bob amser yn darganfod camddatganiadau materol os ydynt yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar ddefnyddwyr sy'n gwneud penderfyniadau economaidd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio gyda chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, er mwyn canfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, a holi a ydynt yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll a holi a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll boed hynny'n dwyll gwirioneddol, yn amheuaeth o dwyll neu'n dwyll honedig; a
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais fod cyfleoedd i dwyllo yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, cofnodi cyfnodolion anarferol a rheolwyr yn diystyru;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Bwrdd Iechyd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu yn unol â hwy, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Bwrdd Iechyd; a
- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r ddogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau posibl a gwirioneddol;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr yn diystyru rheoliadau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Rwyf hefyd wedi rhoi gwybod i bob aelod o'r tîm archwilio am y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol, a'r risgiau twyll posibl a nodwyd ac roeddwn drwy gydol yr archwiliad, yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau .

Effeithir ar allu fy ngweithdrefnau i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Bwrdd Iechyd, a natur, amseriad ac ehangder y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad manwl o gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr Archwilydd**

Mae'n rhaid i mi hefyd gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Gweler yr Adroddiad sy'n dilyn.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**1 Cwr y Ddinas**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd CF10 4BZ**

## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

**Cyflwyniad**

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd am ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Rwy'n adrodd am y datganiadau ariannol hyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 i ddwyn sylw at faterion allweddol ar gyfer fy archwiliad, fel a ganlyn:

- rhoi barn amodol ar reoleidd-dra oherwydd torri cyfarwyddiadau ariannol sefydlog ar dalu cyflog i Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro;
- rhoi barn amodol ar reoleidd-dra oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf; a
- methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol.

Nid wyf wedi rhoi amod ar fy marn 'cywir a theg' mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hyn.

**Barn amodol ar reoleidd-dra gan fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i wariant afreolaidd ac wedi torri ei gyfarwyddiadau ariannol sefydlog wrth wneud taliadau i aelod gweithredol dros dro'r Bwrdd**

Mae paragraff 14.1.4 o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 19.1 o Ddeddf GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru pan fydd swydd cyfarwyddwr gweithredol yn cael ei thalu uwchlaw'r raddfa y cytunwyd arni.

Cymeradwyodd Pwyllgor Tâl y Bwrdd Iechyd yn ôl-weithredol, daliadau i Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro a oedd yn fwy na'r pwynt cyflog uchaf o £170,919 ar gyfer y rôl fel y nodir gan Lywodraeth Cymru. Yn 2023-24 talwyd £114,000 ynghyd ag argostau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, derbyniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro dâl ar gyfradd a oedd yn cyfateb i gyflog blynyddol llawn amser o £292,236 (ac eithrio argostau). Yn groes i ofynion cyfarwyddiadau ariannol sefydlog y Bwrdd Iechyd, ni chafwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Felly, rwy'n ystyried bod y taliad o £39,259.32 ynghyd ag argostau yn afreolaidd, sef y gwahaniaeth rhwng y swm gwirioneddol a dalwyd a'r swm a fyddai wedi'i ennill ar yr uchafswm sy'n daladwy ar gyfer y pwynt cyflog perthnasol.

**Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i mi roi barn archwilio rheoleidd-dra amodol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â thaliadau afreolaidd i aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd.**

Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i mi roi barn amodol am reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â thaliadau a wnaed i Gyfarwyddwr Gweithredol dros dro. Amlygodd fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn 2022-23 daliadau afreolaidd o £105,648 ynghyd ag argostau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth dros dro.

Cododd y taliadau afreolaidd a arweiniodd at yr amodau archwilio hyn oherwydd diffygion llywodraethu a oedd ar waith cyn i'r Bwrdd Iechyd gael ei roi mewn mesurau arbennig ar 27 Chwefror 2023. Wedi hynny, nododd tîm gweithredol newydd y Bwrdd Iechyd y materion llywodraethu yn ymwneud â phenodiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro a gofynnwyd am gymeradwyaeth ôl-weithredol gan Lywodraeth Cymru i reoleiddio'r taliadau a wnaed. Cafodd y cais ei wrthod gan Lywodraeth Cymru.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o’r diffygion o ran rheolaethau mewnol a arweiniodd at y taliadau afreolaidd ac mae’n cryfhau ei reolaethau a’i drefniadau llywodraethu yn unol â hynny.

**Dyletswyddau ariannol**

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol - sef y ddyletswydd ariannol gyntaf a’r ail ddyletswydd ariannol.

Methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni’r ddyletswydd ariannol gyntaf a’r ail ddyletswydd ariannol ar gyfer 2023-24.

**Methiant i gyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf**

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd drwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd sy’n cael ei fesur o dan y ddyletswydd hon eleni yw’r cyfnod 2021-2022 i 2023-2024.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.1 i’r Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd reoli ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad adnoddau dros y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw cronnol o £6,004.035 miliwn, gan £23.669miliwn.

Pan na fydd Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli dros gyfnod treigl o dair blynedd, bydd unrhyw wariant ar ben yr adnoddau a ddyrannwyd iddo (h.y. y cyfyngiad gwariant) yn ystod y tair blynedd hynny yn fwy na'r hyn y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i awdurdodi i'w wario, ac felly mae'n 'afreolaidd'. Mewn amgylchiadau o’r fath, mae’n ofynnol i mi roi ‘barn amodol ar reoleidd-dra’ waeth beth fo gwerth y gwariant dros ben.

**Methiant i gyflawni'r ail ddyletswydd ariannol**

Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd, a chael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r cynllun hwnnw. Mae'r ddyletswydd hon yn sail hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Ystyrir bod Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2023-24 os yw wedi cyflwyno cynllun 2023-24 hyd at 2025-26 i Weinidogion Cymru ac wedi cael eu cymeradwyaeth.

Fel y gwelir yn Nodyn 2.3 i'r Datganiadau Ariannol, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i roi cynllun tymor canol integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2023-24 hyd at 2025-26.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Dyddiad**

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Rhan 3: Annual Accounts will be inserted here

# ATODIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## 1. CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, fi sy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu safonau ansawdd, arian cyhoeddus ac asedau adrannau yr wyf i'n bersonol, yn gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu sut y mae'r sefydliad wedi gorfod gweithio'n fewnol a gyda phartneriaid wrth ddarparu ein gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i roi. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; fodd bynnag, y bwriad fu lleihau dyblygu lle bo modd. Mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cael ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig. Roedd y sefydliad eisoes ar lefel Ymyrraeth wedi'i Dargedu, ac felly, y mae bellach wedi'i uwchgyfeirio i'r lefel uchaf o dan y trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth. Yn y datganiad i gyhoeddi'r Mesurau Arbennig, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr uwchgyfeirio i'r lefel honno yn ymwneud â phryder penodol ynghylch arweinyddiaeth, diwylliant a pherfformiad. Roedd wyth maes o bryder, gan gynnwys Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd.

Yn y cyfnod a ddilynodd yr uwchgyfeirio, trefnodd Llywodraeth Cymru fod nifer o Gynghorwyr Annibynnol a oedd yn rhan o'r Tîm Ymyrraeth a Chymorth, yn cynnal cyfres o ddeg adolygiad annibynnol fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o'r hyn a oedd wrth wraidd y pryderon. Cynhaliwyd yr adolygiadau annibynnol dros y naw mis diwethaf. Cawsant eu hystyried yn systematig drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau, a'u cyhoeddi gyda chynllun ymateb. Ceir rhagor o fanylion yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac mae manylion llawn yr adolygiadau ac ymatebion y Bwrdd Iechyd ar gael ar ein gwefan. (https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/mesurau-arbennig/cynnydd-y-bwrdd-iechyd/adolygiadau-annibynnol-an-hymatebion/)

Bu ansefydlogrwydd sylweddol yn arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r 'camweithredu' a nodwyd (Adroddiad Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru - Chwefror 2023) a'r newidiadau sylweddol dilynol i aelodaeth y Bwrdd ym mis Chwefror 2023, a arweiniodd at ymddiswyddiadau'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r holl Aelodau Annibynnol.

Ni welwyd y lefel sylweddol hon o newid ers creu'r Byrddau Iechyd presennol yn 2009. Dechreuodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y broses o adeiladu Bwrdd newydd drwy benodi Cadeirydd Dros Dro a thri Aelod Annibynnol yn uniongyrchol.

Ystyriodd yr Adolygiad o Swydd Ysgrifennydd y Bwrdd bryderon a godwyd ynghylch; ansawdd papurau'r Bwrdd a'r gallu dilynol i wneud penderfyniadau gwybodus, cynllunio ar gyfer agendâu'r Bwrdd a Phwyllgorau yn y dyfodol, ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol a chymorth iddynt, diffyg eglurder rhwng Pwyllgorau yn ogystal â chwmpas a chyfrifoldebau Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd.

Nodwyd nifer o feysydd ffocws, gan gynnwys:

- Eglurder o ran strwythur a rolau
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o arferion llywodraethu da
- Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cymru
- Cynllunio'r cylch busnes

Ers derbyn yr adroddiad, datblygwyd a chyhoeddwyd cynllun gweithredu manwl, ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn yr holl argymhellion. Mae rhai meysydd yn dibynnu ar adolygiadau neu gynlluniau eraill. (https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/mesurau-arbennig/cynnydd-y-bwrdd-iechyd/adolygiadau-annibynnol-an-hymatebion/)

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael ei weinyddu'n ddarbodus, yn ddiwastraff ac yn briodol, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau i Brif Weithredwr GIG Cymru, rwy'n atebol yn uniongyrchol i Gadeirydd y Bwrdd Iechyd am y gwaith o weithredu'r Bwrdd Iechyd ac am weithredu penderfyniadau'r Bwrdd.

## 2. EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A SICRWYDD

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bwrpas pendant y datblygwyd ei nodau a'i amcanion strategol ohono. Ein gweledigaeth:

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai yn ein cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed.
- Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal rhagorol mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir a'i fod yn gweithredu mewn diwylliant o ddysg sy'n gyfoethog o ran ymchwil.

Mae'r Bwrdd yn atebol am osod cyfeiriad strategol y sefydliad, sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol ar waith a dwyn Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflawni ei Gynllun Cyflawni Blynyddol yn effeithiol.

Mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd wedi'u halinio â'r gofynion a nodir yn e-lawlyfr Llywodraethu Llywodraeth Cymru a'r Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd. Sicrhawyd bod y trefniadau llywodraethu hefyd yn adlewyrchu'r gofynion a nodir gan Drysorlys EF yn 'Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da 2017'.


Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Fe'u cynlluniwyd i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ynghyd â mabwysiadu cynllun o faterion a gadwyd i'r Bwrdd, cynllun dirprwyo manwl i swyddogion a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, ac maent yn nodi'r gofynion o ran cyfrifoldebau ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio 'ei ffyrdd o weithio'. Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog presennol gan y Bwrdd ar 28 Medi 2023 a chytunwyd ar fân newidiadau yn y Bwrdd ar 28 Mawrth 2024 i gyd-fynd â chreu Cydbwyllgor Comisiynu, ac maent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/standing-orders-and-financial-instructions/standing-orders-reservation-and-delegation-of-powers-betsi-cadwaladr-university-health-board-2024/)

Dylid nodi pan roddwyd y Bwrdd Iechyd o dan Fesurau Arbennig bod Gweinidogion Cymru wedi cychwyn ‘is-ddeddfwriaeth’ o’r enw ‘Gorchymyn Ymyrraeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Diwygio) 2023’. Mabwysiadwyd y rhain yn ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Mai 2023 ac maent hefyd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/standing-orders-and-financial-instructions/intervention-order-and-regulations/) Roedd y darpariaethau yn y gorchymyn hwn yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd weithredu gyda llai o Aelodau Bwrdd, fel y gwnaethpwyd ar ddechrau 2023/24.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau y caniateir eu gwneud gan Weinidogion Cymru, wneud trefniadau priodol i swyddogaethau penodol gael eu cyflawni ar ei ran. Mae hyn yn galluogi cyflawni busnes bob dydd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol, ac mewn modd sy’n sicrhau bod nodau ac amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni. Amlinellir strwythur y Pwyllgorau yn yr adroddiad hwn ac mae’r Cylch Gorchwyl ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. (https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/)

Ceir trosolwg o'r Fframwaith Llywodraethu yn Ffigur 1 isod (gyferbyn neu drosodd).

# Betsi Cadwaladr University Health Board Governance Framework




* NB These two Committees were combined in March 2024 to become the Joint Commissioning Committee

** NB A People & Culture Executive Delivery Group was in place at the start of 2023/24 and has been provisionally stood down until the appointment of an Executive Director of Workforce & OD

## Y Bwrdd

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff corfforaethol sy'n gwneud penderfyniadau, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Cyhoeddir manylion aelodau'r Bwrdd ar wefan y Bwrdd Iechyd. (Aelodau'r Bwrdd Iechyd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru))Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Y Bwrdd sydd ar frig systemau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. Ei brif rôl yw arfer arweinyddiaeth effeithiol, rhoi cyfeiriad strategol, a rheoli. Mae’r Bwrdd yn atebol am lywodraethu a rheolaeth fewnol yn y sefydliad, ac rwyf i, fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol.

Yn gryno, mae'r Bwrdd yn:
- Pennu cyfeiriad strategol y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru a’r GIG yng Nghymru
- Sefydlu a chynnal Llywodraethu Corfforaethol o ansawdd uchel
- Gosod archwaeth risg ar gyfer y sefydliad a darparu trosolwg o risgiau strategol
- Sicrhau bod nodau ac amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni trwy herio a chraffu’n effeithiol ar berfformiad pob maes cyfrifoldeb
- Monitro cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol a blynyddol
- Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol trwy weinyddu effeithiol a defnyddio adnoddau yn economaidd
- Ceisio sicrwydd ynghylch cyflawni'r pwyntiau uchod yn effeithiol

Yn ystod 2023/24, darlledwyd holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fyw, a chafodd recordiad o'r cyfarfod ei uwchlwytho i'n gwefan ar ôl pob cyfarfod. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Bwrdd:
- Naw cyfarfod yn gyhoeddus (roedd cworwm ym mhob cyfarfod)
- Naw Cyfarfod Pwyllgor (Cyfarfodydd Preifat)
- Pedwar Cyfarfod Camau Gweithredu’r Cadeirydd (Bu pedwar achlysur yn ystod y flwyddyn pan gynhaliodd y Cadeirydd gyfarfodydd â’r bwrdd i gefnogi’r gwaith o gyflawni Camau Gweithredu’r Cadeirydd fel yr amlinellir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd)
- Un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Pedwar Cyfarfod Briffio'r Bwrdd
- Deg Sesiwn Datblygu'r Bwrdd

Cedwir cofnod ffurfiol o bresenoldeb yn y cofnodion, gan roi manylion am ymddiheuriadau a dirprwyon a enwebwyd. Mae dyddiadau, agendâu a chofnodion pob cyfarfod cyhoeddus i’w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Gylch Busnes, a addaswyd yn ystod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau ac amgylchiadau a ddaeth i'r amlwg. Mae'r Bwrdd hefyd yn canolbwyntio ar brofiadau dinasyddion, cleifion a staff yn y cyfarfodydd, drwy gyflwyno straeon cleifion a staff mewn Adroddiadau Profiad y Claf.

Yn ystod y flwyddyn, bu’r Bwrdd yn ystyried nifer o faterion allweddol a chymerodd gamau lle’r oedd hynny’n briodol. Ceir crynodeb o’r rhain yn Atodiad 4.

## Datblygu Bwrdd sy'n Gweithredu'n Dda

Fel y nodwyd eisoes, ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei uwchgyfeirio i'r lefel uchaf: Mesurau Arbennig. Mae hyn wedi arwain at newid sylweddol mewn arweinyddiaeth a dull gweithredu. Yn 2023/24 penododd y Bwrdd Iechyd Brif Weithredwr parhaol a Chadeirydd. Penodwyd Is-gadeirydd ar 3 Tachwedd 2023. Mae hyn, yn ogystal â phenodi naw Aelod Annibynnol parhaol yn ystod y flwyddyn wedi rhoi sylfaen lawer cadarnach i'r Bwrdd Iechyd adeiladu arni.

Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cynnwys holl fanylion y newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2023/24.

Ym mis Chwefror 2024, adroddodd Archwilio Cymru yn ffurfiol yn ei '*Adroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*' am gynnydd sylweddol o ran sefydlogi'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach, gan amlinellu'r mesurau pellach roedd angen eu cymryd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cytuno'n llwyr â chanfyddiadau allweddol yr adroddiad sef bod llawer o gynnydd wedi'i wneud, ond bod llawer mwy i'w wneud o hyd. Mae'r Bwrdd llawn yn ogystal â'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn, a bod yn ymwneud â datblygu'r ymateb i'r adroddiad i wella perchnogaeth a sicrwydd ar y gwelliannau sy'n ofynnol. Mae ein ffocws nawr ar ein blaengynllun er mwyn edrych i'r dyfodol a chael effaith gadarnhaol wirioneddol ar ein sefydliad, ein staff a phobl Gogledd Cymru.

Dylid nodi yn y rhan hon o'r datganiad mai dim ond yn gymharol hwyr yn y flwyddyn y cwblhawyd y broses o recriwtio Aelodau Annibynnol yn llwyddiannus, ac felly sefydlwyd strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd yn llawn yn ystod Chwarter 4 2023/24. Cynhaliodd y Pwyllgorau newydd eu cyfarfodydd sefydlu yn ystod mis Ionawr 2024, a chynhaliwyd sesiynau datblygu yn ystod Chwefror a Mawrth 2024 er mwyn cael Pwyllgorau cwbl weithredol ar gyfer 2024/25. Rhoddir mwy o fanylion am y Pwyllgorau hynny yn y datganiad hwn ac yn yr Atodiadau.

## Safonau Ymddygiad

Mae Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd yn berthnasol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn cyfuno pob agwedd ar lywodraethu ac yn ymgorffori'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ar bob lefel o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n gryf i fod yn sefydliad sydd â gwerthoedd yn ei lywio, wedi'i wreiddio yn egwyddorion 'Nolan' a safonau uchel o ran y cyhoedd ac ymddygiad gan gynnwys bod yn agored, safonau gwasanaeth cwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth ymroddedig. Mae gan y Bwrdd Bolisi Safonau Ymddygiad sy'n nodi disgwyliadau'r Bwrdd ac yn darparu canllawiau fel bod unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni'r gofynion hynny.

Mae'r Polisi Safonau Ymddygiad yn ailddatgan ac yn adeiladu ar y darpariaethau Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad sydd yn Adran 7 o Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. Mae'n pwysleisio ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei fod yn gweithredu i'r safonau uchaf ac yn nodi rolau, a chyfrifoldebau'r rhai a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd, a'r trefniadau ar gyfer datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch, a nawdd.

Mae'r polisi hefyd yn nodi safon ymddygiad y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus fel y gellir gweld bod gan y Bwrdd Iechyd arfer rhagorol yn hyn o beth.

Mae manylion Polisi Safonau Ymddygiad y Bwrdd sy'n cynnwys Datgan Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd, ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. (bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodaur-bwrdd/aelodaur-bwrdd-iechyd/board-members-declarations-of-interest-2023-2024cy-gbpdf/)

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae adran 3 o Reolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu, 'Caiff y Bwrdd, lle y cyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru, benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd naill ai i gyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau'.

Yn unol â'r gofynion hyn, mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau Sefydlog, y mae wedi penderfynu sy'n bodloni anghenion y Bwrdd Iechyd orau wrth ystyried gofynion rheoleiddio a Llywodraeth Cymru. Cadeirir pob Pwyllgor gan Aelod Annibynnol o'r Bwrdd. Mae pob Pwyllgor yn adolygu eu Cylch Gorchwyl a'u Cylchoedd Busnes yn rheolaidd er mwyn cefnogi busnes y Bwrdd. Mae Pwyllgorau hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynol, a'i fod yn canolbwyntio ar y materion sydd â'r risg uchaf a fyddai'n atal y Bwrdd Iechyd rhag cyflawni ei weledigaeth, ei nodau a'i amcanion.

Cynhaliwyd nifer cyfyngedig o Bwyllgorau ar ddechrau 2023/24 oherwydd y nifer cyfyngedig o Aelodau Bwrdd Annibynnol a oedd ar gael. Y Pwyllgorau a gynhaliwyd:

- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Tâl

Penodwyd yn llwyddiannus i swyddi gweigion Aelodau Annibynnol y Bwrdd, gan alluogi ail-ddechrau pob Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Ceir manylion enwau a dyddiadau'r Pwyllgorau yn Atodiad 2.

Bu i Adolygiadau Annibynnol y Mesurau Arbennig (gan gynnwys adolygiad Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd), a ffocws y Mesurau Arbennig, lywio adolygiad o strwythur Pwyllgorau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cytunodd y Bwrdd arno ar 28 Medi 2023. Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor gan y Bwrdd ar 25 Ionawr 2024. Mae'r strwythur Pwyllgorau a ganlyn yn ei le:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
- Pwyllgor Tâl

Mae'r Cylch Gorchwyl manwl, yr agendâu a'r papurau ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau presennol i'w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd. (https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/)

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar fusnes pob cyfarfod Pwyllgor yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gan amlygu unrhyw faterion sy'n peri pryder neu faterion sydd wedi eu huwchgyfeirio y mae angen i'r Bwrdd eu hystyried. Mae hyn yn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o risg, lefel sicrwydd, a chraffu yn erbyn cyflawni amcanion. Paratoir adroddiadau blynyddol ar gyfer pwyllgorau unigol ar ôl diwedd y flwyddyn. Cedwir cofnodion a logiau gweithredu ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau ac fe'u defnyddir i lywio busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw ac mae'n cynnal cymaint o fusnes ei Fwrdd a'i Bwyllgorau â phosibl mewn sesiynau y mae croeso i aelodau'r cyhoedd eu mynychu a'u harsylwi. Gwneir hyn naill ai trwy ffrwd fyw (cyfarfodydd y Bwrdd), neu drwy wahodd aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i ofyn am gyfle i arsylwi cyfarfodydd Pwyllgor nad ydynt yn cael eu ffrydio'n fyw.

## Crynodeb o Fusnes a Ystyriwyd gan Bwyllgorau'r Bwrdd

Yn ystod 2023/24, bu Pwyllgorau’r Bwrdd yn ystyried a chraffu ar ystod o adroddiadau a phryderon sy’n berthnasol i’r materion a ddirprwywyd iddynt gan y Bwrdd. Roedd adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgorau yn cynnwys amrywiaeth o adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau archwilio allanol ac adroddiadau gan gyrff adolygu a rheoleiddio eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae ystyriaeth a dadansoddiad y Pwyllgorau o wybodaeth o'r fath wedi chwarae rhan allweddol yn fy asesiad o effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, trefniadau rheoli risg a mecanweithiau sicrwydd. Bu'r Pwyllgorau hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar ddatblygiadau strategol lleol a chenedlaethol a meysydd polisïau newydd.

Ceir crynodeb o gylch gwaith pob Pwyllgor yn y tabl isod:

| Pwyllgor | Crynodeb o Gylch Gwaith y Pwyllgor |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio** | Yn unol â’r safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, rhoi cyngor a sicrwydd i’r Bwrdd a minnau fel Swyddog Atebol, ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith, i'n cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni ein hatebolrwydd. |
| **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad** | Rhoi cyngor a sicrwydd i’r Bwrdd wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau o ran ansawdd gwasanaethau gan gynnwys effeithiolrwydd clinigol, diogelwch cleifion a phrofiad cleifion a gofalwyr, p'un ai a yw’r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu’n uniongyrchol neu drwy drefniant partneriaeth, yn ogystal â materion iechyd a diogelwch. |
| **Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth** | Rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas a'i sefyllfa ariannol bresennol a'r rhagolygon, perfformiad a chyflawni, yn ogystal â materion yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Gyfalaf y Bwrdd a chostau gweithgarwch y Gweithlu. |
| **Pwyllgor Tâl** | Cynghori'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth ar gyfer y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoi sicrwydd i’r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau’r Bwrdd Iechyd ar gyfer tâl a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau cytundebol, ar gyfer yr *holl staff*, yn unol â’r gofynion a’r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** | Gwneud a monitro trefniadau ar gyfer rheoli Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd. Enw gweithredol elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Awyr Las. |
| **Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau** | Rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â datblygu a goruchwylio cynllunio hirdymor y Bwrdd Iechyd, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Gweithredu Blynyddol, gan sicrhau bod strategaethau sy'n galluogi yn cyd-fynd â'r cynlluniau hyn. Sicrhau bod trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith i wella Iechyd y Boblogaeth (h.y. gofal sylfaenol, iechyd y cyhoedd a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd) a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Goruchwylio, darparu a monitro (trwy eithriad) strategaethau gwella ac anghydraddoldebau iechyd, polisïau a pherfformiad Iechyd y Boblogaeth sy'n cael eu llywio gan Asesiad Anghenion y Boblogaeth. |
| **Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau ac arferion gorau sy'n ymwneud â'r agenda Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan ddysgu gwersi yn sgil gwaith sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwella'n barhaus. Rhoi sicrwydd hefyd mewn perthynas â gweithredu Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd, a Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd ac unrhyw ofynion a safonau a bennir ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru. |
| **Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl** | Ystyried a monitro'r defnydd o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA) a Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (sy'n cynnwys y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) (MCA). |

## Datblygu'r Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y Bwrdd ran mewn nifer o sesiynau datblygu a briffio a oedd yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Diweddariadau ar Fesurau Arbennig
- Diweddariadau ar y Gwasanaethau Fasgwlaidd
- Diweddariadau ar y Cynllun Blynyddol 2023-24 / Cynllun 3 Blynedd BIPBC – Cynllunio Strategol
- Adborth y Tîm Gweithredol
- Archwaeth Risg Gorfforaethol
- Cynllunio Gwydnwch BIPBC 2023 -24 – Cynllun Gaeaf
- Adolygiad Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys
- Arweinyddiaeth Dosturiol
- Trosolwg Ariannol
- Gwasanaethau Digidol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Rheoli Ansawdd
- Cofnod Iechyd Electronig
- Ymgysylltu a Chyfathrebu

## Grwpiau Cynghori

Mae Rheolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gael tri Grŵp Cynghori. Maent yn caniatáu i'r Bwrdd ofyn am gyngor gan staff a rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori â hwy. Y tri Grŵp yw

- Fforwm Partneriaeth Lleol
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Ceir gwybodaeth am rôl a chylch gorchwyl pob Grŵp Cynghori yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd sydd ar wefan y Bwrdd Iechyd. (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/standing-orders-and-financial-instructions/standing-orders-reservation-and-delegation-of-powers-betsi-cadwaladr-university-health-board-2024/)

Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn ymgysylltu â sefydliadau staff ar faterion allweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Mae'n darparu'r mecanwaith ffurfiol a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i gydweithio ag Undebau Llafur a chyrff proffesiynol i wella gwasanaethau iechyd ar gyfer y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Y fforwm rhanddeiliaid sy'n llywio'r ddadl ac sy'n ceisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Cyfarfu'r Fforwm Partneriaeth Lleol bedair gwaith yn ystod 2023/24.

Mae amrywiaeth o sefydliadau partner o bob rhan o ardal y Bwrdd Iechyd yn ffurfio'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'n rhoi cyngor ac adborth i'r Bwrdd ar ei gyfeiriad strategol, cynigion gwella gwasanaethau ac effaith gweithrediadau'r Bwrdd ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid bum gwaith (gan gynnwys un sesiwn datblygu) yn ystod 2023/24. Penodwyd Mike Parry yn Gadeirydd a Peter Lewis yn Is-Gadeirydd.

Mae'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o broffesiynau clinigol a gofal iechyd y Bwrdd Iechyd ac ar draws ymarferwyr gofal sylfaenol sydd â'r cylch gorchwyl i roi cyngor i'r Bwrdd ar yr holl faterion proffesiynol a chlinigol y mae'n eu hystyried yn briodol. Mae'n un o'r fforymau allweddol a ddefnyddir i rannu cynlluniau newid gwasanaeth cynnar, gan roi cyfle i lunio'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ei wasanaethau. Cyfarfu'r Fforwm bum gwaith (gan gynnwys un sesiwn datblygu) yn ystod 2023/24.

## Adrodd i'r Bwrdd ar Gyd-bwyllgorau a Gweithio mewn Partneriaeth

Rwy'n cynrychioli'r Bwrdd ar gyfarfodydd y Cyd-bwyllgorau ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar waith y Cyd-bwyllgorau i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiadau'n galluogi trafodaeth fanwl ar faterion a godwyd yn y Cyd-bwyllgorau, yn ôl yr angen.

## Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a'u Sefydlu yn Gydbwyllgor Comisiynu Cymru Gyfan

Sefydlwyd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn 2014 i fod yn Gydbwyllgor o'r saith Bwrdd Iechyd, â'r tair ymddiriedolaeth GIG yn aelodau cyswllt. Cynhelid y Pwyllgor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac roedd yn gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ar sail Cymru gyfan.

Sefydlwyd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn 2010 gan y saith Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan y boblogaeth fynediad teg a chyfartal at yr ystod lawn o wasanaethau arbenigol. Cynhelid y Pwyllgor hwnnw hefyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Ers 1 Ebrill 2024, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi'u huno â chytundeb pob Bwrdd Iechyd i greu Cydbwyllgor Comisiynu newydd. Sefydlwyd y Cydbwyllgor Comisiynu mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau comisiynu cenedlaethol a gynhelid gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol.

## Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Sefydlwyd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn 2012 a chaiff ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n gyfrifol am swyddogaethau gwasanaethau a rennir ar gyfer y GIG, er enghraifft, caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Cynrychiolir Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yng nghyfarfod y pwyllgor hwn a bydd y Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar ôl pob cyfarfod.

## Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn datblygu ac yn llywio cyd-flaenoriaethau cytunedig, yn rhannu gwybodaeth, yn cynnal trosolwg o weithio rhanbarthol ac yn 'sganio'r gorwel' ynghylch materion sy'n dod i'r amlwg a / neu gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae'n darparu llywodraethu rhanbarthol ar gyfer eiriolaeth gydweithredol er budd y rhanbarth, gan weithredu fel 'Llais Gogledd Cymru'. Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- Chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru - Arweinwyr a Phrif Weithredwyr
- BIPBC - Cadeirydd a Phrif Weithredwr
- Cyfoeth Naturiol Cymru - Cadeirydd a Rheolwr Gweithrediadau
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Cadeirydd a Phrif Swyddog Tân
- Heddlu Gogledd Cymru - Prif Gwnstabl
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - Cadeirydd a Phrif Weithredwr
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Prif Weithredwr

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Ceir un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru ac mae'n cwmpasu'r un ardal â'r Bwrdd Iechyd. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi rhoi sylw i'r canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Cyhoeddi'r Cynllun Ardal Rhanbarthol ynghylch sut y bydd partneriaid yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Arwain y gwaith o ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy'n cynnwys 35 o gynlluniau ar draws chwe model gofal â chyfanswm buddsoddiad mewn cynlluniau a gwasanaethau sy'n werth mwy na £57 miliwn yn ystod y cyfnod 2022-2027.
- Prosiect Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, sy'n cydweithio â llawer o wahanol bobl a sefydliadau, i helpu pobl ag anableddau dysgu.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2024 i sicrhau tryloywder o ran pa raglenni sy'n cyflawni ar gyfer y grŵp poblogaeth blaenoriaethol hwn, ac osgoi unrhyw ddyblygu.
- Yr Hwb Cydgysylltu Arloesedd Rhanbarthol sy'n cydlynu ymchwil, gwelliannau ac arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i ategu gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol deng mlynedd sy'n dod â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector, addysg ac adfywio ynghyd i ddatblygu cyfleusterau darparu gwasanaethau integredig a datrysiadau integredig sy'n seiliedig ar lety.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pwerau yn y Ddeddf wedi galluogi chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru i uno i sefydlu tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cydweithredol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i wella llesiant pobl yn eu sir neu siroedd. Eu cyfrifoldeb fel grŵp yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd a gosod amcanion sydd wedi’u cynllunio i fwyafu ei gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae gan bob Bwrdd Gynllun Llesiant sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o lesiant yn lleol.

## 3. DIBEN Y SYSTEM RHEOLAETHAU MEWNOL

Mae’r system rheolaethau mewnol sy’n gweithredu ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi’i dylunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Yn sgil hynny, gall gynnig sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, ynghylch effeithiolrwydd.

Mae'r system rheolaethau mewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i llunio i nodi a blaenoriaethu risgiau a allai atal cyflawni polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Gallaf gadarnhau bod y system rheolaethau mewnol wedi bod ar waith yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal system rheolaethau mewnol gadarn sy'n cynorthwyo i gyflawni amcanion y sefydliad. Mae'r system rheolaethau mewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio wedi ategu'r system yn y rôl hon.

Yn ystod 2023/24 mae’r Tîm Gweithredol wedi blaenoriaethu’r gwaith o reoli argymhellion yn deillio o adroddiadau Archwilwyr Mewnol ac Allanol, yn cynnwys rhai a oedd yn dyddio’n ôl i 2018 ac wedi cywiro hepgor rhai o argymhellion Archwiliadau Allanol a ddarganfuwyd ar ddechrau 2023/24 (nodwyd hyn yn yr Asesiad Strwythuredig gan Archwilio Cymru yn 2023). Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, adroddodd Tîm Gweithredol wrth y Pwyllgor Archwilio fod 178 o argymhellion yn dal ar agor. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio gau 49 o’r argymhellion hyn yn ffurfiol a bydd yn cael rhagor o ddiweddariadau ynghylch yr holl argymhellion yn ystod ei gyfarfodydd yn 2024/25.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gryfhau’r gwaith dilynol mewn ymateb i argymhellion a fydd yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol newydd (2024/25).

## 4. Y GALLU I YMDRIN Â RISG

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am osod amcanion y sefydliad, diffinio strategaethau i gyflawni'r amcanion hynny, a sefydlu strwythurau a phrosesau llywodraethu i reoli'r risgiau wrth gyflawni'r amcanion hynny yn y ffordd orau.

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ac adrodd i'r Bwrdd am effeithiolrwydd rheoli risg ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae fy nghyngor i'r Bwrdd wedi'i lywio gan swyddogion gweithredol ac adborth a geir gan Bwyllgorau'r Bwrdd.

Mae cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg a'r Tîm Gweithredol yn cynnig cyfle i uwch reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol ystyried, gwerthuso a mynd i'r afael â risg, ac adrodd yn weithredol i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar broffil risg y sefydliad.

Bellach, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yw arweinydd y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â risg, yn ystod y cyfnod hwn, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd oedd yn gyfrifol am hynny, ac roedd yn gyfrifol hefyd am sefydlu'r fframwaith risg a'r systemau a'r prosesau sydd eu hangen at ddibenion rheoli risgiau yn y sefydliad. Clustnodir risgiau i Gyfarwyddwyr Gweithredol i arwain y broses o adrodd ar ymateb y sefydliad i Bwyllgorau Sicrwydd.

## Y Fframwaith Rheoli Risg

Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Fframwaith Rheoli Risg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Medi 2023 a chymeradwywyd dogfennau cysylltiedig (Cynllun Hyfforddiant Gweithdrefnau a Rheoli Risg) yn fuan wedi hynny.

Mae dull cadarn o reoli risg yn offerynnau allweddol i'r Bwrdd sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i wella ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau.




Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant y Bwrdd Iechyd ac yn elfen bwysig o brosesau cynllunio, pennu cyllideb a pherfformiad y Bwrdd Iechyd.

Mae Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd yn disgrifio prosesau a mecanweithiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer nodi, asesu a chyfeirio risgiau i lefel uwch. Fe'i datblygwyd i greu diwylliant rheoli risg cadarn ar draws y Bwrdd Iechyd drwy nodi'r dull a'r mecanweithiau y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu defnyddio i:

- Sicrhau bod yr egwyddorion, y prosesau, y gweithdrefnau a'r dulliau arfer gorau o reoli risg yn gyson yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw ac yn addas i'r diben
- Sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli trwy Fframwaith Sicrwydd cadarn y sefydliad a Chofrestrau Risg Gweithredol Corfforaethol a rhai Gwasanaethau/Swyddogaethau sy'n cyd-fynd â'r fframwaith hwnnw
- Gwreiddio rheoli risg a gweithdrefnau adrodd am risg lleol sefydledig i sicrhau y ceir proses reoli integredig effeithiol yn holl weithgareddau'r Bwrdd Iechyd
- Sicrhau bod penderfyniadau strategol a gweithredol yn cael eu llywio gan ddirnadaeth o risgiau'r sefydliad a'u heffaith tebygol
- Sicrhau bod risgiau a allai atal cyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn cael eu dileu, eu trosglwyddo, neu eu rheoli'n rhagweithiol
- Rheoli'r risgiau clinigol ac anghlinigol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd mewn ffordd gydgysylltiedig ac effeithiol; a
- Hysbysu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn briodol am risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd a chynlluniau cysylltiedig i ymdrin â'r risg.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn disgrifio proses adrodd amlhaenog, sy'n cynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Cofrestrau Risg Gwasanaethau a Chofrestrau Risg Prosiectau. Fe'i datblygwyd i helpu i feithrin a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n annog mentro'n briodol, rheoli perfformiad yn effeithiol a dysgu gwersi'n effeithiol ar lefel y sefydliad er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn rheolaidd.

## Rheoli Risg yn ystod 2023/24 - Risgiau Strategol

Mae'r rhain yn risgiau sy'n bygwth amcanion strategol y Bwrdd Iechyd neu ei allu i barhau i fodoli. Cofnodir risgiau strategol yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) y Bwrdd, sy'n cynnig crynodeb sy'n cwmpasu'r sefydliad cyfan o'r risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd. Dyma'r meini prawf ar gyfer cynnwys risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol:

- Rhaid i'r risg fod yn ymwneud â mater a allai rwystro cyflawni un neu fwy o amcanion strategol y Bwrdd Iechyd
- Ni ellir mynd i'r afael â'r risg ar lefel cyfarwyddiaethau a/neu
- Mae angen rhagor o fesurau rheoli i leihau neu ddileu'r risg

Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn 2023/24 ar ôl cymeradwyo'r Fframwaith Rheoli Risg ym mis Medi 2023, er mwyn sicrhau bod y Gofrestr yn adlewyrchu'n gyson y risgiau a allai atal y Bwrdd Iechyd rhag cyflawni ei amcanion strategol. Roedd themâu allweddol yn deillio o'r adolygiad yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd ariannol a'r defnydd o adnoddau
- Cynaliadwyedd gwasanaethau bregus
- Cynaliadwyedd ystadau ac offer
- Yr angen bob amser i fonitro ansawdd (diffinnir hynny fel diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad a'r potensial i niweidio cleifion)
- Y risgiau yn sgil heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff, diwylliant a lles
- Y sylw y mae'n rhaid parhau i'w roi ar iechyd y boblogaeth a
- Risg fythol ymosodiad seibr a risg ddigidol

## Gwreiddio Dulliau Rheoli Risg Effeithiol

Mae gwreiddio dulliau rheoli risg effeithiol yn dal yn flaenoriaeth allweddol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oherwydd mae hynny'n hanfodol i alluogi cyflawni ein hamcanion, yn strategol ac yn weithredol, ac yn bwysicaf oll, i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.

Ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o drefniadau Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2022/23, ac fe wnaeth yr adolygiad hwnnw ymdrin â sut roedd y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei weithredu a'i ddiweddaru. Rhoddwyd sgôr sicrwydd cyfyngedig i'r Bwrdd.

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r holl argymhellion a godwyd yn adroddiad yr Archwiliad Mewnol, mae gwaith wedi'i wneud i gryfhau ein trefniadau rheoli risg yn ogystal â datblygu cynllun tair blynedd ar gyfer y tîm rheoli risg gorfforaethol. Mae'r holl gamau gweithredu yn y cynllun hwn wedi'u cwblhau yn ôl y bwriad a byddwn yn parhau i'w gwreiddio yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r camau gweithredu wedi cynnwys adolygu'r holl ddogfennau rheoli risg allweddol, a gyhoeddwyd ac a oedd yn weithredol o fis Hydref 2023 i fis Chwefror 2024; pennu archwaeth risg y Bwrdd, Awst 2023; datblygu cynllun hyfforddiant cynhwysfawr a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024; ac adolygiad manwl o'r holl risgiau ar lefel uchel ar y cyd â'r Swyddogion Gweithredol, Hydref 2023. Y cam nesaf allweddol yn y cynllun hwn yw cynnal yr holl hyfforddiant a diwygio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'i gysoni ag amcanion strategol newydd 2024-2027.

Bydd amcanion strategol 2024-2027, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024, yn llywio'r gwaith o adolygu Fframwaith Sicrwydd presennol y Bwrdd yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau trosolwg llawn o risgiau a allai rwystro'r amcanion hyn.

Mae dogfen Fframwaith a Gweithdrefnau Rheoli Risg ddiwygiedig yn cynorthwyo staff i uwchgyfeirio risg ac yn eu grymuso i ysgwyddo cyfrifoldeb am risg ar y lefel leol ar yr un pryd. Er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth staff o gyfrifoldebau rheoli risg, mae'r pecyn hyfforddiant cyfan wedi'i adolygu ac mae'n fwy cynhwysfawr erbyn hyn, ac fe'i cymeradwywyd yn ystod 2023/24. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant cynefino â risg ar gyfer Aelodau Annibynnol
- Ymwybyddiaeth sylfaenol o nodi risgiau (gorfodol ar gyfer yr holl staff)
- Hyfforddiant rheoli risg gweithredol cynhwysfawr ar gyfer staff allweddol sydd â chyfrifoldebau rheoli risg o ddydd i ddydd; a
- Hyfforddiant ynghylch Rheoli Risgiau Strategol ar gyfer y Bwrdd a'r holl arweinwyr sy'n gyfrifol am risgiau strategol allweddol

Bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Electronic Staff Record, a phan fo hynny'n briodol, wyneb yn wyneb, ac eithrio'r hyfforddiant cynefino ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd y Bwrdd.

Gwneir mwy o ymdrechion yn ystod y flwyddyn i ddod i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion o ran hyfforddiant. Yn 2023/24, darparwyd hyfforddiant rheoli risg i 92 o staff o amrywiaeth o grwpiau staff, gostyngiad bwriadol o’r 126 o staff a hyfforddwyd yn 2022/23 oherwydd y ffocws o'r newydd ar y pecyn hyfforddi diwygiedig a’r ymdrechion ailhyfforddi a ragwelir. Mae penodi Pennaeth Rheoli Risg parhaol newydd yn ystod 2023/24 i gryfhau’r trefniadau rheoli risg yn bwrpasol, ymgysylltu’n strategol a sicrhau bod fframwaith cadarn yn cael ei ddarparu wedi galluogi ymgysylltu wyneb yn wyneb â Gwasanaethau a swyddogaethau’r Bwrdd Iechyd i sicrhau y caiff risgiau eu nodi, eu rheoli ac yr adroddir amdanynt yn fwy effeithiol.

Mae ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol yn elfen bwysig o’r broses rheoli risg, ac mae’r gwasanaeth archwilio mewnol wrthi’n cynnal ail adolygiad o drefniadau Rheoli Risg, a dylai hynny gael ei gwblhau ym Mehefin 2024.

## Archwaeth Risg

Mae Datganiad Archwaeth Risg y Bwrdd yn nodi dull strategol y Bwrdd o dderbyn risgiau drwy ddiffinio ei drothwyon archwaeth risg. Caiff ei adolygu'n flynyddol, i sicrhau bod unrhyw newidiadau i strategaethau'r sefydliad, ei amcanion, neu ei allu i reoli risg yn cael eu hadlewyrchu'n briodol.

Wrth ddiweddaru a chymeradwyo ei Ddatganiad Archwaeth Risg, ystyriodd y Bwrdd gapasiti a gallu'r Bwrdd Iechyd i reoli risg. Pennodd y Bwrdd ei archwaeth risg yn ystod sesiwn ddatblygiadol ar 24 Awst 2023 ac mae’n destun adolygiad blynyddol. Yn ystod y sesiwn ynghylch archwaeth, cyfeiriwyd at Fatrics Archwaeth Risg y Sefydliad Llywodraethu Da (2020) yng nghyd-destun mathau penodol o risg er mwyn pennu sgôr i'r archwaeth.

Fe wnaeth holl Aelodau'r Bwrdd a oedd yn eu swyddi ym mis Awst 2023 gyfrannu at bennu archwaeth y Bwrdd o ran ansawdd yng nghyd-destun pwysau presennol ac yn y dyfodol ar y system a chydnabuwyd y rhagolygon ariannol.

## Proffil Risg y Bwrdd Iechyd

Fel y gwelir yn y Map Gwres yn Ffigur 2, ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd nifer o risgiau allweddol a allai atal y Bwrdd Iechyd rhag cyflawni ei amcanion strategol wedi'u nodi. Mae manylion llawn y rheolaethau sydd ar waith a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r risgiau hyn i'w gweld yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yr adroddwyd wrth y Bwrdd amdani ym mhob cyfarfod.

Ffigur 2: Map Gwres Cofrestr Risg Gorfforaethol 2023/24

| Map Gwres Risg CRR | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Effaith | Trychinebus | 5 | | | • Meysydd Clinigol sy'n Destun Pryder | *Eithriadol*<br>• Methiannau o ran TGCh a Seibr (PFIGC)<br>• Methu â Gwreiddio Gwersi a Ddysgwyd (QSE)<br>• Diagnosteg Brydlon (QSE)<br>• Gofal wedi'i Gynllunio (PFIGC) | *Eithriadol* |
| | Mawr | 4 | | | • Diogelu (QSE) | • Pobl, Diwylliant a Lles (PC)<br>• Arweinyddiaeth/Mesurau Arbennig (PC)<br>• Niwed yn sgil Teclynnau/Offer meddygol (PC)<br>• Iechyd a Diogelwch (PC) | *Eithriadol*<br>• Cynaliadwyedd Ariannol (PFIGC)<br>• Addasrwydd a Diogelwch Safleoedd (PFIGC)<br>• Argaeledd a Chyfanrwydd Gwybodaeth am Gleifion (PFIGC)<br>• Iechyd y Boblogaeth (PC)<br>• Diogelwch Cleifion - Codymau (QSE)<br>• Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol (QSE)<br>• Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (PFIGC) |
| | Cymedrol | 3 | | | | | |
| | Bach | 2 | | | | | |
| | Dibwys | 1 | | | | | |
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | | Prin | Annhebygo | Posibl | Tebygol | Bron yn sicr |
| | | | Posibilrwydd | | | | |

**Ffigur 3: Risgiau Allweddol a Chrynodeb o Welliannau yn ystod 2023/24**

**Risgiau Allweddol (D.S. ni phennwyd sgôr o 25 i unrhyw risgiau)**

| Cyf. | Teitl y Risg | Disgrifiad | Crynodeb o Welliannau Gofynnol a Wnaed Yn Ystod 2023/24 | Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|
| CRR 24-02 | Diogelwch Cleifion - Codymau | Ceir risg o ran diogelwch cleifion, yn enwedig niwed yn sgil llithro, baglu a chodymau mewn safleoedd acíwt Gofal Eilaidd. Gall hyn gael ei achosi gan aciwtedd/cyflwr clinigol/eiddilwch cleifion ynghyd â ffactorau cyfrannol megis llai o staff, mannau ar wahân ac adeiladau nad ydynt yn caniatáu ar gyfer goruchwylio rhwydd, cydymffurfiaeth â gofynion o ran hyfforddiant codi a chario, cydymffurfiaeth â gofynion o ran asesu'r risg o godymau a gweithredu camau lliniaru dilynol. Gallai hyn achosi deilliannau iechyd salach i gleifion, treulio cyfnodau hwy mewn ysbytai, methiannau o ran cydymffurfio â gofynion cyrff rheoleiddio ac ymgyfreitha ac effeithiau ariannol cysylltiedig. | • Lansio Polisi Atal a Rheoli Codymau diweddaredig<br>• Archwilio hyfforddiant cynefino Rheolwyr Wardiau ynghylch hyfforddiant yn ymwneud â chodymau ar gyfer staff asiantaethau/dros dro<br>• Optimeiddio'r capasiti i gynnal hyfforddiant Codi a Chario trwy gyfrwng recriwtio a chyfleusterau allanol. Gwerthuso canlyniad y peilot adolygiadau gan gymheiriaid<br>• Cofnod Gofal Nyrsio Cymru Gwell (ar sail Cymru gyfan) | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |
| CRR 24-04 | Methu â Gwreiddio Gwersi a Ddysgwyd | Ceir risg y gallai'r Bwrdd Iechyd fethu â bodloni'r gofynion i gynnal adolygiadau prydlon a dysgu gwersi yn sgil achosion o farwolaethau, hawliadau, arolygiadau, digwyddiadau a chwynion. Gallai hyn gael ei achosi gan adnoddau annigonol, diffyg prosesau unedig, systemau TG hen ffasiwn, dyblygu ymdrechion, a gorddibyniaeth ar weithwyr unigol. Gall yr effeithiau gynnwys colli cyfleoedd i wella, diffyg ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr, methu â chanfod digwyddiadau a allai achosi niwed i gleifion, diffyg cydymffurfiaeth â fframweithiau neu ddeddfwriaeth ar y lefel genedlaethol, a phardduo enw da'r sefydliad. | • Parhau i adolygu'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd erbyn 24 Mehefin â chymorth Gweithrediaeth GIG Cymru<br>• Lansio Dangosfwrdd Ansawdd<br>• Sefydlu llyfrgell dysgu digidol<br>• Adolygu dull sicrhau ansawdd ar y cyd â Gweithrediaeth GIG Cymru. Datblygu System Rheoli Ansawdd | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CRR 24-05 | Cynaliadwyedd Ariannol | Methu â chyflawni'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 (diffyg gwerth £134.2m), yn sgil methu â chyflawni lefel arfaethedig o welliannau ariannol. Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2023-24 wedi nodi diffyg arfaethedig o £134.2m. Mae hyn yn cynnwys targed i sicrhau gwelliant ariannol o £38.7m, sy'n seiliedig ar y canlynol: Dadfuddsoddiad a nodwyd: £13.5m/Targed Arbedion: £25.2m (Targed Estynedig: £30m). Gallai methu â chyflawni'r targed o ran gwelliannau ariannol effeithio'n andwyol ar gyflawni'r cynllun ariannol a chynyddu'r diffyg. | • Sefydlu proses Adolygiad Ariannol i asesu Cynllun Buddsoddiadau £42m (Cam 2)<br>• Cyfansymiau Rheolaethau Cymhwysol i leihau gwariant trwy leihau'r diffyg: £2.7m dros ben yn ofynnol ym Mawrth i sicrhau alldro gwerth £33m<br>• Diweddaru'r rhagolwg i ragori ar y targed arbedion (£44.2m yn hytrach £25.2m) â £21.3m yn gylchol<br>• Gostyngodd diffyg uwchlaw'r disgwyl y cynllun yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn yn sylweddol – nawr mae angen sicrhau gwarged gwerth £2.7m yn y mis olaf (Mawrth) i gyflawni alldro o £33m | Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| CRR 24-07 | Argaeledd a Chyfanrwydd Gwybodaeth am Gleifion | Ceir risg yr achosir niwed i gleifion yn sgil diffyg system Cofnod Gofal Iechyd Electronig 'hydredol' sy'n digidoleiddio llif gwaith clinigol, rhybuddion, trosglwyddiadau ac amserlennu ac y gallai hynny achosi marwolaethau a niwed. | • Cynnal asesiad o'r hyn sy'n ofynnol i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cofnod Iechyd Electronig (EHR)<br>• Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cofnodion Iechyd Meddwl (prosiect 2 flynedd o leiaf) a chyllid i ariannu'r achos amlinellol strategol ar gyfer Cofnod Iechyd Electronig<br>• Cafodd y gofynion o ran costau ac adnoddau i allu ôl-sganio pob cofnod byw<br>• Safoni'r ffordd y defnyddir systemau presennol (papur ac electronig) fel rhan o ffrydiau gwaith optimeiddio DDaT<br>• Cynnal adolygiad o'r holl systemau presennol i sicrhau y gellir integreiddio'r rhain mewn Cofnod Iechyd Electronig | Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CRR 24-08 | Iechyd y Boblogaeth | Ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â rhoi cymorth digonol i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai hyn gael ei achosi gan ddiffyg gwasanaethau cynaliadwy, cyfyngiadau ariannol ac adnoddau yn y Bwrdd Iechyd, dibyniaeth ar arian grantiau i gynnal gweithgarwch atal a galw am ddiwallu anghenion gofal iechyd brys a di-oed y boblogaeth. Gall hyn arwain at barhad a chynnydd mewn clefydau anhrosglwyddadwy y gellir eu hatal i raddau helaeth. Gallai methu â mynd i'r afael â'r risg achosi marwolaethau a marwolaethau y gellir eu hosgoi ym mhoblogaeth Gogledd Cymru. | • Strategaeth Bwydo Babanod - diweddariad ar y gweill<br>• Deddfwriaeth Rheoli Tybaco a Chynllun Llywodraeth Cymru.<br>• Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. Rhaglen Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl<br>• Rhaglenni targededig Gogledd Cymru Iach. Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd a'i gerrig milltir<br>• Partneriaeth sy'n gweithio i leihau risg clefydau heintus. Strategaeth Imiwneiddio 2023-2026 | Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau |
| CRR 24-09 | Darpariaeth Gofal Cymunedol a Sylfaenol | Ceir risg na wnaiff Bwrdd Iechyd fodloni ei rwymedigaeth gyfreithiol yn llawn i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol hygyrch ac o ansawdd uchel. Gall hyn fod oherwydd heriau yn deillio o ffactorau amrywiol gan gynnwys prinder staff, anawsterau recriwtio a chadw, adnoddau annigonol, gwasanaethau atal cyfyngedig, a chyfyngiadau ar gyllid a waethygir gan dwf yn y boblogaeth a demograffeg fyrhoedlog. Yn ychwanegol, mae diffygion mewn cynllunio strategol, rheoli data, a rhannu gwybodaeth yn gwaethygu'r heriau hyn ymhellach. Mae'r goblygiadau'n eang, ac maent yn effeithio ar gynaliadwyedd proffesiynau gofal sylfaenol, mynediad cleifion, diagnosis prydlon, a defnydd priodol o wasanaethau gofal iechyd. Mae hyn yn achosi gwangalondid ymhlith y gweithlu gofal sylfaenol, mwy o straen ar wasanaethau brys, arosiadau hir yn yr ysbyty, derbyniadau y gellir eu hosgoi, diffyg gofal, diffyg | • Sefydlu Bwrdd Gofal Sylfaenol. Cynllun strategol Gofal Sylfaenol. Uwchgyfeirio a rhoi cynaliadwyedd ar waith<br>• Practisau a Reolir gan y Bwrdd Iechyd - adroddiad yn cynnig argymhellion i wella llywodraethu. Ymdrin â rhoi'r argymhellion ar waith | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cydymffurfio â rheoliadau, a dirywiad yn nangosyddion iechyd y boblogaeth. Yn sgil hynny, ceir effaith rhaeadru ar lif cleifion, perfformiad gwasanaethau, ansawdd gofal, partneriaethau cydweithredol, cost effeithiolrwydd, a dichonoldeb modelau gofal sylfaenol a gofal cymunedol. Y canlyniad yn y pen draw yw cynnydd mewn cyfraddau marwolaethau, oedi o ran triniaethau, a threulio cyfnodau estynedig yn yr ysbyty, gan waethygu cyflyrau iechyd cleifion. | | |
| CRR 24-10 | Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng | Ceir risg o farwolaethau yn ymwneud â chleifion sy'n ddifrifol wael yn cael eu gweld yn brydlon trwy lwybrau gofal heb ei drefnu. Gallai hyn gael ei achosi gan oedi cyn anfon ambiwlansys, ambiwlansys yn ciwio mewn adrannau achosion brys, mynediad i wasanaethau Tu Allan i Oriau ac Adrannau Achosion Brys ac UTCs yn llawn. Gallai hyn effeithio ar bwysau ar wasanaethau eraill, enw da'r sefydliad a goblygiadau o ran ymgyfreitha. | • Trawsnewid y system gofal brys (6 Nod) gan gynnwys 1000 o welyau a blaenoriaethau'r gweinidog<br>• Sefydlu adolygiad o drefniadau Gofal Cymhleth<br>• Adolygiad o gynaliadwyedd cynlluniau i reoli'r ymateb i weithredu diwydiannol<br>• Datblygu cynllun uwchgyfeirio brys ynghylch capasiti a llif gofal cymunedol<br>• Treialu model llif parhaus y Cymunedau Iechyd Integredig cyn mis Awst 2024<br>• Cadarnhau gofyniad cenedlaethol ar gyfer cynllun cadernid yn ystod y gaeaf neu ganolbwyntio ar gynllun cadernid Gogledd Cymru ar gyfer 2024-2025 | Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CRR 24-11 | Gofal wedi'i Gynllunio | Ceir risg o ddirywiad ychwanegol yn iechyd cleifion, niwed, marwolaethau neu angen am driniaethau mwy cymhleth mewn perthynas â gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio, ac yn sgil hynny, methu â chyflawni targedau cenedlaethol ynghylch mynediad. Gallai hyn gael ei achosi gan arosiadau hir ac oedi am ofal wedi'i gynllunio, capasiti annigonol, prinder staff, galw cynyddol, ac ôl-groniadau sy'n cael eu gwaethygu yn sgil COVID. Yr effaith fyddai gwaethygu canlyniadau a phrofiadau cleifion, mwy o gwynion, cosbau ariannol am fethu â chyflawni targedau, a phardduo enw da'r sefydliad. | • Achos busnes ynghylch recriwtio staff i weithio yn Llandudno/Abergele (safle gwasanaethau orthopaedig)<br>• Cymeradwyo defnyddio cronfeydd cynaliadwyedd ac awdurdod i'w defnyddio yn unol â'r Cynllun<br>• Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol y Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio<br>• Recriwtio staff ar gyfer rhaglenni gwaith er mwyn cynorthwyo i'w cyflawni'n llwyddiannus<br>• Sesiwn ddatblygu ar gyfer y Bwrdd ynghylch Gofal wedi'i Gynllunio | Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| CRR 24-13 | Diagnosteg Brydlon | Ceir risg o oedi o ran diagnosteg, gwasanaethau yn methu, perfformiad gwael neu darfu ar wasanaethau radioleg a phatholeg yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw. Gallai hyn gael ei achosi gan brinder staff arbenigol, systemau a seilwaith TG sy'n heneiddio neu annigonol, a strwythurau llywodraethu annigonol. Gall yr effeithiau gynnwys oedi o ran cynnal diagnosis, triniaethau a rhyddhau cleifion, costau allanol uwch, digwyddiadau sy'n achosi niwed i gleifion, marwolaethau y gellir eu hatal, diffyg cydymffurfio â rheoliadau, a phardduo enw da'r sefydliad yn sylweddol. Ceir risg ychwanegol hefyd sy'n gysylltiedig â chlinigwyr yn methu â gweithredu mewn ymateb i ganlyniadau profion diagnostig. | • Sefydlu system newydd yn lle'r System Gwybodeg Radioleg (RISP) - gweithredu gan ddisgwyl y daw'r system newydd ar waith ar 14/04/2024<br>• Sefydlu system newydd yn lle LINC (system TG patholeg genedlaethol) - Llofnodwyd y contract ac mae cynlluniau'r cyflenwr presennol i'w rhoi ar waith erbyn mis Medi 2025 yn cael eu datblygu ar y lefel genedlaethol ar hyn o bryd<br>• Diweddaru Gweithdrefn MD23 (Lliniaru'r risg o fethu â gweithredu mewn ymateb i ganlyniadau diagnosisau<br>• Datblygu model diwygiedig y gweithlu radioleg erbyn Mehefin 2025<br>• Strategaeth Ddiagnosteg i'w datblygu gan grŵp diagnosteg | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CRR 24-15 | Iechyd a Diogelwch | Ceir risg o niwed osgoadwy i gleifion a staff. Gallai hyn gael ei achosi gan fethiant y Bwrdd Iechyd i ddarparu systemau darparu a gweithio diogel yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig oherwydd diffyg Arweinyddiaeth yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch. Yr effaith yw niwed i gleifion a staff, goblygiadau ariannol, a phardduo enw da'r Bwrdd Iechyd. | • Sefydlu system yn lle'r System Gwybodeg Radioleg (RISP) - gweithredu<br>• Adolygu cynlluniau cyfalaf i brynu dyfeisiau meddygol newydd i sicrhau bod pob gwasanaeth wedi dechrau gweithredu rhaglen adnewyddu dyfeisiau meddygol<br>• Strategaeth Dyfeisiau Meddygol<br>• Recriwtio i benodi aelodau o'r tîm dyfeisiau meddygol<br>• Mae'r gwasanaeth ffiseg feddygol wedi cael y gwaith o brofi'r holl offer uwchsain i sicrhau eu bod yn ddiogel a bydd yn ystyried cydymffurfiaeth.<br>• Datblygu a sefydlu gwelliannau yn ymwneud â'r risg o glymu | Pobl a Diwylliant |
| CRR 24-12 | Meysydd sy'n Destun Pryder o safbwynt Clinigol (yn cwmpasu offthalmoleg a dermatoleg) | Sgôr o 15 - Ceir risg o fethiannau gan wasanaethau gan achosi niwed i gleifion mewn nifer o arbenigeddau clinigol bregus. Gallai hyn gael ei achosi gan brinder staff, bylchau o ran arweinyddiaeth glinigol, diffyg cynhyrchiant, ôl-groniad galw, patrymau galw cynyddol a diffygion o ran ystadau ac offer. Efallai mai oedi o ran diagnosio a thrin cyflyrau penodol fydd yr effaith. Mae hyn yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, mynediad at wasanaethau gofal iechyd a chanlyniadau yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd. | • Ymwneud â Phrosesau Caffael Cenedlaethol (system cofnodion iechyd y llygaid) a Rhaglenni Cenedlaethol (Roboteg)<br>• Recriwtio'n mynd rhagddo i lenwi rolau arweinwyr meddygol parhaol<br>• Ymdrechion i recriwtio yn cynnwys staff parhaol a thros dro a staff asiantaethau. Cymeradwyo Cytundebau Lefel Gwasanaeth trwy gyfrwng strwythurau llywodraethu<br>• Digwyddiadau yn ymwneud â llwybrau clinigol. Ymarferion dilysu clinigol ac anghlinigol | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |

## Elfennau o'r Fframwaith Sicrwydd

Mae elfennau allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys:

- Amcanion sefydliadol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, a nodi'r prif risgiau a allai fygwth cyflawni'r amcanion hyn
- Nodi'r rheolaethau y bwriedir iddynt reoli'r prif risgiau hyn
- Gosod trefniadau ar gyfer sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau allweddol ar draws pob maes o'r prif risgiau
- Nodi sicrwydd a meysydd lle mae bylchau mewn rheolaethau a/neu sicrwydd
- Rhoi cynlluniau ar waith i gymryd camau unioni os nodir bylchau mewn perthynas â'r prif risgiau
- Cynnal trefniadau rheoli risg deinamig gan gynnwys cofrestr risg sydd â seiliau cadarn

## Risgiau Allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn hysbysu ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd trwy gyfrwng rheolaethau a chynlluniau gweithredu ynghylch risgiau eithafol iawn a nodwyd sy'n ymwneud ag unrhyw bosibilrwydd o fethu â chyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd. Y  dull a ddefnyddiwyd yn ystod 2023/24, wrth aros i'r Bwrdd bennu set ddiwygiedig o amcanion strategol, oedd datblygu a chyflwyno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a oedd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol ac roedd y fframwaith hwnnw yn cael ei oruchwylio ac adroddid amdano trwy gyfrwng y Pwyllgorau ac i'r Bwrdd.

Cymeradwywyd yr amcanion strategol newydd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024 a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cyd-fynd â'r amcanion hyn ac â'r Cynllun Tair Blynedd.

## 5. FFRAMWAITH RHEOLAETHAU

## Y Cod Llywodraethu Corfforaethol

Y Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n berthnasol ar hyn o bryd i gyrff y GIG yw 'Llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod arfer da' (cyhoeddwyd 21 Ebrill 2017).

Nid yw'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, fel yn achos sefydliadau eraill GIG Cymru, gydymffurfio â holl elfennau'r Cod. Fodd bynnag, mae prif egwyddorion y Cod fel y maent yn berthnasol i bob corff yn y sector cyhoeddus.

Adlewyrchir y cod Llywodraethu Corfforaethol mewn polisïau a gweithdrefnau allweddol. Yn ychwanegol, o fewn ein system rheolaethau mewnol, gweithredir amrywiaeth o fecanweithiau sydd wedi'u llunio i fonitro ein cydymffurfiaeth â'r Cod. Mae'r rhain yn cynnwys hunanasesiad, archwiliadau mewnol ac allanol, ac adolygiadau annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn cydymffurfio ag egwyddorion perthnasol y Cod ac yn cynnal ei fusnes yn ddidwyll ac yn unol â gofynion y Cod. Ni fu unrhyw weithredu yn groes i'r Cod fel y mae'n berthnasol i gyrff y GIG yng Nghymru.

Cafodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai 2024.

## Tramgwyddau o ran Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Adroddir am dramgwyddau ym mhob un o gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio ac mae'r mathau o dramgwyddau yr adroddir amdanynt yn cynnwys:

- Cadw at y rheolau ynghylch cyhoeddi papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau
- Cadw at reolau yn ymwneud â chontractau a chaffael

Yn ystod 2023/24, aeth y Bwrdd Iechyd i wariant afreolaidd gan fynd yn groes i'w gyfarwyddiadau ariannol sefydlog trwy wneud taliadau i aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd. Byddai hyn mewn perthynas â'r mater a godir ym Mharagraff 14.1.4 y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 19.1 o Ddeddf GIG Cymru sy'n golygu ei bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru pan fo swydd cyfarwyddwr gweithredol yn derbyn tâl sy'n uwch na'r raddfa gytunedig.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r diffygion o ran rheolaethau mewnol a arweiniodd at y taliadau afreolaidd ac mae'n cryfhau ei ddulliau rheoli a'i drefniadau llywodraethu'n unol â hynny.

## Llywodraethu Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd

Yng Nghymru, mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cynnig  diffiniad cyson o ansawdd sy'n berthnasol i holl Weinidogion Cymru a chyrff GIG Cymru, sef *'bodloni anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu mewn modd parhaus, dibynadwy a chynaliadwy'.*

Beth sy'n allweddol er mwyn cyflawni hyn yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yn darparu gwasanaethau iechyd sy'n ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Er mwyn ysgogi hyn, fel rhan o'r Ddyletswydd Ansawdd statudol newydd, mae Gweinidogion Cymru wedi disodli'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) trwy gyflwyno Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd sy'n cynnwys y chwe maes ansawdd uchod, a chwe galluogwr (arweinyddiaeth, gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu, gwella ac ymchwil, a dull system gyfan).

Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith llywodraethu ansawdd sy'n hwyluso monitro risgiau a pherfformiad sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd gwasanaethau. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd yn cynnig mecanwaith i fonitro risgiau sylweddol sy'n ymwneud ag ansawdd.

Arweinir gwaith llywodraethu ansawdd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth â chymorth gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a'r Tîm Ansawdd. Fodd bynnag, mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol Clinigol gyfrifoldeb am ansawdd ac mae gan bob gweithrediaeth bortffolio penodol o swyddogaethau ansawdd a chânt gymorth gan eu dirprwy a'u cyfarwyddwyr cynorthwyol i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw.

Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd sydd â'r rôl arweiniol o ran ceisio sicrwydd ansawdd. Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'r Rhaglen Mesurau Arbennig, adolygwyd a diweddarwyd aelodaeth y pwyllgor, y cylch gorchwyl a'r cylch busnes. Cynorthwyir y Pwyllgor i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn gan y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol sy'n darparu goruchwyliaeth ar lefel weithredol ac yn cydlynu ansawdd.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y Bwrdd Iechyd weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol. Yn benodol, dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r System Rheoli Ansawdd ar gyfer y sefydliad a fydd yn nodi dull mwy cyfannol ac integredig o reoli ansawdd. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Am y tro cyntaf, fel rhan o ddyletswyddau statudol newydd, bydd y Bwrdd Iechyd yn llunio Adroddiad Blynyddol ynghylch y Ddyletswydd Ansawdd ac Adroddiad Blynyddol ynghylch y Ddyletswydd Gonestrwydd, ynghyd â'r gofyniad presennol i lunio Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella.

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn adolygu ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd yn erbyn ystod o safonau, polisïau a rheoliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofal iechyd, gan amlygu meysydd i'w gwella. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd yn monitro defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn adolygu gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau bod unigolyn sy'n agored i niwed yn cael gofal o ansawdd da gan y gwasanaeth hwn. Bydd Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn gofyn i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnal adolygiad clinigol o ofal iechyd carcharor os bydd yn marw yn y ddalfa.

Mae systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a cheisiadau am sicrwydd yn cael eu rheoli'n briodol. Yn ystod 2023/24, parhaodd y Bwrdd Iechyd i sefydlu ei gronfa ddata newydd i olrhain a monitro ceisiadau am sicrwydd ac arolygiadau, gan gynnwys tystiolaeth yn ymwneud â chynlluniau gweithredu, ac mae hyn wedi sicrhau gwelliant sylweddol o ran sicrwydd.

Adroddir am weithgarwch Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd barhau i wreiddio ac aeddfedu ei Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio newydd sy'n goruchwylio materion rheoleiddio yn fanylach, a gwella'r broses o ddysgu gwersi yn sgil arolygiadau ledled y sefydliad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i berthynas waith gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru drwy gyfarfodydd ymgysylltu misol ag arweinydd perthynas dynodedig a thrwy drafodaethau rheolaidd sy'n mynd rhagddynt. Rwy'n parhau i flaenoriaethu trafodaethau strategol ac ymgysylltu ag uwch arolygwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Er mwyn cryfhau prosesau arolygu mewnol y Bwrdd Iechyd, mae proses ac amserlen Adolygu Ansawdd gan Gymheiriaid wedi'u sefydlu. Mae'r adolygiad yn dilyn dull tebyg i fethodoleg Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac yn ymgorffori'r safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall beth sy'n llwyddo mewn gwasanaethau ac i gydweithio â gwasanaethau i ddatblygu unrhyw gynlluniau gwella.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddeg arolygiad o wasanaethau a reolir gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn cynnig dolen at bob adroddiad a bob cynllun gweithredu cytunedig.

| Lleoliad | Dyddiad | Argymhellion | Camau Gweithredu Cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| **Uned Hergest Ysbyty Gwynedd** www.agic.org.uk/system/files/2023-09/20230922HergestUnitYGCY.pdf | 15, 16, 17 Mai 2023 | 31 | 57 |
| **Meddygaeth Niwclear IRMER, Ysbyty Glan Clwyd** www.agic.org.uk/system/files/2023-08/17052023%2CGlanClwyd%2CCY.pdf | 16, 17 Mai 2023 | 9 | 13 |
| **Uned Tŷ Llewelyn, Bryn y Neuadd** www.agic.org.uk/system/files/2023-10/03072023%20-%20YsbytyBrynYNeuadd%2CCY.pdf | 03, 04, 05 Gorffennaf 2023 | 17 | 17 |
| **Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd** www.agic.org.uk/system/files/2023-10/17072023-%20AblettUnit%2C%20CY.pdf | 17, 18, 19 Gorffennaf 2023 | 20 | 20 |
| **Ward Morfa, Ysbyty Cyffredinol Llandudno** www.agic.org.uk/system/files/2023-11/20231106LlandudnoHospitalcy.pdf | 25, 26 Gorffennaf 2023 | 19 | 35 |
| **Adran Achosion Brys, Ysbyty Gwynedd** www.agic.org.uk/system/files/2023-11/20230807-YsbytyGwyneddED%2C%20CY_0.pdf | 07, 09 Awst 2023 | 18 | 32 |
| **Ward Morris, Ysbyty Maelor Wrecsam** www.agic.org.uk/system/files/2023-12/13092023%20-%20WrexhamMaelorHospital%2C%20CY.pdf | 12, 13 Medi 2023 | 12 | 16 |
| **Canolfan Iechyd Pen-y-Maes, Wrecsam** www.agic.org.uk/system/files/2023-11/20230808%20-%20PenYMaes%2C%20CY.pdf | 08 Awst 2023 | 16 | 26 |
| **Meddygfa Hafan Iechyd, Caernarfon** www.agic.org.uk/system/files/2024-02/14112023-%20HafanIechyd%2C%20CY.pdf | 14 Tachwedd 2023 | 15 | 20 |
| **Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Nant Y Glyn** www.agic.org.uk/system/files/2024-04/20240425NantyGlynTeamCY.pdf | 23, 24 Ionawr 2024 | 23 | 51 |

Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gyhoeddi eu Hadolygiad ynghylch Gwasanaethau Fasgwlaidd y Bwrdd Iechyd (www.agic.org.uk/system/files/2023-07/20230626-BetsiVascular-CY_0_0.pdf) ym Mehefin 2023 (bydd canfyddiadau manwl yr adroddiad hwn yn cael eu hystyried ynghyd â chanfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fasgwlaidd). Yn dilyn yr adolygiad, cadarnhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y dylai'r gwasanaeth gael ei ddad-ddwysáu o'i statws Gwasanaeth y mae arno Angen Gwelliant Sylweddol, oherwydd roedd yr Arolygiaeth wedi'i hargyhoeddi bod y gwelliannau angenrheidiol wedi'u cyflawni.

Cadarnhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y byddai'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd yn parhau i fod yn Wasanaeth y mae arno Angen Gwelliant Sylweddol. Cynhaliwyd Adolygiad Ansawdd gan Gymheiriaid yn ystod y flwyddyn i ddarparu man cychwyn o ran gwelliannau ac mae'r gwasanaeth yn dal i sicrhau gwelliannau mewn meysydd allweddol. Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru archwilio'r gwasanaeth eto ar 30 Ebrill 2024 ac rydym yn disgwyl am ragor o ohebiaeth ynghylch eu canfyddiadau.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n rheoleiddio gwasanaethau ar gyfer oedolion megis cartrefi gofal i oedolion, gwasanaethau cymorth yn y cartref, gwasanaethau sy'n cynnig lleoliadau ar gyfer oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn un endid cyfreithiol, felly mae’n ddarparwr cofrestredig ar gyfer gwasanaethau niferus sy’n cynnwys Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Gwell (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) a Thuag Adref (yn y tair Cymuned Iechyd Integredig). Diweddarodd y Bwrdd Iechyd ei gofrestriad ym mis Chwefror 2023. Yn unol â gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae’r Bwrdd Iechyd wedi penodi Unigolyn Cyfrifol (y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd) sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol i ymgymryd â gweithgarwch sicrwydd. Yn ogystal, ceir gofyniad cyfreithiol i lunio Datganiad Blynyddol ar gyfer y gwasanaethau, a gyflwynwyd yn briodol.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o’r Gwasanaeth Preswyl Cymunedol Gwell ym mis Mehefin 2023. Ni nodwyd unrhyw gamau gwella.

Mae Adolygiadau Ansawdd Gofal Mewnol ar waith yn unol â gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a'u diben yw ysgogi gwelliannau a chyflawni rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth o ansawdd uchel, gan ein helpu i sicrhau ein bod yn gwella ansawdd canlyniadau gofal er budd y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

## Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

### Erlynid gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Uned Hergest

Ym mis Mai 2022, yn dilyn y llythyr ‘hysbysiad o dramgwydd’ yn ymwneud ag achosion o dramgwyddau yn ymwneud â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, erlynodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd am dramgwyddo Adran 3.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Clywyd yr achos yn Llys Ynadon Llandudno ar 18 Rhagfyr 2023. Plediodd y Bwrdd Iechyd yn euog a dyfarnwyd ei fod wedi cyflawni trosedd o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Dedfrydodd y Barnwr Rhanbarth y Bwrdd Iechyd i dalu dirwy o £200,000, yn ogystal â chostau erlyn (£13,174) a gordal (£190).

Nododd y Barnwr, i liniaru’r ple euog cynnar, statws corff cyhoeddus y Bwrdd Iechyd a’i bwysau ariannol, pa mor barod y buom i ymgysylltu â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a’r gwaith gwella sylweddol a wnaed ers y digwyddiad, ynghyd ag ymrwymiad pendant i barhau i sicrhau gwelliannau. Serch hynny, nododd y Barnwr hefyd y dylai'r ddirwy fod yn ddigonol i fod yn gosb am y drosedd ac i ddangos i'r Bwrdd Iechyd fod angen sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Cyn yr erlyniad, gweithredodd y tîm Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gynllun gweithredu helaeth. Roedd y cynllun hwn yn gynhwysfawr ac yn adeiladu ar sail gwelliannau ychwanegol i atal y math o ddigwyddiad trasig a arweiniodd at erlyn y sefydliad rhag digwydd eto.

**Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Hysbysiad ynghylch Tramgwydd, Cleifion yn Cael Codymau**

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi ymchwilio'n weithredol i dri chodwm ar ôl i gleifion farw yn dilyn y codymau hynny. Cafwyd un achos yn Ysbyty Maelor Wrecsam a dau achos yn Ysbyty Gwynedd. Mae hyn yn dilyn llythyr Hysbysiad ynghylch Tramgwydd a rhoi Hysbysiad Gwella i'r Bwrdd Iechyd ar 16 Mehefin 2021.

Roedd y methiannau a nodwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- Asesiadau risg ynghylch codymau cleifion heb eu cwblhau
- Diffyg monitro
- Methu â chwblhau adolygiad o gleifion ar ôl iddynt gael codwm
- Dim digon o hyfforddiant ynghylch codymau cleifion i bobl sy'n asesu ac sy'n rheoli codymau cleifion
- Methu ag adolygu'r cynllun rheoli codymau

Cafwyd llythyr oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar 5 Mai 2022. Wedi'r codymau cleifion mwy diweddar hyn a adroddwyd yn unol â gofynion RIDDOR, roedd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu 'datganiad yn esbonio'r codymau hyn' er mwyn ystyried camau gorfodi pellach. Bu rhagor o weithredu ar 15 Mawrth 2023; cafwyd llythyr ychwanegol yn cadarnhau bwriad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i weithredu camau gorfodi ychwanegol ynghylch y mater hwn. Ar 26 Gorffennaf 2023, roedd llythyr Hysbysiad ynghylch Tramgwydd arall mewn perthynas â'r un materion a nodwyd yn 2021 yn gofyn am gamau gweithredu gan y Bwrdd Iechyd yn ailadrodd gofynion y llythyr gwella blaenorol a hefyd yn gofyn am wybodaeth am y meini prawf a ddefnyddiwyd i gynnal ymchwiliad ynghylch codymau, gan gynnwys dadansoddiad o wraidd y broblem.

Cafodd camau gweithredu gofynnol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn yr hysbysiad ynghylch tramgwydd eu gweithredu'n brydlon ac yn llawn a sefydlwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd. Mae'r ymateb cyflym hwn yn amlygu ein hymrwymiad diwyro i ofynion i gydymffurfio ac i ddiogelwch. Mae'r mesurau newydd yn cynnwys:

- Protocol wedi codymau
- Dangosfwrdd ar gyfer yr asesiad risg codymau
- Adolygu hyfforddiant ynghylch codymau gyda staff asiantaethau
- Adolygu codymau yn ystod Rowndiau ar Wardiau a Sesiynau Briffio/Sgrymiau ynghylch Diogelwch
- Proses Tîm Amlddisgyblaethol i adolygu Codymau. Mae'r tîm hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ddisgyblaethau amrywiol, yn gwneud cyfraniad hanfodol at ein proses adolygu codymau, gan gyfrannu safbwyntiau ac arbenigedd amrywiol at y trafodaethau a sicrhau ymagwedd gynhwysfawr a chyfannol at ddiogelwch cleifion.
- Cynnal panel dysgu gwersi ar ôl pob codwm, yn cynnwys dadansoddi gwraidd y broblem

Bydd timau ansawdd lleol yn mynd ati'n ddyddiol i nodi pob achos o glaf yn cael codwm yn ystod y 24 awr flaenorol (72 awr yn dilyn penwythnos) i sicrhau bod y cleifion hynny sydd wedi cael niwed cymedrol wedi cael (neu y byddant yn cael) Adolygiad Carlam Sicrhau Diogelwch o fewn 72 awr. Yn ystod 2023/24, adroddodd adolygiad Archwilio Mewnol sicrwydd cyfyngedig yn ymwneud â Rheoli Codymau, a datblygwyd nifer o argymhellion. Mae hwn yn risg allweddol i'r Bwrdd Iechyd yr adroddir yn ei gylch yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Caiff cynnydd yn y maes hwn ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

Mae angen adolygiad â ffocws ynghylch pob claf sydd wedi cael codwm sy'n nodi ffactorau cyfrannol, asesiad risg codymau aml-ffactor, ac adolygiad ôl-weithredol o ddulliau rheoli ar ôl i glaf gael codwm.

Caiff Panel Dysgu Gwersi Carlam dan arweiniad swyddogion gweithredol clinigol ei gynnull i ymateb i'r niweidiau mwyaf difrifol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw wersi sy'n rhaid eu dysgu'n ddi-oed eu rhannu yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw. Mae gan y panel hwn rôl hanfodol yn ein proses rheoli codymau, gan hwyluso'r gwaith o nodi achosion sylfaenol a gweithredu mesurau ataliol, a thrwy hynny, mae'n cyfrannu at ein hymdrechion parhaus i wella diogelwch cleifion.

**Hysbysiad Tramgwydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Dirgrynu yn y Dwylo a'r Breichiau (Dwyrain)**

Yn dilyn gwaith goruchwylio iechyd ar gyfer staff sydd mewn perygl o brofi dirgrynu, fe wnaeth ein meddyg iechyd galwedigaethol ddiagnosio syndrom dirgrynu dwylo a breichiau sy'n adroddadwy yn unol â gofynion RIDDOR. Yn dilyn hynny, rhoddodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Hysbysiad ynghylch Tramgwydd ar 15 Mehefin 2023, ynghylch gofyniad i asesu risg yn achos y sawl sy'n defnyddio offer dirgrynol yn y tîm Ystadau. Cwblhawyd yr Asesiadau Risg i nodi’r bobl a oedd mewn perygl ym mis Medi 2023, a nododd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn fodlon â hynny ac na fyddai unrhyw gamau ychwanegol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd dalu ffi ymyrryd.

- Cyflogodd y tîm Ystadau ymgynghorydd allanol arbenigol ynghylch Sŵn a Dirgrynu i ganfod lefelau dirgrynu'r offer a ddefnyddir.
- Mae’r Tîm Ystadau wedi gweithredu rhaglen i brynu strimwyr batri sydd ddim yn dirgrynu llawer yn lle strimwyr ag injan betrol er mwyn lleihau’r risg o brofi dirgrynu yn y dwylo a'r breichiau.
- Mae asesiadau risg wedi’u cwblhau, a chaiff amlygiadau eu cofnodi’n ddyddiol i sicrhau nad oes unrhyw amlygiad yn fwy na'r Gwerth Terfyn Amlygiad (ELV) dyddiol.
- Cynorthwyir y tîm gan y tîm Iechyd Galwedigaethol o dan y rhaglen Goruchwylio Iechyd.

## Trefniadau Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion atal twyll a llygredd, fel y'u nodir yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i Gyrff y GIG yng Nghymru ynghylch Mesurau Atal Twyll a roddwyd ar 1 Rhagfyr 2005.

Mae’r Ddeddf Llwgrwobrwyo yn nodi pedair prif drosedd, sef llwgrwobrwyo, derbyn llwgrwobrwyon, llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor, a methu ag atal llwgrwobrwyo gan sefydliad masnachol. Mae llwgrwobrwyo wedi'i gynnwys yng ngofynion cyfarwyddeb Llywodraeth Cymru ers 2010.

Nid yw tîm y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol yn ymchwilio i honiadau o lwgrwobrwyo a llygredd, a chânt eu cyfeirio at Wasanaeth Atal Twyll Cymru fel y gellir ymchwilio iddynt.

Ar lefel weithredol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sydd â'r cyfrifoldeb dirprwyedig am reolaeth weithredol y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol. Pennaeth y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol sy'n ymgymryd â goruchwylio rheoli arferol y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol. Mae gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifennydd y Bwrdd gynt) rôl Hyrwyddwr Atal Twyll.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd gynllun gwaith ynghylch atal twyll ar waith yn ystod 2023/24 a bydd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn diweddaru’r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn rheolaidd, drwy law’r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol, er mwyn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun a thrafod achosion pan fo hynny'n ofynnol.

Cynhelir asesiadau risg ynghylch twyll yn flynyddol i asesu a nodi pa mor agored yw'r Bwrdd Iechyd i risgiau twyll.

Defnyddir canlyniad yr asesiad gan gymharu â'r polisi risg gorfforaethol i gynnal cofrestr risg twyll sy'n cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i werthuso, lliniaru a monitro risgiau sy'n deillio o dwyll ac mae trefniadau ar waith i uwchgyfeirio'n briodol.

Mae'r trefniadau dilynol ar waith:

- Bydd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn gweithredu'n rhagweithiol ac adweithiol i atal a nodi twyll, yn ogystal ag annog staff i roi gwybod am dwyll; caiff unrhyw enghreifftiau o wrthdaro buddiannau eu datgan ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau.
- Rhaglen hyfforddi orfodol ar gyfer Ymwybyddiaeth o Dwyll trwy e-Ddysgu, y cafwyd nifer dda yn cyfranogi ynddi; ers mis Hydref 2023, mae'n ofynnol i staff adnewyddu eu cydymffurfiaeth bob 3 blynedd.
- Mae prosesau'r Bwrdd Iechyd yn cyfateb er mwyn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau polisi presennol ynghylch gwrthdaro buddiannau sydd wedi'u hadolygu yn ystod 2023-24, ac mae system newydd wedi'i sefydlu gan y Bwrdd Iechyd i gryfhau'r oruchwyliaeth.
- Mae trefniadau gweithredol ar waith i alluogi hysbysu'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn brydlon am bryderon sy'n ymwneud â thwyll, drwy law'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol. Caiff y Pwyllgor Archwilio ei hysbysu hefyd am bryderon o'r fath, at ddibenion goruchwylio a chynnig sicrwydd.
- Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol wedi ymgysylltu er mwyn trafod meysydd risg uchel, yn ôl yr angen. Os bydd rheolwyr yn nodi risgiau sy'n ymwneud â thwyll, caiff y rhain eu hychwanegu at y gofrestr risg, ynghyd â mesurau lliniaru cysylltiedig.
- Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol yn cael cyfarfod preifat gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio i ganiatáu i unrhyw faterion perthnasol gael eu trafod yn gyfrinachol, cyn cynnal cyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau chwarterol ynghylch cynnydd ac adroddiad blynyddol ynghylch cyflawni cynllun gwaith yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a chanlyniadau adroddiadau ymchwiliol, os bydd hynny'n briodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu polisïau a gweithdrefnau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau hunanasesiad blynyddol ynghylch ei drefniadau atal twyll, yn unol â Datganiad Safonol Gweithredol Atal Twyll Swyddfa Cabinet y DU (CFFSR), ynghylch nifer o Ofynion y GIG yn Safon Swyddogaethol y Llywodraeth GovS013: Atal Twyll, ac anfonir yr hunanasesiadau hynny at y corff rheoleiddio atal twyll, sef Awdurdod Atal Twyll y GIG.

## 6. TREFNIADAU CYNLLUNIO

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) mantoledig, yn unol â gofynion Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd lunio IMPT tair blynedd sydd:

- Yn gwella iechyd y boblogaeth
- Yn gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd
- Yn fantoledig dros gyfnod o dair blynedd
- Yn addas i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru

Mae datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a rhai'r Bwrdd Iechyd, ac mae’n elfen allweddol o fframwaith uwchgyfeirio'r Mesurau Arbennig.

Os na all sefydliad GIG gyflawni cynllun sy’n bodloni’r gofynion i gymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig, rhaid datblygu Cynllun Blynyddol a chytuno arno i sicrhau y ceir set eglur o amcanion cyflawni sydd wedi’u hategu gan gynlluniau cyllid, gweithlu a gweithredol, gan gynnwys cynlluniau ynghylch gofal wedi’i gynllunio a gofal heb ei drefnu.

Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn barod i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig mantoledig a chymeradwy ar gyfer 2023-2026, oherwydd ni ellid cyflawni holl ofynion Fframwaith Cynllunio’r GIG a thelerau Deddf Cyllid GIG (Cymru) 2014. Cyflwynwyd llythyr Swyddog Atebol yn cadarnhau sefyllfa’r Bwrdd Iechyd a’i fwriad i gyflwyno Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-2024 i Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2023.

Anfonwyd llythyr Swyddog Atebol arall at Lywodraeth Cymru ar 16 Mawrth 2023 yn cadarnhau na fyddai'n bosibl i'r Bwrdd iechyd gyflwyno'r Cynllun Blynyddol erbyn 31 Mawrth 2023 oherwydd y rhesymau dilynol:

- Gosodwyd y Cynllun yn erbyn diffyg ariannol y Bwrdd Iechyd, sef £134M, fel y manylir yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2023. O ganlyniad, roedd angen mwy o amser i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol heriol, gan gydnabod yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni gofynion ariannol ac ansawdd a pherfformiad.
- Roedd angen gwaith ychwanegol i gwblhau ymateb y Bwrdd Iechyd i flaenoriaethau’r Gweinidog yn enwedig mewn perthynas â gofal wedi’i gynllunio a rhai agweddau ar ofal heb ei gynllunio, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn gyflawnadwy ac yn realistig o fewn cyd-destun ehangach y pwysau a brofai'r sefydliad.
- Yn dilyn cadarnhad bod lefel uwchgyfeirio'r Bwrdd wedi’i gynyddu i Fesurau Arbennig, roedd angen sicrhau bod y Cynllun Blynyddol yn adlewyrchu’r gofynion o ran yr uwchgyfeirio newydd ac ymateb y Bwrdd Iechyd i’r rhain.
- Yn sgil penodi Cadeirydd newydd ac Aelodau Annibynnol newydd i'r Bwrdd, ni fu digon o amser i'r Bwrdd nodi eu huchelgais ar gyfer y sefydliad, nac i ymgymryd â'r craffu manwl angenrheidiol ar y cynllun drafft.

Caniatawyd estyniad ar gyfer cyflwyno’r Cynllun hyd at ddiwedd Mehefin 2023 gan Lywodraeth Cymru, gan ystyried yr angen i ymateb i ofynion y Mesurau Arbennig, a chaniatáu i’r Bwrdd a oedd newydd ei benodi lywio cyfeiriad y Cynllun.

Cymeradwywyd y Cynllun Blynyddol, y Cynllun Cyflawni a thempledi blaenoriaethau’r Gweinidog gan y Bwrdd Iechyd ar 23 Mehefin 2023 a chyflwynwyd hwy i Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2023.

Roedd Cynllun Blynyddol 2023-24 yn manylu ar y camau gweithredu allweddol sy’n ymwneud â blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd, ynghyd â chadarnhad o’r dull o ymdrin â’r galluogwyr sydd eu hangen i ategu’r gwaith cyflawni. Roedd y blaenoriaethau’n mynd i’r afael â’r prif feysydd i’w gwella yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y rhai a nodwyd gan fframwaith uwchgyfeirio Mesurau Arbennig. Roedd y Cynllun hefyd yn disgrifio’r camau gweithredu i wella’r llwybr cyfan, o iechyd y boblogaeth ac atal i ofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol a gofal mewn ysbytai acíwt.

Roedd y Cynllun hefyd yn cydnabod rôl y Bwrdd Iechyd fel cyflogwr arwyddocaol sy'n cyfrannu at les y gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi, yn ogystal â mynd i'r afael ag iechyd a lles. Yn 2024/25 bydd y Bwrdd Iechyd yn cyd-adnewyddu amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 drwy gyfrwng ei Gynllun Cyflawni Blynyddol. Roedd y Cynllun hefyd yn disgrifio uchelgais y Bwrdd Iechyd o ran yr economi sylfaenol, cynaliadwyedd, a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Yn ystod 2023-24, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol i ddeall sut yr ymgymerid â chynllunio integredig yn y Bwrdd Iechyd. Diben yr adolygiad oedd nodi meysydd i'w gwella, gan ganolbwyntio'n benodol ar gapasiti a gallu ym maes cynllunio strategol ac ystyried cynllunio fel gweithgaredd yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw. Fe wnaeth Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd gymeradwyo'r adolygiad ac ymateb rheolwyr i'r argymhellion a gynigiwyd ar 30 Ebrill 2024. Mae ymateb y rheolwyr a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn ceisio sicrhau gwelliannau sylweddol i brosesau a chynhyrchion y swyddogaeth cynllunio integredig yn ystod 2024-25 ac mae'n arwydd o uchelgais ac ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo ar gyfer 2025-2028.

Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Blynyddol (ar gyfer 2024/25) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Er ei fod yn Gynllun Blynyddol, mae wedi'i osod yng nghyd-destun cyfnod tair blynedd.

## Mesurau Arbennig

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai BIPBC yn cael ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig. Mae'r sefydliad wedi bod ar lefel uwchgyfeirio Ymyrraeth wedi'i Dargedu yn flaenorol, ac felly, mae bellach wedi'i uwchgyfeirio i'r lefel uchaf o dan y trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd. Yn y datganiad i gyhoeddi'r Mesurau Arbennig, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr uwchgyfeirio i'r lefel honno yn ymwneud â phryder penodol ynghylch arweinyddiaeth, diwylliant a pherfformiad.

Roedd wyth maes yn peri pryder:

- Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd
- Y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
- Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol
- Arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol
- Llywodraethu Clinigol a Phrofiad a Diogelwch Cleifion
- Cyflawni gweithredol
- Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau
- Iechyd Meddwl

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd brofi cryn dipyn o ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth (Adroddiad Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru - Chwefror 2023) a'r newidiadau sylweddol yn sgil hynny i aelodaeth y Bwrdd ym mis Chwefror 2023. Roedd y lefel hon o newid sylweddol yn ddigynsail mewn Byrddau Iechyd ers creu'r Byrddau Iechyd presennol yn 2009. Gwnaeth penodiad uniongyrchol Cadeirydd dros dro a thri Aelod Annibynnol gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddechrau'r broses o greu Bwrdd newydd.

Yn y cyfnod yn syth ar ôl uwchgyfeirio, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd bennu nifer o Gynghorwyr Annibynnol fel rhan o Dîm Ymyrraeth a Chymorth i gynnal cyfres o adolygiadau annibynnol fel y gellid cael dealltwriaeth fwy trylwyr o wraidd y problemau. Roedd yr adolygiadau hyn yn fodd i'r Bwrdd newydd gael dealltwriaeth yn gyflym am feysydd allweddol yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r adolygiadau wedi cael eu cynnal dros y 9 mis diwethaf ac maent bellach yn cael eu hystyried mewn ffordd systematig trwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, ac yna, caiff pob un eu cyhoeddi ynghyd â chynllun ymateb (gweler crynodeb o'r prif themâu isod). Gan fod yr adolygiadau annibynnol wedi'u derbyn a chan fod cynlluniau ymateb ar waith erbyn hyn, mae cynnydd ar y gweill i gyflawni'r camau gweithredu er mwyn delio â phob argymhelliad unigol a wnaed. Mae manylion llawn am yr adolygiadau ac ymatebion y Bwrdd Iechyd ar gael ar y wefan. (https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/mesurau-arbennig/cynnydd-y-bwrdd-iechyd/adolygiadau-annibynnol-an-hymatebion/)

Rydym hefyd wedi mabwysiadu ymagwedd thematig o ran dod â chanfyddiadau'r adolygiadau ynghyd er mwyn mynd i'r afael â gwraidd achosion gwirioneddol y problemau. Mae hyn yn cael ei oruchwylio trwy'r Grŵp Cyflenwi priodol dan arweiniad y Swyddogion Gweithredol neu ddulliau llywodraethu cyfatebol. Bydd yn sicrhau bod dysgu a newid yn digwydd ar draws y sefydliad ehangach a hynny heb fod yn y maes a gafodd ei adolygu'n unig, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr holl ganfyddiadau unigol yn dal i dderbyn sylw fel rhan o'r adolygiadau ar wahân. Adroddir ar Effaith gwaith Mesurau Arbennig a Themâu Allweddol o'r Adolygiadau Annibynnol isod yn Ffigur 4.

Cafodd Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Roedd y Cynllun Ymateb yn canolbwyntio ar bum canlyniad a mabwysiadodd ymagwedd sefydlogi cyflym ar dri chylch 90 diwrnod yn gweithredu o 1 Gorffennaf 2023 hyd at ddiwedd Chwefror 2024, gan roi cyfeiriad a ffocws o ran mynd i'r afael â'r heriau a wynebir. Y pum canlyniad oedd:

- Bod yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda
- Meddu ar gynllun clir a chyraeddadwy
- Meddu ar arweinyddiaeth ac ymgysylltu cadarn
- Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiad
- Bod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun

Bwriad y pum canlyniad oedd ymateb i'r rhestr o brif faterion sy'n peri pryder, a hefyd i ddechrau creu sefydliad mwy effeithiol sy'n gallu gosod y sylfeini ar gyfer newid hirhoedlog. Mae adroddiadau rheolaidd wedi cael eu cyflwyno i gael eu hystyried yn y Bwrdd a'u cyhoeddi er mwyn caniatáu ymagwedd agored a thryloyw tuag at ddangos cynnydd. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â Llywodraethu fel y'i hamlinellir yn fy nghyflwyniad.

**Beth ydym wedi'i wneud yn 2023/24 er mwyn ymateb i Fesurau Arbennig?**

- Prif Weithredwr parhaol a phrofiadol wedi'i benodi, sydd â phrofiad yn GIG Cymru.
- Recriwtio Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Aelodau Annibynnol parhaol yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus.
- Cymeradwywyd Fframwaith Rheoli Risg newydd ym mis Medi 2023, ac mae'r broses weithredu ar y gweill yn cynnwys arolygu'r trefniadau a ystyriwyd yn y Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r adolygiadau annibynnol a dderbyniwyd hyd yma wedi cael eu hystyried yn Sesiynau Datblygu Pwyllgorau'r Bwrdd, cyn i Ymatebion Rheoli gael eu datblygu. Mae'r rhain wedi cael eu hamlygu yn yr adroddiadau rheolaidd ar Fesurau Arbennig i'r Bwrdd llawn.

Mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei rhoi ar waith, gan gynnwys ffocws ar feysydd megis:

- Arweinyddiaeth Dosturiol
- Sgôr
- Cynllunio
- Rheoli perfformiad
- Rheoli Risg
- Digidol
- Ansawdd
- Cynllunio Gwydnwch at y Gaeaf

- Gwnaed cynnydd da o ran sefydlu gweithrediad Pwyllgorau'r Bwrdd a'r trefniadau llywodraethu gan gynnwys penodi Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, mae'r cynllun Mesurau Arbennig yn cael ei ymgorffori i Gynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-27. O ystyried y bydd cryn orgyffwrdd rhwng y gofynion ar gyfer y gwelliannau a amlinellir yn y Mesurau Arbennig a'r blaenoriaethau a gynhwysir yng nghynllun 2024-27, mae hyn yn caniatáu ymagwedd symlach a mwy effeithlon tuag at arolygu yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol.

Rhoddodd ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at Fesurau Arbennig gryn ffocws a phwyslais a bydd camau'n cael eu cymryd i adeiladu ar hyn er mwyn caniatáu cynllunio yn y tymor hwy. Gan sicrhau bod y meysydd ffocws penodol yn cael eu hymgorffori'n llawn i'r Cynllun Tair Blynedd a chan adlewyrchu'r sefyllfa fwy sefydlog y mae'r Bwrdd ynddi erbyn hyn, bydd y prif ffocws ar brosesau cynllunio 'busnes fel arfer', gan ymgorffori'r holl ddysgu i ddarparu monitro, sicrwydd ac adrodd integredig yn erbyn cynlluniau.

## **Adolygiadau Annibynnol:** Themâu allweddol

**Data, gwybodaeth a mewnwelediadau:** Sicrhau bod ymagwedd BIPBC cyfan yn cynnwys ymyriadau wedi'u blaenoriaethu o ran gwella ein data, deallusrwydd a'n hoffer a'n galluoedd o ran mewnwelediad. Mae hyn yn alluogydd allweddol ar gyfer gwella cynaliadwy yn ogystal ag ategu canfod gwasanaethau a allai wynebu heriau yn y dyfodol.

**Diwylliant:** Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Wedi'i integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu.

**Rheoli Risg:** Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n harchwaeth risg, gan gynnwys sut caiff risgiau eu canfod, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro.

**Cynnwys cleifion, teuluoedd a gofalwyr:** Ymagwedd gydlynus unigol er mwyn cynnwys ein cleifion, eu teuluoedd a gofalwyr ac ymgysylltu â nhw gymaint â phosibl, gan ddefnyddio eu profiadau i fod yn sail i'r gwaith parhaus o wella gwasanaethau.

**Model gweithredu:** Sicrhau bod ein model gweithredu'n cael ei gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, i fod yn glir i bawb ar draws pob lefel yn y sefydliad ynghylch y rolau a'r cyfrifoldebau, y systemau a'r prosesau mewn uwch adrannau a gwasanaethau PBC Cyfan.

**Llywodraethu a chydymffurfiaeth y sefydliad:** Sicrhau gweledededd ar draws y sefydliad cyfan a dealltwriaeth am arfer gorau o ran llywodraethu a sicrhau cydymffurfiaeth yn hynny o beth.

**Cynllunio integredig:** Ymagwedd integredig sydd wedi'i deall yn eang tuag at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol.

## 7. DATGANIADAU DATGELU

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae adolygiad sylweddol o amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei gynnal eleni, ynghyd â'u Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28. Cafodd y rhain eu cyhoeddi ar 28 Mawrth 2024.

Mae'r fframwaith polisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith, wedi'i ategu gan raglen hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a gwella capasiti mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ac i gynorthwyo staff o ran cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae strwythur y pwyllgor wedi cael ei adolygu ac mae atebolrwydd a chyfathrebu wedi cael eu cryfhau.

Adlewyrchir ein hymrwymiad i gydraddoldeb mewn nifer o ffyrdd eraill:

- Mae'r Bwrdd yn cael sesiwn datblygu cydraddoldeb bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'u dyletswydd i gael **'sylw dyladwy'** i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.
- Mae'r Bwrdd wedi amlinellu ei ymrwymiad i hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Cynllun Blynyddol yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a hawliau dynol, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer asesiadau o effaith cydraddoldeb.
- Mae cyfleoedd wedi cael eu canfod i ymgorffori cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i ddulliau cynllunio a darparu gwasanaethau a'r system gwella.
- Mae gwybodaeth am gydraddoldeb yn y gweithlu ac asesiadau o effaith cydraddoldeb yn sail i ddatblygu Strategaeth a Pholisi yn y Gweithlu.
- Mae Hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn orfodol i'r holl staff.
- Caiff rhaglen o hyfforddiant asesu effaith cydraddoldeb ei hwyluso ochr yn ochr â chymorth ac arweiniad ar anogaeth. Cafodd craffu ar asesiadau o effaith cydraddoldeb ei atgyfnerthu eleni.
- Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth wedi cael eu canfod a'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Mae'r Fforwm Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Caiff cynnydd ei gyflwyno i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cydraddoldeb allanol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth gan aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion cydraddoldeb, gan gynnwys Llais.
- Caiff Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei gyflwyno i'r Bwrdd trwy lwybr llywodraethu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant; sy'n cael ei gyhoeddi ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Tâl.

## Trefniadau Cynllun Pensiwn a Chyflogres y GIG

Fel cyflogwr sydd â staff sydd â hawl i gael aelodaeth â Chynllun Pensiwn y GIG, mae gan y Bwrdd Iechyd fesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau cyflogwyr o dan reoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwyr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod aelodau'r cynllun pensiwn yn cael eu diweddaru'n fanwl-gywir yn unol â'r terfynau amser y manylir arnynt yn y Rheoliadau.

Mae'r systemau a'r prosesau hyn yn destun archwilio ac adolygu rheolaidd gan Archwilio Cymru fel rhan o archwilio datganiadau ariannol bob blwyddyn, ac archwilio mewnol yn ymwneud â systemau cyflogres.

Fel cyflogwr arwyddocaol, mae gan y Bwrdd Iechyd reolyddion hefyd sy'n sicrhau ei fod yn delio â didynnu trethi gweithwyr a thalu trethi cyflogwyr yn gywir. Yn ogystal, mae gennym reolyddion ar waith i sicrhau ein bod yn delio â threthi eraill yn gywir (e.e. TAW). Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi asesu'r Bwrdd Iechyd gan roi cyfradd risg busnes isel yn seiliedig ar eu hasesiad a'n hanes blaenorol. Adroddwyd ar hyn i'r Pwyllgor Archwilio.

## Cynlluniau Cyflawni Lleihau Carbon

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer camau gweithredu yn y tymor byr a'r tymor canolig, a fydd yn arwain at hwb mawr o ran ein hamcan o sicrhau statws Sero Net o ran Allyriadau Carbon erbyn 2030. Cafodd y Cynllun Gweithredu ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2022 ac mae'n cynnwys cyflwyno cyfres o welliannau effeithlonrwydd ynni a chreu trydan adnewyddadwy ar draws yr ystad trwy Bartneriaethau Lleol / fframwaith Awdurdod Llundain Fwyaf (Re:Fit) - sef menter gaffael i gyrff cyhoeddus sy'n awyddus i roi mesurau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau creu ynni lleol ar waith o ran eu hasedau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn cymorth trwy gydol y broses gan Bartneriaeth Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd adolygiad 'sicrwydd cyfyngedig' gan y tîm Archwilio Mewnol yn ystod 2023/24 mewn perthynas â rhoi ein Cynlluniau Lleihau Carbon ar waith: mae argymhellion o'r adolygiad hwnnw wedi cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gweithredu pellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn bod cryn dipyn o waith i'w wneud yn y maes hwn a bydd yn recriwtio Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yn 2024/25 i arwain y gwaith hwn.

Fel rhan o Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio, mae cofrestr risg wedi cael ei datblygu i ganfod risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen.

Ym mis Ionawr 2024, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyhoeddi ei Wahoddiad i Dendro ar fframwaith Re:fit a dechreuodd trafodaethau gyda nifer o bartneriaid cyflawni a fyddai'n gallu cefnogi'r Bwrdd Iechyd o ran datblygu nifer o Fesurau Arbed Ynni i'w halinio â Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Yn dilyn cwblhau Cyflwyniad Technegol a Masnachol, detholwyd partner cyflawni delfrydol. Caiff canlyniad y Gwahoddiad i Dendro ei gyhoeddi unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod.

Mae Fframwaith Re:Fit yn darparu cytundeb rhwng y Bwrdd Iechyd a'r sefydliad partner lle caiff lefel yr arbedion (cyllidol a charbon) eu gwarantu gan y sefydliad partner.

Caiff prosiect Re:Fit ei gyflwyno fesul cam. Wrth i dechnolegau ddod i'r farchnad ac wrth iddynt aeddfedu dros amser, rydym yn gobeithio cyfalafu ar yr arloesiadau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio yn ogystal â gwella profiadau cleifion a staff.

Fel y nodir yn yr adran Parodrwydd am Argyfwng, mae cyswllt rhwng y ffocws a amlinellir uchod ac ystyried effaith tywydd eithafol ac anarferol ar gynllunio Parhad Busnes.

## Diogelwch Data

Y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn y sefydliad, gan roi arbenigedd am reoli risg gwybodaeth ar lefel y Bwrdd. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn goruchwylio'r gwaith cyson o roi'r broses asesu risg gwybodaeth ar waith gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth, fel y'i disgrifir yn fframwaith a pholisi Rheoli Risg Gwybodaeth.

Y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb dros lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, ac mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cydymffurfiaeth a Rheoli Busnes yn ymgymryd â rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw Gwarcheidwad Caldicott penodedig y Bwrdd Iechyd. Caiff sicrwydd ffurfiol i'r Bwrdd ar ansawdd data ei ddarparu trwy adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau. Trwy gydol cyfnod 2023/24, byddai sicrwydd gyda'r Strategaeth Ddigidol yn cael ei rannu gyda'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn absenoldeb y Pwyllgor hwn. Unwaith yr oedd trefniadau diwygiedig wedi'u rhoi ar waith ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd, gwnaeth adrodd ar sicrwydd ddechrau o'r newydd. Gwnaeth sicrwydd ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth barhau i adrodd trwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd y Pwyllgorau sicrwydd ar gydymffurfiaeth â dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd gwybodaeth a systemau gwybodaeth a chaiff perfformiad y Bwrdd Iechyd ei asesu yn eu herbyn yn rheolaidd.

## Data Sicrwydd Ansawdd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella ei drefniadau ansawdd data er mwyn gwella ansawdd a manwl-gywirdeb gwybodaeth allweddol.

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom symud at system unigol System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS), sef ein prif system ar gyfer gweithgarwch ysbyty, roedd hyn yn gyfle i ddatblygu arferion safonedig a gwella ansawdd data ar draws ein system gweinyddu cleifion ar lefel PBC cyfan. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu cyfres o ddulliau gweithredu safonol a mecanweithiau monitro i lywio gwelliannau i ansawdd data.

Mae grŵp ansawdd data wedi'i sefydlu o fewn y gwasanaeth Data, Deallusrwydd a Mewnwelediadau, er mwyn canfod meysydd o ansawdd data gwael a datblygu cynllun gwaith wedi'i flaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd mwyaf critigol. Mae hyn yn cynnwys canfod anghenion hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer timau gweithredol er mwyn gwneud gwelliannau i brosesau cipio data ar WPAS.

Mae fforwm Ansawdd Data a Llywodraethu wedi cael ei sefydlu a bydd yn cael ei ddefnyddio i fonitro ansawdd data'r Bwrdd Iechyd ac i ddeall llif a defnydd o ran data ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn ein helpu i wneud y defnydd gorau posibl o'r data sydd ar gael a bydd hefyd yn rhoi tryloywder mewn perthynas â chyfyngiadau a bylchau o ran ein data.

Mae codio clinigol yn ffynhonnell allweddol o ddata i fod yn sail i'n dealltwriaeth am ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau clinigol i gleifion. Caiff archwiliadau blynyddol eu cynnal ac yn 2023/24, derbyniodd y Bwrdd Iechyd adborth positif mewn perthynas ag ansawdd a manylder codau. Fodd bynnag, mae prydlondeb codio clinigol wedi wynebu heriau cynyddol trwy gydol y flwyddyn a bydd yn parhau i fod yn heriol yn ystod 2024/25 oherwydd materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff. Mae hyn wedi golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyrraedd targedau cenedlaethol mewn perthynas â chyfanrwydd codio clinigol. Mae'r gwasanaeth yn datblygu cynllun adfer ar gyfer 2024/25.

## Cyfarwyddyd Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o Offerynnau Anstatudol yn ystod 2023/24. Mae manylion am y rhain a chofnod o unrhyw Gyfarwyddyd Gweinidogol a roddwyd ar gael o'r ddolen ganlynol: [www.gov.wales/publications.](www.gov.wales/publications)

Caiff Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHCs) eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu dull cyfathrebu syml, tryloyw ac olrheiniadwy rhwng GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. Mae'r Cylchlythyrau hyn yn ymwneud â meysydd gwahanol fel polisi, perfformiad a darpariaeth, cynllunio, deddfwriaeth, gweithlu, cyllid, ansawdd a diogelwch, llywodraethu, technoleg gwybodaeth, gwyddoniaeth, ymchwil, iechyd cyhoeddus a llythyrau at weithwyr iechyd proffesiynol. Mae manylion am Gylchlythyrau Iechyd Cymru ar gael o'r ddolen ganlynol: [www.llyw.cymru/cylchlythyrau-iechyd](www.llyw.cymru/cylchlythyrau-iechyd)

Ar ôl eu derbyn, caiff y rhain eu neilltuo i gyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am roi'r camau gofynnol ar waith. Mae gan y bwrdd oruchwyliaeth ddynodedig dros y broses hon i bwyllgorau ar lefel y bwrdd, a chaiff diweddariadau diwedd blwyddyn eu rhoi i'r Pwyllgor Archwilio.

## Tramgwyddau Diogelwch Data

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd hunanadrodd ar bedwar achos o dramgwydd diogelwch data a arweiniodd at gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain mewn perthynas â'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Tordyletswydd Cyfrinachedd-Allanol | 4 | |
| **Cyfanswm** | **4** | |

Mae'r holl ddigwyddiadau a hunanadroddwyd wedi cael eu cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen unrhyw weithredu pellach oherwydd y camau a'r gwelliannau dybryd a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd.

Mae pob un o'r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith neu byddant yn cael eu rhoi ar waith gan y Bwrdd Iechyd a chânt eu monitro gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fynd i unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2023/24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn chwe hawliad anaf personol am niwed a thrallod a achoswyd gan dramgwydd data ac mae wedi talu dau hawliad gyda chyfanswm o £7,676.55 yn ystod y flwyddyn.

## Parodrwydd am Argyfwng

Mae Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb yn swyddogaeth graidd i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n ofyniad statudol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (CCA) 2004. Mae ymateb i achosion brys hefyd yn swyddogaeth allweddol o fewn Deddf y GIG (2006) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2012) sy'n nodi Iechyd fel Ymatebwr Categori 1.

Mae rôl y Bwrdd Iechyd o ran Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb yn ymwneud â bygythiadau a allai fod yn aflonyddol a amlinellir yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol, a'r angen i roi trefniadau o ran gorchmynion, dulliau rheoli, cydlynu a chyfathrebu ar waith pan fo angen, wrth ymateb i achosion brys. Gallai'r aflonyddu ddelio o ystod eang o ddigwyddiadau o dywydd eithafol i achosion o glefyd heintus, digwyddiad mawr yn ymwneud â thrafnidiaeth neu ddigwyddiad terfysgol.

Yn ystod 2023/24, gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, fel y Swyddog Argyfwng Atebol, gyda chefnogaeth Arweinydd Parodrwydd at Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb dros dro a Chyfarwyddwr Cyswllt Gofal Brys ac Argyfwng, arolygu'r trefniadau Parodrwydd am Argyfwng, Gwynwch ac Ymateb. Gadawodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd ar 21 Mawrth 2024 ac rwyf wedi rhoi trefniadau dros dro ar waith hyd nes y caiff Prif Swyddog Gweithredu newydd ei benodi. Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Boblogaeth Dros Dro oedd y Swyddog Argyfwng Atebol o 22 Mawrth 2024.

Mae cynllun gwaith Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb ar gyfer 2024/25 yn cael ei ddatblygu i ategu gofynion hyfforddiant parhaus, trefniadau cynllunio parhad busnes ynghyd â gwydnwch a pharatoi at weithredu diwydiannol. Oherwydd y galw, mae'r cynllun gwaith wedi cael ei resymoli er mwyn amddiffyn a chynnal gweithgareddau craidd.

Mae dogfennau allweddol wedi'u llunio i gynorthwyo staff o ran bodloni gofynion y cynllun hwn, gan gynnwys:

- Protocolau Ysbyty Llawn
- Deunyddiau Hyfforddiant
- Cynlluniau Gwydnwch y Gaeaf

Mae'r Tîm Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb yn cefnogi cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus a Rheoli ac Atal Heintiau o ran rheoli'r broses actifadu ar gyfer achosion sydd wedi'u cadarnhau o Glefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol (HCID). Bydd derbyniadau o ran achosion cychwynnol unigol yn cael eu cyfeirio at Ysbyty Glan Clwyd fel yr ysbyty derbyn ar gyfer achosion HCID ac os bydd angen, bydd achosion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Ysbyty Brenhinol Lerpwl neu Ysbyty Brenhinol Hallamshire, Sheffield. Mae'r broses hon wedi'i hehangu'n ymhellach i ategu gwaith cynllunio ar gyfer y Frech Goch/COVID a chlefydau eraill a allai fod yn heintus.

Ers Gorffennaf 2022, mae'r Tîm Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb wedi rhoi cymorth i'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio a Meddygol o ran monitro a helpu i baratoi cynlluniau wrth gefn a chynlluniau parhad busnes i ddelio â cholled sylweddol o staff allweddol yn ystod gweithredu diwydiannol. Roedd y tîm wedi darparu ysgrifenyddiaeth a chymorth Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb i gyfarfodydd Arian ac Aur y timau Gweithredol. Mae'r gwaith i baratoi'r trefniadau cynllunio o ran camau lliniaru'n parhau er bod y broses wedi'i dirwyn i ben.

Mae gwaith wedi parhau i roi cymorth Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb i'r Cymunedau Iechyd Integredig. Ym mis Medi 2022, cafodd y tîm Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb ei ailstrwythuro ac roedd Pennaeth presennol Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Adferiad wedi'i leoli yn IHC y Dwyrain. Roedd y fenter dros dro hon yn cefnogi ailgynnull Cyfarfodydd Cynllunio at Ddigwyddiadau Mawr, adolygiad a diweddariad ar y Cynllun Digwyddiadau Mawr a'r cardiau gweithredu. Daeth y Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n hollbwysig o ran hyrwyddo'r gwaith o adolygu, diweddaru a chwblhau Cynlluniau Parhad Busnes. Fel rhan o gynllunio Parhad Busnes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried effaith tywydd eithafol ac anarferol.

Er mwyn parhau â'r ymagwedd hon ac i atgynhyrchu'r ymagwedd ym mhob un o'r tair Cymuned Iechyd Integredig, bydd angen i'r Tîm Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb fod â'r adnoddau priodol a chaiff uwch weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio a pharhad busnes eu recriwtio ar ôl i Bennaeth Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb a'r Rheolwr Parhad Busnes ymddiswyddo. Mae strwythur presennol Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ar ôl penodi Pennaeth newydd Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb ym mis Ebrill a fydd yn dechrau yn ei rôl ym mis Mehefin 2024, y bwriad wedyn yw caniatáu i'r dechreuwr newydd ddatblygu ei wasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Cafodd Cynlluniau Parhad Busnes adrannau a meysydd gwasanaeth eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n barod ar gyfer y Gaeaf a Gweithredu Diwydiannol yn barhaus yn ystod 2023/24 trwy ymarferion neu ddigwyddiadau. Caiff Cynlluniau Parhad Busnes eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn.

Mae hyfforddiant Rheoli Iechyd yn parhau i gael ei gyflwyno i'r Rheolwyr Arian ac Aur sydd ar alwad ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gan staff y Bwrdd Iechyd yr offer a'r sgiliau sydd wedi'u halinio i'w rolau aseiniedig yn ystod eu cyfnodau o fod ar alwad neu wrth ymateb gyda gwydnwch.

Mae'r Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl yn parhau i adolygu ac asesu effeithiolrwydd trefniadau Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb a ddatblygwyd gan y tîm ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae cynrychiolaeth yn cynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, cyfarwyddwyr a Rheolwyr ar lefelau Uchel Iawn. Mae'r is-grwpiau tactegol, y Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl a'r Gweithgor Parhad Busnes hefyd yn cyfarfod bob chwarter i drafod cynllunio, hyfforddiant ac ymarfer yn ogystal ag adolygu a diweddaru cynlluniau.

Yn ystod cyfnod 2023/24, mae'r Tîm Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb, ynghyd â gweithrediadau, cyfathrebu a'r gyfarwyddiaeth feddygol wedi cymryd rhan mewn nifer o ymarferion:

- Ymarfer CYD Mawrth 2024 - Clefydau heintus
- Ymarfer Perfect Storm - Digwyddiad tywydd garw dros dri diwrnod

Aeth cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gyfarfodydd a thrafodaethau'r Grŵp Cydlynu Strategol, yn ystod yr ymarferion hyn, gydag asiantaethau partner ym mhencadlys strategol Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn.

## 8. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Fel Swyddog Atebol, rwy’n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reoli mewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reoli mewnol wedi cymryd i ystyriaeth gwaith yr archwilwyr mewnol a’r swyddogion gweithredol yn y sefydliad, sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw’r fframwaith rheoli mewnol, a’r sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

### 8.1 Archwilio Mewnol


Mae Archwilio Mewnol yn darparu llif o sicrwydd am y system reoli mewnol i mi fel Swyddog Atebol ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi cael ei chyflwyno yn unol â safonau archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunwyd ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu a rheoli risg yn rhan o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

**Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad:**

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod ymdriniaeth ddigonol o archwilio wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd i roi Barn Flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Wrth ffurfio'r farn, mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi cael eu cwblhau'n llawn.

Ar gyfer 2023/24, mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi casglu:

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd cyfyngedig** |  | Mae angen sylw rheolwyr ar gyfer materion mwy sylweddol.<br>**Effaith gymedrol** ar amlygiad risg weddilliol hyd nes y caiff ei datrys. |

Ar y cyfan, gall Pennaeth Archwilio Mewnol roi'r sicrwydd a ganlyn i'r Bwrdd bod y trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol yn y meysydd sylweddol a rhesymol yn y tabl isod.

Lle byddant yn derbyn Sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol, mae rheolwyr yn ymwybodol o'r materion penodol a nodwyd ac maent wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu i wella rheolaeth yn y meysydd hyn.

Yn ogystal, gwnaeth gynnal adolygiadau cynghorol ac adolygiadau di-farn i ategu barn gyffredinol.

Crynodeb o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a chrynhoir ar y canlyniadau yn nhabl 1 isod.

Yn gryno:

- Mae tîm Archwilio Mewnol wedi gweld oedi a dim ymateb i rai ceisiadau am dystiolaeth eleni, ynghyd â chynnydd o ran uwchgyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio lle nad yw ymateb rheolwyr i'n hadroddiadau drafft wedi'i dderbyn yn unol â'r terfynau amser cytunedig.
- Mae canfyddiadau'r Archwilio Mewnol trwy gydol y flwyddyn wedi canfod materion o gydymffurfiaeth weithredol gyda dulliau rheoli disgwyliedig ar y llinell gyntaf sy'n parhau i beri cryn bryder i ni - Mae gan y Bwrdd Iechyd fwlch sylweddol o ran ei bolisïau a'i weithdrefnau rheoli llinell gyntaf hefyd sy'n gofyn am adolygiad a diweddariad brys er mwyn sicrhau nad yw ei ddefnyddwyr gwasanaeth/ymwelwyr a staff yn dod i gysylltiad â risg.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac nid yw ei orddibyniaeth ar arbedion trafodaethol anghylchol yn gynaliadwy yn y tymor hir; mae diffyg cynnydd o ran trawsnewid a lleihau costau cyson ar draws y Bwrdd Iechyd yn golygu ei fod â risg sylweddol o beidio â chyflawni ei sefyllfa ariannol o ddiffyg rhagolygol y flwyddyn nesaf.
- Gwnaed cynnydd o ran ailedrych ar olrhain argymhellion yn y Bwrdd Iechyd ac mae'r Archwilydd Mewnol yn cydnabod bod mwy i'w wneud.

**Tabl 1 - Crynodeb o Archwiliadau 2023/24**

| | |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | • Seiberddiogelwch<br>• Cofnod Iechyd Digidol (Cito) - Rhaglen Pontio Cofnodion Cleifion |
| Sicrwydd Rhesymol | • Rheolaeth Ariannol: Derbyn nwyddau a chroniadau diwedd y flwyddyn<br>• Cyfrifon Derbyniadwy<br>• Model Gweithredu Digidol<br>• Uned Iechyd Meddwl Oedolion ac Unigolion Hŷn<br>• Gwaith dilynol - Comisiynydd y Gymraeg - Dogfennau ar y Wefan<br>• Rheoli Cofnodion - Cofnodion Gofal Tameidiog<br>• Llywodraethu Effeithiol - Cyfarwyddiaeth y Merched<br>• Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Gorfforaethol: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Penodi Ymgynghorwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005 (Drafft) |
| Sicrwydd Cyfyngedig | • Archwilio Clinigol: Archwiliadau Cenedlaethol Haen 1<br>• Rheoli codymau<br>• Gwersi a ddysgwyd<br>• Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau (wedi'i ohirio o 22/23)<br>• Datgarboneiddio<br>• Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Gorfforaethol: Diogelwch Dŵr<br>• Cynllun Gweithredu Hysbysiad Tramgwydd (NoC) Uned Hergest<br>• Gwaith dilynol - Cyflawni Arbedion y Bwrdd Iechyd<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)<br>• Trefniadau Rhyddhau<br>• Rheolaeth Gyllidebol (Drafft)<br>• Llywodraethu Effeithiol - IHC y Canol (Drafft)<br>• Rheoli Risg (Drafft)<br>• Safonau Ymddygiad Busnes - Datgan Buddiannau, Nwyddau a Lletygarwch (Drafft)<br>• Hwb Llawfeddygol Orthopedig Ysbyty Llandudno (Drafft) |
| Anfoddhaol | • Model Gweithredu |
| Cynghorol/Heb Gynnwys Barn | • Mesurau Arbennig - Adolygu rheoli Contractau a Chaffael<br>• Trefniadau rheoli Caffael a Chontractau o ran Adolygiad Prosiect Athlete<br>• Adolygu’r broses ynghylch penodi Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro<br>• Gwaith dilynol Argymhellion Archwilio Mewnol |

Mae'r farn gyffredinol hefyd wedi ystyried nifer ac arwyddocâd unrhyw archwiliadau sydd wedi cael eu gohirio yn ystod y flwyddyn a hefyd gwybodaeth arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn yr ydym yn tybio iddi fod yn berthnasol i'n gwaith.

Fel yr adroddwyd yn y tabl uchod, rhoddwyd yr archwiliadau archwilio canlynol yn cynnwys casgliad o sicrwydd cyfyngedig. Yn y meysydd canlynol ar gyfer adolygu, gall y Bwrdd gymryd **sicrwydd cyfyngedig** bod trefniadau i ddiogelu llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sydd dan adolygiad, wedi cael eu cynllunio a'u defnyddio'n effeithiol. Mae ar faterion mwy arwyddocaol angen sylw rheolwyr gydag effaith gymedrol ar amlygiad i risg weddilliol nes bydd wedi'i ddatrys.

| Teitl yr Adolygiad | Amcan: |
|---|---|
| Archwilio Clinigol: Archwiliadau Cenedlaethol Haen 1 | Adolygu cyfranogiad y Bwrdd Iechyd mewn archwiliadau Haen 1, gan gynnwys cyflwyno data a chamau gweithredu o ganlyniad. |
| Rheoli codymau | Sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi NU06 - Atal a Rheoli Codymau yn achos Cleifion Mewnol sy'n Oedolion yn ogystal â threfniadau adrodd a rheoli sydd ar waith. |
| Gwersi a ddysgwyd | Penderfynu p'un a oes prosesau a dulliau rheoli cadarn ar waith i ategu rheoli dysgu mewn Cymunedau Gofal Iechyd (IHC) Integredig y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau Gogledd Cymru gyfan, ac adolygu cydymffurfiaeth weithredol ag egwyddorion Ei Wneud yn Ddiogel (Mwy). |
| Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau (Wedi'i ohirio o 22/23) | Sicrhau bod prosesau a dulliau rheoli cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd i ategu a gweithredu cynlluniau gweithredu Adolygiadau gan Gymheiriaid GPOOH/UPCC. |
| Datgarboneiddio | Penderfynu ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cynllun cyflawni strategol ar gyfer datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a sicrhau bod gan y BIP ddulliau rheoli a chynnal ar waith i gyflawni'r un peth. |
| Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Gorfforaethol: Diogelwch Dŵr | Sicrhau bod prosesau a dulliau rheoli cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â *Pholisi Rheoli Systemau Dŵr Diogel* (ES02) a *Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 04-01 - Dŵr Diogel ar safleoedd gofal iechyd*. |
| Cynllun Gweithredu Hysbysiad Tramgwydd (NoC) Uned Hergest | Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu dangos bod ganddo'r dystiolaeth i ategu cwblhau'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r tri Thordyletswydd Perthnasol a nodwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. |
| Gwaith dilynol - Cyflawni Arbedion y Bwrdd Iechyd | Sefydlu cynnydd a wnaed gan reolwyr i roi camau gweithredu cytunedig ar waith sy'n deillio o'r archwiliad mewnol blaenorol [y mae adroddiad PBC-2223-15 yn cyfeirio ato, a ddaeth i'r casgliad bod sicrwydd anfoddhaol ynghylch y trefniadau sydd ar waith i ganfod a chyflawni arbedion fel y'i hamlinellir yn yr IMTP a'r Cynllun Ariannol cysylltiedig ar gyfer 2022/23. |
| Iechyd a Diogelwch | Adolygu cydymffurfiaeth â *Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol*, asesu digonolrwydd trefniadau rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch i roi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd. |
| Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) | Adolygu'r cynnydd sydd ar waith i reoli gweithgarwch Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gweithdrefnau, hyfforddiant staff, monitro ac uwchgyfeirio achosion. |
| Trefniadau Rhyddhau | Sicrhau bod prosesau a dulliau rheoli cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd i ategu rhoi gofynion Rhyddhau i Adfer cyn Asesu (D2RA) ar waith, a rheoli achosion o ryddhau niweidiol / anniogel. |
| Rheolaeth Gyllidebol (Drafft) | Adolygu p'un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddulliau effeithiol ar waith i reoli ei gyllidebau ariannol, gan |

| | |
|---|---|
| | gynnwys dirprwyo a gwybodaeth sydd ar gael i ddeiliaid cyllidebau. |
| Llywodraethu Effeithiol - IHC y Canol (Drafft) | Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu yn yr IHC. |
| Rheoli Risg (Drafft) | Adolygu gweithredu a chymhwyso proses Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd.  Gwnaethom hefyd asesu'r broses o roi'r camau gweithredu rheoli y cytunwyd arnynt ar waith fel rhan o'r adolygiad sicrwydd cyfyngedig yn 2022/23. |
| Safonau Ymddygiad Busnes - Datgan Buddiannau, Nwyddau a Lletygarwch (Drafft) | Sicrhau bod prosesau a dulliau rheoli cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd i ategu rheoli Safonau Ymddygiad Busnes, yn benodol, Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion a Lletygarwch. |
| Hwb Llawfeddygol Orthopedig Ysbyty Llandudno (Drafft) | Gwerthuso'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r Hwb Llawfeddygol Orthopedig yn Ysbyty Llandudno yn erbyn yr amcanion achos busnes allweddol ac asesu digonolrwydd y systemau a'r dulliau rheoli sydd ar waith i ategu cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus. |

Mae hwn yn un maes i'w archwilio lle nad oes gan y Bwrdd unrhyw sicrwydd.

| | |
|---|---|
| Model Gweithredu | Adolygu'r costau sy'n gysylltiedig â'r Model Gweithredu a pha un a yw'r strwythur diwygiedig wedi gwireddu'r buddion bwriadedig. |

Mae'r holl adroddiadau sicrwydd cyfyngedig a dim sicrwydd yn destun adolygiadau dilynol, a bydd y rhain yn ffurfio rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2024/25, os nad ydynt eisoes wedi derbyn sylw. Cafodd ymatebion rheolwyr sy'n manylu ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau o ran rheoli eu cynnwys yn yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol a gyflwynwyd yn y Pwyllgor Archwilio. Caiff cyflawni'r camau gweithredu hyn ei olrhain trwy declyn olrhain archwilio'r Bwrdd Iechyd sy'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r cofnodion a'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol ar gael yn yr adran Pwyllgorau Archwilio sydd ar y wefan: (https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-y-bwrdd/pwyllgor-archwilio/)

Lle na wnaeth aseiniadau archwilio a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn hon barhau at archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio rhagarweiniol, cafodd y rhain naill ai eu dileu o'r cynllun, eu dileu o'r cynllun gan osod archwiliad arall yn ei le, neu eu gohirio tan flwyddyn archwilio arall yn y dyfodol.

Cafodd yr archwiliadau canlynol eu gohirio:

| Teitl yr Adolygiad | Rheswm dros ohirio |
|---|---|
| Cam Un Cynllun Parhad Ysbyty Maelor Wrecsam | Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ofyn i'r adolygiad hwn gael ei ohirio er mwyn cadarnhau bod yr achos busnes wedi'i gymeradwyo. Nid oedd unrhyw Uwch Swyddog Cyfrifol / Bwrdd Rhaglen yn ei le ar y pryd. |
| Strategaeth y Gweithlu: Rhoi ar waith ar lefel weithredol (Wedi'i ohirio o 22/23) | Gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad yn dilyn Mesurau Arbennig yn canolbwyntio ar y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cynnwys rhoi adroddiad. Ni fyddai cynnal adolygiad yn ychwanegu unrhyw werth at y Bwrdd Iechyd gan fod |

| | |
|---|---|
| | rheolwyr yn ymwybodol o'r bylchau/problemau, a byddai camau gweithredu o Fesurau Arbennig yn cael eu hymgorffori i strategaeth wedi'i diweddaru. |
| Gwaith dilynol - Recriwtio i swyddi gweithredol a swyddi uwch parhaol a thros dro | Yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Cyflym o benodiadau Dros Dro i swyddi Gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd yn cynnwys cynllun gweithredu gyda dyddiadau gweithredu'n amrywio o fis Chwefror hyd at fis Ebrill 2024. I osgoi dyblygu, byddwn yn cyfuno gwaith dilynol o ran ein hadroddiadau ni ac adroddiadau Llywodraeth Cymru yn un gan eu bod yn rhyng-gysylltiedig. |
| Rheoli cwynion | Cytunwyd ar yr adolygiad gyda rheolwyr a threfnwyd iddo ddechrau, ond nid oeddem yn gallu cwblhau'r adolygiad mewn pryd - Gwnaethom roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio am hyn. Caiff yr adolygiad ei gynnal fel blaenoriaeth yn chwarter 1 2024/25. |
| Cronfeydd Elusennol | Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ofyn i'r adolygiad hwn gael ei ohirio tan fis Ebrill 2024 er mwyn eu galluogi i gau'r sefyllfa diwedd blwyddyn ac i fabwysiadu'r polisïau a'r gweithdrefnau diwygiedig a ddatblygwyd. Gwnaethom gefnogi'r oedi yma er mwyn i ni ymgymryd ag adolygiad o ddulliau rheoli sydd ar waith yn erbyn polisïau a gweithdrefnau diwygiedig. |
| Gwaith dilynol - Gwasanaethau Cleifion sydd wedi'u Contractio: Trefniadau Ansawdd a Diogelwch | Gwnaeth yr adolygiad o gamau gweithredu cytunedig ganfod dau gam gweithredu allweddol na ddisgwyliwyd eu cwblhau tan fis Mawrth 2024 ac felly, ni fyddent wedi cael eu cwblhau mewn pryd ar gyfer adolygiad dilynol. |

## 8.2 Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru

Mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru yn broses sy'n edrych p'un a ydym wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ein defnydd o adnoddau. Derbyniwyd yr adroddiad yn y Pwyllgor Archwilio ar 7 Mai 2024. (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/board-committees/audit-committee/agenda-bundle-ac-public-07-05-2024-v2-0/)

Gwnaeth Asesiad Strwythuredig 2023 ganolbwyntio ar ein trefniadau corfforaethol yn ymwneud â sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Daeth yr asesiad cyffredinol i'r casgliad '*yn dilyn heriau arwyddocaol yn 2023, mae'r Bwrdd Iechyd yn fwy sefydlog ac yn y broses o atgyfnerthu trefniadau sicrwydd corfforaethol allweddol, ond mae arno angen strategaeth glir i'w alluogi i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy ar lefel ariannol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd da er mwyn delio â'r galw am ofal iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae angen hefyd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod sicrwydd digonol ar effaith y camau gweithredu a gymerir i gyflawni ei gynlluniau, er mwyn lliniaru risg, gwella perfformiad gwasanaeth a mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad'.*

Prif ffocws y gwaith fu ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd o ran sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r prif negeseuon yn hyn o beth o Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru yn cynnwys:

**Tryloywder ac Effeithiolrwydd y Bwrdd** - canfu Archwilio Cymru fod y Bwrdd Iechyd yn dangos tryloywder cyhoeddus fwyfwy o ran busnes y bwrdd, ond mae cyfleoedd i wella a safoni'r trefniadau hyn ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor y bwrdd. Er bod gan y Bwrdd Iechyd reolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog ffurfiol a chyfredol i ategu busnes ei Fwrdd a'i bwyllgorau, mae ôl-groniad o bolisïau lle rydym ar ei hôl hi o ran eu hadolygu.

**Systemau Sicrwydd Corfforaethol** – Canfu Archwilio Cymru fod y Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei fframweithiau risg a pherfformiad a'i fod yn datblygu system rheoli ansawdd newydd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i ymgorffori'r trefniadau newydd hyn, er mwyn datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach, atgyfnerthu'r broses o reoli cwynion a digwyddiadau ac i atgyfnerthu prosesau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran diwygio ei BAF a'i drefniadau rheoli risg, ond mae angen amcanion strategol clir i alinio risgiau strategol atynt, a ffocws cryfach ar effaith camau gweithredu y mae'n eu cymryd i liniaru risgiau. Mae trefniadau'r Bwrdd ar gyfer clywed yn uniongyrchol gan gleifion yn gwella, ac mae'n ehangu cyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan staff trwy ymweld â gwasanaethau a chlywed straeon staff yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

**Ymagwedd Gorfforaethol tuag at Gynllunio** – Canfu Archwilio Cymru fod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda am ei risgiau a'i heriau strategol arwyddocaol, ond mae'n cael anhawster delio â galw am wasanaethau ac nid yw ei wasanaethau'n gynaliadwy ar lefel ariannol ar hyn o bryd. Mae ar y Bwrdd Iechyd angen ymagwedd gliriach ac yn y tymor hirach tuag at gynllunio sy'n ystyried ailffurfweddu gwasanaethau er mwyn ateb y galw am ofal iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae angen hefyd canolbwyntio ar adrodd, monitro a sicrwydd mewn perthynas â chyflwyno'r cynllun o ran llwyddiant cyflawni canlyniadau ac effeithiau bwriadedig.

**Ymagwedd Gorfforaethol Rheoli Adnoddau Ariannol –** Er ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd statudol i wario o fewn ei ddyraniad ar gyfer cyfnod 2020-23, canfu Archwilio Cymru fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu diffyg ariannol isorweddol sylweddol. Mae angen amlwg am strategaeth ariannol gadarn yn gysylltiedig â model gwasanaeth clinigol sy'n gynaliadwy ac o ansawdd da.

Mae ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at gynllunio ariannol yn sail i ymagwedd drafodaethol tuag at reoli ariannol ac er ei fod yn sicrhau rhai arbedion yn ystod y flwyddyn, nid yw hyn yn mynd i'r afael â diffyg isorweddol y Bwrdd Iechyd mewn modd arwyddocaol. Mae angen amlwg am strategaeth ariannol i danategu cynllunio yn y tymor canolig a'r tymor hir sy'n ystyried twf yn llawn o ran galw am ofal iechyd ac sy'n ategu modelau gwasanaeth clinigol cynaliadwy, gan hefyd leihau'r diffyg isorweddol.

**Adroddiadau Archwilio Cymru a roddwyd yn ystod 2023/24**

Cafodd yr adroddiadau canlynol gan Archwilio Cymru (ar wahân i Asesiadau Strwythuredig) eu cyhoeddi yn ystod 2023/24. Mae'r holl adroddiadau ar gael o'r dolenni i wefan Archwilio Cymru isod. Mae adroddiadau Archwilio Cymru eraill a luniwyd yn 2023/24 ac nad ydynt wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol yn ymwneud â Gofal Heb ei Drefnu - Adolygiad Llif o Ysbytai ac adroddiad Archwilio Cyfrifon 2022/23.

Gwaith Dilynol Effeithiolrwydd y Bwrdd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/adroddiad-dilynol-ar-effeithiolrwydd-bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr)

Gwaith Dilynol Adolygu Gwasanaethau Cleifion Allanol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
(www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adolygiad-dilynol-o-wasanaethau-dilynol-i)

Adroddiad Blynyddol 2023-24 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
(www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-archwilio-blynyddol-2022)

Adolygu Trefniadau Cynllunio'r Gweithlu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
(www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adolygiad-o-drefniadau-cynllunior-gweithlu)

Yn Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon, rhoddodd Archwilio Cymru farn amodol ar reoleidd-dra gan fod gwariant y Bwrdd Iechyd yn afreolaidd a'i fod wedi mynd yn groes i'w gyfarwyddiadau ariannol sefydlog trwy wneud taliadau i aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd. Nodwyd y gwendidau canlynol o ran trefniadau llywodraethu, yn benodol:

- achosion lle na roddwyd llythyrau penodi i uwch swyddogion cyn iddynt ddechrau yn eu rolau;
- contractau cyflogaeth heb eu llofnodi cyn i'r sawl a benodwyd ddechrau yn eu rolau gyda'r Bwrdd Iechyd;
- cyfraddau tâl anghywir mewn dogfennau a gyflwynwyd i gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl; a
- cofnodion annigonol o benderfyniadau a gymerwyd a chamau gweithredu a gytunwyd gan y Pwyllgor Tâl yn ei gofnodion ffurfiol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r diffygion o ran rheolaethau mewnol a arweiniodd at y taliadau afreolaidd ac mae'n cryfhau ei reolaethau a'i drefniadau llywodraethu yn unol â hynny.

## 9. CASGLIAD

Mae'n bwysig nodi yn fy nghasgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau 2023/24 ar ôl dod yn destun statws Mesurau Arbennig ar 23 Chwefror 2023 ac o ganlyniad, dechreuodd blwyddyn 2023/24 gyda Chadeirydd dros dro a benodwyd yn uniongyrchol a thri Aelod Annibynnol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd wedi cael eu penodi. Dechreuais yn fy rôl ar 3 Mai 2023 (ar sail dros dro yn y lle cyntaf, ac yn ddiweddarach o ganlyniad i broses recriwtio fel penodiad parhaol) ac mae mynd i'r afael â'r pryderon a arweiniodd at Fesurau Arbennig wedi bod yn ffocws i mi a holl aelodau'r Bwrdd Iechyd.

Fel Swyddog Atebol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn seiliedig ar y broses adolygu a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol o ran rheolaeth fewnol. Gallaf adrodd bod Aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheolaeth fewnol a bod angen i wella pellach gael ei wneud er mwyn ymgorffori ein fframwaith llywodraethu a sicrwydd a systemau rheoli'n llawn.

Bu wyth maes a oedd yn peri pryder dan ddaeth y Bwrdd Iechyd yn destun Mesurau Arbennig, gynnwys Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd. Cafodd Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Roedd y Cynllun Ymateb yn canolbwyntio ar bum canlyniad a mabwysiadodd ymagwedd sefydlogi cyflym ar dri chylch 90 diwrnod yn gweithredu o 1 Gorffennaf 2023 hyd at ddiwedd Chwefror 2024, gan roi cyfeiriad a ffocws o ran mynd i'r afael â'r heriau a wynebir. Y pum canlyniad oedd:

- Bod yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda
- Meddu ar gynllun clir a chyraeddadwy
- Meddu ar arweinyddiaeth ac ymgysylltu cadarn
- Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiad
- Bod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun

Bwriad y pum canlyniad oedd nid yn unig ymateb i'r prif faterion sy'n peri pryder, ond hefyd i ddechrau creu sefydliad mwy effeithiol sy'n gallu gosod y sylfeini ar gyfer newid hirhoedlog. Mae adroddiadau rheolaidd wedi cael eu cyflwyno i gael eu hystyried yn y Bwrdd a'u cyhoeddi er mwyn caniatáu ymagwedd agored a thryloyw tuag at ddangos cynnydd.

Mewn perthynas â llywodraethu, mae cynnydd wedi'i wneud ac mae wedi'i amlinellu yn yr adroddiad gan Archwilio Cymru. Mae penodi aelodau'r Bwrdd a datblygu a gweithredu holl Bwyllgorau'r Bwrdd wedi bod yn hollbwysig. Mae'r Archwilydd Mewnol yn nodi bod y Fframwaith Rheoli Risg a'r dogfennau ategol, yn amlinellu'r system rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd, yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau clir ac yn rhoi arweiniad i staff ar ofynion rheoli risg.

Er y gallaf adrodd ar y gwelliannau hyn yn ystod 2023/24, rwyf o'r farn bod adroddiadau ar y system rheoli mewnol a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn adlewyrchu'r heriau sylweddol yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu yn ystod 2023/24 ac y bydd angen iddo barhau i ganolbwyntio arnynt yn ystod 2024/25. Rwy'n amlinellu hyn isod.

Yn anffodus, ni allai'r Bwrdd Iechyd lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cytbwys ar gyfer 2023/24, ac roedd hyn yn gyfystyr â thordyletswydd statudol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu, ystadau a phwysau ariannol, gwasanaethau sy'n wynebu heriau, a materion perfformiad sylweddol sy'n cael effaith ar ein poblogaeth a'n gweithlu.

Mae Asesiad Strwythuredig y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn crynhoi, yn dilyn heriau sylweddol yn ystod 2022 a 2023, fod y Bwrdd Iechyd yn fwy sefydlog a'i fod wrthi'n atgyfnerthu trefniadau sicrwydd corfforaethol allweddol. Wrth symud ymlaen, mae angen strategaeth glir ar y Bwrdd Iechyd er mwyn ei alluogi i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy ar lefel ariannol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd da er mwyn delio â galw am ofal iechyd nawr ac yn y dyfodol. Mae angen hefyd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod sicrwydd digonol ar effaith camau gweithredu a gymerir i gyflawni ei gynlluniau, er mwyn lliniaru risg, gwella perfformiad gwasanaeth a mynd i'r afael ag argymhellion archwilio.

Yn adroddiad Asesiad Strwythuredig 2023, mae Archwilio Cymru yn nodi'r gwelliannau a wnaed o ran llywodraethu ac mae'n amlinellu'r angen i atgyfnerthu tryloywder ac effeithiolrwydd y bwrdd, systemau sicrwydd corfforaethol, dull cynllunio a dulliau rheoli adnoddau ariannol ymhellach. Caiff canfyddiadau'r Asesiad Strwythuredig eu llywio hefyd gan *Adolygiad Dilynol o Effeithiolrwydd y Bwrdd Archwilio Cymru ar gyfer 2023.* Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno'n llawn gyda phrif ganfyddiadau adroddiad Effeithiolrwydd y Bwrdd fod y Bwrdd yn fwy sefydlog, yn cynnwys arwain ac ymgysylltu cryfach, ac fel y cyfryw, bod gwelliant sylweddol wedi'i wneud yn ystod 2023/24, ond mae llawer iawn mwy i'w wneud er mwyn gwella dulliau llywodraethu'r Bwrdd

Iechyd. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod angen i welliannau sylweddol gael eu gwneud cyn bo modd i asesiad o sicrwydd rhesymol ar effeithiolrwydd y dulliau rheoli mewnol gael ei gynnal.

Mewn perthynas â rheoli adnoddau ariannol, canfu Archwilio Cymru, er ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd statudol i wario o fewn ei ddyraniad ar gyfer y cyfnod 2020-23, bod y Bwrdd Iechyd yn wynebu diffyg ariannol isorweddol sylweddol. Mae angen amlwg am strategaeth ariannol gadarn yn gysylltiedig â model gwasanaeth clinigol sy’n gynaliadwy ac o ansawdd da.

Mae angen amlwg am strategaeth ariannol i danategu cynllunio yn y tymor canolig a'r tymor hir sy'n ystyried twf yn y galw am ofal iechyd yn llawn ac sy'n ategu modelau gwasanaeth clinigol cynaliadwy, gan ddileu'r diffyg isorweddol hefyd. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i leihau ei ddiffyg i swm sy'n llai na'r hyn a glustnodwyd ac yn agos i gyfanswm rheoli Llywodraeth Cymru, mae angen cydnabod hefyd bod hyn wedi'i gyflawni trwy ddulliau rheoli llym a chanolog. Wrth i berfformiad a disgyblaeth ariannol ddatblygu, bydd hyn yn arwain at lefel gynyddol o annibyniaeth, yn cynnwys atebolrwydd clir.

Fel rwy'n ei amlinellu yn Adran 8 uchod, mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu a rheoli risg yn rhan o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn Pennaeth Archwilio Mewnol yn un sicrwydd cyfyngedig yn seiliedig ar eu gwaith trwy gydol 2023/24. O'r barnau a roddwyd yn ystod y flwyddyn ar yr adolygiadau hyn, rhoddwyd Sicrwydd Sylweddol i ddau ohonynt, rhoddwyd Sicrwydd Rhesymol i wyth ohonynt, rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig i 16 ohonynt a derbyniwyd barn sicrwydd Anfoddhaol i un ohonynt. Rhoddwyd pedwar adroddiad cynghorol neu ddi-farn hefyd.

Gwnaeth y Bwrdd ddatblygu a chymeradwyo Cynllun Cyflawni Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 2024/25 sy'n amlinellu amcanion a deilliannau allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf ac ar gyfer dwy flynedd arall wedi hynny (2024-2027). Bydd y cynllun hwn yn helpu i ychwanegu at y gwelliannau a wnaed yn ystod 2023/24 o dan y Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig a'u halinio o dan amcanion strategol clir.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn i fynd i’r afael â rhai o’r materion a ganfuwyd o ran llywodraethu’r bwrdd a’i bwyllgorau. Er ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, mae’r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o’r diffygion o ran dulliau rheoli mewnol a arweiniodd at y taliadau afreolaidd fel y manylir arnynt yn Adroddiad Archwilio Cyfrifon y Bwrdd Iechyd gan Archwilio Cymru. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cryfhau’r dulliau rheoli a’r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod modd mynd i’r afael â’r materion a ganfuwyd a bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu’n unol â’r trefniadau llywodraethu priodol.

Yn seiliedig ar yr uchod, rwyf felly wedi dod i'r casgliad, bod dulliau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd yn anaeddfed a bod angen parhau i wneud gwelliannau pellach er mwyn delio â'r galw a'r heriau yn ystod 2024/25 a thu hwnt. Byddaf yn parhau i lywio gwelliannau a sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y materion hyn a bod ein fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd yn ymateb i'r anghenion hyn yn ystod 2024/25 a thu hwnt er mwyn sicrhau, trwy fod yn sefydliad effeithiol, ein bod yn gallu gwella iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru ymhellach.

**Llofnod:**



**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 10 Gorffennaf 2024**

**Atodiad 1 - Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2023/24**

Yn ystod 2023, gwnaed nifer o benodiadau uniongyrchol i'r Bwrdd. Yn dilyn y broses benodi cyhoeddus, cafodd nifer o'r penodiadau hyn eu gwneud yn rhai parhaol.

Gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol benodiadau uniongyrchol i'r Bwrdd yn 2023, roedd y penodiadau hyn yn rhai am gyfnod penodol dros 12 mis. Yn dilyn y broses benodi cyhoeddus yn ystod 2023/24, cafodd yr aelodau canlynol eu penodi i'r Bwrdd: Dyfed Edwards, Rhian Watcyn-Jones, Clare Budden a Karen Balmer. Mae manylion i'w gweld isod;

| Enw | Swydd | Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd |
|---|---|---|
| Dyfed Edwards | Cadeirydd | • Cadeirydd y Bwrdd (dros dro tan 29.02.24, yn barhaol o 01.03.24)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| Carol Shillabeer | Prif Weithredwr | • Aelod o'r Bwrdd (Prif Weithredwr dros dro o 03.05.23 tan 31.01.24, Prif Weithredwr parhaol o 01.02.24)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Tâl (o 03.05.23)<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Pobl a Diwylliant |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (dros dro o 02.05.23 tan 29.02.24, yn barhaol o 01.03.24)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant (o 01.01.24) |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (dros dro tan 29.02.24, yn barhaol o 01.03.24)<br>• Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (tan 01.05.23)<br>• Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (tan 01.05.23)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (01.01.24)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol | • Aelod o'r Bwrdd (o 03.07.23)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Archwilio<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol |
| Gareth Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau |
| Urtha Felda | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (o 03.11.23)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio (o 15.03.24) |

| | | |
|---|---|---|
| Christopher Field | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (o 01.03.24)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol |
| Adele Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | • Aelod o'r Bwrdd (o 01.08.23 tan 21.03.24)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| Sue Green | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | • Aelod o'r Bwrdd (tan 30.04.23)<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |
| Gill Harris | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflenwi Clinigol Integredig | • Aelod o'r Bwrdd (Prif Weithredwr dros dro o 16.11.23 tan 27.03.23)<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Archwilio |
| Sue Hill | **Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Archwilio<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol |
| Y Cyng. Dyfed Jones, Awdurdod Lleol | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (o 22.05.23)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio |
| Yr Athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (o 10.04.23)<br>• Aelod o'r QSE (o 19.05.23)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl |
| Dr Nick Lyons | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr | • Aelod o'r Bwrdd (Prif Weithredwr dros dro tan 02.05.23)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Yn bresennol y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Molly Marcu | *Ysgrifennydd y Bwrdd am Gyfnod Penodol | • Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro (tan 27.04.23)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Archwilio<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth |
| Phil Meakin | *Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro | • Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro (O 18.04.23))<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Archwilio<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth |
| Jane Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | • Aelod o'r Bwrdd (o 19.04.24)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth |
| William Nichols | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (o 01.03.24)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol<br>• Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | • Aelod o'r Bwrdd (tan 18.01.24)<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfio â Chapasiti<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth |
| Mike Parry | *Aelod Cyswllt | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o 24.10.23)<br>• Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |
| Fôn Roberts | *Aelod Cyswllt | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o 29.07.22)<br>• |
| Lesley Singleton | Aelod Annibynnol o'r Bwrdd | • Aelod o'r Bwrdd (o 05.02.23 tan 30.05.23)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl |
| Dr Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Parneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| Dr Caroline Turner | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (o 03.11.23)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (o 01.01.24) |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol | • Aelod o'r Bwrdd (dros dro tan 29.02.24, yn barhaol o 01.03.24)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (o 12.05.23) |
| Steve Webster | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol | • Aelod o'r Bwrdd (tan 22.06.23)<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Archwilio<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol |
| Gareth Williams | Is-gadeirydd | • Aelod o'r Bwrdd (Aelod Annibynnol dros dro tan 02.11.23, yn barhaol o 03.11.23)<br>• Is-gadeirydd (o 03.11.23)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (o 12.05.23)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl<br>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio (o 15.05.23)<br>• Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (o 01.01.24) |
| Jane Wild | *Aelod Cyswllt | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth |

**Dalier sylw** **Nid yw swyddi sydd wedi'u marcio â * yn aelodau ffurfiol o'r Bwrdd at ddibenion pleidleisio**
**Mae swyddi sydd wedi'u marcio â ** yn ymwneud â S Hill (yn absennol o 31.03.23, mewn grym o 05.12.22)**

**Y Pwyllgor Archwilio**
Roedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

**Am y cyfnod yn ymestyn o 1 Ebrill 2023 hyd at 24 Gorffennaf 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Aelod | Gareth Williams | Aelod Annibynnol |

**<u>Yn Bresennol</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Arweiniol | Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Cyfarwyddwyr Arweiniol | Steve Webster | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol |

**Am y cyfnod o ymestyn o 24 Gorffennaf 2023 hyd at 12 Ionawr 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Aelod | Gareth Williams | Aelod Annibynnol |
| Aelod | Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |

**<u>Yn Bresennol</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr Arweiniol | Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Cyfarwyddwyr Arweiniol | Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol |

**Am y cyfnod yn ymestyn dros 12 Ionawr 2024 tan 31 Mawrth 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Aelod | Urtha Felda | Aelod Annibynnol |
| Aelod | Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |

**<u>Yn Bresennol</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr Arweiniol | Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Cyfarwyddwyr Arweiniol | Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol |

**Atodiad 2 - Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a phwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2023/24**

| Cyfarfod | Ebrill 2023 | Mai 2023 | Mehefin 2023 | Gorffennaf 2023 | Awst 2023 | Medi 2023 | Hydref 2023 | Tachwedd 2023 | Rhagfyr 2023 | Ionawr 2024 | Chwefror 2024 | Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Bwrdd Iechyd | | 25/05/23 | 22/06/23 | 31/07/23 | 24/08/23 | 27/09/23<br>28/09/23 | | 30/11/23 | | 25/01/24 | | 28/03/24 |
| Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad | | 19/05/23 | 20/06/23 | 25/07/23 | 22/08/23 | | 27/10/23 | | 19/12/23 | | 24/02/24 | |
| Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth | | 12/05/23 | 30/06/23 | | | 01/09/23 | | 2/11/23 | | | 22/02/24 | |
| Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth | 28/04/23 | | 13/06/23 | 17/07/23 | 24/08/23 | 28/09/23 | | 14/11/23 | | 23/01/24 | | 22/03/24 |
| Y Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfio â Galluedd | | | | | | | | | 14/12/23 | 11/01/24 | | |
| Y Pwyllgor Archwilio | | 15/05/23 | | | 24/08/23 | 15/09/23 | | 16/11/23 | | 12/01/24 | | 15/03/24 |
| Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | | | | 4/07/23 | | | 3/10/23 | | | 11/01/24<br>23/01/24 | | |
| Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a | | | | | | | | | | 10/01/24 | | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Phartneriaethau** | | | | | | | | | | | | |
| **Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | | | | | | | | | | **12/01/24** | | |

**Dalier sylw** **Y Pwyllgor Tâl**: Newidiwyd enw'r Pwyllgor o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth i'r Pwyllgor Tâl o 13/06/23. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat oherwydd cyfrinachedd y materion.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl:** Newidiwyd enw'r Pwyllgor o'r Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfio â Galluedd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl o 25/01/24. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter. Gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod yn breifat ar 14/12/23 oherwydd rhesymau cyfrinachedd.

**Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter.

**Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant:** Gwnaeth y Pwyllgor gynnal cyfarfod cychwynnol ar 12/01/24 a gwnaeth gyfarfod yn ffurfiol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben ar 11/04/24.

**Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau:** Gwnaeth y Pwyllgor gynnal cyfarfod cychwynnol ar 10/01/24 a gwnaeth gyfarfod yn ffurfiol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben ar 23/04/24.

**Atodiad 3 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2023/24**
Y = Yn bresennol N = Heb fod yn bresennol

| Enw | Swydd | 25/05/23 | 22/06/23 | 31/07/23 | 24/08/23 | 27/09/23 | 28/09/23 | 30/11/23 | 25/01/24 | 28/03/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfed Edwards** | Cadeirydd | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Carol Shillabeer** | Prif Weithredwr | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Karen Balmer** | Aelod Annibynnol | | Y | Y | Y | Y | Y | N | Y | Y |
| ***Jason Brannan** | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | | Y | Y | Y | Y | Y | N | N | Y |
| **Clare Budden** | Aelod Cyswllt / Aelod Annibynnol | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Russell Caldicott** | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol | | | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Gareth Evans** | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwasanaethau Iechyd | Y | Y | Y | N | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Urtha Felda** | Aelod Annibynnol | | | | | | | Y | Y | Y |
| **Christopher Field** | Aelod Annibynnol | | | | | | | | | Y |
| **Adele Gittoes** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau am Gyfnod Penodol | | | | Y | N | N | Y | Y | N |
| **Dyfed Jones** | Aelod Annibynnol | | | | Y | Y | Y | Y | Y | Y |

| Enw | Swydd | 25/05/23 | 22/06/23 | 31/07/23 | 24/08/23 | 27/09/23 | 28/09/23 | 30/11/23 | 25/01/24 | 28/03/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Athro Mike Larvin** | Aelod Annibynnol | Y | Y | Y | N | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Dr Nick Lyons** | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| ***Phil Meakin** | Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Dr Jane Moore** | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | | | | | | | | Y | Y |
| **William Nichols** | Aelod Annibynnol | | | | | | | | | Y |
| **Teresa Owen** | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | Y | Y | Y | Y | N | N | Y | | |
| **Mike Parry** | Aelod Cyswllt | | | | | | | Y | Y | Y |
| ***Dylan Roberts** | Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth | | | | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Fôn Roberts** | Aelod Cyswllt | Y | Y | N | N | N | Y | N | Y | Y |
| **Mrs Lesley Singleton** | Aelod Annibynnol | Y | | | | | | | | |
| ***Helen Stevens-Jones** | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu | | | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |

| Enw | Swydd | 25/05/23 | 22/06/23 | 31/07/23 | 24/08/23 | 27/09/23 | 28/09/23 | 30/11/23 | 25/01/24 | 28/03/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dr Chris Stockport** | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio | Y | Y | Y | N | Y | Y | Y | N | Y |
| **Dr Caroline Turner** | Aelod Annibynnol | | | | | | | Y | Y | Y |
| **Rhian Watcyn Jones** | Aelod Annibynnol | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Steve Webster** | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am Gyfnod Penodol | Y | | | | | | | | |
| **Gareth Williams** | Aelod Annibynnol / (Is-gadeirydd) | Y | Y | Y | N | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Jane Wild** | Aelod Cyswllt | Y | Y | N | Y | N | Y | Y | Y | Y |
| **Angela Wood** | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | Y | Y | Y | Y | Y | Y | N | Y | Y |

**Dalier sylw** Nid yw rolau sydd wedi'u marcio â * yn aelodau'r Bwrdd, maent yn mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd

**Atodiad 4 - Crynodeb o Fusnes a ystyriwyd gan y Bwrdd yn ystod 2023/24**

Dros y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd ystyried nifer o faterion allweddol a chymerodd gamau gweithredu lle bo'n briodol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

| |
|---|
| **Eitemau Sefydlog:**<br>Cofnodion o gyfarfodydd blaenorol<br>Straeon Cleifion<br>Adroddiad y Cadeirydd<br>Adroddiad yr Is-gadeirydd<br>Adroddiad y Prif Weithredwr Dros Dro / Prif Weithredwr<br>Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol<br>Adroddiadau Perfformiad:<br>• Mesurau Arbennig<br>• Adroddiadau Cyllid<br>• Perfformiad Integredig<br>• Ansawdd Integredig<br>• Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023 - 2024<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27<br>Ansawdd a Diogelwch Cleifion<br>Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2)<br>Adroddiadau Sicrwydd gan Bwyllgorau'r Bwrdd, Grwpiau Cynghorol, Partneriaethau a Chydbwyllgorau<br>Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol |
| **Gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r eitemau a ganlyn:**<br>Achos Busnes Gwasanaeth Cymunedol Cyflyrau Cymhleth<br>Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn ar gyfer 2023 - 2028<br>Cylch Gorchwyl a Chylchoedd Busnes Pwyllgorau<br>Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru<br>Adolygiad Blynyddol o'r Gofrestr Datgan Buddiannau a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br>Polisi Di-fwg<br>Cyfrifon Blynyddol wedi'u Harchwilio ar gyfer 2022/23<br>Adroddiad Archwilio gan Archwilio Cymru ar y Datganiad Ariannol 2022/23<br>Adroddiad Blynyddol 2022/23<br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23<br>Datblygu Hwb Llawfeddygol Orthopedig Dewisol yn Ysbyty Llandudno - Achos Busnes<br>Fframwaith Rheoli Risg<br>Diwylliant, Arwain ac Ymgysylltu<br>Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg Ebrill 2022/23<br>Adroddiad Partneriaethau<br>Adolygu Cynllun Dirpwyo Neilltuedig y Bwrdd Iechyd<br>Adolygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd<br>Ymateb i Adolygiad y Gwasanaeth Adfer a Throsglwyddo Meddygol Brys |

| |
|---|
| **Gwnaeth y Bwrdd nodi'r eitemau canlynol:**<br>Arolwg y Staff a Chamau Gweithredu<br>Lefelau Staff Nyrsio<br>Adroddiad ar y Cyd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, a Phartneriaeth Cydwasanaethau<br>Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 2022/23 - '*Gweithredu ar y cyd dros Ogledd Cymru iachach - mabwysiadu ymagwedd system gyfan'*<br>Cynllunio Gwydnwch y Gaeaf BIPBC ar gyfer 2023/24<br>Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2022/23<br>Adroddiad Profiad Dinasyddion<br>Adroddiad Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ac Ymatebion<br>Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2024 - 2028<br>Achos Busnes Ysbyty Brenhinol Alexandra<br>Sefydlu Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru fel Cydbwyllgor o Fyrddau Iechyd Lleol yn GIG Cymru |
| **Gwnaeth y Bwrdd ystyried yr eitemau canlynol:**<br>Adroddiad y Panel Ansawdd Gwasanaethau Fasgwlaidd (mae bellach yn rhan o'r Adroddiad Perfformiad Integredig)<br>Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn |